*This document is available in English.*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

Cynhelir cyfarfod o **AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU DDYDD LLUN 16 HYDREF 2023**, yn rhithiol **drwy Zoom, gan ddechrau am 09:30**.

*Sylwer: cynhelir sesiwn hyfforddi ynghylch cwynion cyn y cyfarfod hwn, gan ddechrau am 09:00.*

Yr eiddoch yn gywir,
Gareth Owens
Clerc

---

## AGENDA

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Datganiadau o Fuddiant**

**3. Hysbysiad o Faterion Brys**
Hysbysiad o'r eitemau y dylid, yn ôl y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**4. Cofnodion cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub a'r CCB a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2023**

**5. Materion yn Codi**

**6. Canlyniadau'r Ymgynghoriad ar yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys**

**7. Adroddiad y Cadeirydd**

**8. Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-23**

**9. Adroddiad a Thystysgrif Archwilio Datganiadau Ariannol 2022-23**

**10. Asesiad o Berfformiad Blynyddol 2022-23**

**11. Diweddariad Ariannol 2023-24**

**12. Pennu Cyllideb 2024-25**

**13. Adroddiad Diweddaru Rheoli Trysorlys**

## 14. Diweddariad ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân

## 15. Prynu Tir ar gyfer Canolfan Hyfforddi Newydd

## 16. Cyflwyniad Archwilio Cymru ar Leihau Rhybuddion gan Larymau Tân Awtomatig

## 17. Materion Brys

Ystyried unrhyw eitemau y penderfynodd y Cadeirydd eu bod yn eitemau brys (yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972) ac y datganwyd eu pwysigrwydd o dan eitem 2 uchod.

## RHAN II

Yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, argymhellir bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem(au) busnes canlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio yn cael ei datgelu iddynt fel sydd wedi'i diffinio ym Mharagraff(au) 12 i 18 yn Rhan 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## 18. Dim

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion **Cyfarfod Blynyddol** Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 17 Gorffennaf 2023 trwy Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am 9.30am.

**PRESENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Dylan Rees (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Paul Cunningham (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir y Fflint (cyrhaeddodd 9:35) |
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Marion Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| Carol Beard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Tina Claydon | Cyngor Sir y Fflint |
| Adele Davies-Cooke | Cyngor Sir y Fflint |
| Jeff Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Alan Hughes | Cyngor Sir Ddinbych |
| Chris Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| John Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |
| John Ifan Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Marc Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gwynfor Owen | Cyngor Gwynedd |
| Arwyn Herald Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Austin Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Gareth A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Rondo Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (gadawodd am 11:10) |
| Gareth Sandilands | Cyngor Sir Ddinbych |
| Nigel Smith | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Rob Triggs | Cyngor Gwynedd |
| Michelle Walker | Cyngor Sir Ddinbych |
| Mark Young | Cyngor Sir Ddinbych |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Dawn Docx | Prif Swyddog Tân (PST) |
| Stewart Forshaw | Y Dirprwy Brif Swyddog Tân (DBST) |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) |
| Stuart Millington | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) |
| Anthony Jones | Rheolwr Ardal |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Gareth Owens | Clerc a Swyddog Monitro |
| Lisa Allington | Cynorthwy-ydd Gweithredol |
| Helen Howard | Pennaeth Cyllid a Chaffael |
| Tracey Williams | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| Dafydd Evans | BBC |

| | |
|---|---|
| Osian Jones | BBC |

## 1 YMDDIHEURIADAU

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Beverley Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

**ABSENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Chrissy Gee | Cyngor Sir y Fflint |
| Paul Rogers | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Dale Selvester | Cyngor Sir y Fflint |

Cynigiwyd a derbyniwyd yr ymddiheuriadau uchod. Nodwyd bod Cyng. Chrissy Gee, Cyng. Paul Rogers a'r Cyng. Dale Selvester i gyd yn absennol heb ymddiheuriad.

## 2 PENODI CADEIRYDD 2023/24

2.1 Gofynnodd y Clerc am enwebiadau ar gyfer swydd Cadeirydd yr Awdurdod ar gyfer blwyddyn ddinesig 2023/24.

2.2 Cynigodd y Cyng. Nigel Smith y Cyng. Dylan Rees ac eiliwyd gan y Cyng. John Brynmor Hughes.

2.3 Gan nad oedd unrhyw wrth-enwebiadau felly **PENDERFYNWYD bod y Cyng. Dylan Rees yn cael ei ethol yn Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am y flwyddyn ddinesig 2023/24.**

## 3 DATGANIADAU BUDDIANT

Nid oedd datganiadau o fuddiant i'w cofnodi.

## 4 PENODI DIRPRWY GADEIRYDD 2023/24

4.1 Aeth y Cadeirydd ymlaen i ofyn am enwebiadau ar gyfer swydd Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod ar gyfer blwyddyn ddinesig 2023/24.

4.2 Cynigiodd y Cyng. Tina Claydon y Cyng. Paul Cunningham ac eiliwyd gan y Cyng. Gareth Sandilands.

4.3 Gan nad oedd unrhyw wrth-enwebiadau **PENDERFYNWYD ethol y Cyng. Paul Cunningham i wasanaethu fel Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer blwyddyn ddinesig 2023/24.**

## 5 PENODI CADEIRYDD A DIRPRWY GADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO 2023/24

5.1 Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer swydd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfer blwyddyn ddinesig 2023/24.

5.2 Cynigiodd y Cyng. Gwynfor Owen ailethol y Cyng. Nigel Smith fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac eiliwyd hyn gan y Cyng. Austin Roberts.

5.3 Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer swydd Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfer blwyddyn ddinesig 2023/24..

5.4 Cynigiodd y Cyng. Nigel Smith ailethol y Cyng. Mark Young fel Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac eiliwyd hyn gan y Cyng. Chris Hughes.

5.5 Nid oedd unrhyw wrth-enwebiadau.

5.6 **PENDERFYNWYD:**

**i) Ethol y Cyng. Nigel Smith i wasanaethu fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfer blwyddyn ddinesig 2023/24; ac**

**ii) Ethol y Cyng. Mark Young i wasanaethu fel Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfer blwyddyn ddinesig 2023/24.**

## 6 HYSBYSIAD O FATERION BRYS

6.1 Cadarnhawyd nad oedd unrhyw eitemau wedi'u cyflwyno i'r Clerc i'w hystyried.

## 7 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD 20 MEHEFIN 2023

7.1 Cyflwynwyd cofnodion Cyfarfod Blynyddol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2022 i'w cymeradwyo.

7.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.**

## 8 MATERION YN CODI

8.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion a gyflwynwyd.

## 9 AELODAETH YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB

9.1 Rhoddodd Gareth Owens, Clerc yr Awdurdod ddiweddariad llafar ar aelodaeth yr Awdurdod.

9.2 Nodwyd bod nifer o newidiadau wedi bod i aelodaeth yr Awdurdod dros y 12 mis diwethaf. Penodwyd Michelle Blakeley Walker i gynrychioli Cyngor Sir Ddinbych i gymryd lle'r Cynghorydd Brian Blakeley yn dilyn ei farwolaeth drist. Roedd y Cyng. Dyfed Jones yn cynrychioli Cyngor Sir Ynys Môn wedi cymryd lle'r Cyng. Ken Taylor yn dilyn ei ymddiswyddiad, ac ers hynny roedd yntau wedi ymddiswyddo a'r Cyng. John Ifan Jones wedi cymryd ei le. Nodwyd bod y Cyng. Neil Coverley o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy hefyd wedi ymddiswyddo, ond nid oes olynydd wedi'i apwyntio eto.

9.3 **PENDERFYNWYD**

**i) Nodi cynnwys y diweddariad**

## 10 PENODIADAU I BWYLLGORAU A CHYRFF ALLANOL

10.1 Cyflwynodd Gareth Owens, Clerc yr Awdurdod, y papur Penodiadau i Bwyllgorau a Chyrff Allanol a oedd yn gofyn i'r Aelodau nodi aelodaeth yr Awdurdod a'i bwyllgorau, sydd wedi newid ers y llynedd. Gofynnwyd hefyd i'r aelodau nodi'r penodiadau allanol megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA.

10.2 Nodwyd nad oedd pob Awdurdod Lleol wedi enwebu dau gynrychiolydd i eistedd ar y Panel Gweithredol hyd yn hyn.

10.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) Cymeradwyo aelodaeth a phenodiad i bwyllgorau a phenodiadau allanol.**

## 11 DYDDIADAU CYFARFODYDD 2023/25

11.1 Cyflwynodd Gareth Owens, Clerc yr Awdurdod, y papur Dyddiadau Cyfarfodydd 2023/25 gyda'r nod o hysbysu'r Aelodau am ddyddiadau cyfarfodydd llawn yr Awdurdod Tân ac Achub, y Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2023-25.

11.2 Nodwyd bod ychydig o newid wedi bod i amseriad y dyddiadau cyfarfodydd er mwyn cyd-fynd â therfynau amser eraill yn ymwneud â'r gyllideb, a rheolaeth strategol o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth).

11.3 **PENDERFYNWYD**

**i) cytuno ar ddyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub, y Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio; a**

**ii) chytuno i'r cyfansoddiad gael ei ddiwygio i adlewyrchu'r ffaith bod angen cynnal y Cyfarfod Blynyddol ym mis Gorffennaf, nid mis Mehefin fel y nodir ar hyn o bryd.**

## 12 CYNLLUN TÂL AELODAU

12.1 Cyflwynodd Gareth Owens, Clerc yr Awdurdod, bapur Cynllun Tâl yr Aelodau gyda'r nod o roi gwybod i'r Aelodau am y cyfraddau presennol o gydnabyddiaeth ariannol i Aelodau, ac roedd yn cynnwys cais i gymeradwyo'n ffurfiol y rhestr o daliadau a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23.

12.2 Nodwyd bod adroddiad blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRP) yn nodi newidiadau i gydnabyddiaeth ariannol yr Aelodau, ac roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y newidiadau hynny a fyddai'n effeithio ar Aelodau awdurdodau tân ac achub.

12.3 **PENDERFYNWYD**

**i) nodi penderfyniadau IPRW mewn perthynas â lwfansau a thâl yr Aelodau sy'n dod i rym o 1 Ebrill 2023;**

**ii) rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Clerc ddiweddaru atodlen tâl Aelodau yng nghyfansoddiad yr Awdurdod a gwneud unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i atodlen 2023/24 o bryd i'w gilydd yn ystod y flwyddyn ddinesig, er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn aelodaeth yr Awdurdod, neu o ganlyniad i unrhyw adroddiadau atodol a gyhoeddwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol; a**

**iii) chymeradwyo'r atodlen o daliadau a wnaed yn ystod 2022/23 fel sy'n ofynnol gan IPRW**

## 13 MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys i'w hystyried.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall, daeth y cyfarfod i ben.

Daeth y cyfarfod i ben: 09:45

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** a gynhaliwyd **ddydd Llun 17 Gorffennaf 2023** ym Mhencadlys Tân ac Achub Llanelwy ac yn rhithiol dros Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am **09.45 o'r gloch**.

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Dylan Rees (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Paul Cunningham (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir y Fflint (cyrraedd am 9:35) |
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Marion Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| Carol Beard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Tina Claydon | Cyngor Sir y Fflint |
| Adele Davies-Cooke | Cyngor Sir y Fflint |
| Jeff Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Alan Hughes | Cyngor Sir Ddinbych |
| Chris Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| John Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |
| John Ifan Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Marc Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gwynfor Owen | Cyngor Gwynedd |
| Arwyn Herald Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Austin Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Gareth A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Rondo Roberts | Cyngor Sir Wrecsam (gadawodd am 11:10) |
| Gareth Sandilands | Cyngor Sir Ddinbych |
| Nigel Smith | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Rob Triggs | Cyngor Gwynedd |
| Michelle Walker | Cyngor Sir Ddinbych |
| Mark Young | Cyngor Sir Ddinbych |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Dawn Docx | Prif Swyddog Tân (PST) |
| Stewart Forshaw | Y Dirprwy Brif Swyddog Tân (DBST) |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) |
| Stuart Millington | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) |
| Anthony Jones | Rheolwr Ardal |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Gareth Owens | Clerc a Swyddog Monitro |
| Lisa Allington | Cynorthwy-ydd Gweithredol |
| Helen Howard | Pennaeth Cyllid a Chaffael |
| Tracey Williams | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| Dafydd Evans | BBC |
| Osian Jones | BBC |

1 **YMDDIHEURIADAU**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Beverley Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

**ABSENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Chrissy Gee | Cyngor Sir y Fflint |
| Paul Rogers | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Dale Selvester | Cyngor Sir y Fflint |

Cynigiwyd a derbyniwyd yr ymddiheuriadau uchod. Nodwyd bod y Cyng. Chrissy Gee, y Cyng. Paul Rogers a'r Cyng. Dale Selvester yn absennol heb ymddiheuriad.

**2 DATGANIADAU BUDDIANT**

2.1 Datganodd y Cyng. Paul Cunningham, Jeff Evans a Rob Triggs diddordeb yn Eitem 13, Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol 2022/23, gan eu bod yn derbyn pensiynau y mae'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn cynghori arnynt.

**3 HYSBYSIAD O FATERION BRYS**

3.1 Nid oedd hysbysiad o faterion brys.

**4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD 17 EBRILL 2023**

4.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ebrill 2023 i'w cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD:**
**i) cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd.**

**5 MATERION YN CODI**

5.1 Diweddarodd DBST Docx y cyfarfod ynghylch pharagraff 7.7, mewn perthynas â dyfarniadau cyflog diffoddwyr tân a gweithredu diwydiannol posibl. Cadarnhawyd y bu trafodaeth, yn y Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol yn ddiweddar, am y gyllideb a bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau na fyddai unrhyw arian ychwanegol yn cael ei roi i Wasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru tuag at y dyfarniad cyflog diweddar.

5.2 Nodwyd, mewn perthynas â pharagraff 8.2 ynghylch alldro dros dro 2022/23, y byddai'r cyfrifon terfynol yn awr yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ym mis Hydref.

5.3 Gofynnwyd i'r aelodau nodi, ym mharagraff 9.4 o'r cofnodion, yr adolygiad blynyddol o gynllun corfforaethol yr awdurdod 2021-24, y cynghorwyd y byddai adroddiad ar Larymau Tân Awtomatig (AFA) yn cael ei gyflwyno'n ffurfiol i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn y cyfarfod hwn. Fodd bynnag, bydd y cyflwyniad hwn yn digwydd yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Hydref.

5.4 Mewn perthynas â pharagraff 11.3, datganiad polisi tâl 2023-24, bydd papur yn mynd gerbron y Pwyllgor Archwilio ym mis Medi.

## 6 ADOLYGIAD O'R DDARPARIAETH FRYS

6.1 Cyflwynodd DBST Forshaw papur yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys (ECR) oedd â'r nod o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar gynnydd yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys ers yr adroddiad cynnydd diwethaf, a gyflwynwyd i'r Awdurdod ar 17 Ebrill 2023.

6.2 Roedd y papur hefyd yn ceisio cadarnhau'r broses a'r amserlenni gyda'r Aelodau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yr Awdurdod ar ddyfodol gwasanaeth brys ar gyfer cymunedau Gogledd Cymru.

6.3 Yn ogystal, gofynnwyd am gadarnhad gan yr Awdurdod ar yr opsiynau i'w cynnwys yn yr ymgynghoriad cyhoeddus.

6.5 Nododd un Aelod ei fod wedi'i synnu gan y datganiad nad oedd gan Opsiwn 3 gefnogaeth y Prif Swyddog Tân, gan ei fod yn meddwl bod pob un o'r opsiynau wedi'u cefnogi gan Swyddogion.

6.6 Eglurodd y Prif Swyddog Tân mai'r rhesymau dros ei hamheuon ynghylch Opsiwn 3 oedd nad yw'r opsiwn hwn yn bodloni amcanion yr ECR, sef sicrhau bod cymunedau Gogledd Cymru yn cael gwasanaeth y gallent fod â hyder ynddo. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod adnoddau yn y lle iawn i allu darparu ymateb amserol gyda'r sgiliau cywir. Gan fod Opsiwn 3 wedi'i seilio'n bennaf ar ystyriaethau ariannol, ac nad yw'n gwella Yswiriant Brys yn ystod y dydd, dyma'r rheswm na allai'r PST roi ei chymorth proffesiynol iddi.

6.7 Cadarnhaodd y Cadeirydd ymhellach y byddai Swyddogion yn cefnogi pa bynnag opsiwn y byddai'r Aelodau'n penderfynu ei gymryd i ymgynghoriad.

6.8 Penderfynwyd symud i drafodaeth Rhan II ar yr eitem hon ac fel y cyfryw, gofynnwyd i'r holl arsylwyr oedd yn bresennol adael.

**RHAN II**

6.9 Eglurwyd pwynt o drefn bod y drafodaeth hon yn ymwneud â pha opsiynau yr hoffai'r Aelodau eu datblygu ar gyfer ymgynghoriad ar hyn o bryd. Pwysleisiwyd ar yr Aelodau fod hyn yn benderfyniad pwysig iawn ac felly roedd yn hanfodol i bawb gael cyfle i wneud sylwadau neu ofyn cwestiynau.

6.10 Cydnabuwyd bod hwn yn fater anodd i'r Aelodau.

6.11 Atgoffwyd yr Aelodau eu bod yn cynrychioli'r Awdurdod ac felly bod ganddynt gyfrifoldeb i sicrhau lefel ddigonol o wasanaeth tra ar yr un pryd, peidio â rhoi gormod o faich ar drethdalwyr lleol. Awgrymwyd y byddai mynd â'r tri opsiwn ymlaen i ymgynghoriad yn dangos bod yr Awdurdod o ddifrif ynghylch gwrando ar farn y cyhoedd.

6.12 Cafwyd trafodaeth fanwl a manwl ar y tri opsiwn a amlinellwyd, a'u manteision a'u hanfanteision.

6.14 Cadarnhawyd y byddai'r ymgynghoriad yn cael ei lansio ddydd Gwener 21 Gorffennaf 2023 gyda holiadur ar-lein. Byddai hwn hefyd ar gael ar ffurf papur, gydag adnoddau ychwanegol megis taflenni, posteri a fformatau hawdd eu darllen ar gael ar y wefan ac i'w dosbarthu. Roedd hefyd sioeau teithiol galw heibio wedi'u cynllunio ar draws pob Awdurdod.

6.13 Cytunodd yr Aelodau mai'r cyhoedd ddylai benderfynu pa opsiynau oedd orau iddyn nhw. Cynigiwyd felly y dylai'r tri opsiwn fynd ymlaen i ymgynghoriad. Eiliwyd y cynnig hwn gyda mwyafrif o blaid.

6.14 **PENDERFYNWYD:**
**i) dechrau ymgynghoriad cyhoeddus ar opsiynau 1, 2 a 3**

Cytunwyd i symud i egwyl gysur am 11:06

Ailddechreuwyd cyfarfod Rhan I am 11:15

**7 ADRODDIAD Y CADEIRYDD**

7.1 Nodwyd bod papur ysgrifenedig wedi'i gyflenwi ar gyfer y cyfarfod hwn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychwyd gan Gadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) fel rhan o'u gwaith swyddogol rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mehefin 2023.

7.2 Anogodd y Cadeirydd yr Aelodau i fynychu dathliadau'r Phoenix os oeddent yn gallu, gan eu bod yn ddigwyddiadau ysbrydoledig iawn.

7.3 **PENDERFYNWYD:**
(i) **nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

**8 TREFNIADAU ARCHWILIO MEWNOL O EBRILL 2023**

8.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur y papur Trefniadau Archwilio Mewnol o Ebrill 2023, gyda'r bwriad o amlinellu i'r Aelodau gadarnhad o benodiad Mersey Internal Audit Agency fel archwilydd mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) am y cyfnod 1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2026.

8.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi penodiad Mersey Internal Audit Agency fel darparwyr archwilio mewnol yr Awdurdod ar gyfer y cyfnod ariannol 1 Ebrill 2023-31 Mawrth 2026.**

**9 GWEITHGARWCH RHEOLI'R TRYSORLYS A GWIR DDANGOSYDDION DARBODUS AR GYFER 2022/2023**

8.1 Cyflwynodd Dafydd Edwards, Trysorydd, y papur ar Weithgaredd Rheoli'r Trysorlys a'r Gwir Ddangosyddion Darbodus ar gyfer 2022/2023, a oedd â'r nod o hysbysu'r Aelodau o weithgarwch rheoli'r trysorlys a dangosyddion darbodus ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23. Mae'r adroddiad hwn yn un o ofynion y Cod Darbodus (y Cod).

9.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi gweithgaredd rheoli'r trysorlys; a**

**ii) chymeradwyo'r dangosyddion darbodus terfynol ar gyfer 2022/23.**

**10 ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2022/23**

10.1 Cyflwynodd PSTC Helen MacArthur papur yr Adroddiad Blynyddol Archwiliad Mewnol 2022/23, a hysbysodd yr Aelodau, o dan delerau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 Rhan 3 5. (2), ei bod yn ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) gynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei system Rheoli Mewnol. Mae Archwilio Mewnol yn rhan annatod o'r system honno, ac mae'n gwneud cyfraniad sylweddol i'r gwaith o lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

10.2 Hysbyswyd yr Aelodau ymhellach fod Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus CIPFA 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol roi sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio ar y system rheoli mewnol gyfan, gan gynnwys digonolrwydd trefniadau rheoli risg a llywodraethu corfforaethol.

10.3 Ymhellach, mae'r adroddiad yn dadansoddi gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2022/23 ac yn cynnwys y datganiad sicrwydd yn seiliedig ar waith Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2023.

10.4 Trosglwyddwyd diolch i'r archwilwyr blaenorol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, a PSTC MacArthur am eu gwaith rhagorol hyd yn hyn.

10.5 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio a Chaffael a'r 'farn' gyffredinol ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith yr Awdurdod ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth.**

## 11 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2022/23

11.1 Cyflwynodd y Rheolwr Ardal Anthony Jones papur Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23 a oedd yn cyflwyno'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2022/23 i'r Aelodau.

11.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi'r trefniadau llywodraethu a amlinellir yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2022/23;**

**ii) nodi'r flaenraglen waith ar gyfer 2023/24; a**

**iii) chymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2022/23.**

## 12. ALLDRO DROS DRO 2022/23

12.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur yr Alldro Dros Dro 2022/23, a oedd yn cyflwyno'r sefyllfa gwariant refeniw a chyfalaf heb ei archwilio ar gyfer 2022/23, i gyflwyno sefyllfa'r fantolen heb ei harchwilio ar 31 Mawrth 2023 ac i gadarnhau'r amserlen ar gyfer cynhyrchu'r datganiad cyfrifon blynyddol.

12.2 Tynnwyd sylw'r aelodau at y tabl ar ddiwedd paragraff 13 o'r papur a oedd yn amlygu gwariant ar draws meysydd allweddol o fewn y Gwasanaeth.

12.3 Gofynnwyd hefyd i'r aelodau nodi'r cyllid grant y manylwyd arno ym mharagraff 24 a'r rhwymedigaethau pensiwn ym mharagraff 47 o'r papur.

12.4 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi'r sefyllfa alldro refeniw a chyfalaf ddrafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23, gan gynnwys y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, fel y manylir yn yr adroddiad**

**ii) nodi'r sefyllfa o ran mantolen 2022/23 heb ei harchwilio; a**

**iii) nodi'r terfynau amser ar gyfer cynhyrchu'r datganiad cyfrifon blynyddol ac archwiliad allanol ohono.**

## 13. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD PENSIWN LLEOL

13.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol i'r Aelodau. Roedd yr adroddiad hwn yn cyflwyno i Aelodau'r Awdurdod adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol (LPB) sy'n manylu ar waith y bwrdd yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23. Mae'r adroddiad blynyddol yn atodiad 1.

13.2 Gofynnwyd am gymeradwyaeth yr Aelodau i gynyddu aelodaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol. Nodwyd y newidiadau arfaethedig hyn yn y Cylch Gorchwyl sydd yn atodiad 2.

13.3 Nododd y Trysorydd fod presenoldeb ar y Bwrdd Pensiwn Lleol yn broblem, ac y byddai cynyddu'r aelodaeth yn gymorth i ddatrys hyn.

13.4 **PENDERFYNWYD:**

- **i) cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol 2022/23**
- **ii) nodi cynnwys eitem bellach ar y flaenraglen waith, i gynnwys diweddariad ar agweddau ariannol y gronfa bensiwn gan gynnwys y prisiad parhaus;**
- **iii) cymeradwyo'r cynnydd yn aelodaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol o wyth i ddeg aelod; a**
- **iv) gofyn am enwebiadau trwy e-bost ar gyfer cynrychiolaeth cyflogwr pellach gan Aelodau'r Awdurdod.**

## 14 STRATEGAETH AMGYLCHEDDOL 2023-2030

14.1 Cyflwynodd PSTC Millington papur Strategaeth Amgylcheddol 2023-2030, a oedd yn cyflwyno Strategaeth Amgylcheddol arfaethedig i'w hystyried gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod). Mae Aelodau'r Awdurdod o bob un o'r awdurdodau lleol cyfansoddol wedi cael eu cynnull mewn gweithgor i ddatblygu'r Strategaeth Amgylcheddol a'r targedau penodol a nodir ynddi.

14.2 Cadarnhawyd bod nifer o feysydd gweithredu wedi'u hamlygu o fewn is-ddogfennau'r strategaeth hon, ac y byddai'r rhain yn cael eu cyflwyno'n raddol yn dilyn lansio'r Strategaeth Amgylcheddol ei hun.

14.3 Gofynnodd yr Aelodau i'w diolch gael ei gyfleu i'r Swyddogion, ac i Tim Christensen, Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd, am ei fewnbwn proffesiynol wrth lunio'r Strategaeth Amgylcheddol 2023-2030 hon.

14.4 Gofynnwyd a oedd achosion busnes ar gyfer y gwaith gwella yn cael eu hystyried yn y tymor hir er mwyn dangos y byddai costau'n cael eu gwrthbwyso dros nifer o flynyddoedd, ac ymatebodd bod grantiau ar gael ar hyn o bryd ac yn cael eu defnyddio.

14.5 **PENDERFYNWYD:**
**i) cymeradwyo'r Strategaeth Amgylcheddol arfaethedig ar gyfer y cyfnod 2023-2030.**

## 15 MONITRO PERFFORMIAD: EBRILL 2022 – MAWRTH 2023

15.1 Cyflwynodd DBST Forshaw bapur Monitro Perfformiad Ebrill 2022 – Mawrth 2023 sy'n anelu at ddarparu gwybodaeth am weithgarwch digwyddiadau yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23; perfformiad mewn perthynas ag amcanion gwella a llesiant Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod); a gweithgareddau digwyddiadau nodedig eraill.

15.2 Cytunodd yr Aelodau bod y ffaith nad oedd unrhyw farwolaethau o danau damweiniol mewn cartrefi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn bwynt i'w ddathlu.

15.3 Cadarnhaodd PSTC Millington bod trefniadau da ar waith ar gyfer gweithio gyda phartneriaid lleol mewn perthynas ag atal tanau yn yr awyr agored ac ymateb iddynt. Ymatebwyd ymhellach fod rhannu arfer da a rhannu adnoddau yn digwydd ar draws Cymru i sicrhau'r ymateb gorau posib o ran Tanau Gwyllt.

15.4 Gofynnodd un Aelod a oedd unrhyw ddichonoldeb mewn symud peiriannau tân islaw'r lefelau criwio gofynnol, a chael aelodau criw ychwanegol yn cyrraedd yn hwyr, er mwyn gwella amseroedd ymateb. Cadarnhaodd PSTC Millington bod dulliau newydd ac arloesol o wella argaeledd yn cael eu hystyried ar hyn o bryd, a bod hwn yn un o'r meysydd oedd yn cael ei ystyried.

15.5 Gofynnodd yr aelodau am i'w llongyfarchiadau gael eu trosglwyddo i holl weithwyr Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru am eu gwaith caled a'u hymroddiad i sicrhau diogelwch cymunedau Gogledd Cymru.

15.6 **PENDERFYNWYD:**
**(i) nodi cynnwys yr adroddiad hwn.**

## 17 MATERION BRYS

17.1 Nid oedd materion brys i'w hystyried..

Nodwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf 16 Hydref 2023.

**Daeth y cyfarfod i ben: 11:58**

*Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg* **Eitem Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **16 Hydref 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Adroddiad Cryno o'r Ymgynghoriad Darpariaeth Frys 21 Gorffennaf i 30 Medi 2023** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1. Cynnig diweddariad i'r Aelodau am y themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg o'r rhaglen ymgynghori sy'n cynnwys y cyhoedd, staff a sefydliadau partner ar Adolygiad Darpariaeth Frys Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd rhwng 21ain Gorffennaf 2023 a 30ain Medi 2023.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2. Nod yr adroddiad hwn yw rhoi gwybodaeth i'r Awdurdod am y themâu allweddol a nodwyd fel rhan o'r ymgynghoriad ar ddyfodol darpariaeth frys yng ngogledd Cymru, i gynorthwyo'r Aelodau i wneud penderfyniadau cyn pennu'r gyllideb ar gyfer 2024/25.

3. Ar 21 Gorffennaf 2023, lansiodd yr Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (Yr Awdurdod) ymgynghoriad cyhoeddus i gasglu adborth gan y rhai sy'n byw, gweithio a theithio yn y rhanbarth ynghylch darparu gwasanaethau darpariaeth frys yng nogledd Cymru yn y dyfodol, yn dilyn cytundeb yng nghyfarfod llawn yr Awdurdod Tân ar 17 Gorffennaf 2023.

4. Roedd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar agor rhwng 21 Gorffennaf 2023 a 30 Medi 2023, ar ôl cael ei ymestyn o'i ddyddiad cau gwreiddiol, sef 22 Medi 2023. Roedd yr estyniad yn caniatáu cyfleoedd ymgysylltu ychwanegol gyda phobl ifanc, grwpiau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac i sefydliadau eraill ymateb yn dilyn gwyliau'r haf.

5. Ar ddiwedd yr ymgynghoriad ar 30 Medi 2023, derbyniwyd 1500 o ymatebion drwy'r holiadur ar-lein. Derbyniwyd 226 o holiaduron papur hefyd. Cynhaliwyd 17 o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned ar draws y rhanbarth yn ogystal â 17 o gyfarfodydd gyda grwpiau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ogystal ag ymgysylltu â chynghorwyr gogledd Cymru, Prif Weithredwyr, Aelodau Senedd Cymru ac Aelodau Senedd y DU. Darparwyd rhaglen gynhwysfawr o ymweliadau ymgysylltu â staff gorsafoedd tân ac adrannau hefyd ar draws Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth).

6. Mae'r ymgynghoriad yn dangos gwrthodiad clir o opsiynau 2 (63% yn anghytuno) a 3 (93% yn anghytuno). Mae barn gyhoeddus glir mai opsiwn 1 sy'n cael ei ffafrio (68% yn cytuno). Er bod yna gefnogaeth dros opsiwn un, roedd yr ymatebion yn tynnu sylw at fesurau eraill efallai dylai'r Awdurdod eu hystyried gan gynnwys cyfleoedd am dwf.

7. Ar y 5 Hydref 2023 bu i'r Gweithgor yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys gyfarfod a chafwyd eu hatgoffa o amcanion yr ymgynghoriad, y meini prawf gwerthuso (ym mharagraff 17 o'r papur hwn) a chanfyddiadau'r ymgynghoriad.

8. Ar sail amcan yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, y meini prawf gwerthuso, canfyddiadau'r ymgynghoriad, yn y cyfarfod hwn, mae'r gweithgor yn awgrymu bod swyddogion yn parhau i weithio ar amrywiadau o opsiwn 1 gan gynnwys asesiad effaith ar gydraddoldeb wedi ei diweddaru. Hefyd, gofynnodd y Gweithgor am waith pellach mewn perthynas â'r materion a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad a fydd hyn yn cael ei gefnogi drwy waith Gweithgor Craffu'r Gyllideb.

9. Mae'r Gweithgor yn awgrymu'n bellach bod Swyddogion yn rhoi'r gorau i weithio ar opsiynau 2 a 3 o'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys ar sail y barn a dderbyniwyd gan y cyhoedd sydd wedi'i amlinellu o fewn yr adroddiad yr ymgynghoriad.

**ARGYMHELLIAD**

10. Gofynnir i'r Aelodau:

   i) Nodi'r ystod gynhwysfawr o weithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedol a ddarparwyd fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus;

   ii) Nodi dadansoddiad o'r adborth i'r ymgynghoriad yn yr adroddiad gan yr ymgynghorydd annibynnol Sarah Barnett Research (Atodiad 1);

   iii) Nodi sylwadau ac awgrymiadau ychwanegol a dderbyniwyd ar gyfer gwneud gwelliannau i ddarpariaeth frys deg ledled gogledd Cymru.

   iv) Nodi bod Gweithgor yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yn awgrymu bod swyddogion yn parhau i weithio ar amrywiadau o opsiwn 1 a hefyd y pwyntiau a godwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad; a

   v) Gytuno ar yr argymhellion gan y Gweithgor bod yr Awdurdod yn rhoi'r gorau i weithio ar opsiynau 2 a 3 ar sail yr ymwrthod clir gan y cyhoedd sydd i'w weld yn yr adroddiad yr ymgynghoriad.

**CEFNDIR**

11. Yn dilyn comisiynu Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys (ECR) gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ym mis Medi 2021, cynhaliwyd gwaith helaeth i bennu'r sefyllfa bresennol a chwmpas y cynigion ar gyfer gwella. Cyflwynwyd y canfyddiadau i'r Gweithgor Darpariaeth Frys dan arweiniad Aelodau. Cyfarfu'r gweithgor 5 gwaith rhwng mis Mawrth 2023 a mis Mehefin 2023. Bu'r grŵp yn canolbwyntio ar yr opsiynau o ran model darparu gwasanaethau ar gyfer y dyfodol i fynd i'r afael â'r heriau presennol a gallu ymateb i risgiau gweithredol yn y dyfodol.

12. Mae'r daith ddatblygu i benderfynu pa opsiynau i'w cyflwyno ar gyfer ymgynghori wedi'i cyflwyno yma Cyflwyniad PowerPoint (llyw.cymru))

## 13. Rhaglen Ymgynghori

Yn dilyn ymarfer mapio rhanddeiliaid manwl, roedd y rhaglen ymgynghori yn canolbwyntio ar ystod o weithgareddau ymgysylltu wedi'u teilwra i randdeiliaid. Roeddent yn cynnwys:

i) Y cyhoedd

- Datblygwyd cyfres o ddeunyddiau gwybodaeth ddwyieithog i gyfleu'r opsiynau ymgynghori gan gynnwys dogfen fanwl, dogfen gryno a fersiynau hawdd eu darllen. Ategwyd y rhain gyda phosteri a thaflenni. Roedd y rhain ar gael mewn digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd, ar wefan y Gwasanaeth, a dosbarthwyd taflenni sy'n cyfeirio pobl at y wefan gan staff yn y gymuned yn ystod Archwiliadau Diogel ac Iach.
- Datblygwyd holiadur ar-lein i fesur barn, ac roedd copïau dwyieithog yn ogystal â phapur hawdd eu deall o'r holiadur ar gael hefyd.
- Mabwysiadwyd cyfeiriad e-bost a rhif ffôn pwrpasol i helpu pobl i gyfleu eu barn a gofyn am unrhyw gymorth neu ofyn am gopïau caled o'r deunydd gwybodaeth neu'r holiadur y gellid eu dychwelyd trwy gyfeiriad post am ddim.
- Cynhaliwyd cyfanswm o 17 digwyddiad ymgysylltu cymunedol ar draws rhanbarth gogledd Cymru, gan gynnwys dau ohonynt ar-lein, pob un wedi'u cynnal gan banel yn cynnwys cadeirydd annibynnol i hwyluso ymgysylltu, Prif Swyddog, Rheolwr Ardal a lle bo hynny'n bosibl, Aelod o'r Awdurdod. Mewn ymateb i adborth cynnar, diweddarwyd lleoliadau ac amseroedd y digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned i gynnwys cynnal cyfarfodydd yn yr ardaloedd a enwir ar gyfer cau gorsafoedd o bosibl fel rhan o Opsiwn 3.
- Yn ogystal, anfonwyd gwybodaeth at ystod eang o randdeiliaid ar gronfa ddata ymgyngoreion y Gwasanaeth drwy e-bost; codwyd posteri i hysbysebu'r digwyddiadau ymgysylltu a'r cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad; gosodwyd hysbysebion yn y cyfryngau print lleol a'u gwefannau digidol cysylltiedig; a defnyddiwyd amrywiaeth o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol drwy gydol y cyfnod ymgynghori i godi ymwybyddiaeth.
- Roedd mynychu digwyddiadau blynyddol lleol yn helpu i godi ymwybyddiaeth bellach o'r ymgynghoriad ac roedd y rhain yn cynnwys Eisteddfod Genedlaethol Boduan, Gwynedd; Sioe Môn ar faes Sioe Môn; Sioe Dinbych a Fflint yn Ninbych; Sioe Sir Feirionnydd, Harlech; a Sioe Cerrigydrudion.

ii) Ymgynghori â Staff

- Cynhaliwyd ymgynghoriad ag aelodau o staff yn ystod rhaglen o ymweliadau gan uwch reolwyr a Phrif Swyddogion i orsafoedd tân; mewn seminarau a gynhaliwyd ar gyfer rheolwyr canol a rheolwyr goruchwylio; trwy sesiynau briffio gwylfa gorsafoedd gan swyddogion cymorth gorsafoedd a rheolwyr canol.
- Roedd sianeli cyfathrebu mewnol hefyd yn helpu i godi ymwybyddiaeth reolaidd o'r ymgynghoriad ymhlith staff – gan gynnwys Diweddariad y Prif Swyddog Tân yn y Crynodeb Wythnosol a gwybodaeth ar y fewnrwyd.
- Cynhaliwyd ymgysylltiad â chyrff Cynrychiolwyr Staff drwy'r Fforwm Ymgynghorol ar y Cyd.
- Cafodd cwestiynau cyffredin eu casglu o ymweliadau â gorsafoedd a'u datblygu a'u diweddaru drwyddi draw, ac roeddent ar gael trwy fewnrwyd y Gwasanaeth.

iii) Gwneuthurwyr Penderfyniadau

- Darparwyd cyfleoedd ymgysylltu gyda Chynghorwyr Gogledd Cymru, Aelodau Senedd Cymru ac Aelodau Senedd y DU.
- Cyfarfu'r Prif Swyddog Tân â'r holl wleidyddion a Phrif Weithredwyr Awdurdodau Lleol oedd ar gael fel rhan o'r gwaith cyn-ymgynghori a hefyd ar gais yn ystod yr ymgynghoriad.
- Mae cyfarfodydd pellach gyda'r Prif Weithredwyr a'r Pwyllgorau Cyllid a Chraffu hefyd wedi digwydd drwy gydol y cyfnod ymgynghori.

iv) Cyfryngau lleol a'r cyfryngau cymdeithasol

- Gwahoddwyd aelodau'r cyfryngau i gyfarfod yr Awdurdod a oedd yn cyhoeddi'r ymgynghoriad, a threfnwyd cyfweliadau gyda newyddiadurwyr print a darlledu drwy gydol y cyfnod ymgynghori.
- Cyflawnwyd ymgyrch cyfryngau cymdeithasol dwys trwy gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Gwasanaeth, gan gynnwys negeseuon cyfryngau cymdeithasol y talwyd amdanynt ac wedi'u targedu trwy Facebook yn ôl yr angen.

v) Grwpiau Amrywiol

- Cynhaliwyd gweithgareddau ymgynghori i roi cyfle i amrywiaeth o grwpiau amrywiol ar draws y gymuned gymryd rhan, gyda rhagor o fanylion am hyn yn adroddiad yr adborth ymgynghori.
- Datblygwyd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd i gefnogi'r ymgynghoriad. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu wrth i'r cynigion gael eu gweithredu.

vi) Arfer Gorau

- Er mwyn sicrhau arfer gorau, bu'r Gwasanaeth yn gweithio gyda'r Sefydliad Ymgynghori drwy gydol y broses, a oedd yn darparu cyngor a sicrwydd ansawdd mewn perthynas â cherrig milltir allweddol.
- Roedd elfennau ychwanegol a deunyddiau ymgynghori a gyflwynwyd i sicrhau arfer gorau yn cynnwys datblygu mandad ymgynghori, cynhyrchu asesiadau effaith ar gydraddoldeb ac adran cwestiynau cyffredin wedi'i diweddaru'n rheolaidd ar y wefan.
- Drwy gydol y 10 wythnos, addaswyd yr ymgynghoriad mewn ymateb i adborth a mabwysiadwyd dull rhagweithiol o ymdrin ag ymholiadau a cheisiadau am gymorth. Er enghraifft, cynyddwyd digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned i gynnwys pum digwyddiad a gynhaliwyd yn yr ardaloedd a nodwyd ar gyfer cau gorsafoedd o bosibl, gyda'r digwyddiad yng Nghonwy yn cael ei aildrefnu i fod yn gyfarfod gyda'r nos; ehangwyd digwyddiadau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysedd; ac estynnwyd dyddiad cau'r ymgynghoriad.

vii) Cyrff Cynrychioladol

- Mae'r Gwasanaeth wedi ymgysylltu â chyrff cynrychioliadol drwy gydol y cyfnod cyn ymgynghori a'r cyfnod ymgynghori llawn a derbyniwyd 2 opsiwn amgen ar gyfer darpariaeth frys ar gyfer y dyfodol gan Undeb y Brigadau Tân (FBU). Bydd y rhain yn cael eu hadolygu yn erbyn y meini prawf a ddefnyddir i ddatblygu'r opsiynau ymgynghori.

viii) Ymatebion

- Ar ddiwedd yr ymgynghoriad, derbyniwyd 1500 o ymatebion ar-lein drwy'r holiadur ar-lein, yn ogystal â 226 o holiaduron papur a gwblhawyd, llawer mwy nag unrhyw ymateb o unrhyw broses ymgynghori blaenorol gan y Gwasanaeth. Yn gyfan gwbl, ymatebodd 1248 aelod o'r cyhoedd a 191 aelod o staff, roedd 288 o ymatebion heb eu datgan.
- Ymatebodd 33 o randdeiliaid neu sefydliadau partner.
- Mae'r adroddiad gan Sarah Barnett Research yn Atodiad 1 yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd gan yr holl randdeiliaid a'r prif ganfyddiadau a themâu allweddol.

ix) Cyfarfodydd Grŵp Darpariaeth Frys

- Er mwyn cadw at y broses o bennu'r gyllideb, bydd angen cynnal cyfarfodydd pellach o'r Grŵp Darpariaeth Frys cyn adrodd i'r Awdurdod Llawn ar 18 Rhagfyr 2023 lle gellir gwneud penderfyniad ar unrhyw newidiadau i drefniadau darpariaeth frys ar ôl Ebrill 2024.

- Ar y 5 Hydref 2023 bu i'r Gweithgor yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys cyfarfod a chafwyd cyflwyniad yn eu hatgoffa o amcanion yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, y meini prawf gwerthuso (ym mharagraff 17 o'r papur hwn) a chanfyddiadau'r ymgynghoriad.
- Cafodd aelodau Panel Gweithredol yr Awdurdod ddiweddariad canol cyfnod yn eu cyfarfod ar 18 Medi 2023.

14. Ym mis Ebrill 2023, ymgysylltodd y tCI, sef sefydliad dielw sydd wedi hen ennill ei blwyf, sy'n hybu ymgynghori o ansawdd uchel gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Maen nhw wedi cael eu defnyddio gan lawer o Wasanaethau Tân ac Achub yn y DU gan gynnwys y Canolbarth a Gorllewin Cymru.

15. Mae'r Sefydliad yn darparu cyngor, arweiniad ac adolygiad cymheiriaid cymwys i baratoi sefydliadau ar gyfer parodrwydd ymgynghori a mabwysiadu arferion gorau yn unol â Siarter Ymgynghori. Pan fydd yn fodlon bod arferion gorau ar waith, bydd tCI yn cyhoeddi tystysgrif parodrwydd i ymgynghori cyn i ymgynghoriad llawn gael ei gynnal i ddangos bod yr ymgynghoriad yn cael ei ddarparu yn unol â'r safon ofynnol. Ar 19 Gorffennaf 2023, dyfarnodd tCI ei 'Dystysgrif Parodrwydd i Ymgynghori' i'r Gwasanaeth.

16. Mae'r gweithgareddau arferion gorau cyn ymgynghori yn cynnwys gwrando ar farn pobl drwy grwpiau ffocws a gweithdai. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer cael dadansoddiad o bwy allai gael eu heffeithio ac i ba raddau, i sicrhau bod y dulliau cywir o gyfathrebu ac ymgysylltu â'r holl randdeiliaid yn cael eu hystyried cyn ymgynghori'n llawn.

17. Penderfynodd Gweithgor yr Awdurdod pa opsiynau oedd yn hyfyw o ran bodloni meini prawf ar gyfer ymateb brys teg, cynaliadwy a chyfartal i bawb yng ngogledd Cymru a defnyddiodd feini prawf gwerthuso yn seiliedig ar:
    - Darpariaeth frys – sut mae ein peiriannau tân yn ymateb i alwadau brys.
    - Gwasanaethau amddiffyn ac atal – sut rydyn ni'n cadw eich cartrefi a'ch busnesau'n ddiogel.
    - Fforddiadwyedd – cadw ein gwasanaethau mor fforddiadwy â phosib, gan ddarparu'r gwerth gorau am arian.
    - Gweithlu – effaith newidiadau ar ein timau.
    - Gwasanaeth teg a chyfartal – bod ein hadnoddau yn y lle iawn, ar yr amser iawn, gyda'r sgiliau iawn.
    - Gwerth cymdeithasol – cydnabod effaith unrhyw newidiadau ar ein cymunedau.

18. Roedd hyn yn golygu na chafodd yr Opsiwn 1 gwreiddiol (sef gwneud dim ac aros yr un peth) ac Opsiwn 2 (a oedd yn cynnwys cynyddu adnoddau) eu datblygu fel opsiynau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gan nad oeddent yn bodloni meini prawf yr adolygiad ar gyfer ymateb brys teg, cynaliadwy a chyfartal.

19. Er mwyn llunio'r opsiynau a fyddai'n cael eu cyflwyno ar gyfer ymgynghoriad llawn, ystyriodd y Gweithgor hefyd yr adborth gan y grwpiau ffocws rhanddeiliaid cyn ymgynghori ynghyd â'r 166 o sylwadau a gasglwyd o'r 21 ymateb gan staff drwy'r e-bost adolygu darpariaeth frys bwrpasol.

20. Arhosodd y posibilrwydd o gau gorsafoedd tân o fewn y set o opsiynau wrth i'r Awdurdod pleidleisio'n unfrydol o blaid ceisio adborth y cyhoedd ar sut y gallai gostyngiadau mewn gwasanaethau arwain at ffordd o leihau costau i ddeiliaid tai.

21. Cyflwynwyd y 3 Opsiwn terfynol i Gyfarfod Awdurdod ar 17 Gorffennaf 2023 lle cofnodwyd pleidlais unfrydol o blaid symud y 3 dewis ymlaen i ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 21 Gorffennaf a 22 Medi 2023.

22. Yn ei gyfarfod ar 17 Gorffennaf 2023, cymeradwyodd yr Awdurdod y byddai'n dechrau ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 21 Gorffennaf a 22 Medi 2023 ar yr opsiynau diwygiedig isod:

- **Opsiwn 1** Byddai hyn yn golygu y byddai'r 12 swydd diffoddwr tân gwledig a'r 28 swydd diffoddwr tân amser llawn yn cael eu hailddyrannu o orsaf Y Rhyl a Glannau Dyfrdwy i'r 3 gorsaf newydd â staff dydd. Byddai'r ddarpariaeth ar gyfer y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn newid i fodel criw dydd, yn debyg i'r model sydd ar waith ar hyn o bryd ym Mae Colwyn, Llandudno, Bangor, Caernarfon a Chaergybi. Bydd hyn yn parhau i fod yn ychwanegol at ddiffoddwyr tân presennol y System Dyletswydd Ar alwad sy'n criwio'r ail injan dân ym mhob un o'r gorsafoedd hyn.

- **Opsiwn 2** Model amgen sy'n darparu gwell gwasanaeth argyfwng drwy gyflwyno 3 gorsaf newydd â staff dydd newydd, ond sydd hefyd yn gwireddu arbedion o £1.1 miliwn tuag at y cynnydd yng nghyllideb 2024/25, sydd tua £6 miliwn ar hyn o bryd gan gyfyngu felly ar y cynnydd o flwyddyn i flwyddyn i £4.9 miliwn. Mae'r opsiwn hwn yn newid y model criwio yn y Rhyl a Glannau Dyfrdwy i fodel staff dydd, sy'n golygu mai diffoddwyr tân y System Dyletswydd Ar alwad yn unig sy'n rhoi'r ddarpariaeth gyda'r nos ac mae'n golygu bod y trydydd peiriant yn cael ei dynnu o Wrecsam. Mae hyn i gyd yn golygu gostyngiad o 22 swydd diffoddwyr tân amser llawn.

- **Opsiwn 3** Mae'r newidiadau'r un fath ag opsiwn 2, ond, dim ond dwy orsaf staff dydd sy'n cael eu cyflwyno ac mae cau 5 gorsaf dân RDS yn rhan o'r newidiadau hynny hefyd. Mae hyn yn ostyngiad o 36 o swyddi diffoddwyr tân amser llawn a 38 o swyddi diffoddwyr tân y System Dyletswydd Ar alwad, sy'n golygu arbedion o £2.4m gan gyfyngu ar y cynnydd mewn costau o flwyddyn i flwyddyn i £3.6m.

23. Yn ystod wythnos 8 yr ymgynghoriad 9 wythnos, mewn ymateb i adborth, penderfynwyd ymestyn y cyfnod ymgynghori hyd at 30 Medi i ganiatáu mwy o amser ar gyfer ymatebion.

24. Gellir dod o hyd i ddatblygiad yr opsiynau i'w cyflwyno yma Cyflwyniad PowerPoint (llyw.cymru)

25. Er mwyn sicrhau bod yr holl dystiolaeth o'r ymateb i'r ymgynghoriad yn cael ei dadansoddi a'i hadrodd yn gywir, mae'r Gwasanaeth wedi penodi ymgynghorydd ymchwil annibynnol, Sarah Barnett Research. Rhoddodd yr ymgynghorydd ddiweddariadau wythnosol, crynodeb canol cyfnod ac adroddiad dadansoddi cryno'r ymgynghori llawn a gynhwysir yn Atodiad 1.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Rhaid i'r ymgynghoriad fodloni rhwymedigaethau'r Awdurdod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| Cyllideb | Mae goblygiadau'r gyllideb ymgynghori wedi cael cyhoeddusrwydd yng nghwestiynau cyffredin yr ymgynghoriad ac wedi cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cyllideb, Monitro a Chaffael. |
| Cyfreithiol | Mae ein deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ymgynghori â'r cyhoedd ar newidiadau i'n darpariaeth frys. Mae ymgynghoriad yr ECR a'r arferion gorau y mae'r Gwasanaethau yn eu dilyn fel yr argymhellwyd gan y Sefydliad Ymgynghori yn cefnogi'r Awdurdod i fodloni'r gofynion hyn. |
| Staffio | Mae'r Gwasanaeth wedi cynnal ymgynghoriad uniongyrchol helaeth gyda staff a'u cyrff cynrychiadol yn ystod y cam cyn-ymgynghori ac mae hyn yn parhau yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus llawn. Fodd bynnag, wrth benderfynu ar yr opsiynau yr ymgynghorir â nhw amdanynt, bydd y newidiadau arfaethedig o fewn yr opsiynau yn effeithio ar staff. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Mae Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gwasanaeth wedi creu amserlen o ddigwyddiadau ymgysylltu â grwpiau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant drwy gydol yr ymgynghoriad. Mae'r arfer gorau y mae'r Gwasanaeth yn ei ddilyn a sicrwydd ansawdd yr ymgynghoriad gan y Sefydliad Ymgynghori yn sicrhau ffocws ar ofynion yr Awdurdod yn y maes hwn. |
| Risgiau | Mae'r ECR a'i ymgynghoriad yn lleihau'r risgiau o beidio â gallu gosod cyllideb gytbwys ac ymateb i argyfyngau yn effeithiol ac yn effeithlon yng nghymunedau gogledd Cymru. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 7**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad** | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| **Dyddiad** | **16 Hydref 2023** |
| **Swyddog Arweiniol** | **Amherthnasol** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Gwasanaethau Aelodau (gwasanaeth.aelodau@tangogleddcymru.llyw.cymru)** |
| **Pwnc** | **Adroddiad y Cadeirydd – Gorffennaf i Fedi 2023** |

**DIBEN YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau y mae Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) wedi eu mynychu yn rhinwedd eu swyddi rhwng Gorffennaf 2023 a Medi 2023.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r Cadeirydd a/neu'r Dirprwy Gadeirydd wedi mynychu nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau, yn fewnol ac yn allanol ar ran yr Awdurdod. Mae hyn wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y chwarter hwn oherwydd yr ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys.

**ARGYMHELLIAD**

3 Gofynnir i'r aelodau:

i) nodi'r wybodaeth a roddir yn yr adroddiad.

**SYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried o'r blaen.

**GWYBODAETH**

5 Yn ogystal â'r cyfarfodydd sy'n ymwneud â'r Awdurdod, mae'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd wedi cyfarfod â'r Prif Swyddog Tân yn rheolaidd.

6 Ar 3 Gorffennaf 2023, cynhaliodd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân gyfarfod rhithiol gyda'r Cynghorydd Llinos Medi, Arweinydd Cyngor Môn, yn rhan o'r rhag-ymgynghoriad er mwyn rhoi gwybodaeth iddi am yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys.

7 Ar 4 Gorffennaf 2023, cyfarfu’r Cadeirydd a’r Dirprwy Gadeirydd â’r Dirprwy Brif Swyddog Tân a swyddogion i adolygu’r gofrestr Risg Gorfforaethol.

8 Ar 5 Gorffennaf 2023, bu’r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân mewn cyfarfod hybrid o'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Weinidog. Roedd yr agenda yn cynnwys Diogelwch Adeiladau a diweddariad ar y camau y mae'r Awdurdodau Tân ac Achub wedi'u cymryd i liniaru effaith halogyddion tân.

9 Ar 27 Gorffennaf 2023, cynhaliodd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân gyfarfod rhithiol gyda'r Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Arweinydd Cyngor Gwynedd, i roi gwybodaeth iddo am yr Adolygiad o’r Ddarpariaeth Frys.

10 Ar 3 Awst 2023, cyfarfu'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd â Chadeirydd ac Ysgrifennydd Undeb y Brigadau Tân yng Ngorsaf Dân y Rhyl i drafod yr Adolygiad o’r Ddarpariaeth Frys.

11 Ar 9 Awst 2023, cyfarfu'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd â Chlerc yr Awdurdod i ddyfarnu ar gŵyn Cam 3.

12 Ar 16 Awst 2023, bu’r Cadeirydd a’r Dirprwy Brif Swyddog Tân mewn digwyddiadau ymgysylltu a gynhaliwyd yn Wrecsam yn rhan o’r ymgynghoriad cyhoeddus i’r Adolygiad o’r Ddarpariaeth Frys.

13 Ar 18 Awst 2023, cyfarfu’r Cadeirydd a’r Dirprwy Gadeirydd â chynrychiolwyr Gogledd Cymru Cymdeithas Genedlaethol y Diffoddwyr Tân sydd wedi Ymddeol (NARF) i drafod yr Adolygiad o’r Ddarpariaeth Frys. Dilynwyd hyn gan gyfarfod o Weithgor y Ganolfan Hyfforddi.

14 Ar 29 Awst 2023, bu’r Dirprwy Gadeirydd a'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Helen MacArthur mewn digwyddiad ymgysylltu a gynhaliwyd yng Nglannau Dyfrdwy yn rhan o'r ymgynghoriad i'r Adolygiad o’r Ddarpariaeth Frys.

15 Ar 7 Medi 2023, bu’r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân mewn digwyddiad ymgysylltu a gynhaliwyd yn Llanberis yn rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus i'r Adolygiad o’r Ddarpariaeth Frys.

16 Ar 13 Medi 2023, cyfarfu’r Cadeirydd a’r Prif Swyddog Tân â chynrychiolwyr Undeb y Brigadau Tân i drafod agenda’r Panel Gweithredol sydd ar ddod.

17 Ar 14 Medi 2023, cyfarfu'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân â'r Dirprwy Weinidog yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn Llandudno, ynghyd â Chadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân eraill Gwasanaethau Tân Cymru. Gyda'r nos bu'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân yn bresennol yn y digwyddiad ymgysylltu a gynhaliwyd ym Miwmares yn rhan o'r ymgynghoriad i'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys.

18 Ar 19 Medi 2023, bu'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd yn Seremoni Wobrwyo'r Staff yn Venue Cymru.

19 Ar 22 Medi 2023, bu'r Dirprwy Gadeirydd yn y 'Seremoni Cyflawni' yng Ngorsaf Dân y Waun a chyflwynodd dystysgrifau i'r bobl ifanc a oedd wedi cwblhau cwrs Phoenix.

20 Ar 22 Medi 2023, ymunodd y Cadeirydd o bell â chyfarfod o'r Comisiwn Tân.

21 Ar 29 Medi 2023, aeth y Cadeirydd i'r 'Seremoni Cyflawni' yng Ngorsaf Dân Llanfairfechan a chyflwynodd dystysgrifau i'r bobl ifanc a oedd wedi cwblhau cwrs Phoenix.

22 Yn ogystal, bu'r Cadeirydd yn cymryd rhan mewn nifer o gyfweliadau â'r cyfryngau, gydag ITV, BBC a Golwg, am yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Lles | Ddim yn berthnasol. |
| Cyllideb | Mae unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd a digwyddiadau y mae aelodau yn eu mynychu yn cael eu had-dalu o'r gyllideb teithio a chynhaliaeth. |
| Cyfreithiol | Nid oes unrhyw oblygiadau penodol yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Staffio | Nid oes unrhyw oblygiadau penodol yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Nid oes unrhyw oblygiadau penodol yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Risgiau | Nid oes unrhyw risgiau penodol yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 8**

| | |
|---|---|
- Roedd yr archwiliad wedi nodi nifer o newidiadau, a chytunwyd ar y rhain gyda'r rheolwyr. Roedd y newidiadau'n cynnwys nifer o addasiadau technegol sydd eu hangen i gydymffurfio'n llwyr â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol.

18 Nododd yr archwiliad un mater sy'n dal heb ei gywiro, a oedd yn ymwneud â'r priswyr allanol yn defnyddio ffactor lleoliad anghywir yn rhai o'r prisiadau ar gyfer yr asedau. Arweiniodd hyn at or-ddatgan asedau Tir ac Adeiladu o £0.153m a gor-ddatgan y gronfa ailbrisio hefyd gan yr un swm.

19 Roedd Adroddiad yr Archwiliad hefyd yn cynnwys y llythyr cynrychiolaeth terfynol. Mae'r llythyr hwn yn darparu cynrychiolaeth gan y Cadeirydd a'r Trysorydd i gydnabod eu cyfrifoldebau ac i gadarnhau'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod y cyfrifon yn darparu darlun gwir a theg.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant tymor hir GTAGC. Mae arian i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru *y Gwasanaeth) yn fuddiol i gymunedau Gogledd Cymru ac mae'n sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn digwydd yn y seilwaith er mwyn galluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| **Cyllideb** | Caiff y gyllideb ei gosod bob blwyddyn yn unol â'r ddarpariaeth gwasanaethau arfaethedig, sy'n cynnwys ymateb brys a gwaith ataliol. |
| **Cyfreithiol** | Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Awdurdod lunio'r Datganiad o Gyfrifon a Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn unol â'r safonau a ragnodwyd. |
| **Staffio** | Dim |
| **Cydraddoldeb / Hawliau Dynol / y Gymraeg** | Dim |
| **Risgiau** | Caiff incwm a gwariant eu monitro'n ofalus i sicrhau bod unrhyw achosion o wyro o'r gyllideb yn cael eu canfod a'u hadrodd yn briodol i'r Aelodau. |

# Dataganiad o Gyfrifon

2022-2023

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service



ATAL AMDDIFFYN YMATEB
PREVENTING PROTECTING RESPONDING

| **DATGANIAD O GYFRIFON** | **TUDALEN** |
|---|---|
| Adroddiad Naratif | 2-10 |
| Datganiad o Gyfrifoldebau | 11 |
| Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol | 12-15 |
| Dadansoddiad o Wariant a Chyllid | 16 |
| Datganiadau Ariannol Craidd | 17-21 |
| Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol Craidd | 22-57 |
| Cyfrif Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân | 58-59 |
| Polisïau Cyfrifyddu | 60-74 |

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw cynnal a chadw gwefan yr Awdurdod a sicrhau ei bod yn gywir; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac felly nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan yn wreiddiol.

## ADRODDIAD NARATIF


Diben yr adroddiad naratif hwn ydi rhoi gwybodaeth glir i bartïon â diddordeb ynghylch sefyllfa ariannol a pherfformiad ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23.

## TROSOLWG O'R SEFYDLIAD

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATAGC) yn cynnwys 28 Aelod Etholedig sydd wedi eu henwebu gan bob un o'r chwe awdurdod lleol ac maent yn darparu cyfeiriad a llywodraethu'r gweithgarwch dydd i ddydd a ddarperir gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) yn gwasanaethu cymunedau oddi mewn i ardaloedd Gwynedd ac Ynys Môn, Conwy a Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint.

Mae ATAGC yn gyfrifol am ddarparu, hyfforddi a chyflenwi Gwasanaeth Tân ac Achub gyda'r gallu i ymgymryd â'r swyddogaethau canlynol:





Mae'r Gwasanaeth yn delio gyda phob math o argyfyngau, digwyddiadan tân, gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd, llifogydd a gollyngiadau cemegol. Caiff gwaith helaeth ei gyflawni gydag ysgolion, busnesau a chymunedau lleol i hyrwyddo diogelwch tân ac atal a helpu i gadw pobl ac eiddo yn ddiogel.

Caiff yr Awdurdod ei ariannu trwy gyfraniadau gan y chwe awdurdod cyfansoddol, mewn cyfrannedd â phoblogaeth.

Ceir manylion am ein hardal gwasanaeth, dull ariannu a gweithgarwch yn y tudalennau canlynol

# Ynglŷn â'n Hardal Gwasanaeth



## Adnoddau

**44** gorsaf dân

**54** injan dan rheng flaen

**39** peiriant arbennig gan gynnwys cychod achub a pheiriannau cyrraedd yn uchel

**901** o staff gyda **37%** ohonynt yn

## Gweithgareddau Atal ac Amddiffyn

Cwblhawyd **18,052** o Archwiliadau Diogel ac Iach

Cynhaliwyd **575** o archwiliadau busnes

**169** o sgyrsiau diogelwch gyda **18,001** o blant a phobl ifanc

**18** o gyrsiau ffenics gyda **151** o gyfranogwyr yn

## Gweithgareddau ymateb

Deliwyd â **13,224** o alwadau brys

Wedi mynychu **5896** o ddigwyddiadau brys

Mynychwyd **2011** o danau gyda **55** ohonynt yn danau gwyllt

**2517** fo alwadau diangen

## AMCANION GWELLA A LLESIANT YR AWDURDOD

Mae'n rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru gyhoeddi amcanion gwella yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ac amcanion llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. At ddibenion prosesau cynllunio'r Awdurdod cânt eu trin fel un.

Mae'r amcanion tymor hir hyn yn newidiadau y mae'r Awdurdod am eu cyflwyno yng Ngogledd Cymru er mwyn helpu i wella llesiant yn lleol a symud Cymru gam yn nes tuag at gyflawni ei golau llesiant. Ar ôl nodi ei amcanion tymor hir, mae gan yr Awdurdod ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i'w cyflawni ac i adrodd yn gyhoeddus am y cynnydd a wnaed ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

Ym mis Mawrth 2021 cyhoeddodd yr Awdurdod ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2021/24, gyda set o saith o amcanion hirdymor:

- Gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a lles pobl yng Ngogledd Cymru
- Parhau i weithio ar y cyd i helpu cymunedau i fod yn fwy cadarn
- Gweithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael
- Parhau i ganfod cyfleoedd i annog mwy o ymgysylltiad â phobl, cymunedau, staff a rhanddeiliaid
- Cynnal gweithlu sy'n addas o gadarn, medrus, proffesiynol a hyblyg
- Datblygu ffyrdd o fod yn fwy ymwybodol o'r amgylchedd er mwyn lleihau'r effaith y mae ein gweithgarwch yn ei chael ar yr amgylchedd
- Sicrhau bod gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried, gan gynnwys yn ystod prosesau caffael.

Mae'r ddolen ganlynol yn rhoi gwybodaeth am weithgareddau a pherfformiad Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru o gymharu ag amcanion gwella dros y deuddeg mis diwethaf -Gwybodaeth ac ystadegau – Perfformiad a gwella – Amdanom Ni – Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (llyw.cymru)

Y dyddiad cau statudol ar gyfer cyhoeddi Asesiad Perfformiad Blynyddol yw 30ain Medi 2023. Bydd yr Asesiad Perfformiad Blynyddol ar gael ar y wefan yn Cynllunio Corfforaethol – Perfformiad a gwella – Amdanom Ni – Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (llyw.cymru)

## CYNALIADWYEDD A NEWID YN YR HINSAWDD

Yn ystod 2022/23, penododd y Gwasanaeth Reolwr Amgylchedd a Newid yn yr Hinsawdd, sy'n cadeirio'r Gweithgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd sydd newydd ei ffurfio. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn un o lofnodwyr Siarter Grŵp Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Gwasanaethau Brys.

Mae'r Strategaeth Amgylcheddol ddrafft yn nodi newid sylweddol i'r dull o gyflawni allyriadau sero net erbyn 2030. Mae cynigion datgarboneiddio manwl yn cael eu

paratoi ac mae disgwyl iddynt gael eu cyflwyno gerbron aelodau'r Awdurdod mewn Gweithgorau dros y misoedd nesaf er mwyn caniatáu ar gyfer datblygu'r is-gynlluniau gweithredu a nodir yn y Strategaeth Amgylcheddol. Mae'n cynnig blaenoriaethu'r nod o ddileu ein hallyriadau Cwmpas 1 trwy amnewid tanwydd ac adnewyddu systemau gwresogi, gan liniaru ein hallyriadau Cwmpas 2 lle gellir ariannu a gweithredu mesurau gradd buddsoddiad. Byddwn yn mynd i'r afael yn rhannol ag allyriadau Cwmpas 3 trwy ymgysylltu â chyflenwyr. Byddwn yn mynd i'r afael â'n hallyriadau gweddilliol yn fiogenaidd lle bo hynny'n fasnachol bosibl.

Mae ein Strategaeth Amgylcheddol yn nodi ein dealltwriaeth o gynaliadwyedd fel elfen allweddol o reoli risg a thegwch rhwng y cenedlaethau. Fel rhan o'n dull o ymdrin â chaffael cynaliadwy, byddwn yn nodi cynigion penodol i ymgorffori pwysiadau gwerth cymdeithasol a metrigau cynaliadwyedd cadarn yn ein fframweithiau ar gyfer asesu a chaffael prosiectau.

Bydd perfformiad yn cael ei fesur yn barhaus trwy ddefnyddio dangosfwrdd Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI) Amgylcheddol, a gweithredu System Rheoli Amgylcheddol gadarn a fydd yn cael ei goruchwylio gan y Rheolwr Amgylchedd a Newid yn yr Hinsawdd, o dan oruchwyliaeth Gweithgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

## PERFFORMIAD ARIANNOL

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ymrwymo i barhau i ddarparu gwasanaethau atal a gorfodi diogelwch tân rhagorol, yn ogystal ag ymateb brys cynhwysfawr. Mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyfrannu at greu cymunedau cryfach a mwy diogel, ond mae hefyd yn cydnabod bod y sefyllfa ariannol yn golygu y bydd angen llawer iawn o hyblygrwydd ac arloesedd yn y dyfodol i gynnal darpariaeth y gwasanaethau.

Er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod a chynnal lefelau gwasanaeth, cytunodd yr Aelodau ar strategaeth ariannol tymor canolig 3 blynedd. Cytunodd yr Aelodau i gynyddu'r cyfraniadau gan yr awdurdodau cyfansoddol 6.3% ar gyfer 2022/23, i £39.412 miliwn. Roedd hyn yn cynnwys £1.13 miliwn i fynd i'r afael â'r heriau a nododd y Prif Swyddog Tân.

Roedd yr asesiad o'r sefyllfa wedi cadarnhau mai'r prif heriau sy'n wynebu'r Awdurdod yw sicrhau bod digon o griwiau tân ar-alwad ar gael; sicrhau digon o adnoddau i gynnal a datblygu sgiliau diffoddwyr tân; a chael digon o allu corfforaethol i ddiwallu gofynion presennol a gofynion y dyfodol. Mae'r asesiad hwn wedi llywio'r gofynion ariannu ar gyfer y dyfodol.

Ym mis Ebrill 2022, cyflwynwyd strwythur staffio newydd. Er hyn, mae wedi parhau i fod yn anodd penodi i rolau corfforaethol arbenigol a diffoddwyr tân rhan amser. Yn ystod 2022/23, cynhaliwyd adolygiad o'r system dyletswydd rhan amser a'r canfyddiadau a gyflwynwyd i'r Uwch Dîm Arweinyddol ym mis Chwefror 2023. Mae rhai argymhellion eisoes wedi'u gweithredu, ond erbyn hyn mae trafodaeth genedlaethol yn digwydd ynglŷn â'r termau ac amodau, sydd wedi disodli rhai elfennau

o'r adolygiad. Mewn cyferbyniad, mae recriwtio i swyddi gwag diffoddwyr tân amser cyflawn yn parhau i ddenu lefel uchel o geisiadau, gyda 24 o ddechreuwyr newydd yn 2022/23.

Mae dyfarniadau cyflog uwch na'r disgwyl a chwyddiant ar gostau heblaw cyflog, yn enwedig cyfleustodau, costau adeiladu, tanwydd a chostau TGCh wedi rhoi pwysau sylweddol ar y gyllideb. Fodd bynnag, mae'r pwysau o’r costau wedi’i liniaru i raddau helaeth gan yr arbedion a wnaed yn sgil swyddi gwag staff, derbyniadau incwm eithriadol yn ystod y flwyddyn ac oedi gwariant. Mae adrannau'n parhau i fonitro effaith y sefyllfa economaidd gan gydnabod y gallai newidiadau ddigwydd o ran refeniw a chyfalaf dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.

Bydd gofyn i’r Awdurdod yn y tymor canolig roi sylw gofalus i'r holl wariant, ond yn arbennig y pwysau oherwydd costau'n ymwneud â phensiynau a chyflogres. Yn ystod 2022/23 comisiynodd y Gwasanaeth Adolygiad o’r Ddarpariaeth Frys, sy'n edrych ar wahanol ffyrdd o ddarparu ein gwasanaethau ymateb. Bydd hyn yn mynd allan i ymgynghoriad yn 2023/24.

Yn 2022/23 cynhaliwyd adolygiad o'r wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad cyfrifon. Mae hyn wedi arwain at newid cyflwyniad, fel bod yr adroddiad yn unol â chanllawiau CIPFA.

## PERFFORMIAD REFENIW

Adroddodd yr Awdurdod orwariant o £40,000 yn 2022/23. Mae dadansoddiad o'r gwariant yn cael ei nodi isod.

| | Cyllideb (£000) | Gwirioneddol (£000) | Amrywiant (£000) | Amrywiant (%) |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogwyr | 30,130 | 30,353 | 223 | 0.7% |
| Safle | 2,901 | 2,992 | 91 | 3.1% |
| Trafnidiaeth | 1,204 | 1,250 | 46 | 3.9% |
| Cyflenwadau | 5,080 | 4,956 | (124) | -2.4% |
| Taliadau Trydydd Parti | 451 | 419 | (32) | -7.1% |
| Cyllid Cyfalaf a Thaliadau | 2,263 | 2,424 | 161 | 7.1% |
| Incwm | (2,617) | (2,943) | (326) | 12.4% |
| **Rhagolwg Alldro** | **39,412** | **39,452** | **40** | **0.1%** |

## CRONFEYDD WRTH GEFN Y GELLIR EU DEFNYDDIO

Cafodd cronfeydd wrth gefn eu cynyddu yn 2022/23 i gwmpasu gofynion gwasanaeth parhaus, gan gynnwys newidiadau pensiwn a gwaith adeiladu amgylcheddol. Defnyddiwyd £0.5 miliwn o gronfeydd wrth gefn yn 2022/23 ond rhagwelir y bydd defnydd pellach yn y blynyddoedd i ddod. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Nodyn 9.

| | Balans 31 Mawrth 2022 £’000 | Trosglwyddiadau (i mewn/)/allan 2022/23 £’000 | Balans 31 Mawrth 2023 £’000 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi | (5,567) | (655) | (6,222) |
| Cronfa Gyffredinol | (1,520) | 40 | (1,480) |
| Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso | (238) | 153 | (85) |
| Cronfa Derbyniadau Cyfalaf | 0 | (34) | (34) |
| **Cyfanswm Cronfeydd Defnyddiadwy** | **(7,324)** | **(496)** | **(7,821)** |

## PERFFORMIAD CYFALAF

Cyfanswm y gwariant cyfalaf ar gyfer 2022/23 oedd £3.4 miliwn a oedd yn cynnwys dod â 13 o beiriannau tân newydd i ddefnydd gweithredol gyda chostau o £2.171 miliwn yn ystod y flwyddyn.

Mae problemau’n ymwneud â'r gadwyn gyflenwi a phwysau chwyddiant yn parhau a bu’n angenrheidiol adolygu a diwygio'r rhaglen gyfalaf i adlewyrchu prosiectau y gellir eu cyflawni yn ystod y flwyddyn.

Un maes arbennig o heriol yw darparu tyrau newydd. Er bod y tendrau wedi cael eu dyfarnu, bu oedi o ganlyniad i gapasiti’r cyflenwyr a chaniatâd cynllunio, a phwysau chwyddiant oherwydd cost dur. Roedd tri thŵr newydd i fod i gael eu cwblhau yn ystod 2022/23 ac mae'r rhain bellach wedi'u gohirio tan 2023/24.

| Cynllun | Cynllun Diwygiedig | Rhagolwg | Swm Treigl Arfaethedig |
|---|---|---|---|
| | £’000 | £’000 | £’000 |
| Adnewyddu Peiriannau Tân | 1,248 | 1,263 | |
| Faniau Gorsaf Amlbwrpas | 160 | - | 160 |
| Cerbydau ac Offer Cydnerthedd Cenedlaethol | 0 | 132 | |
| Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan | 0 | 120 | |
| Offer Gweithdy | 20 | 12 | |
| Adnewyddu Tŵr Hyfforddi | 160 | - | 307 |
| Adeiladau - Mân Waith | 391 | 696 | 158 |
| Gweinydd Ystafell Reoli | 167 | 125 | |
| Offer Gweithredol | 92 | 93 | |
| Peiriannau Tân (d/y o 2021/22) | 923 | 925 | |
| Tyrau Hyfforddi (d/y o 2021/22) | 160 | - | |
| **Cyfanswm Cynllun Cyfalaf** | **3,321** | **3,366** | **625** |

Caiff y cynllun cyfalaf ei ariannu fel a ganlyn:

| Cyllid | Swm £'000 |
|---|---|
| Benthyca | 2,351 |
| Cyllid Grant | 490 |
| Adnoddau Mewnol | 525 |
| **Cyfanswm** | **3,366** |

## RHEOLI'R TRYSORLYS

Mae adroddiad blynyddol y Trysorlys sy'n rhoi manylion gweithgarwch ariannol y flwyddyn yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ym mis Gorffennaf 2023 a'i osod ar y wefan, fel rhan o bapurau'r cyfarfod yma: Cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub.

Roedd hwn yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddangosyddion darbodus, gyda benthyca ar ddiwedd y flwyddyn yn £26.45 miliwn. Bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro effaith cyfraddau llog cynyddol wrth bennu cyllidebau yn y dyfodol.

## COSTAU PENSIYNAU

### Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân

Yn ystod 2022/23, roedd cyfraniadau arferol y cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn yn £3.89 miliwn (2021/22: £3.19 miliwn). Cyfanswm gwerth y taliadau i aelodau sydd wedi ymddeol oedd £8.25 miliwn, gyda chymorth ariannol wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru.

Nid yw'r cynllun wedi'i ariannu ac mae'r rhwymedigaeth o ran ymrwymiadau pensiwn yn y dyfodol wedi gostwng i £225.39 miliwn (2021/22: £312.95 miliwn). Roedd hyn oherwydd newid yn y rhagdybiaethau actiwaraidd. Bydd canlyniadau prisiad ffurfiol 2020 y gronfa bensiwn yn cael eu cyhoeddi yn ystod 2023/24.

### Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL)

Yn ystod 2022/23, roedd cyfraniadau'r cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn yn £1.02 miliwn (2021/22: £0.92 miliwn).

Y rhwymedigaeth wedi'i hasesu'n actiwaraidd ar 31 Mawrth 2023 oedd £1.75 miliwn (2021/22: £14.55 miliwn). Digwyddodd y gostyngiad oherwydd newid yn y tybiaethau actiwaraidd a ddefnyddiwyd i ail-fesur rhwymedigaethau'r cynlluniau.

Mae nodyn 31 a Chyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn rhoi rhagor o wybodaeth.

## GWYBODAETH BELLACH

Mae gwybodaeth ychwanegol am y cyfrifon hyn ar gael gan y Trysorydd. Mae hawl statudol gan aelodau'r cyhoedd â diddordeb i weld y cyfrifon cyn i'r archwiliad gael ei gwblhau. Hysbysebir bod y cyfrifon ar gael i'w gweld ar wefan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (https://www.northwalesfire.gov.wales/fire-and-rescue-authority/financial/) a rhoddir hysbysiad ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Ffordd Salesbury, Llanelwy, LL17 0JJ.

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O GYFRIFON

### CYFRIFOLDEBAU'R AWDURDOD

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod wneud y canlynol:

- gwneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn gywir ac i sicrhau bod gan un o'i swyddogion y cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yn yr Awdurdod hwn, y cyfryw swyddog yw'r Trysorydd
- rheoli ei faterion i sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau ac i ddiogelu ei asedau
- cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

**ARDYSTIAD YR AWDURDOD**

Rwy'n cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2023.

Llofnod ______________________________ Dyddiad _________________

**Y Cynghorydd, Cadeirydd, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

### CYFRIFOLDEBAU'R TRYSORYDD

Y Trysorydd sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad o Gyfrifon yr Awdurdod yn unol ag arferion priodol fel y nodir yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod).

Wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon, mae'r Trysorydd wedi:

- dethol polisïau cyfrifyddu addas, ac yn wedi eu defnyddio'n gyson
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus
- cydymffurfio â'r Cod Ymarfer
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a oedd yn gyfoes
- cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysonderau eraill.

**ARDYSTIAD Y TRYSORYDD**

Rwy'n tystio bod y cyfrifon yn darparu golwg gwir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2023, ynghyd â'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

Llofnod ____________________________________ Dyddiad ________________

**Trysorydd, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

# Adroddiad Archwilio Arfaethedig

## Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

### Barn ar ddatganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio'r datganiadau ariannol o:

- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynnwys y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Symud mewn Wrth Gefn, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifeg sylweddol.

Mae Cyfrifon Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net a nodiadau cysylltiedig.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i gymhwyso wrth baratoi yn gyfraith berthnasol ac mae'r DU wedi mabwysiadu safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglir a'u haddasu gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-23.

Yn fy marn i, ym mhob agwedd faterol, mae’r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Pensiwn Diffoddwyr Tân ac Achub Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2023 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifeg rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y dehonglwyd ac a addaswyd gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-23.

### Sail ar gyfer barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio adran datganiadau ariannol fy adroddiad.

Mae fy staff a minnau yn annibynnol ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'm barn.

### Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o'r sail gyfredol o gyfrifo wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gallu Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân ac Achub Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i barhau i fabwysiadu sail busnes gweithredol o gyfrifeg am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

## Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad fy archwilydd ar hynny. Y Swyddog Ariannol Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall sydd yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir fel arall yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu fel arall mae'n ymddangos ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau materol o'r fath neu gamddatganiadau materol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf i, yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad materol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd am y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-23; ac

- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'n unol â'r canllawiau.

## Materion yr wyf yn adrodd amdanynt drwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Pensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol, yr wyf yn eu hadrodd i chi, os, yn fy marn i:

- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.
- nid yw cofnodion cyfrifeg digonol wedi'u cadw, neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelwyd â hwy gan fy nhîm;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

## Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad Cyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am:

- baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi golwg wir a theg ac yn cydymffurfio ag arferion priodol;
- gadw cofnodion cyfrifyddu priodol;

- rheolaethau mewnol fel y mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn penderfynu arnynt yn angenrheidiol er mwyn galluogi paratoi datganiadau cyfrifon sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad; a
- asesu Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gallu Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân ac Achub Gogledd Cymru i barhau fel mater o drefn, datgelu fel y bo'n berthnasol, materion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail barhaus o gyfrifeg oni bai bod y swyddog ariannol cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Pensiwn Diffoddwyr Tân ac Achub Gogledd Cymru yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol ag adran 13(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn ddeunydd os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- ymchwilio i reolaeth, Pennaeth Archwilio Mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol yn ymwneud ag Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a pholisïau a gweithdrefnau Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân ac Achub Gogledd Cymru sy'n ymwneud â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - chanfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth neu honedig; a
  - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial ar gyfer twyll trwy bostio cyfnodolion anarferol;
- cael dealltwriaeth o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a fframwaith awdurdod pensiwn Cronfa Diffoddwyr Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru a Chronfa Pensiwn Diffoddwyr Tân yr Awdurdod Achub; a
- cael dealltwriaeth o berthnasoedd parti cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy gweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datganiadau ariannol a phrofion i ddogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi rheolwyr a'r Awdurdod Tân ac Achub ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosib;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthdroi rheolaeth rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs busnes arferol.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau a nodwyd yn berthnasol a risgiau posibl i dwyll i bob aelod o'r tîm archwilio a pharhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn cael ei effeithio gan yr anhawster cynhenid wrth ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a rheolaethau Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân ac Achub Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, a natur, amseriad a maint y gweithdrefnau archwilio a gyflawnir.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad fy archwilydd.

## Cyfrifoldebau archwilydd eraill

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio sylweddol ymhlith materion eraill, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

## Tystysgrif cwblhau archwiliad

Rwy'n ardystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Pensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Hydref 2023

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

## DADANSODDIAD O WARIANT A CHYLLID

Mae'r datganiad hwn yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei ddefnyddio a'i ariannu o adnoddau (grantiau, cyfraniadau ac ati) gan awdurdodau lleol o'i gymharu ag adnoddau a ddefnyddir neu a enillir gan awdurdodau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae hefyd yn dangos sut mae'r gwariant hwn yn cael ei ddyrannu at ddibenion gwneud penderfyniadau yn unol â'r math o wariant yr eir iddo. Caiff Incwm a Gwariant y cyfrifir amdanynt o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol (GAAP) eu cyflwyno'n llawnach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

| 2021/22 | | | | 2022/23 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Net y gellir ei Godi ar y Gronfa Gyffredinol £'000** | **Addasiadau Rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Gyllido £'000** | **Gwariant Net yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant £'000** | | **Gwariant Net y gellir ei Godi ar y Gronfa Gyffredinol £'000** | **Addasiadau Rhwng y Sail Gyllido a'r Gyfrifyddu £'000** | **Gwariant Net yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant £'000** |
| 34,751 | 2,991 | 37,742 | Darparu Gwasanaethau Tân | 38,797 | (3,081) | 35,716 |
| (37,074) | 7,068 | (30,006) | Incwm a Gwariant Arall | (39,412) | 8,805 | (30,607) |
| **(2,323)** | **10,059** | **7,736** | **Diffyg (neu Warged) ar Ddarparu Gwasanaethau** | **(615)** | **5,724** | **5,109** |

| 2021/22 | | | | 2022/23 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans y Gronfa Gyffredinol £'000** | **Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd y Gronfa Gyffredinol £'000** | **Cyfanswm y Gronfa Gyffredinol £'000** | | **Balans y Gronfa Gyffredinol £'000** | **Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd y Gronfa Gyffredinol £'000** | **Cyfanswm y Gronfa Gyffredinol £'000** |
| (1,450) | (3,461) | (4,911) | Dygwyd Ymlaen | (1,520) | (5,804) | (7,324) |
| (2,323) | | (2,323) | (Gwarged)/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | (615) | | (615) |
| 0 | (238) | (238) | Trosglwyddo rhwng Balans y Gronfa Gyffredinol a Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso | | 153 | 153 |
| 2,253 | (2,105) | 148 | Trosglwyddo rhwng Balans y Gronfa Gyffredinol a Chronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol a Glustnodwyd | 655 | (689) | (34) |
| **(1,520)** | **(5,804)** | **(7,324)** | **Balans Terfynol y Gronfa Gyffredinol** | **(1,480)** | **(6,340)** | **(7,820)** |

## DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Mae'r datganiad hwn yn dangos y gost gyfrifo yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol (GAAP), yn hytrach na'r swm sydd i'w ariannu o gyfraniadau. Mae gwariant yr Awdurdod yn cael ei ariannu gan gyfraniadau gan y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddu. Dangosir y sefyllfa cyfrannu yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

| **2021/22** | | | | **2022/23** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros £'000** | **Incwm Gros £'000** | **Gwariant Net £'000** | | **Sylwer** | **Gwariant Gros £'000** | **Incwm Gros £'000** | **Gwariant Net £'000** |
| 40,660 | (2,918) | 37,742 | Darparu Gwasanaethau Tân | | 38,640 | (2,925) | 35,715 |
| **40,660** | **(2,918)** | **37,742** | **Cost Gwasanaethau** | | **38,640** | **(2,925)** | **35,715** |
| (15) | 0 | (15) | Treuliau Gweithredu Eraill | | (11) | 0 | (11) |
| 7,085 | (2) | 7,083 | Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi | **10** | 9,130 | (61) | 9,069 |
| 0 | (37,074) | (37,074) | Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol | **11** | 0 | (39,664) | (39,664) |
| | | **7,736** | **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | | | | **5,109** |
| 0 | (2,162) | (2,162) | (Gwarged) neu ddiffyg ar Ailbrisio Eiddo, ac Asedau Offer | **19** | 0 | (9,832) | (9,832) |
| | | (22,167) | Ailfesur yr Ymrwymiad Buddion Diffiniedig Net | **19** | | | (109,388) |
| | | **(24,329)** | **(Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | | **(119,220)** |
| | | **(16,593)** | **Cyfanswm (Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | **(114,111)** |

## DATGANIAD SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd sydd gan yr Awdurdod, wedi'i ddadansoddi'n gronfeydd defnyddiadwy' (sef y rhai y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant neu i leihau cyfraniadau gan yr Awdurdodau Cyfansoddol) a chronfeydd eraill. Mae'r Gwarged neu'r (Diffyg) ar y llinell Darparu Gwasanaethau yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r Awdurdod, a dangosir rhagor o fanylion am hynny yn y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol sydd angen eu codi ar Falans y Gronfa Gyffredinol, sy'n cael ei hariannu gan gyfraniadau gan y chwe awdurdod cyfansoddol. Mae'r llinell Cynnydd / Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd a Glustnodwyd yn dangos Balans y Gronfa Gyffredinol cyn i'r Awdurdod wneud unrhyw drosglwyddiadau dewisol i'r cronfeydd a glustnodwyd ac ohonynt.

| 2022-23 | Sylwer | Balans y Gronfa Gyffredinol £'000 | Cronfeydd wrth Gefn a Grantiau a Glustnodwyd £'000 | Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso £'000 | Derbyniadau Cyfalaf a Glustnodwyd £'000 | Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £'000 | Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio £'000 | Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | | **(1,520)** | **(5,567)** | **(238)** | **0** | **(7,325)** | **312,842** | **305,517** |
| **Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod 2022/2023** | | | | | | | | |
| Diffyg (neu Warged) ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau | | 5,109 | 0 | 0 | 0 | 5,109 | 0 | 5,109 |
| (Incwm) a Gwariant Arall Cynhwysfawr | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (119,220) | (119,220) |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **5,109** | **0** | **0** | | **5,109** | **(119,220)** | **(114,111)** |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail ariannu o dan y rheoliadau | **8** | (5,605) | 0 | | 0 | (5,605) | 5,605 | 0 |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i'r Cronfeydd wrth Gefn a glustnodwyd** | | **(496)** | **0** | **0** | **0** | **(496)** | **(113,615)** | **(114,111)** |
| Trosglwyddiadau Eraill i/o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd | **9** | 536 | (655) | 153 | (34) | 0 | 0 | 0 |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2022/23** | **7** | **40** | **(655)** | **153** | **(34)** | **(496)** | **(113,615)** | **(114,111)** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | | **(1,480)** | **(6,222)** | **(85)** | **(34)** | **(7,821)** | **199,227** | **191,406** |

## DATGANIAD SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD

| **2021-22** | **Sylwer** | **Balans y Gronfa Gyffredinol £'000** | **Cronfeydd wrth Gefn a Grantiau a Glustnodwyd £'000** | **Grantiau cyfalaf heb eu cymhwyso £'000** | **Cronfeydd Cyfalaf a Glustnodwyd £'000** | **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £'000** | **Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio £'000** | **Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod £'000** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | | **(1,450)** | **(3,462)** | **0** | | **(4,912)** | **327,022** | **(322,110)** |
| **Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod 2021/2022** | | | | | | | | |
| Diffyg (neu Warged) ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau | | 7,736 | 0 | 0 | | 7,736 | 0 | 7,736 |
| (Incwm) a Gwariant Arall Cynhwysfawr | | 0 | 0 | 0 | | 0 | (24,329) | (24,329) |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **7,736** | **0** | **0** | | **7,736** | **(24,329)** | **(16,593)** |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail ariannu o dan y rheoliadau | **8** | (10,059) | 0 | (238) | 148 | (10,149) | 10,149 | 0 |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i'r Cronfeydd wrth Gefn a glustnodwyd** | | (2,323) | 0 | (238) | 148 | (2,413) | (14,180) | 16,593 |
| Trosglwyddiadau Eraill i/o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd | **9** | 2,253 | (2,105) | 0 | (148) | 0 | 0 | 0 |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2021/22** | **7** | **(70)** | **(2,105)** | **(238)** | **0** | **(2,413)** | **(14,180)** | **16,593** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | | **(1,520)** | **(5,567)** | **(238)** | **0** | **(7,325)** | **312,842** | **(305,517)** |

## Y FANTOLEN

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth, ar ddyddiad y Fantolen, yr asedau a'r ymrwymiadau a gydnabyddir gan yr Awdurdod. Mae asedau net yr Awdurdod (asedau llai ymrwymiadau) yn cael eu cyfateb gan y cronfeydd sydd gan yr Awdurdod. Adroddir ynghylch cronfeydd mewn dau gategori. Y categori cyntaf o gronfeydd yw cronfeydd defnyddiadwy sef cronfeydd y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gynnal lefel ddarbodus o gronfeydd ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd (e.e. y Gronfa Dderbyniadau na ellir ond ei defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled). Yr ail gategori o gronfeydd yw'r rhai nad yw'r Awdurdod yn gallu eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn o gronfeydd yn cynnwys cronfeydd sy'n dal enillion na wireddwyd a cholledion (e.e. y Gronfa Ailbrisio), pryd na fyddai symiau ond ar gael i ddarparu gwasanaethau os caiff yr asedau eu gwerthu; ac mae cronfeydd sy'n dal gwahaniaethau amseru yn cael eu dangos yn y llinell Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd 'Addasiadau rhwng y sail cyfrifyddu a'r sail ariannu o dan reoliadau.'

| 31 Mawrth 2022 £'000 | | Sylwer | 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---:|---|:---:|---:|
| 43,165 | Eiddo, Peiriannau ac Offer | **12** | 56,841 |
| 226 | Asedau Anniriaethol | **12** | 222 |
| 33 | Dyledwyr Tymor Hir | **15** | 33 |
| **43,424** | **Asedau Tymor Hir** | | **57,096** |
| 601 | Rhestrau Stoc | **14** | 638 |
| 3,732 | Dyledwyr Tymor Byr | **15** | 5,041 |
| 0 | Buddsoddiadau Tymor Byr | **16** | 0 |
| 2,532 | Arian a Chyfwerth Ariannol | **16** | 4,177 |
| **6,865** | **Asedau Cyfredol** | | **9,856** |
| (13,763) | Benthyca Tymor Byr | **13** | (8,868) |
| (602) | Darpariaethau | **18** | (273) |
| (3,047) | Credydwyr Tymor Byr | **17** | (4,287) |
| **(17,412)** | **Ymrwymiadau Cyfredol** | | **(13,428)** |
| (327,498) | Rhwymedigaeth Pensiwn | **19** | (227,143) |
| (135) | Darpariaethau Tymor Hir | **18** | 0 |
| (10,761) | Benthyca Tymor Hir | **13** | (17,787) |
| **(338,394)** | **Rhwymedigaethau Tymor Hir** | | **(244,930)** |
| **(305,517)** | **Asedau Net** | | **(191,406)** |
| (7,325) | Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy | **9** | (7,821) |
| 312,842 | Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio | **19** | 199,227 |
| **305,517** | **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn** | | **191,406** |

## DATGANIAD LLIF ARIAN

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau yn arian a chyfwerth ag arian yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r Awdurdod yn creu ac yn defnyddio arian a chyfwerth ag arian trwy gategoreiddio llif arian fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llif arian net sy'n deillio o'r gweithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o'r graddau y mae gweithrediadau'r Awdurdod yn cael eu hariannu trwy gyfraniadau ac incwm grant neu gan dderbynwyr y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod. Mae'r gweithgareddau buddsoddi yn dangos y graddau y mae'r all-lifiadau arian wedi eu gwneud ar gyfer adnoddau sydd â'u bwriad o gyfrannu at y modd y gall yr Awdurdod ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r llifoedd arian sy'n deillio o weithgareddau ariannu yn ddefnyddiol wrth ragweld ceisiadau o lifiadau arian yn y dyfodol gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyca) i'r Awdurdod.

| 2021/2022 £'000 | | Sylwer | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|---|
| **7,736** | **(Gwarged)/Diffyg Net wrth Ddarparu Gwasanaethau** | | **5,109** |
| (11,437) | Addasiadau i'r (Gwarged) neu Ddiffyg Net wrth Ddarparu Gwasanaethau ar gyfer Symudiadau nad ydynt yn Arian | **20** | (7,889) |
| (303) | Addasiadau ar gyfer Eitemau sydd yn y (Gwarged) neu Ddiffyg net wrth Ddarparu Gwasanaethau sy'n Weithgareddau Buddsoddi neu Ariannu | **20** | (404) |
| (4,004) | Llifoedd Arian Net o Weithgareddau Gweithredu | **20** | (3,184) |
| 1,013 | Gweithgareddau Buddsoddi | **21** | 3,356 |
| 1,987 | Gweithgareddau Cyllido | **22** | (1,816) |
| (1,004) | (Cynnydd) neu Ostyngiad Net mewn Arian a Chyfwerth ag Arian | | (1,644) |
| **(1,528)** | **Arian a Chyfwerth ag Arian ar ddechrau'r Cyfnod adrodd** | | **(2,533)** |
| **(2,533)** | **Arian a Chyfwerth ag Arian ar ddiwedd y Cyfnod adrodd** | **16** | **(4,177)** |

## NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

Mae'r nodiadau'n rhoi gwybodaeth am sail y gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol a'r polisïau cyfrifyddu penodol a ddefnyddiwyd. Maent yn darparu gwybodaeth nad yw'n cael ei chyflwyno yn unlle arall yn y datganiadau ariannol ac sy'n berthnasol er mwyn deall y cyfrifon.

### 1 SAFONAU CYFRIFYDDU SYDD WEDI CAEL EU CYHOEDDI OND NAD YDYNT WEDI’U

Pan fo Safon newydd wedi'i chyhoeddi ond nad yw wedi'i mabwysiadu eto gan y Cod, mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud ag effaith y newid cyfrifyddu. Cyflwynwyd y newidiadau canlynol yn sgil Côd 2023/24:

- IFRS 16 Prydlesi (ond dim ond ar gyfer yr awdurdodau lleol hynny sydd wedi penderfynu gweithredu IFRS 16 yn wirfoddol yn y flwyddyn 2023/24).
- Pan wnaeth awdurdod fabwysiadu IFRS 16 yn 2022/23 ond dewis gohirio gweithredu IFRS 16 i drefniadau PFI/PPP tan 2023/24, bydd angen gwybodaeth ar y newid cyfrifyddu mwy penodol hwnnw yn ei ddatgniadau cyfrifon 2022/23.
- Diffiniad o Amcangyfrifon Cyfrifyddu (Diwygiadau i IAS 8) a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021.
- Datgelu Polisïau Cyfrifyddu (Diwygiadau i IAS 1 a Datganiad Ymarfer IFRS 2) a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021.
- Treth Gohiriedig sy'n gysylltiedig ag Asedau a Rhwymedigaethau sy'n codi o Drafodiad Sengl (Diwygiadau i IAS 12) a gyhoeddwyd ym mis Mai 2021.
- Diweddaru Cyfeiriad at y Fframwaith Cysyniadol (Diwygiadau i IFRS 3) a gyhoeddwyd ym mis Mai 2020.

Ni ragwelir y bydd y gwelliannau uchod yn cael effaith sylweddol ar y wybodaeth a ddarperir yn natganiadau ariannol yr Awdurdod.

### 2 DYFARNIADAU HOLLBWYSIG WRTH GYMHWYSO POLISIAU CYFRIFYDDU

Wrth ddilyn y polisïau cyfrifyddu sydd yn Atodiad 1, mae'r Awdurdod wedi gorfod arfer doethineb wrth ymdrin â thrafodion cymhleth neu'r rhai lle mae ansicrwydd am y dyfodol. Y dyfarniad beirniadol yn y Datganiad Cyfrifon yw:

- Mae llawer o ansicrwydd ynghylch lefelau cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol yn y dyfodol.

Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd hwn yn ddigon eto i ddarparu arwydd y gallai asedau'r Awdurdod gael eu niweidio o ganlyniad i'r angen i ostwng lefelau darpariaeth gwasanaethau.

## 3 RHAGDYBIAETHAU A WNEIR AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU PWYSIG ERAILL O AMCANGYFRIF AC ANSICRWYDD

Mae'r datganiad o gyfrifon yn cynnwys ffigurau amcangyfrifedig sy'n seiliedig ar ragdybiaethau a wnaed gan yr awdurdod ynglŷn â'r dyfodol neu eu bod fel arall yn ansicr. Llunnir amcangyfrifon gan ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau presennol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu balansau gyda sicrwydd, gallai canlyniadau gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon.

Mae'r prif eitemau ym Mantolen yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2023, y mae risg sylweddol y bydd angen addasiad perthnasol ar eu cyfer yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod fel a ganlyn:

**Eiddo, Peiriannau ac Offer** - Mae'r Awdurdod yn ailbrisio ei asedau bob 5 mlynedd. Mae'n bosibl y gallai gwerth eiddo barhau i amrywio, yn enwedig ar adegau o ansicrwydd economaidd. Mae prisiadau'n seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch cyflwr asedau, bywyd defnyddiol, gwerthoedd gweddilliol ac amodau'r farchnad. Mae'r dyfarniadau hyn yn seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael ac yn cael eu gwneud gan briswyr cymwys.

Oherwydd sefyllfa barhaus y farchnad gyfnewidiol, cwblhawyd prisiad llawn ar 31 Mawrth 2023

**Ymrwymiad Pensiwn** - Mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaeth net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, y gyfradd y rhagwelir y bydd cyflogau yn cynyddu yn unol â hi, newidiadau mewn oedran ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac, ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, yr enillion a ddisgwylir ar asedau'r gronfa bensiwn.

Penodir actiwarïaid ymgynghorol i roi cyngor arbenigol i'r Awdurdod ynglŷn â'r rhagdybiaethau i'w cymhwyso. Darperir rhagor o wybodaeth o fewn cyfrif y gronfa bensiwn.

## 4 EITEMAU PERTHNASOL O INCWM A CHOST

Oherwydd newidiadau mewn tybiaethau actiwaraidd mae cyfanswm atebolrwydd net Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi gostwng £100.36m. Mae hyn yn bennaf oherwydd y newidiadau sy'n gysylltiedig ag ail-fesur asedau / atebolrwydd buddion diffiniedig net.

## 5 DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Mae'r Datganiad o Gyfrifon wedi cael ei awdurdodi I'w gyhoeddi gan y Trysorydd ar 16 Hydref 2023. Nid yw digwyddiadau sy'n digwydd ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol na'r nodiadau.

Pan oedd digwyddiadau a gynhaliwyd cyn y dyddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am yr amodau sy'n bodoli ar 31 Mawrth 2023, mae'r ffigurau yn y datganiadau a'r nodiadau ariannol wedi'u haddasu ym mhob ffordd berthnasol i adlewyrchu effaith y wybodaeth hon.

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau perthnasol ar ôl dyddiad y fantolen.

## 6 NODYN I'R DADANSODDIAD O WARIANT A CHYLLID

| 2022/23 | Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf £'000 | Tâl net ar gyfer Addasiadau Pensiwn £'000 | Arall Addasiadau £'000 | Cyfanswm Addasiadau £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Darparu Gwasanaethau Tân | (3,444) | 367 | (4) | (3,081) |
| **Cost Net Gwasanaethau** | **(3,444)** | **367** | **(4)** | **(3,081)** |
| **Incwm a Gwariant Arall** Incwm a Gwariant Arall o'r dadansoddiad gwariant ac ariannu | (264) | 8,666 | 403 | 8,805 |
| **Gwahaniaethau rhwng gwarged y Gronfa Gyffredinol a gwarged Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar ddarparu gwasanaethau** | **(3,708)** | **9,033** | **399** | **5,724** |

| 2021/22 | Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf £'000 | Tâl net ar gyfer Addasiadau Pensiwn £'000 | Arall Addasiadau £'000 | Cyfanswm Addasiadau £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Darparu Gwasanaethau Tân | (2,585) | 5,562 | 14 | 2,991 |
| **Cost Net Gwasanaethau** | **(2,585)** | **5,562** | **14** | **2,991** |
| **Incwm a Gwariant Arall** Incwm a Gwariant Arall o'r dadansoddiad gwariant ac ariannu | (15) | 6,780 | 303 | 7,068 |
| **Gwahaniaethau rhwng gwarged y Gronfa Gyffredinol a gwarged Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar ddarparu gwasanaethau** | **(2,600)** | **12,342** | **317** | **10,059** |

- **Addasiadau at ddibenion cyfalaf** – mae'r golofn hon yn ychwanegu dibrisiant ac enillion a cholledion amhariad ac ailbrisio yn y llinell gwasanaethau, ac ar gyfer:
- Gwariant gweithredu arall – yn addasu ar gyfer gwarediadau cyfalaf drwy drosglwyddo incwm wrth waredu asedau a'r symiau a ddilëwyd ar gyfer yr asedau hynny.
- Gwariant ac incwm ariannu a buddsoddi - y newidiadau statudol ar gyfer ariannu cyfalaf h.y. didynnir isafswm darpariaeth refeniw a chyfraniadau refeniw eraill o wasanaethau gan nad yw'r rhain yn symiau y gellir codi amdanynt o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.
- Trethiant ac incwm a gwariant grant amhenodol - caiff grantiau cyfalaf eu haddasu ar gyfer incwm na ellir codi amdano o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae grantiau refeniw yn cael eu haddasu o'r rhai y gellir eu derbyn yn y flwyddyn i'r rhai y gellir eu derbyn heb amodau neu y bodlonwyd amodau ar eu cyfer drwy gydol y flwyddyn. Mae'r llinell trethiant ac incwm a gwariant grant amhenodol yn cael ei gredydu â grantiau cyfalaf y gellir eu derbyn yn y flwyddyn heb amodau neu rai y bodlonwyd amodau ar eu cyfer yn y flwyddyn.

**Newid net ar gyfer yr addasiadau pensiwn** - Newid net ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegu gwariant ac incwm Buddiannau Cyflogeion IAS19 sy'n ymwneud â phensiwn:

- Ar gyfer gwasanaethau, mae hyn yn cynrychioli dileu cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a wnaed gan yr awdurdod fel y'i caniateir drwy statud a disodli costau gwasanaeth presennol a chostau gwasanaeth a roddwyd.
- Ar gyfer incwm a gwariant ariannu a buddsoddi – codir y llog net ar y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**Addasiadau Eraill** - Gwahaniaethau eraill rhwng symiau a ddebydwyd/credydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a symiau taladwy/derbyniadwy i'w cydnabod o dan statud:

- Ar gyfer incwm a gwariant ariannu a buddsoddi, mae'r golofn addasiadau statudol arall yn cydnabod addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer y gwahaniaethau amseru ar gyfer premiymau a gostyngiadau.
- Mae'r tâl o dan Drethiant ac incwm a gwariant grant amhenodol yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng yr hyn y gellir ei godi o dan reoliadau statudol y rhagamcanwyd y byddid yn ei dderbyn ar ddechrau'r flwyddyn a'r incwm a gydnabyddir o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn y Cod. Mae hwn yn wahaniaeth amseru gan y bydd unrhyw wahaniaeth yn cael ei ddwyn ymlaen mewn Gwargedion neu Ddiffygion ar y Gronfa Gyffredinol yn y dyfodol.

## 7 DADANSODDI GWARIANT AC INCWM YN ÓL NATUR

| 2021/22 £000 | | 2022/23 £000 |
|---|---|---|
| | **Gwariant** | |
| 32,491 | Gweithwyr | 30,194 |
| 7,809 | Costau Gweithredu Eraill | 8,522 |
| 639 | Gwasanaethau Cefnogi | 419 |
| (15) | Enillion ar waredu asedau | (11) |
| 7,085 | Gwariant Ariannu a Buddsoddi | 9,131 |
| (279) | Costau Ariannu Cyfalaf | (495) |
| **47,730** | **Cyfanswm y Gwariant** | **47,760** |
| | **Incwm** | |
| (192) | Ffioedd, Taliadau & Incwm Gwasanaeth Arall | (540) |
| (2) | Incwm Llog a Buddsoddi | (61) |
| (37,074) | Cyfraniadau gan Awdurdodau Cyfansoddol | (39,412) |
| (2,726) | Grantiau a Chyfraniadau'r Llywodraeth | (2,638) |
| **(39,994)** | **Cyfanswm yr Incwm** | **(42,651)** |
| **7,736** | **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | **5,109** |

## 8 ADDASIADAU RHWNG Y SAIL GYFRIFYDDU A’R SAIL ARIANNU YN ÓL STATUD

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a'r gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan yr awdurdod yn ystod y flwyddyn yn unol ag arfer cyfrifyddu priodol i nodi’r adnoddau y mae darpariaethau statudol yn pennu eu bod ar gael i'r awdurdod i fodloni gwariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol.

Mae'r canlynol yn nodi disgrifiad o'r cronfeydd wrth gefn y gwneir yr addasiadau yn eu herbyn.

**Balans y Gronfa Gyffredinol**

Y Gronfa Gyffredinol yw'r gronfa statudol y mae'n ofynnol i holl dderbyniadau awdurdod gael eu talu iddi ac y mae holl rwymedigaethau'r awdurdod i'w talu ohoni, ac eithrio i'r graddau y gallai rheolau statudol ddarparu fel arall. Gall y rheolau hyn hefyd nodi'r flwyddyn ariannol lle dylai rhwymedigaethau a thaliadau effeithio ar falans y Gronfa Gyffredinol, nad yw o reidrwydd yn unol ag arfer cyfrifyddu priodol. Felly, mae balans y Gronfa Gyffredinol yn crynhoi'r adnoddau y mae'r awdurdod wedi'i rymuso'n statudol i'w wario ar ei wasanaethau neu ar fuddsoddiad cyfalaf (neu'r diffyg adnoddau y mae'n ofynnol i'r awdurdod ei adennill) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**Cronfa derbyniadau cyfalaf**

Mae'r gronfa derbyniadau cyfalaf yn dal yr elw o waredu tir neu asedau eraill, sydd wedi'i gyfyngu gan statud rhag cael ei ddefnyddio heblaw am ariannu gwariant cyfalaf newydd neu i'w neilltuo i ariannu gwariant cyfalaf hanesyddol. Mae'r balans ar y gronfa wrth gefn yn dangos yr adnoddau sydd eto i'w cymhwyso at y dibenion hyn ar ddiwedd y flwyddyn.

**Grantiau cyfalaf heb eu cymhwyso**

Mae'r cyfrif (cronfa wrth gefn) grantiau cyfalaf heb eu cymhwyso yn dal y grantiau a'r cyfraniadau a dderbyniwyd tuag at brosiectau cyfalaf y mae'r awdurdod wedi cwrdd â’r amodau ar eu cyfer ac a fyddai fel arall yn gofyn am ad-dalu'r arian, ond nad ydynt wedi'u cymhwyso eto i dalu am wariant. Mae'r balans wedi'i gyfyngu gan delerau grant o ran y gwariant cyfalaf y gellir ei gymhwyso yn ei erbyn a/neu'r flwyddyn ariannol y gellir gwneud hyn.

| 2021/22 | | | | | | 2022/23 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans y Gronfa Gyffredinol £'000** | **Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso £'000** | **Cronfeydd Cyfalaf a Glustnodwyd £'000** | **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £'000** | **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £'000** | **Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Ariannu o dan y Rheoliadau** | **Balans y Gronfa Gyffredinol £'000** | **Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso £'000** | **Cronfa Derbyniadau Cyfalaf £'000** | **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £'000** | **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £'000** |
| (2,101) | 0 | 0 | (2,101) | 2,101 | Dibrisiant ac amhariad | (2,089) | 0 | 0 | (2,089) | 2,089 |
| (64) | | 0 | (64) | 64 | Addasiad blwyddyn flaenorol - adeiladau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 2,206 | 0 | 0 | 2,206 | (2,206) | Colledion/enillion ailbrisio/enillion ar Eiddo | 2,584 | 0 | 0 | 2,584 | (2,584) |
| 15 | 0 | 0 | 15 | (15) | Gwaredu asedau nad ydynt yn gyfredol | 11 | 0 | (34) | (23) | 23 |
| 0 | 0 | 148 | 148 | (148) | Gwariant cyfalaf wedi'i ariannu o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd/CERA | 525 | 0 | 0 | 525 | (525) |
| | | | | | Ariannu gwariant cyfalaf o grantiau | 253 | (36) | 0 | 217 | (217) |
| 2,001 | 0 | 0 | 2,001 | (2,001) | Cyllid Ariannu (MRP) | 1,959 | 0 | 0 | 1,959 | (1,959) |
| **2,057** | **0** | **148** | **2,205** | **(2,205)** | | **3,243** | **(36)** | **(34)** | **3,173** | **(3,173)** |
| 8,830 | 0 | 0 | 8,830 | (8,830) | Cyfraniadau a thaliadau Pensiwn Cyflogwyr i bensiynwyr | 9,386 | 0 | 0 | 9,386 | (9,386) |
| (21,172) | 0 | 0 | (21,172) | 21,172 | Gwrthdroi buddion ymddeol yn y CIES | (18,419) | 0 | 0 | (18,419) | 18,419 |
| **(12,342)** | **0** | **0** | **(12,342)** | **12,342** | | **(9,033)** | **0** | **0** | **(9,033)** | **9,033** |
| 238 | (238) | 0 | 0 | 0 | Addasiad i'r Gronfa Grantiau wrth Gefn | 0 | 189 | 0 | 189 | (189) |
| (12) | 0 | 0 | (12) | 12 | Symuiad o ran cronni Absenoldeb Cronedig | 66 | | | 66 | (66) |
| **(10,059)** | **(238)** | **148** | **(10,149)** | **10,149** | **Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail ariannu o dan y rheoliadau** | **(5,724)** | **153** | **(34)** | **(5,605)** | **5,605** |

## 9 CRONFEYDD WRTH GEFN DEFNYDDIADWY

Mae'r nodyn hwn yn nodi'r symiau a neilltuwyd o falans y Gronfa Gyffredinol mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i ddarparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwariant yn y dyfodol a'r symiau a drosglwyddwyd yn ôl o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i fodloni gwariant y Gronfa Gyffredinol yn 2022/23.

| Cronfa | Diben y Gronfa Wrth Gefn | Balans 1 Ebrill 2021 £'000 | Trosglwydd-iadau (i mewn/) / allan 2021/22 £'000 | Balans 31 Mawrth 2022 £'000 | Trosglwydd-iadau (i mewn/) / allan £'000 | Balans 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfeydd Wrth Gefn y Gwasanaeth** | | | | | | |
| Cronfa Bensiwn | Costau pensiwn ychwanegol yn ymwneud â newidiadau i reolau pensiwn | (85) | 0 | (85) | (460) | (545) |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer Llog | Gwrthbwyso cynnydd mewn cyfraddau llog a fyddai'n effeithio ar y gyllideb refeniw | (100) | (200) | (300) | 0 | (300) |
| Atgyweirio Hydrantau Tân | Ariannu ôl-groniad o ran atgyweirio hydrantau | (90) | 0 | (90) | 0 | (90) |
| PPE Gwisg / Stoc | Mwy o gostau gwisg oherwydd newidiadau mewn deddfwriaeth | (250) | 0 | (250) | 0 | (250) |
| Newid Trawsffurfio | Cyllid ar gyfer cyflawni prosiectau newid trawsnewidiol | (800) | (51) | (851) | 0 | (851) |
| Gwella Cyfleusterau | Sicrhau bod adeiladau'n cwrdd â'r safon ofynnol a gwella effeithlonrwydd ynni | (490) | (833) | (1,323) | 672 | (651) |
| Atebolrwydd Cyfreithiol | Ariannu rhwymedigaethau cyfreithiol yn y dyfodol ar gyfer hawliadau hysbys/disgwyliedig | (200) | (25) | (225) | 39 | (186) |
| Hyfforddiant | Gweithredu gofynion deddfwriaethol ar gyfer newidiadau i ddarpariaeth hyfforddiant | (100) | (150) | (250) | 0 | (250) |
| Digwyddiadau mawr | Gwrthbwyso costau digwyddiadau mawr sy'n fwy na'r gyllideb | (150) | 0 | (150) | 0 | (150) |
| Gwella Systemau | Cyllid ar gael i weithredu gwelliannau i'r system | (502) | (346) | (848) | 137 | (711) |
| Chwyddiant | Gwrthbwyso costau chwyddiant sy'n fwy na'r gyllideb | 0 | (250) | (250) | 0 | (250) |
| **Cronfeydd Cyfalaf a Grantiau Wrth Gefn** | | | | | | |
| Prosiectau Cyfalaf | Cyllid ar gyfer cynlluniau lle ceir oedi a chostau cadw | 0 | 0 | 0 | (1,043) | (1,043) |
| Cynllun Radio | Uwchraddio'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys - gwrthbwyso rhai o'r costau ychwanegol | (500) | (250) | (750) | 0 | (750) |
| Gostyngiad Grant | Gwrthbwyso gostyngiad yn y cyllid Diogelwch Tân gan Lywodraeth Cymru | (195) | 0 | (195) | 0 | (195) |
| **Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd** | | **(3,462)** | **(2,105)** | **(5,567)** | **(655)** | **(6,222)** |

| Cronfa | Diben y Gronfa Wrth Gefn | Balans 1 Ebrill 2021<br><br>£'000 | Trosglwydd-iadau (i mewn/) / allan 2021/22<br><br>£'000 | Balans 31 Mawrth 2022<br><br>£'000 | Trosglwydd-iadau (i mewn/) / allan 2022/23<br><br>£'000 | Balans 31 Mawrth 2023<br><br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd** | | **(3,462)** | **(2,105)** | **(5,567)** | **(655)** | **(6,222)** |
| Cronfa Gyffredinol | Ar gael at ddibenion cyffredinol ac i ddarparu gwytnwch gweithredol | (1,450) | (70) | (1,520) | 40 | (1,480) |
| Cronfa Derbyniadau Cyfalaf | Yn dal derbyniadau o werthu asedau, ar gael i ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol | 0 | 0 | 0 | (34) | (34) |
| Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso | Yn dal y grantiau a'r cyfraniadau a dderbyniwyd tuag at brosiectau cyfalaf y mae'r Awdurdod wedi cwrdd â'r amodau ar eu cyfer ac a fyddai fel arall yn gofyn am ad-dalu'r arian, ond nad ydynt wedi'u cymhwyso eto i dalu am wariant. | 0 | (238) | (238) | 153 | (85) |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy** | | **(4,912)** | **(2,413)** | **(7,325)** | **(496)** | **(7,821)** |

## 10 INCWM A GWARIANT ARIANNU A BUDDSODDI

| 2021/22<br>£'000 | | 2022/23<br>£'000 |
|---|---|---|
| 305 | Llog sy'n daladwy a thaliadau tebyg a godir | 464 |
| (2) | Llog a dderbynnir ac incwm tebyg | (61) |
| 6,780 | Llog Net ar rwymedigaeth buddiannau diffiniedig net | 8,666 |
| **7,083** | **Cyfanswm** | **9,069** |

## 11 TRETHIANT AC INCWM GRANT AMHENODOL

| 2021/22<br>£'000 | | 2022/23<br>£'000 |
|---|---|---|
| 6,230 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 6,631 |
| 3,690 | Cyngor Sir Ynys Môn | 3,916 |
| 6,597 | Cyngor Gwynedd | 7,018 |
| 5,060 | Cyngor Sir Ddinbych | 5,381 |
| 8,282 | Cyngor Sir y Fflint | 8,814 |
| 7,215 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 7,652 |
| **37,074** | **Cyfraniadau gan Awdurdodau Cyfansoddol** | **39,412** |
| 0 | Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau | 252 |
| **37,074** | **Cyfanswm Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol** | **39,664** |

## 12 EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER AC ASEDAU ANNIRIAETHOL

### Symudiadau ar Falansau

| 2022-2023 | Tir ac Adeiladau £'000 | Cerbydau ac Offer £'000 | Asedau Wrthi'n cael eu Hadeiladu £'000 | Eiddo, Peiriannau ac Offer Cyfanswm £'000 | Asedau Anniriaethol Cyfanswm £'000 | Asedau a Gedwir i'w Gwerthu Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwerth Llyfr Gros ar 1 Ebrill 2022** | **34,836** | **22,250** | **1,027** | **58,113** | **672** | **0** |
| Ailgategoreiddio asedau | 0 | 1,027 | (1,027) | 0 | 0 | 0 |
| Ychwanegiadau | 696 | 2,461 | 85 | 3,242 | 125 | 0 |
| Cynnydd / (gostyngiad) ailbrisio a gydnabuwyd yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn | 9,173 | 0 | 0 | 9,173 | 0 | 0 |
| Cynnydd / (gostyngiad) ailbrisio a gydnabuwyd yn y Gwarged / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | 2,584 | 0 | 0 | 2,584 | 0 | 0 |
| Dadgydnabyddiaeth - Gwarediadau | 0 | (1,004) | 0 | (1,004) | 0 | 0 |
| Dadgydnabyddiaeth - Arall | 0 | (13) | 0 | (13) | (366) | 0 |
| **Gwerth Llyfr Gros ar 1 Mawrth 2023** | **47,289** | **24,721** | **85** | **72,095** | **431** | **0** |
| **Dibrisiant Cronedig & Amhariad** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 0 | (14,948) | 0 | (14,948) | (446) | 0 |
| Dibrisiant ac Amorteiddiad a godir | (663) | (1,297) | 0 | (1,960) | (129) | 0 |
| Dibrisiant wedi'i ysgrifennu o'r Gronfa Ailbrisio | 659 | 0 | 0 | 659 | 0 | 0 |
| Dadgydnabyddiaeth - Gwarediadau | 0 | 982 | 0 | 982 | 0 | 0 |
| Dadgydnabyddiaeth - Arall | 0 | 13 | 0 | 13 | 366 | 0 |
| **Dibrisiant Cronedig ar 31 Mawrth 2023** | **(4)** | **(15,250)** | **0** | **(15,254)** | **(209)** | **0** |
| **GWERTH LLYFR NET AR 1 MAWRTH 2023** | **47,285** | **9,471** | **85** | **56,841** | **222** | **0** |
| **GWERTH LLYFR NET AR 1 MAWRTH 2022** | **34,836** | **7,302** | **1,027** | **43,165** | **226** | **0** |

| 2021/2022 | Tir ac Adeiladau<br><br>£’000 | Cerbydau ac Offer<br><br>£’000 | Asedau Wrthi'n cael eu Hadeiladu<br><br>£’000 | Eiddo, Peiriannau ac Offer Cyfanswm<br>£’000 | Asedau Anniriaethol<br>Cyfanswm<br>£’000 | Asedau a Gedwir i'w Gwerthu Cyfanswm<br>£’000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwerth Llyfr Gros ar 1 Ebrill 2021** | **31,625** | **22,770** | **198** | **54,593** | **1,221** | **0** |
| Ailgategoreiddio asedau | 0 | 198 | (198) | 0 | | 0 |
| Addasiad Blwyddyn Flaenorol wedi'i gydnabod drwy’r Gronfa Ailbrisio (Prisio Gweithdy Llandudno) | (1,009) | | | (1,009) | | |
| Addasiad Blwyddyn Flaenorol wedi'i gydnabod drwy Gyfrif Addasu Cyfalaf (Prisio Gweithdy Llandudno) | (65) | 0 | 0 | (65) | 0 | 0 |
| Ychwanegiadau | | 148 | 1,027 | 1,175 | | |
| Dadgydnabyddiaeth - Gwarediadau | 0 | (65) | 0 | (65) | 0 | 0 |
| Dadgydnabyddiaeth - Arall | 0 | (801) | | (801) | (549) | 0 |
| Cynnydd / (gostyngiad) ailbrisio a gydnabuwyd yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn | 3,048 | 0 | 0 | 3,048 | 0 | 0 |
| Cynnydd / (gostyngiad) ailbrisio a gydnabuwyd yn y Gwarged / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | 1,237 | 0 | 0 | 1,237 | 0 | 0 |
| **Gwerth Llyfr Gros ar 1 Mawrth 2022** | **34,836** | **22,250** | **1,027** | **58,113** | **672** | **0** |
| **Dibrisiant Cronedig & Amhariad** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | (605) | (14,451) | 0 | (15,056) | (744) | 0 |
| Dibrisiant Addasiad Blwyddyn Flaenorol wedi'i gydnabod drwy’r Gronfa Ailbrisio (Prisio Gweithdy Llandudno) | 29 | 0 | 0 | 29 | 0 | 0 |
| Dibrisiant Addasiad Blwyddyn Flaenorol wedi'i gydnabod drwy Gyfrif Addasu Cyfalaf (Prisio Gweithdy Llandudno) | 1 | | | 1 | | |
| Dibrisiant wedi'i ysgrifennu o'r Gronfa Ailbrisio | 184 | 0 | 0 | 184 | 0 | 0 |
| Dibrisiant wedi'i ysgrifennu at y Gwarged / Diffyg ar Ddarparu Gwansanaethau | 967 | 0 | 0 | 967 | 0 | 0 |
| Dibrisiant ac Amorteiddiad a godir | (576) | (1,363) | | (1,939) | (251) | 0 |
| Dadgydnabyddiaeth - Gwarediadau | 0 | 65 | | 65 | 0 | |
| Dadgydnabyddiaeth - Arall | 0 | 801 | 0 | 801 | 549 | 0 |
| **Dibrisiant Cronedig ar 31 Mawrth 2022** | **0** | **(14,948)** | **0** | **(14,948)** | **(446)** | **0** |
| **GWERTH LLYFR NET AR 1 MAWRTH 2022** | **34,836** | **7,302** | **1,027** | **43,165** | **226** | **0** |
| **GWERTH LLYFR NET AR 1 MAWRTH 2021** | **31,020** | **8,319** | **198** | **39,537** | **477** | **0** |

**Dibrisiad**
Mae’r dibrisio'n seiliedig ar y Dull Beacon, sef pan wneir amcangyfrif o gydrannau'r adeilad ac oes ddefnyddiol pob cydran.

Mae asedau eraill yn cael eu cydnabod ar y gost hanesyddol, sy'n brocsi ar gyfer y gost bresennol ar asedau ag oes fer ac yn cael ei ddibrisio dros eu hoes ddefnyddiol.

**Ailbrisiadau ac Amariadau**
Mae'r awdurdod yn sicrhau bod yr holl eiddo, peiriannau ac offer y mae'n ofynnol eu mesur ar eu gwerth cyfredol yn cael eu hailbrisio'n ddigon rheolaidd fel nad yw eu swm cario yn sylweddol wahanol i'w gwerth presennol ar ddiwedd y flwyddyn, ac o leiaf bob pum mlynedd. Cyflawnwyd yr holl brisiadau’n fewnol. Cynhaliwyd prisiadau tir ac adeiladau yn unol â'r methodolegau a'r sail ar gyfer amcangyfrif a nodir yn safonau proffesiynol Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig.

Cafodd ymarferiad ailbrisio eiddo llawn ei gynnal gan Wilks Head and Eve, ar 31 Mawrth 2023. Cafodd lle swyddfeydd a gweithdai ei brisio ar y gwerth defnydd presennol, a chafodd gorsafoedd eu prisio ar gost amnewid dibrisiedig. Er mwyn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer, fe wnaeth y prisiwr amcangyfrif oes weddilliol ar gyfer holl adeiladau'r Awdurdod.

Mae prisiadau cerbydau, peiriannau ac offer yn seiliedig ar brisiau cyfredol lle mae marchnad ail-law weithredol neu'r prisiau rhestr diweddaraf wedi'u haddasu yn ôl cyflwr yr ased.

**YMRWYMIADAU CYFALAF**

Mae'r Awdurdod wedi ymrwyo i wariant cyfalaf mewn cyfnodau yn y dyfodol sy'n deillio o gontractau a oedd yn bodoli ar ddyddiad y Fantolen. Mae'r gwariant cyfalaf yr ymrwymwyd iddo ar 31 Mawrth 2023 ar gyfer cyfnodau yn y dyfodol yn cyfateb i £ 882k (2021/22: £2,251k). Mae'r ymrwymiadau'n ymwneud â'r canlynol:

| **Disgrifiad** | **£’000** |
|---|---:|
| Gwaith Adeiladu | 789 |
| Offer | 12 |
| Cerbydau | 141 |
| **Cyfanswm** | **942** |

**ASEDAU DROS BEN (Eiddo, peiriannau ac offer nad ydynt yn weithredol**)

Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw asedau perthnasol dros ben.

## 13 OFFERYNNAU ARIANNOL

### Categorïau Offerynnau Ariannol

Mae'r categorïau canlynol o offerynnau ariannol yn cael eu cario yn y Fantolen:

| | Heb fod yn gyfredol | | Cyfredol | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2022 £'000 | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2022 £'000 | 31 Mawrth 2023 £'000 |
| **Asedau Ariannol ar Gost** | | | | |
| Arian parod a Chyfwerth ag arian parod | 0 | 0 | 2,532 | 4,177 |
| Dyledwyr | 33 | 33 | 3,732 | 5,041 |
| **Rhwymedigaeth Ariannol ar Gost Amorteiddiedig**: | | | | |
| Llog Cronedig | 0 | 0 | (89) | (194) |
| Benthyciadau | (10,761) | (17,787) | (13,674) | (8,674) |
| Cyfanswm Benthyciadau | (10,761) | (17,787) | (13,763) | (8,868) |
| Credydwyr | 0 | 0 | (3,047) | (4,287) |

### Offerynnau Ariannol Enillion/Colledion

Mae'r enillion a'r colledion a gydnabuwyd yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant mewn perthynas ag offerynnau ariannol yn cynnwys yr eitemau canlynol:

| | 2021/22 | | 2022/23 | |
|---|---|---|---|---|
| | Ymrwymiadau Ariannol<br>Mesur ar gost amorteiddiedig<br>£'000 | Asedau Ariannol<br>Benthyciadau a derbyniadau<br>£'000 | Ymrwymiadau Ariannol<br>Mesur ar gost amorteiddiedig<br>£'000 | Asedau Ariannol<br>Benthyciadau a derbyniadau<br>£'000 |
| Gwariant llog | 305 | | 464 | |
| **Cyfanswm y gwariant yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | **305** | | **464** | |
| Incwm llog | | (2) | | (61) |
| **Cyfanswm yr incwm yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | | **(2)** | | **(61)** |
| **Enillion net/(colledion) am y flwyddyn** | **305** | **(2)** | **464** | **(61)** |

## Gwerth Teg Asedau ac Ymrwymiadau sy'n cael eu Cario ar Gost Amorteiddiedig

Mae'r ymrwymiadau ariannol a'r asedau ariannol a gynrychiolir gan fenthyciadau a derbyniadau yn cael eu cario ar y Fantolen ar gost amorteiddiedig (mewn asedau/ymrwymiadau tymor hir gyda llog cronedig mewn asedau/ymrwymiadau cyfredol). Gellir asesu eu gwerth teg trwy gyfrifo gwerth presennol y llif arian sy'n digwydd dros weddill oes yr offerynnau, gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

- O ran benthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus a benthyciadau eraill sy'n daladwy, mae benthyciadau gan y Bwrdd wedi cael eu defnyddio i ddarparu gwerth teg dan weithdrefnau ad-dalu dyledion y Bwrdd;
- O ran benthyciadau a dderbynnir, defnyddiwyd y cyfraddau farchnad meincnod cyffredinol i ddarparu'r gwerth teg;
- Ni chydnabyddir ad-daliad cynnar nac amhariad;
- Pan fo offeryn yn aeddfedu ymhen llai na 12 mis, neu pan fo'n swm masnach neu'n swm derbyniadwy arall, cymerir mai'r gwerth teg yw'r swm sy'n cario neu'r swm ar yr anfoneb;
- Cymerir mai gwerth teg swm masnach neu swm derbyniadwy arall yw'r swm ar yr anfoneb neu'r infois.

Dyma'r gwerthoedd teg a gyfrifir:

| | 31-Mar-22 | | 31-Mar-23 | |
|---|---|---|---|---|
| | Swm cario £'000 | Gwerth teg £'000 | Swm cario £'000 | Gwerth teg £'000 |
| Dyled y BBGC | (15,425) | (16,175) | (20,460) | (18,630) |
| Dyled nad yw'r BBGC | (9,000) | (9,000) | (6,000) | (6,000) |
| **Cyfanswm Dyledion** | **(24,425)** | **(25,175)** | **(26,460)** | **(24,630)** |

Mae'r gwerth teg wedi ei gyfrifo gan gyfeirio'n benodol at ddyfynbrisiau a gyhoeddwyd mewn marchnad weithredol. Yn achos yr Awdurdod Tân ac Achub, maent yn seiliedig ar bremiymau a fyddai'n daladwy pe ildiwyd benthyciadau'r BBGC ac maent yn darparu rhagamcan o'r llog ychwanegol sy'n daladwy i'w gymharu â'r un benthyciad ar gyfraddau cyfredol y farchnad â disgownt yn ôl i'r cyfnod presennol.

## 14 RHESTRAU STOC

| | Prif Storfeydd | | Stoc Fflyd | | Cyfansymiau | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2021/22 £'000 | 2022/23 £'000 | 2021/22 £'000 | 2022/23 £'000 | 2021/22 £'000 | 2022/23 £'000 |
| Balans ar ddechrau'r flwyddyn | 419 | 420 | 147 | 181 | 566 | 601 |
| Pryniadau | 99 | 101 | 220 | 203 | 319 | 304 |
| Dileuadau | 0 | (15) | 0 | (1) | 0 | (16) |
| Cydnabyddir fel Gwariant yn y flwyddyn | (98) | (55) | (186) | (196) | (284) | (251) |
| **Balans sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn** | **420** | **451** | **181** | **187** | **601** | **638** |

## 15 DYLEDWYR

| 2021/22 £'000 | | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| | **Tymor Hir** | |
| 33 | Rhagdaliadau | 33 |
| **33** | **Cyfanswm Tymor Hir** | **33** |
| | **Tymor Byr** | |
| 384 | Symiau Derbyniadwy Eraill | 372 |
| 2,511 | Symiau Masnach Derbyniadwy | 3,692 |
| 837 | Rhagdaliadau | 977 |
| **3,732** | **Cyfanswm Tymor Byr** | **5,041** |
| **3,765** | **Cyfanswm Dyledwyr Tymor Hir a Thymor Byr** | **5,074** |

## 16 ARIAN PAROD A CHYFWERTH AG ARIAN PAROD

| 31-Mar-22 £'000 | | 31-Mar-23 £'000 |
|---|---|---|
| 2,522 | Balansau Arian Parod a Balansau Banc | 4,167 |
| 0 | Adneuon Tymor Byr | 0 |
| 10 | Imprest Arian Mân | 10 |
| **2,532** | **Cyfanswm** | **4,177** |

## 17 CREDYDWYR

| 2021/22 £'000 | | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| (1,195) | Symiau Taladwy Eraill | (811) |
| (1,852) | Symiau Masnach Taladwy | (3,476) |
| **(3,047)** | **Cyfanswm** | **(4,287)** |

## 18 DARPARIAETHAU

Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan yr Awdurdod ddarpariaethau yn werth £273k yn ymwneud ag ymrwymiadau tuag at weithwyr cyflogedig. Defnyddir y ddarpariaeth hon yn erbyn gwariant refeniw, pan fydd yn digwydd:

| | Balans Agoriadol £'000 | Symudiadau I Mewn £'000 | Symudiadau Allan £'000 | Balans Terfynol £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Darpariaethau Tymor Byr | (602) | (166) | 495 | (273) |
| Darpariaethau Tymor Hir | (135) | 0 | 135 | 0 |
| **Cyfanswm** | **(737)** | **(166)** | **630** | **(273)** |

## 19 CRONFEYDD WRTH GEFN NA ELLIR EU DEFNYDDIO

| 31-Mar-22 £'000 | | 31-Mar-23 £'000 |
|---|---|---|
| (8,550) | Cronfa Ailbrisio | (18,175) |
| (6,444) | Cyfrif Addasu Cyfalaf | (10,013) |
| 327,498 | Cronfa Pensiynau | 227,143 |
| 338 | Cyfrif Absenoldebau Cronedig | 272 |
| **312,842** | **Cyfanswm** | **199,227** |

### 19a Cronfa Ailbrisio

Mae'r Gronfa Ailbrisio yn cynnwys yr enillion a wnaed gan yr Awdurdod sy'n deillio o gynnydd yng ngwerth ei Eiddo, ei Beiriannau a'i Offer.

Bydd y balans yn cael ei ostwng pan fo asedau gydag enillion cronedig yn:

- cael eu hailbrisio am i lawr, neu'n cael eu hamharu a'r enillion yn cael eu colli;
- cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, a'r enillion yn cael eu treulio trwy ddibrisiad, neu'n cael eu gwaredu, a'r enillion yn cael eu gwireddu.

Nid yw'r Gronfa ond yn cynnwys enillion cronedig ers 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad y crewyd y Gronfa. Mae enillion cronedig sy'n deillio cyn y dyddiad hwnnw yn cael eu cyfuno yn y balans ar y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

| 2021/22 £'000 | | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| **(6,719)** | **Balans ar 1 Ebrill** | **(8,550)** |
| (3,231) | Ailbrisio asedau am i fyny | (9,832) |
| 0 | Ailbrisio asedau a cholledion amhariad i lawr nas codir ar y gwarged/diffyg wrth ddarparu gwasanaethau | 0 |
| 980 | Addasiad Blwyddyn Flaenorol | 0 |
| 331 | Addasiad o'r Cyfrif Addasu Cyfalaf | 57 |
| 89 | Gwahaniaeth rhwng dibrisiad gwerth teg a dibrisiad cost hanesyddol | 150 |
| **(8,550)** | **Balans ar 31 Mawrth** | **(18,175)** |

**19b Cyfrif Addasu Cyfalaf**

Mae'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sydd rhwng y trefniadau gwahanol ar gyfer rhoi cyfrif am dreuliant asedau anghyfredol ac ar gyfer ariannu caffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny dan y darpariaethau statudol.

Debydir y Cyfrif gyda chost caffael, adeiladu neu wella gan fod dibrisiad, colled amhariad ac amorteiddiad yn cael eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gyda chofnodion cyson o'r Gronfa Ailbrisio i drosi ffigyrau gwerth teg yn sail cost hanesyddol). Credydir y Cyfrif gyda'r symiau a neilltuwyd gan yr Awdurdod fel arian ar gyfer costau caffael, adeiladu a gwella. Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronedig ar Eiddo Buddsoddi, ac enillion a gydnabuwyd ar asedau rhoddedig sydd eto i gael eu defnyddio gan yr Awdurdod.

Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion prisio a gronnwyd ar Eiddo, Peiriannau ac Offer cyn 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad y crewyd y Gronfa Ailbrisio ar gyfer dal enillion o'r fath.

| 2021/22 £'000 | | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| **(3,908)** | **Balans ar 1 Ebrill** | **(6,444)** |
| 2,101 | Taliadau am ddibrisiad ac amhariad asedau anghyfredol | 2,089 |
| (15) | Swm yr ased anghyfredol wedi'i ddileu wrth waredu neu werthu | 23 |
| 64 | Addasiad Blwyddyn Flaenorol trwy'r DIGC | 0 |
| 0 | Addasiad Blwyddyn Flaenorol - trosglwyddo rhwng CAC ac CA | (57) |
| (2,206) | Addasiad sy'n ymwneud ag ailbrisio asedau | (2,584) |
| (331) | Addasu symiau a ddilëwyd o'r Gronfa Ailbrisio | (150) |
| **(387)** | **Swm net a ddilëwyd o gost yr asedau anghyfredol a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn** | **(679)** |
| (148) | Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a ddefnyddiwyd ar gyfer ariannu cyfalaf | (216) |
| 0 | Gwariant cyfalaf a godir yn erbyn y Gronfa Gyffredinol/ Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi | (525) |
| 0 | Defnydd o grantiau i ariannu cyfalaf o'r cyfrif grantiau cyfalaf nas defnyddiwyd | (189) |
| (2,001) | Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf a godwyd yn erbyn y Gronfa Gyffredinol | (1,960) |
| **(2,149)** | **Ariannu Cyfalaf a Ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn** | **(2,890)** |
| **(6,444)** | **Balans ar 31 Mawrth** | **(10,013)** |

### 19c Cronfa Pensiynau

Mae'r gronfa pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n digwydd oherwydd y trefniadau gwahanol ar gyfer cyfrifyddu buddion ôl-gyflogi a buddion ariannu yn unol â'r darpariaethau statudol. Mae'r Awdurdod yn rhoi cyfrif am fuddion ôl-gyflogi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gan fod y buddion yn cael eu hennill gan weithwyr sy'n cronni blynyddoedd o wasanaeth, gan ddiweddaru'r ymrwymiadau a gydnabyddir i adlfewyrchu chwyddiant, newid rhagdybiaethau ac adenillion buddsoddiadau ar unrhyw adnoddau a neilltuir i gwrdd â'r costau. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw fuddion a enillir gael eu hariannu gan fod yr awdurdod yn gwneud cyfraniadau cyflogwr i'r cronfeydd pensiwn neu yn y pen draw yn talu unrhyw bensiynau y mae'n gyfrifol amdanynt yn uniongyrchol. Felly mae'r balans debyd ar y gronfa pensiynau yn dangos diffyg sylweddol yn y buddion a enillwyd gan weithwyr blaenorol a chyfredol a'r adnoddau y mae'r Awdurdod wedi eu neilltuo ar eu cyfer. Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau y bydd cyllid wedi'i neilltuo erbyn adeg talu'r buddion.

| 2021/22<br>£'000 | | 2022/23<br>£'000 |
|---:|---|---:|
| **337,323** | **Balans Agoriadol ar 1 Ebrill** | **327,498** |
| (22,167) | Ailfesur yr ymrwymiad budd diffiniedig net | (109,388) |
| 21,172 | Gwrthdroi eitemau yn berthnasol i fuddion ymddeoliad wedi'u debydu i'r Darpariaeth Gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 18,419 |
| (8,830) | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn | (9,386) |
| **(9,825)** | **Symudiad ar y Gronfa Pensiynau** | **(100,355)** |
| **327,498** | **Balans ar 31 Mawrth** | **227,143** |

### 19d Cyfrif Absenoldebau Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau a fyddai fel arall yn digwydd ar falans y Gronfa Cyffredinol o ganlyniad i absenoldebau digolledol a enillwyd ond chymerwyd yn y flwyddyn e.e hawl i wyliau blynyddol wedi ei gario drosodd ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn mynnu bod yr effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei niwtraleiddio trwy drosglwyddo i mewn neu allan o'r Cyfrif.

| 2021/22<br>£'000 | | 2022/23<br>£'000 |
|---:|---|---:|
| **326** | **Balans ar 1 Ebrill** | **338** |
| (326) | Setlo neu ganslo croniad a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol | (338) |
| 338 | Symiau a gronnwyd ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol | 272 |
| **338** | **Balans ar 31 Mawrth** | **272** |

## 20 DATGANIAD LLIF ARIAN - GWEITHGAREDDAU GWEITHREDU

| 2021/22 £'000 | | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| **7,736** | **(Gwarged)/Diffyg Net wrth Ddarparu Gwasanaethau** | **5,109** |
| | **Addasiadau i (warged)/diffyg net ar gyfer symudiadau anariannol** | |
| 35 | Cynnydd/(Gostyngiad) yn y Stoc | 38 |
| 742 | Cynnydd/(Gostyngiad) yn y Dyledwyr | 1,310 |
| 101 | Cynnydd/(Gostyngiad) yn y Credydwyr | (1,240) |
| (2,100) | Cost Dibrisio | (2,089) |
| 148 | Cyfraniadau a Dderbyniwyd/Derbyniadau Cyfalaf | 34 |
| (12,342) | Addasiadau Pensiwn IAS 19 | (9,033) |
| 2,142 | Codi am Amhariad/Ailbrisio Asedau | 2,584 |
| 0 | Swm cario Asedau Anghyfredol wedi'u gwerthu neu eu dadadnabod | (23) |
| (151) | Cyfraniad (i)/o Wahanol Ddarpariaethau | 464 |
| 0 | Eitemau anariannol eraill sydd wedi eu costio i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau | 0 |
| (12) | Cronfa wrth gefn Absenoldebau Cronedig | 66 |
| **(11,437)** | **Llai Cyfanswm** | **(7,889)** |
| | **Addasiadau am eitemau sydd yn y (Gwarged) neu'r Diffyg net ar Ddarparu Gwasanaethau sy'n Weithgareddau Buddsoddi ac Ariannu** | |
| (305) | Llog a dalwyd | (465) |
| 2 | Llog a gafwyd | 61 |
| **(303)** | | **(404)** |
| **(4,004)** | **Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredol** | **(3,184)** |

## 21 DATGANIAD LLIF ARIAN - GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI

| 2021/22 £'000 | | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| 1,176 | Prynu eiddo, peiriannau ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | 3,367 |
| (15) | Enillion o werthu eiddo, peiriannau ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | (11) |
| (148) | Derbyniadau eraill o weithgareddau buddsoddi | 0 |
| **1,013** | **Llifau arian net o weithgareddau buddsoddi** | **3,356** |

## 22 DATGANIAD LLIF ARIAN - GWEITHGAREDDAU ARIANNU

| 2021/22 £'000 | | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| (10,767) | Derbyniadau arian parod o fenthyca tymor byr a thymor hir | (13,000) |
| 12,451 | Ad-dalu benthyca tymor byr a thymor hir | 10,780 |
| 303 | Taliadau eraill am weithgareddau ariannu | 404 |
| **1,987** | **Llif arian net o weithgareddau ariannu** | **(1,816)** |

## 23 LWFANSAU AELODAU

Talodd yr Awdurdod y symiau canlynol i aelodau etholedig yn ystod y flwyddyn:

| 2021/22<br>£ | | 2022/23<br>£ |
|---:|---|---:|
| 72,997 | Cyflogau | 74,215 |
| 96 | Treuliau | 1,226 |
| **73,093** | **Cyfanswm** | **75,441** |

Sylwer bod ffigurau 2021/22 wedi'u hailddatgan i ddatgelu'r treuliau hynny a dalwyd i Aelodau'r Awdurdod yn unig, a oedd yn flaenorol yn cynnwys treuliau yn ymwneud ag Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau.

## 24 TALIADAU SWYDDOGION

Mae'r taliadau a delir i uwch weithwyr yr Awdurdod fel a ganlyn:

| Teitl Swydd | Blwyddyn | Cyflog (gan gynnwys Ffioedd a Lwfansau) £ | Treuliau a ad-dalwyd £ | Budd mewn Nwyddau £ | Cyfanswm (Ac Eithrio Cyfraniadau Pensiwn) £ | Cyfraniadau Pensiwn £ | Cyfanswm y Taliadau £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif Swyddog Tân (wedi cychwyn Gorffennaf 2021) | 2021/22 | 101,763 | 0 | 0 | 101,763 | 17,300 | 119,063 |
| | **2022/23** | **138,685** | **57** | **0** | **138,742** | **23,576** | **162,318** |
| Prif Swyddog Tân (wedi ymddeol Mehefin 2021) | 2021/22 | 33,669 | 32 | 0 | 33,700 | 5,724 | 39,424 |
| | **2022/23** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| Dirprwy Brif Swyddog Tân (wedi cychwyn Chwefror 2022) | 2021/22 | 12,820 | 978 | 0 | 13,798 | 3,500 | 17,298 |
| | **2022/23** | **110,948** | **5,565** | **1,380** | **117,893** | **30,289** | **148,182** |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol | 2021/22 | 100,365 | 126 | 0 | 100,491 | 27,400 | 127,891 |
| | **2022/23** | **105,795** | **126** | **1,896** | **107,817** | **28,882** | **136,699** |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol | 2021/22 | 99,428 | 0 | 0 | 99,428 | 16,903 | 116,331 |
| | **2022/23** | **104,014** | **0** | **0** | **104,014** | **17,682** | **121,696** |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol | 2021/22 | 95,547 | 24 | 0 | 95,571 | 23,976 | 119,547 |
| | **2022/23** | **104,014** | **0** | **1,595** | **105,609** | **28,396** | **134,005** |
| Prif Swyddog Cynorthwyol (Wedi gadael 28 Chwefror 2023) | 2021/22 | 71,931 | 126 | 8,789 | 80,846 | 12,228 | 93,074 |
| | **2022/23** | **76,233** | **116** | **5,194** | **81,543** | **12,960** | **94,503** |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Dros Dro (wedi ymddeol Ionawr 2021) | 2021/22 | 109 | 0 | 0 | 109 | 0 | 109 |
| | **2022/23** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| Trysorydd - Swyddog Adran 151 (15 diwrnod y flwyddyn) (wedi ymddeol Rhagfyr 2021) | 2021/22 | 5,859 | 0 | 0 | 5,859 | 0 | 5,859 |
| | **2022/23** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| Trysorydd - Swyddog Adran 151 (wedi cychwyn Ebrill 2022) | 2021/22 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | **2022/23** | **8,020** | **251** | **0** | **8,271** | **0** | **8,271** |

Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw weithwyr sy'n cael cyflog uwch na £150k. Mae'r Swyddog. Monitro yn cael ei ddarparu gan Gyngor Sir y Fflint fel rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth felly ni ddangosir unrhyw gostau unigolyn yn y tabl uchod. Ceir rhagor o wybodaeth ar gostau'r Swyddog Monitro yn Nodyn 29 - Partion Cysylltiedig.

Talwyd y symiau canlynol i gyflogeion eraill yr awdurdod a oedd yn cael cydnabyddiaeth o fwy na £60,000 ar gyfer y flwyddyn (heb gynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr):

| BAND TALIAD | 2021/22 NIFER Y GWEITHWYR CYFLOGEDIG | 2022/23 NIFER Y GWEITHWYR CYFLOGEDIG |
|---|---|---|
| £60,000 - £64,999 | 6 | 9 |
| £65,000 - £69,999 | 0 | 7 |
| £70,000 - £74,999 | 2 | 0 |
| £75,000 - £79,999 | 0 | 4 |
| £80,000 - £84,999 | 2 | 0 |

Mae'r tabl canlynol yn rhoi'r gymhareb rhwng tâl y Prif Swyddog Tân a thál canolrifol staff y Gwasanaeth Tân ac Achub:

| 2021/22 £ | | 2022/23 £ |
|---|---|---|
| 134,940 | Prif Swyddog Tân | 138,685 |
| 32,244 | Canolrif | 34,501 |
| 4.18 | Cymhareb | 4.02 |

Mae'r staff sy'n cael eu cyflogi dan Gontractau'r System RDS wedi eu cynnwys yn y cyfrifiad ar eu pwynt graddfa Cyfwerth â Llawn Amser yn hytrach na'u henillion gwirioneddol. Mae'r data uchod yn cynnwys cyfanswm y cyflog a dalwyd (ac eithrio cyfraniadau pensiwn).

Nodir nifer y pecynnau ymadael gyda chyfanswm y gost am bob band a chyfanswm cost y diswyddiadau gorfodol a diswyddiadau eraill yn y tabl isod:

| Band Cost Pecyn Ymadael | Nifer y Diswyddiadau Gorfodol | | Nifer yr Ymadawiadau Eraill y Cytunwyd Arnynt | | Cyfanswm Nifer y Pecynnau Ymadael | | Cyfanswm Cost y Pecynnau Ymadael | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2021/22 | 2022/23 | 2021/22 | 2022/23 | 2021/22 | 2022/23 | 2021/22 | 2022/23 |
| £0-£20,000 | 0 | 0 | 2 | 0 | 2 | 0 | 28 | 0 |
| £20,000 - £40,000 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 28 | 0 |
| £40,000 - £60,000 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 48 | 0 |
| **Cyfanswm** | **0** | **0** | **4** | **0** | **4** | **0** | **104** | **0** |

## 25 COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

| 2021/22<br>£'000 | | 2022/23<br>£'000 |
|---|---|---|
| | Ffioedd sy'n daladwy i Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â gwasanaethau archwilio allanol a gynhelir gan yr archwilydd penodedig | |
| 54 | Gwaith archwilio ariannol | 56 |
| 17 | Gwaith Archwilio Perfformiad | 16 |
| **71** | **Cyfanswm** | **72** |

## 26 GRANTIAU

| 2021/22<br>£'000 | | 2022/23<br>£'000 |
|---|---|---|
| | **Credydwyd i Wasanaethau** | |
| 416 | Ffioedd Gwasanaeth Firelink | 416 |
| 157 | Lleihau Tanau Bwriadol | 179 |
| 213 | Offer Diogelwch yn y Cartref | 226 |
| 10 | Gofyn a Gweithredu | 10 |
| 233 | Cydnerthedd Cenedlaethol Cymru Gyfan | 314 |
| 160 | Ymgysylltu â Phobl Ifanc ac Ieuenctid | 147 |
| 1,089 | Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Costau Cyfraniadau Cyflogwr | 1,081 |
| 210 | Uwchraddio Rhwydwaith Gwasanaethau Brys | 0 |
| 0 | Arolwg Gwresogi | 2 |
| 0 | Rheoli Digwyddiadau Gwybodaeth Diogelwch | 10 |
| **2,488** | **CYFANSWM** | **2,385** |
| | **Credydwyd i drethiant ac incwm a gwariant amhenodol** | |
| 238 | Uwchraddio Cyfleusterau Hyfforddi | 0 |
| 0 | Cydnerthedd Cenedlaethol Cymru Gyfan | 133 |
| 0 | Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan | 120 |
| **238** | **CYFANSWM** | **253** |

## 27 GWASANAETHAU ASIANTAETH

Mae'r Awdurdod yn gweithredu fel asiant ar ran Llywodraeth Cymru wrth weinyddu dau gynllun grant ar gyfer yr holl Wasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru. Mae'r grantiau cymeradwy yn cael eu talu i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru sydd wedyn yn gyfrifol am ddosbarthu'r grantiau i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Mae'r Awdurdod yn gweithredu fel asiant ar gyfer y Fforwm Cadernid Lleol. Mae hon yn bartneriaeth amlasiantaeth sy'n cynnwys cynrychiolwyr o wasanaethau cyhoeddus lleol, gan gynnwys y gwasanaethau brys, awdurdodau lleol, y GIG, Asiantaeth yr Amgylchedd ac eraill. Mae cyfraniadau gan y cyrff cyhoeddus amrywiol yn cael eu talu i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Defnyddir y cyllid hwn i dalu am wariant y Fforwm. Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan yr Awdurdod gyllid o £86k yn ymwneud â'r Fforwm.

| 2021/22 £'000 | | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| 2,766 | Cydnerthedd Cenedlaethol Cymru Gyfan | 2,545 |
| 208 | Ymgysylltu â Phlant ac Ieuenctid | 247 |
| 119 | Fforwm Cydnerthedd Lleol | 129 |
| **3,093** | **Cyfanswm** | **2,921** |

## 28 PARTION CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu trafodion o bwys gyda phartion cysylltiedig – cyrff neu unigolion a allai reoli neu ddylanwadu ar yr Awdurdod neu gael eu rheoli neu eu dylanwadu gan yr Awdurdod. Mae datgelu'r trafodion hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu i ba raddau y gallai'r Awdurdod fod wedi cael ei gyfyngu yn ei allu i weithredu'n annibynnol neu fod wedi sicrhau'r gallu i gyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhwydd â'r awdurdod.

### Llywodraeth Cymru

Mae gan Lywodraeth Cymru gryn ddylanwad dros weithrediad cyffredinol yr Awdurdod – mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol y mae'r awdurdod yn gweithredu o'i fewn. Mae'n darparu'r rhan fwyaf o'i gyllid ar ffurf grantiau (caiff y Grant Cynnal Refeniw ei dalu i awdurdodau cyfansoddol) ac mae'n rhagnodi telerau llawer o'r trafodion sydd gan yr awdurdod â phartion eraill. Yn Nodyn 26, dangosir y derbyniadau grant a geir yn uniongyrchol, ac yn Nodyn 11 dangosir cyfraniadau'r awdurdodau cyfansoddol.

### Aelodau

Mae gan aelodau'r awdurdod reolaeth uniongyrchol dros bolisiau ariannol a gweithredol yr awdurdod. Yn Nodyn 23 gwelir cyfanswm lwfansau'r aelodau a dalwyd yn 2022/23.

Mae'r holl Aelodau wedi llenwi datganiad buddiannau gyda phartion cysylltiol am y flwyddyn 2022/23. Ac eithrio lwfanau a threuliau, ni nodwyd unrhyw drafodion eraill. Ni thalwyd dim gan yr Awdurdod yn ystod 2022/23, dan drefniadau o'r fath (2021/22: dim), ac nid oedd yr Awdurdod wedi derbyn unrhyw incwm yn ystod 2022/23 (2021/22: dim).

Mae rhestr o fuddiannau Aelodau Etholedig yn cael ei chadw gan y Swyddog Monitro ac mae ar gael i'w gweld ar y wefan - Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru - Awdurdod Tân ac Achub - Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (gov.wales)

### Uwch Swyddogion

Roedd yr Uwch Swyddogion wedi cwblhau datganiad buddiannau gyda phartion cysylltiol am y flwyddyn 2022/23. Yn Nodyn 24, dangosir cydnabyddiaeth ariannol yr Uwch Swyddogion.

Roedd un o'r Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol wedi datgan buddiant fel un o ymddiriedolwyr Pentre Peryglon. Mae'r elusen annibynnol yn rhedeg canolfan gweithgareddau addysg sydd wedi'i lleoli yng Ngogledd Cymru. Roedd taliadau gwerth £5,450 wedi cael eu gwneud i Bentre Peryglon yn 2022/23 fel rhan o gyllid grant Llywodraeth Cymru (2021/22: £5,700). Hefyd, darperir cyllid ar gyfer cost gweinyddwr, sy'n werth £29,287 (2021/22: £26,701).

Nid oedd yr Awdurdod wedi derbyn unrhyw incwm yn ystod 2021/22 a 2022/23.

**Cyrff Cyhoeddus Eraill**

Mae Cyngor Sir y Fflint yn darparu rôl Swyddog Monitro. Delir y swydd hon gan y Prif Swyddog (Llywodraethu)/Swyddog Monitro ac roedd taliadau yn £18k (2021/22: £17k).

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn darparu gwasanaethau archwilio mewnol a gwasanaethau cyfreithiol yr oedd taliadau ar eu cyfer yn £12k (2021/22: £12k). Ar 31 Mawrth 2023 roedd £12k yn rhagorol.

Ar 1 Ebrill 2022 trosglwyddwyd yr holl wasanaethau ariannol yn ôl yn fewnol, ond cytunwyd y byddai'r Cyngor yn cwblhau'r holl waith mewn perthynas â 2021/22, ac roedd hyn yn golygu costau o £64k (2021/22: £140k).

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, sy'n gweithredu ar ran Cronfa Bensiwn Dyfed, yn rheoli'r taliadau a wneir i ddiffoddwyr tân sy'n bensiynwyr ar ran yr Awdurdod. Maent hefyd yn gyfrifol am reoli cofnodion pensiynwyr presennol ac aelodau gweithredol y cynllun. Roedd y trafodion yn y flwyddyn yn £98k (2021/22: £59k). Ar 31 Mawrth 2023 roedd £98k yn parhau i fod yn rhagorol.

Mae trefniadau ar y cyd gyda Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn ogystal ag ystafell reoli a rennir. Cyfanswm cyfraniad yr Awdurdod tuag at reoli cyfleusterau oedd £219k (2021/22: £212k), ac ar gyfer cyngor caffael, talwyd £7k (2021/22: £7k). Ar 31 Mawrth 2023 arhosodd £55k yn rhagorol.

## 29 GWARIANT CYFALAF AC ARIANNU CYFALAF

Dangosir cyfanswm y gwariant cyfalaf yr aed iddo yn ystod y flwyddyn yn y tabl isod, (gan gynnwys gwerth asedau a gaffaelwyd dan brydlesi ariannu a chytundebau PFI), ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Lle y bwriedir ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol drwy daliadau a godir ar refeniw wrth i asedau gael eu defnyddio gan yr awdurdod, mae'r gwariant yn arwain at gynnydd yn y gofyniad ariannu cyfalaf, sef mesur o'r gwariant cyfalaf yr aed iddo'n hanesyddol gan yr awdurdod sydd eto i'w ariannu.

| 2021/22<br>£'000 | | 2022/23<br>£'000 |
|---:|---|---:|
| 29,389 | Gofyniad Ariannu Cyfalaf Agoriadol | 28,401 |
| | **Buddsoddiad Cyfalaf** | |
| 1,176 | Eiddo, Peiriannau ac Offer | 3,366 |
| | **Ffynonellau Cyllid** | |
| 0 | Grantiau a Chyfraniadau'r Llywodraeth | (406) |
| (2,164) | Symiau wedi'u neilltuo o refeniw | (1,959) |
| 0 | Cyfraniadau Refeniw Uniongyrchol | (525) |
| **28,401** | Gofyniad Ariannu Cyfalaf Terfynol | **28,877** |
| (988) | Cynnydd)/gostyngiad yn yr angen gwaelodol i fenthyca (heb gymorth ariannol gan y llywodraeth) | 476 |
| **(988)** | **Cynnydd / (gostyngiad) mewn Gofyniad Ariannu Cyfalaf** | **476** |

## 30 PRYDLESI

### Prydlesi Cyllid

Yn 2016/17 cafodd yr Awdurdod orsaf dân Wrecsam dan les cyllid. Mae'r ased a gafwyd dan y les yn cael ei chario ar y Fantolen dan Eiddo, Peiriannau ac Offer gyda gwerth net o £6,873k. Rhent rhad yw'r taliad les ar gyfer Gorsaf Dân Wrecsam, felly nid oes cysoniad rhwng cyfanswm y taliadau les gofynnol yn y dyfodol a'r gwerth presennol.

### Prydlesi Gweithredu

Mae'r Awdurdod wedi caffael cerbydau a chyfarpar drwy gael prydlesi gweithredu ag oes o bedair blynedd fel arfer.

Hefyd, mae'r Awdurdod yn prydlesu tri adeilad, â chyfnodau prydlesu o bum mlynedd fel arfer.

Dyma'r cyfnodau prydlesu isaf ar gyfer y dyfodol o dan brydlesi na ellir eu canslo yn y dyfodol:

| 2021/22 £'000 | | 2022/23 £'000 |
|---:|---|---:|
| 312 | Dim hwyrach na blwyddyn | 362 |
| 808 | Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na 5 mlynedd | 644 |
| 183 | Hwyrach na 5 mlynedd | 59 |
| **1,303** | **Cyfanswm** | **1,065** |

## 31 CYNLLUNIAU PENSIWN BUDDION DIFFINIEDIG

### Cymryd rhan mewn Cynlluniau Pensiwn

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r Awdurdod yn gwneud cyfraniad tuag at gost buddion ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion hyn yn daladwy mewn gwirionedd nes bod gweithwyr cyflogedig yn ymddeol, mae gan yr Awdurdod ymrwymiad i wneud y taliadau (ar gyfer y buddion hynny) a'u datgelu ar yr adeg y mae gweithwyr cyflogedig yn ennill eu hawl iddynt yn y dyfodol.

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) yn cael ei weithredu o dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a chyfrifoldeb Cronfa Bensiwn Clwyd, Cyngor Sir y Fflint yw llywodraethu'r cynllun. Penderfynir ar y polisi yn unol â Rheoliadau Cronfeydd Pensiynau. Mae rheolwyr buddsoddi'r gronfa yn cael eu penodi gan bwyllgor pensiynau Cyngor Sir y Fflint. Prif risgiau'r cynllun i'r awdurdod yw'r rhagdybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (h.y. tynnu allan o'r cynllun ar raddfa fawr), newidiadau i chwyddiant, arenillion bond a pherfformiad y buddsoddiadau ecwiti a ddelir gan y cynllun. Mae'r rhain yn cael eu lliniaru i raddau gan y gofynion statudol i'w codi i'r Gronfa Gyffredinol a'r symiau sy'n ofynnol gan statud fel y disgrifir yn y nodyn polisïau cyfrifyddu. Rydym yn cydnabod cost buddion ymddeol yng nghost gwasanaethau a nodwyd pan gânt eu hennill gan weithwyr cyflogedig, yn hytrach na phan delir y buddion ar ffurf pensiynau yn y pen draw.

Fodd bynnag, mae'r taliad y mae'n rhaid inni ei godi yn erbyn yr ardoll yn seiliedig ar yr arian sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn, felly caiff cost wirioneddol buddion ôl-gyflogaeth / buddion ymddeol ei gwrthdroi o'r Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn:

Mae buddion ôl-ymddeol yn ôl disgresiwn ar ymddeoliad cynnar yn drefniant buddion diffiniedig heb ei ariannu, lle mae ymrwymiadau yn cael eu cydnabod pan wneir dyfarniadau. Nid oes unrhyw asedau cynllun wedi'u cronni i fodloni'r ymrwymiadau pensiwn hyn.

Mae Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn gynllun diffiniedig heb ei ariannu â buddion, sy'n golygu na ddelir buddsoddiadau i ariannu'r ymrwymiadau. Mae cyfraniadau, ar gyfradd a bennir gan Lywodraeth Cymru, a wneir gan y cyflogwr a'r gweithwyr cyflogedig yn cael eu cadw mewn cyfrif cronfa bensiwn; codir buddion a delir i'r cyfrif gydag unrhyw falans ar y cyfrif yn cael ei dderbyn neu ei dalu i Lywodraeth Cymru.

**O'Brien**

Yn dilyn dyfarniad O'Brien mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ymestyn yr hawl pensiwn i ddiffoddwyr tân wrth gefn cymwys i gydnabod eu gwasanaeth cyn Gorffennaf 2000. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a lofnodwyd ym mis Mawrth 2022 yn nodi cwmpas a gweithrediad arfaethedig yr ymarfer opsiynau sydd ei angen i weithredu rhwymedi yn yr achos hwn.

Bydd yr ymarfer opsiynau hwn yn cynyddu hawl pensiwn rhai aelodau wrth gefn arbennig cyfredol a hefyd yn caniatáu mynediad i'r cynllun ar gyfer diffoddwyr tân wrth gefn hanesyddol ychwanegol. Mae'r rhwymedigaethau pensiwn yn cynnwys amcangyfrif actiwaraidd o'r effaith er bod ansicrwydd sylweddol yn parhau ar hyn o bryd.

**Cyfartalu a Mynegeio Isafswm Pensiwn Gwaranatedig (GMP)**

Yn ddiweddar, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar fynegeio a chyfartalu Isafswm Pensiynau Gwarantedig, a'r cynnig yw ymestyn y "datrysiad interim” i'r aelodau sy’n cyrraedd Oedran Pensiwn Gwladol ar ôl 5 Ebrill 2021.

Cafodd cost gwasanaeth blaenorol ei gynnwys yn natgeliadau 2019/20 ar gyfer ymestyn y cyfartalu i bawb sy'n ymddeol yn y dyfodol. Roedd dyfarniad llys pellach hefyd ar 20 Tachwedd 2020 ynghylch cyfartalu GMP. Dyfarnodd y llys fod rhaid i ymddiriedolwyr cynlluniau ailedrych ar gyn-Werthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) er mwyn sicrhau bod GMP yn cael ei gyfartalu. Gallai hyn arwain at atodiadau ychwanegol pan fo cyfartalu GMP yn golygu nad yw aelodau wedi derbyn eu holl hawliad. Ar gyfer cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus, disgwylir y bydd y dyfarniad hwn yn cael ei ddilyn ar draws cynlluniau, a bydd angen mewnbwn cyfreithiol.

Efallai y bydd hyn yn gofyn am ailedrych ar achosion CETV yn y gorffennol ar gyfer aelodau ag oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar ôl 5 Ebrill 2016 ac a gymerodd CETV o'r cynllun cyn i CETV gael ei gyfartalu. Nid yw cwmpas unrhyw gostau wedi'i bennu eto. Nid yw data ar CETV hanesyddol ar gael i amcangyfrif yr effaith bosibl. Disgwylir y bydd hwn yn godiad cymharol fach ar gyfer is-set gymharol fach o aelodau (h.y. y rhai a gymerodd CETV ac sydd o fewn y cwmpas ar gyfer ychwanegiad atodol).

**Goodwin**
Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud nad oes gofyniad i ganiatáu ar gyfer yr her gyfreithiol hon o fewn datgeliadau 2022/23. (Mae'r achos yn cyfeirio ar fuddion dibynyddion).

**Dyfarniad McCloud a rheolaeth gwerth y costau 2016**
Yn dilyn dyfarniad y Llys Apêl i achos McCloud yn Rhagfyr 2018, daethpwyd i'r casgliad bod yr amddiffyniadau trosiannol a gyflwynwyd yn 2015 yn gwahaniaethu ar sail oedran. Yn dilyn hyn cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynlluniau i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu ar draws cynlluniau pensiwn sector cyhoeddus y DU yn cynnwys Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Ailafaelwyd yn mecanwaith y cap ar gyfer prisiad 2016 ers hynny a chwblhawyd y cyfrifiadau, a'r canlyniad oedd dim newidiadau i fuddion na chyfraniadau.

Cyhoeddwyd hefyd y byddai'r materion yn ymwneud â'r gwerthusiad actiwariadd yn 2016 yn cael eu datrys ac y byddai'r costau yn gysylltiedig â dyfarniad McCloud yn dod o dan y categori 'cost aelod' yn yr elfen rheoli costau o brisiad. Wrth ystyried y cynnydd o ganlyniad i rwymedi McCloud bydd gwerth y costau rheoli ar gyfer cynllun yn uwch na'r disgwyl.

Mae costau gwasanaeth yn y gorffennol wedi eu hamcangyfrif i ystyried effaith dyfarniad McCloud ac maent wedi eu cynnwys ers 2018/19 a'u diweddaru i adlewyrchu'r rhwymedi arfaethedig a amlinellwyd gan Lywodraeth y DU yn dilyn yr ymgynghoriad yn ystod 2020.

Disgwylir i'r rheoliadau newydd fynd trwy broses ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru a byddant yn cael eu gweithredu o 1 Hydref 2023. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ymgyfreitha parhaus ynghylch prosesu hawliadau Categori 2 ac o gofio na fyddai unrhyw ymgyfreitha newydd yn dod i ben cyn gweithredu'r rheoliadau newydd nid oes unrhyw risg weddilliol. Ymhellach, bydd y rheoliadau'n gwneud darpariaeth ar gyfer talu llog ar arian sy'n ddyledus ac felly nid yw'r risg o ymgyfreitha yn deillio o unrhyw oedi wrth gyflwyno'r rheoliadau yn risg debygol.

**Prisiad y Cynllun - 2020**
Caiff y Cynllun ei Brisio pob pedair blynedd, a bydd y prisiad nesaf yn seiliedig ar ddata ar 31 Mawrth 2020. Mae Adran Actiwari'r Llywodraeth wedi casglu'r data angenrheidiol a bydd y prisiad yn cael ei wneud yn dilyn cyhoeddi Cyfarwyddiadau gan Drysorlys EM yn ddiweddar. Rhagwelir y canlyniadau cychwynnol yn ystod 2023, a bydd y prisiad terfynol yn pennu cyfraddau cyfraniad cyflogwyr o 1 Ebrill 2024.

| LGPS<br>2021/22<br>£'000 | FFPS<br>2021/22<br>£'000 | Trosglwyddiadau'r Gronfa Gyffredinol | LGPS<br>2022/23<br>£'000 | FFPS<br>2022/23<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | |
| | | **Cost Gwasanaethau** | | |
| | | **Cost Gwasanaeth sy'n cynnwys:** | | |
| 2,119 | 9,750 | Cost cyfredol y gwasanaeth | 2,295 | 7,170 |
| 0 | 2,400 | Cost blaenorol y gwasanaeth | 0 | 0 |
| 43 | 0 | Costau Gweinyddu | 46 | 0 |
| | | **Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi** | | |
| 380 | 6,400 | Gwariant Llog Net | 396 | 8,270 |
| 0 | 0 | Trosglwyddiadau allan o'r cynllun | 0 | 0 |
| 0 | 80 | Trosglwyddiadau i mewn i'r cynllun | 0 | 220 |
| 0 | 0 | Cwtogiadau | 22 | 0 |
| **2,542** | **18,630** | **Cyfanswm y Buddion Ôl-gyflogaeth a Godir ar Ddarparu Gwasanaethau** | **2,759** | **15,660** |
| | | **Buddion Ôl-gyflogaeth Eraill a Godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | |
| | | **Ailfesur y budd/rhwymedigaeth net diffiniedig yn cynnwys:** | | |
| (4,157) | 0 | Adenillion ar Asedau'r Cynllun (ac eithrio llog) | 4,634 | 0 |
| (1,177) | 0 | (Enillion) / Colledion Actwaraidd yn dellio o Newidiadau i'r Rhagdybiaethau Demograffig | 4,966 | (10,560) |
| (313) | (3,780) | (Enillion) / Colledion Actwaraidd yn dellio o Newidiadau i'r Rhagdybiaethau Ariannol | (24,238) | (101,710) |
| 0 | (12,740) | (Enillion) / Colledion Actiwaraidd - profiad | | 17,520 |
| **(5,647)** | **(16,520)** | **Cyfanswm y Buddion Ôl-gyflogaeth a Godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **(14,638)** | **(94,750)** |
| | | **Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd** | | |
| (2,542) | (18,630) | Gwrthdroi costau net a wnaed i'r gwarged neu diffyg yn y Ddarpariaeth Gwasanaethau Buddion Ôl-gyflogaeth yn unol â'r Cod | (2,759) | (15,660) |
| | | **Symiau Gwirioneddol a godir ar y Gronfa Gyffredinol ar gyfer pensiynau yn y flwyddyn** | | |
| 0 | 7,910 | Buddion Ymddeol sy'n daladwy i Bensiynwyr | 0 | 8,470 |
| 920 | 0 | Cyfraniadau'r Cyflogwr sy'n daladwy i'r cynllun | 916 | 0 |

Mae'r swm a gynhwyswyd yn y Fantolen sy'n codi o rwymedigaeth yr Awdurdod mewn perthynas â'r cynlluniau buddion diffiniedig fel a ganlyn:

| LGPS 2021/22 £'000 | FFPF 2021/22 £'000 | Asedau a Rhwymedigaethau Pensiynau a Gydnabuwyd yn y Fantolen | LGPS 2022/23 £'000 | FFPF 2022/23 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| (56,519) | 312,950 | Gwerth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig | (40,312) | (225,390) |
| **(56,519)** | **312,950** | **Is-Gyfanswm** | **(40,312)** | **(225,390)** |
| 41,971 | | Gwerth Teg asedau'r cynllun | 38,559 | |
| **(14,548)** | **312,950** | **Rhwymedigaeth net sy'n codi o'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig** | **(1,753)** | **(225,390)** |

| LGPS 2021/22 £'000 | FFPF 2021/22 £'000 | Symudiad yng Ngwerth Asedau'r Cynllun | LGPS 2022/23 £'000 | FFPF 2022/23 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| 37,071 | 0 | Gwerth Teg Agoriadol Asedau'r Cynllun | 41,971 | 0 |
| 779 | 0 | Incwm Llog | 1,176 | 0 |
| | | **Enillion / Colledion wrth Ailfesur** | | |
| 4,157 | 0 | Yr enillion ar asedau'r cynllun, heb gynnwys y swm a gynhwyswyd yn y draul llog net | (4,634) | 0 |
| 920 | 9,520 | Cyfraniadau gan y cyflogwr | 916 | 10,270 |
| 371 | 0 | Cyfraniadau gan weithwyr cyflogedigi'r cynllun | 369 | 0 |
| (1,284) | (9,520) | Buddion/trosglwyddiadau a Dalwyd | (1,193) | (10,270) |
| (43) | 0 | Costau Gweinyddu | (46) | 0 |
| **41,971** | | **Gwerth teg terfynol asedau'r cynllun** | **38,559** | **0** |

| LPGS 2021/22 £'000 | FFPF 2021/22 £'000 | Symudiad yng Ngwerth Teg Rhwymedigaethau'r Cynllun | LGPS 2022/23 £'000 | FFPF 2022/23 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| (55,644) | (318,750) | Balans Agoriadol ar 1 Ebrill | (56,519) | (312,950) |
| (2,119) | (9,750) | **Cost Cyfredol y Gwasanaeth** | (2,295) | (7,170) |
| 0 | (80) | Trosglwyddiadau i mewn | 0 | (220) |
| (1,159) | (6,400) | Costau Llog | (1,572) | (8,270) |
| (371) | (1,610) | Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun | (369) | (1,800) |
| | | **Enillion a Cholledion wrth Ailfesur** | | |
| 0 | 0 | Enillion / Colledion Actiwaraidd - profiad | 0 | (17,520) |
| 313 | 16,520 | Enillion / Colledion Actwaraidd yn dellio o newidiadau i'r rhagdybiaethau demograffig | (4,966) | 10,560 |
| 1,177 | 0 | Enillion / Colledion Actwaraidd yn dellio o newidiadau i'r rhagdybiaethau ariannol | 24,238 | 101,710 |
| 1,284 | 9,520 | Buddion/trosglwyddiadau a Dalwyd | 1,193 | 10,270 |
| 0 | 0 | Cwtogiadau | (22) | 0 |
| 0 | (2,400) | Cost Blaenorol y Gwasanaeth | 0 | 0 |
| **(56,519)** | **(312,950)** | **Balans ar 31 Mawrth** | **(40,312)** | **(225,390)** |

**Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL):  Asedau sy'n Cynnwys:**

| Dyfynnwyd 2021/22 £'000 | Gwerth Teg Asedau'r Cynllun | Dyfynnwyd 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| | **Arian a Chyfwerth Arian** | |
| 1,343 | Cyfrifon Arian | 1,697 |
| 0 | Buddsoddiadau Dros Dro | 0 |
| **1,343** | **Is-gyfanswm Arian a Chyfwerth Arian** | **1,697** |
| | **Gwarantu Ecwiti** | |
| 4,490 | Dyfynnwyd yn fyd-eang | 2,236 |
| 3,777 | Marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg | 1,967 |
| **8,267** | **Is-gyfanswm Ecwiti** | **4,203** |
| | **Bondiau** | |
| 4,197 | Eraill Tramor | 3,933 |
| 10,703 | LDI | 10,604 |
| **14,900** | **Is-gyfanswm Bondiau** | **14,537** |
| | **Eiddo** | |
| 2,099 | DU | 2,044 |
| 420 | Tramor | 308 |
| **2,519** | **Is-gyfanswm Eiddo** | **2,352** |
| | **Dewisiadau amgen** | |
| 2,728 | Cronfeydd Ymddiogelu | 2,776 |
| 4,449 | Ecwiti Preifat | 5,013 |
| 2,015 | Seilwaith | 2,236 |
| 210 | Coed ac Amaethyddiaeth | 193 |
| 4,659 | DGF | 4,511 |
| 881 | Credyd Preifat | 1,041 |
| **14,942** | **Is-gyfanswm Dewisiadau Amgen** | **15,770** |
| | | |
| **41,971** | **Cyfanswm yr Asedau** | **38,559** |

Mae gan holl asedau'r cynllun brisiau a ddyfynnir mewn marchnadoedd gweithredol

## Y Sail ar gyfer Amcangyfrif Asedau ac Ymrwymiadau

Mae gwerth yr ymrwymiadau wedi eu seilio'n actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull unedau rhagamcanol sy'n asesu ymrwymiadau'r cynllun yn y dyfodol gyda disgownt i'w gwerth presennol.

Mae gwerth Cynllun y Diffoddwyr Tân wedi ei wneud gan Adran Actiwaraidd y Llywodraeth.

Mae gwerth ymrwymiadau LGPS wedi ei wneud gan Mercer, sef cwmni annibynnol o actiwariaid. Dyma'r prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiadau ac maent yn seiliedig ar brisiad llawn diweddaraf y cynllun ar 1 Ebrill 2022.

| 2021/22 | LGPS | 2022/23 |
|---|---|---|
| | **Rhagdybiaethau ynglŷn â Marwolaethau** | |
| | Disgwyliad oes wrth ymddeol ar gyfer pensiynwyr presennol: | |
| 22.5 | Dynion | 21.4 |
| 24.9 | Menywod | 23.8 |
| | Disgwyliad oes wrth ymddeol ar gyfer pensiynwyr y dyfodol: | |
| 24.0 | Dynion | 22.9 |
| 26.9 | Menywod | 25.6 |
| | **Rhagdybiaethau Eraill** | |
| 3.3% | Cyfradd Chwyddiant | 2.7% |
| 4.6% | Cyfradd y Cynnydd mewn Cyflogau | 4.0% |
| 3.4% | Cyfradd y Cynnydd mewn Pensiynau | 2.8% |
| 2.8% | Cyfradd Disgowntio Ymrwymiadau'r Cynllun | 4.8% |
| 3.3% | Cyfradd Ailbrisio CARE | 2.7% |

| 2021/22 | Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân | 2022/23 |
|---|---|---|
| | **Rhagdybiaethau ynglŷn â Marwolaethau** | |
| | Disgwyliad oes wrth ymddeol ar gyfer pensiynwyr presennol: | |
| 21.5 | Dynion | 21.2 |
| 21.5 | Menywod | 21.2 |
| | Disgwyliad oes wrth ymddeol ar gyfer pensiynwyr y dyfodol: | |
| 23.2 | Dynion | 22.9 |
| 23.2 | Menywod | 22.9 |
| | **Rhagdybiaethau Eraill** | |
| 3.0% | Cyfradd Chwyddiant | 2.6% |
| 4.8% | Cyfradd y Cynnydd mewn Cyflogau | 3.9% |
| 3.0% | Cyfradd y Cynnydd mewn Pensiynau | 2.6% |
| 2.7% | Cyfradd Disgowntio Ymrwymiadau'r Cynllun | 4.7% |
| 4.8% | Cyfradd Ailbrisio CARE | 3.9% |

Mae'r amcangyfrif o'r ymrwymiadau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd a nodir yn y tabl uchod.

Mae'r dadansoddiadau o sensitifrwydd isod wedi'u pennu yn seiliedig ar newidiadau posibl rhesymol yn y rhagdybiaethau sy'n digwydd ar ddiwedd y cyfnod adrodd ac sy'n tybio ar gyfer pob newid bod y rhagdybiaeth a ddadansoddwyd yn newid ond bod yr holl ragdybiaethau eraill yn aros yn gyson. Mae'r rhagdybiaethau o ran hirhoedledd, er enghraifft, yn tybio bod y disgwyliad oes yn cynyddu neu'n gostwng ar gyfer dynion a menywod. Yn ymarferol, mae hyn yn annhebygol o ddigwydd, a gall newidiadau mewn rhai o'r rhagdybiaethau eraill fod yn gydgysylltiedig. Mae'r amcangyfrifon yn y dadansoddiad o sensitifrwydd wedi dilyn y polisïau cyfrifyddu ar gyfer y cynllun, h.y. ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau credyd. Ni newidiodd y dulliau a'r mathau o ragdybiaethau a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad o sensitifrwydd isod o'r rhai a ddefnyddiwyd yn y cyfnod blaenorol.

**Effaith Rhagdybiaethau ar yr ymrwymiad - LGPS**

| | **Fel yr Adroddwyd** | **+0.5% gostyngiad y flwyddyn** | **+0.25% chwyddiant y flwyddyn** | **+0.25% twf cyflog y flwyddyn** | **Cynnydd o 1 flwyddyn mewn disgwyliad oes** | **+/-1% o newid yn enillion buddsoddi 2022/23** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | **+1%** | **-1%** |
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Ymrwymiadau | 40,312 | 36,920 | 42,165 | 40,639 | 41,130 | 40,312 | 40,312 |
| Asedau | (38,559) | (38,559) | (38,559) | (38,559) | (38,559) | (38,945) | (38,173) |
| Diffyg (gwarged) | 1,753 | (1,639) | 3,606 | 2,080 | 2,571 | 1,367 | 2,139 |
| Cost y Gwasanaeth a Ragamcanwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf | 1,004 | 858 | 1,088 | 1,004 | 1,029 | 1,004 | 1,004 |
| Cost Llog Net a Ragamcanwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf | 71 | (102) | 160 | 86 | 110 | 52 | 89 |

| | Fel yr Adroddwyd<br><br>£000 | Cyfradd disgownt ar rwymedigaeth-au Cynnydd o 0.5%<br>£000 | Cynnydd mewn cyflogau Cynnydd o 0.5%<br><br>£000 | Disgwyliad oes Cynnydd o 1 flwyddyn<br><br>£000 | Cynnydd mewn pensiynau Cynnydd o 0.5%<br><br>£000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Effaith** | -6.50% | 1% | 6.50% | 2% |
| FFPS | (225,390) | (210,740) | (227,644) | (240,040) | (225,389) |

### Effaith ar lif arian yr Awdurdod

Cydnabyddir cost buddion ymddeol yng nghost gwasanaethau a nodwyd pan gânt eu hennill gan weithwyr cyflogedig, yn hytrach na phan delir y buddion ar ffurf pensiynau yn y pen draw. Fodd bynnag, mae'r taliad sy'n rhaid ei godi yn erbyn yr ardoll yn seiliedig ar yr arian sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn, felly caiff cost wirioneddol buddion ôl-gyflogaeth / buddion ymddeol ei gwrthdroi o'r Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a balans y Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn.

## 32 NATUR A MAINT Y RISGIAU SY'N DEILLIO O OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys, sy'n sicrhau bod gan yr Awdurdod fesurau i reoli risgiau ariannol. Cymeradwywyd Strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod ar gyfer 2022/23 mewn cyfarfod ar 14 Ionawr 2022. Mae'r Strategaeth yn nodi'r Dangosyddion Darbodus (PI) ar gyfer y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn mae adroddiad yn manylu ar gynnydd yn erbyn y strategaeth ac, os oes angen, adolygiad o'r Dangosyddion Darbodus.

Ar ddiwedd y flwyddyn, mae adroddiad terfynol yn nodi sut mae'r Awdurdod wedi perfformio yn ystod y flwyddyn. Mae manylion ynghylch sut mae'r Awdurdod yn rheoli risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol yn adroddiadau'r trysorlys a gyflwynir i'r Aelodau a gellir eu cyrchu o wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru - www.tangogleddcymru.llyw.cymru

Mae gweithgareddau'r awdurdod yn ei amlygu i amrywiaeth o risgiau ariannol, gan

### Risg Credyd

Dyma'r posibilrwydd y gallai partion eraill fethu â thalu symiau sy'n ddyledus i'r Awdurdod.

Mae'r risg credyd uchaf ar gyfer buddsoddiadau ac mae'r rhain yn cael eu rheoli drwy Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, sy'n nodi'r paramedrau ar gyfer rheoli risgiau sy'n gysylltiedig ag Offerynnau Ariannol ac yn pwysleisio bod blaenoriaeth i'w rhoi i ddiogelwch a hylifedd, yn hytrach nag arenillion. Polisi'r Awdurdod ar fuddsoddiadau'r trysorlys yw rhoi arian dros ben tymor byr i gyfrifon banc hyd nes y bydd angen. Nid oes gan yr Awdurdod fuddsoddiadau tymor hir. Mae arian parod sy'n debygol o gael ei wario yn y tymor agos yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel, gyda banciau o ansawdd uchel dethol, i leihau'r risg o golled.

**Risg Hylifedd**

Dyma'r posiblrwydd na fydd gan yr Awdurdod ddigon o arian ar gael i ateb ei ymrwymiadau i wneud taliadau.

Mae'r Awdurdod yn monitro ei falans arian parod i sicrhau bod arian parod ar gael yn ôl yr angen. Mae'r Awdurdod yn gallu cael gafael yn rhwydd ar fenthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, ac nid oes unrhyw risg sylweddol na fyddai'r Awdurdod yn gallu codi'r arian i gwrdd â'i ymrwymiadau dan yr offerynnau ariannol. Yn hytrach, y risg yw y bydd yr Awdurdod yn rhwym o ailgyflenwi cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg o gyfraddau llog anffafriol.

**Risg y Farchnad**

Dyma'r posibilrwydd y gallai colled ariannol ddigwydd i'r Awdurdod o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau fel cyfraddau llog a symudiadau yn y farchnad stoc.

Cynhaliwyd asesiad o effaith ariannol cynnydd o 1% mewn cyfraddau llog. Byddai llog ar gyfradd amrywiol a benthyca dros dro wedi cynyddu £30k.

Mae'r Awdurdod yn agored i symudiadau mewn cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a'i fuddsoddiadau. Mae symudiadau mewn cyfraddau llog yn cael effaith gymhleth ar yr Awdurdod, yn dibynnu ar sut mae cyfraddau llog amrywiol a sefydlog yn symud ar draws gwahanol gyfnodau offerynnau ariannol. Er enghraifft, byddai cynnydd mewn cyfraddau llog amrywiol a sefydlog yn cael yr effeithiau canlynol:

- Benthyciadau ar gyfraddau amrywiol – bydd y gost llog a godir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn codi;
- Benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg y benthyca yn gostwng (dim effaith ar falansau refeniw);
- Buddsoddiadau ar gyfraddau amrywiol – bydd yr incwm llog a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn codi; a
- Buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg yr asedau yn gostwng (dim effaith ar falansau refeniw);

Nid yw benthyciadau'n cael eu cario ar werth teg ar y fantolen, felly ni fyddai enillion a cholledion nominal ar fenthyciadau cyfradd sefydlog yn effeithio ar y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethauneu neu Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall. Fodd bynnag, bydd newidiadau yn y llog sy'n daladwy neu'n dderbyniadwy ar fenthyciadau a buddsoddiadau cyfradd amrywiol yn cael eu postio i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau ac yn effeithio ar Falans y Gronfa Gyffredinol.

Ar hyn o bryd mae'r awdurdod yn delio â hawliadau cyfreithiol ond mae llai na 50% yn debygol o sicrhau setliad. Mae'r Awdurdod wedi cadw £0.186 miliwn wrth gefn rhag ofn y cyfyd ceisiadau nad ydynt yn cael eu cydnabod ar hyn o bryd. Gwerth yr achosion cyfreithiol hysbys yw £0.050 miliwn.

## 33 YMRWYMIADAU DIBYNNOL

### Hawliadau Cyfreithiol

Ar hyn o bryd mae'r awdurdod yn delio â hawliadau cyfreithiol ond mae llai na 50% yn debygol o sicrhau setliad. Mae'r Awdurdod wedi cadw £0.186 miliwn wrth gefn rhag ofn y cyfyd ceisiadau nad ydynt yn cael eu cydnabod ar hyn o bryd. Gwerth yr achosion cyfreithiol hysbys yw £0.050 miliwn.

### Hawliadau Pensiwn

Yn dilyn proses gyfreithiol hir, cyhoeddwyd dyfarniad yn achos O'Brien vs Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystod 2019. Canfu hwn fod y penderfyniad i gyfyngu ar y cyfnod pryd y gallai gweithiwr rhan amser ymuno â'r cynllun pensiwn yn un gwallus ac y dylai gweithwyr cymwys gael ymuno â'r cynllun perthnasol o ddechrau eu contractau.

Bydd y dyfarniad hwn yn cael goblygiadau i Gynllun Pensiwn Addasedig y Diffoddwyr Tân, a oedd yn arfer cyfyngu ar wasanaeth y gorffennol i 1 Gorffennaf 2000. Y canlyniad yw bod y llywodraeth yn cynnig cynnal ail ymarferiad opsiynau er nad yw'n hysbys eto pryd yn union y bydd yn agor. Dim ond drwy ddeddfwriaeth y gellir newid yr FPS, a bydd yr amseriad yn dibynnu ar ymarferiad ymgynghori ac amserlen y senedd. Nid oes modd eto pennu beth fydd effaith ariannol yr ail ymarferiad opsiynau.

## 34 ASED DIBYNNOL

Ym mis Gorffennaf 2016, roedd y Comisiwn Ewropeaidd wedi rhoi dirwy o 2.926 biliwn ewro i weithgynhyrchwyr tryciau Ewropeaidd am bennu prisiau a gweithgareddau cartél eraill rhwng 1991 a 2001. Roedd DAF, Daimler, Iveco, MAN, a Volvo/Renault wedi cyfaddef eu bod yn euog (mae Scania yn dal i gael ei ymchwilio) gan gadarnhau eu bod wedi gwneud y canlynol:

- Ar lefel uwch reolwyr y Pencadlys, wedi pennu prisiau gros sefydlog ac weithiau prisiau r
- Wedi alinio prisiau rhestr gros yn Ewrop gan gynnwys y DU ar ddechrau'r cartél.
- Wedi lleihau ad-daliadau pan gyflwynwyd yr Ewro.
- Oedi cyn cyflwyno technolegau Ewro 3, 4, 5 a 6 mwy effeithlon o ran tanwydd.
- Cytunwyd ar y gost y dylai gweithredwyr ei dalu am dechnolegau Ewro.

Mae hyn yn cynnwys unrhyw loriau o 6 thunnell a throsodd, a brynwyd yn llwyr, a ariannwyd neu a brydleswyd rhwng 1997 a 2011. Mae achos cyfreithiol bellach yn mynd rhagddo i adennill peth o'r arian a gollwyd oherwydd y pris cartél hwn. Ni thrafodwyd unrhyw werth na chanran benodol hyd yma, a gall y camau cyfreithiol gymryd sawl blwyddyn i'w cwblhau.

O dan y Cytundeb Cyllido Ymgyfreitha, dim ond y TAW sy'n daladwy gan yr Awdurdod am y costau cyfreithiol.

Cyfanswm y taliadau cyfredol o dan y Cytundeb Cyllido Ymgyfreitha (TAW yn daladwy yn unig) ar gyfer 2022/23 oedd £52 (2021/22: £1,257).

## CYFRIF CRONFA BENSIWN DIFFODDWYR TÂN

Cyfrif Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023

| 2021/22 £'000 | | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| | **Cyfraniadau a Dderbynnir:** | |
| (3,192) | Cyfraniadau arferol y cyflogwr | (3,893) |
| (131) | Tâl afiechyd y cyflogwr | (135) |
| (186) | Cyfraniadau ôl-ddyddiedig y cyflogwr | 0 |
| (1,509) | Cyfraniadau arferol yr aelodau | (1,822) |
| (132) | Cyfraniadau ôl-ddyddiedig yr aelodau | (100) |
| (76) | Trosglwyddiadau i mewn | (221) |
| **(5,226)** | **CYFANSWM** | **(6,171)** |
| | **Buddion yn Daladwy:** | |
| 7,983 | Taliadau Pensiwn | 8,246 |
| 719 | Gohirio Pensiynau a Chyfandaliadau buddion ymddeol | 2,381 |
| 7 | Taliadau Gohirio Ôl-ddyddiedig | 67 |
| | **Taliadau i Ymadawyr ac ar eu rhan:** | |
| 711 | Trosglwyddiadau allan | 413 |
| **9,420** | **CYFANSWM** | **11,107** |
| 4,194 | Diffyg am y flwyddyn cyn i grantiau a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru | 4,936 |
| (4,194) | Grant atodol a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru | (4,936) |
| **0** | **SWM NET (TALADWY)/A DDERBYNNIR AR GYFER Y FLWYDDYN** | **0** |

### Datganiad Asedau Net ar 31 Mawrth 2023

| 2021/22 £'000 | | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| | **Asedau cyfredol** | |
| 2,577 | Swm sy'n ddyledus (gan) / i'r Gronfa Gyffredinol | 2,616 |
| **2,577** | **Cyfanswm Asedau Cyfredol** | **2,616** |
| | **Ymrwymiadau Cyfredol** | |
| (669) | Taliadau ymlaen llaw i Bensiynwyr | |
| (1,908) | Grant atodol yn daladwy gan Lywodraeth Cymru | (2,616) |
| **(2,577)** | **Cyfanswm Ymrwymiadau Cyfredol** | **(2,616)** |

**Nodiadau i Gronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân**

Sefydlwyd y Gronfa ar 1 Ebrill 2007, dan Orchymyn Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007, ac mae'n cynnwys Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992, 2007 a 2015 ac fe'i gweinyddir gan yr Awdurdod. Mae'r cynllun yn un nad yw'n cael ei ariannu, nid oes ganddo asedau buddsoddi, a bydd unrhyw wahaniaeth rhwng y buddion sy'n daladwy a'r cyfraniadau derbyniadwy yn cael ei ateb gan Grant Atodol gan Lywodraeth Cymru.

Telir cyfraniadau'r cyflogwr a gweithwyr i'r Gronfa, a gwneir taliadau i bensiynwyr ohoni. Mae lefelau cyfraniadau'r gweithwyr a'r cyflogwr yn seiliedig ar ganrannau o'r cyflog pensiynadwy a osodir yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru, ac maent yn agored i ailwerthusiad bob tair blynedd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD).

Trosglwyddiadau i'r cynllun yw trosglwyddo buddion pensiwn o gynllun pensiwn arall ar gyfer gweithwyr newydd neu bresennol, a throsglwyddiadau allan yw trosglwyddo buddion i weithwyr sydd wedi gadael yr Awdurdod ac wedi ymuno â chynllun pensiwn arall.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am dalu cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa. Dyma'r costau sydd wedi'u cynnwys yn y cyfrifon ar gyfer yr Awdurdod.

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, gwneir asesiad ynghylch swm y Grant Atodol sydd ei angen gan Lywodraeth Cymru. Mae'r amcangyfrif yn cynnwys asesiad o nifer y diffoddwyr tân sydd i fod i ymddeol o fewn y flwyddyn, yn seiliedig ar oedran a blynyddoedd o wasanaeth.

**Cyfraddau Cyfraniadau**

Ar 1 Ebrill 2022, trosglwyddwyd holl gyfranogwyr y cynllun i gynllun 2015. Dan Reoliadau Pensiwn Diffoddwyr Tân, 27.3% (2021/22: 27.3%) o'r cyflog pensiynadwy oedd cyfradd cyfraniadau cyflogwyr ar gyfer cynllun 2015, gyda chyfraddau'r gweithwyr fel y bandiau cyflog pensiynadwy a nodir isod:

| Band Cyflog Pensiynadwy | Cyfradd Cyfraniad % 2022/23 |
|---|---|
| Hyd at £27,818 | 11.0 |
| £27,819 i £51,515 | 12.9 |
| £51,516 i £142,500 | 13.5 |
| Mwy na 142,501 | 14.5 |

Nid yw Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn cymryd ystyriaeth o'r ymrwymiadau am bensiynau a buddion eraill wedi diwedd y cyfnod, gan mai cyfrifoldeb yr Awdurdod yw hyn. Mae manylion am yr ymrwymiadau pensiwn tymor hir i'w cael yn Nodyn 31 o'r datganiadau ariannol craidd.

**Atodiad 1**

# POLISÏAU CYFRIFYDDU

## 1. EGWYDDORION CYFFREDINOL

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion yr Awdurdod ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 a'i sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2023. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon gael eu paratoi yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Mae'r arferion hyn, o dan adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, yn cynnwys yn bennaf y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022/23 a gefnogir gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Mae'r confensiwn cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn y Datganiad Cyfrifon yn gost hanesyddol yn bennaf, wedi'i haddasu drwy ailbrisio categorïau penodol o asedau ac offerynnau ariannol nad ydynt yn gyfredol.

## 2. CRONIADAU O INCWM A GWARIANT

Yn y cyfrifon refeniw, cyfrifir am incwm a gwariant, heb TAW (oni bai bod y TAW yn anadferadwy), yn y flwyddyn maent yn digwydd, nid dim ond pan fydd taliadau arian parod yn cael eu gwneud neu eu derbyn.

- Caiff treuliau mewn perthynas â gwasanaethau a dderbynnir (gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan gyflogeion) eu cofnodi fel gwariant pan dderbynnir y gwasanaethau yn hytrach na phan wneir taliadau gan gwsmeriaid yn cael eu cyfrif fel incwm ar y dyddiad mae'r Awdurdod yn darparu'r nwyddau neu'r gwasanaethau perthnasol.

- Mae cyflenwadau yn cael eu cofnodi fel gwariant pan gânt eu defnyddio - lle mae bwlch rhwng y dyddiad y mae cyflenwadau yn cael eu derbyn a'u defnydd maen nhw'n cael eu cario fel rhestrau ar y fantolen.

- Cyfrifir am log y gellir ei dderbyn ar fuddsoddiadau ac sy’n daladwy ar fenthyciadau ac y gellir ei dderbyn ar sail y gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach na'r llif arian a sefydlir neu a bennir gan y contract.

- Pan fo refeniw a gwariant wedi cael eu cydnabod ond nad yw arian parod wedi'i dderbyn na'i dalu, cofnodir dyledwr neu gredydwr am y swm perthnasol yn y fantolen. Lle na fydd dyledion yn cael eu setlo o bosibl, caiff balans y dyledwyr ei nodi a chodir tâl ar y refeniw o incwm ariannu a buddsoddi a’r gwariant ar gyfer yr incwm na fydd, o bosibl, yn cael ei gasglu.

## 3. ARIAN PAROD A CHYFWERTH AG ARIAN PAROD

Mae arian parod yn golygu arian mewn llaw ac adneuon gyda sefydliadau ariannol sy’n ad-daladwy heb gosb ar rybudd o ddim mwy na 24 awr. Mae cyfwerth ag arian parod yn golygu buddsoddiadau sy'n aeddfedu mewn dim mwy na thri mis neu lai o'r dyddiad caffael ac sy'n hawdd eu trosi'n symiau hysbys o arian parod sydd â risg bach iawn y bydd ei werth yn newid.

Yn y Datganiad Llif Arian, dangosir arian parod a chyfwerth ag arian parod heb orddrafftiau banc sy'n ad-daladwy yn ôl y galw ac yn ffurfio rhan annatod o system rheoli arian parod yr Awdurdod.

## 4. ADDASIADAU CYFNOD BLAENOROL, NEWIDIADAU MEWN POLISÏAU CYFRIFYDDU AC AMCANGYFRIFON A GWALLAU

Gall addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifyddu neu er mwyn cywiro gwall perthnasol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu’n rhagolygol, h.y. yn y blynyddoedd presennol ac i ddod yr effeithir arnynt gan y newid ac nid ydynt yn arwain at addasiad cyfnod blaenorol.

Gwneir newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu dim ond pan fo angen hynny gan arferion cyfrifyddu priodol neu os yw'r newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, amodau a digwyddiadau eraill ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol yr Awdurdod. Pan wneir newid, caiff ei gymhwyso’n ôl-weithredol (oni nodir yn wahanol) trwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol am y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi newydd wedi cael ei gymhwyso erioed. Mae gwallau materol a ddarganfuwyd mewn ffigurau cyfnod blaenorol yn cael eu cywiro'n ôl-weithredol trwy ddiwygio balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

## 5. TALIADAU I REFENIW AR GYFER ASEDAU NAD YDYNT YN GYFREDOL

Caiff gwasanaethau, gwasanaethau cymorth a chyfrifon masnachu eu codi am amcangyfrif cyfrifyddol o'r gost o ddal asedau nad ydynt yn gyfredol yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys:

- dibrisiant y gellir ei briodoli i'r asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth perthnasol
- ailbrisio a cholledion amhariad ar asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth lle nad oes enillion cronedig yn y gronfa ailbrisio y gellir dileu colledion yn eu herbyn
- amorteiddio asedau anniriaethol y gellir eu priodoli i'r gwasanaeth.

Nid yw'n ofynnol i'r awdurdod godi ardoll i ariannu dibrisiant, ailbrisio a cholledion amhariad neu amorteiddio. Fodd bynnag, mae'n mae'n ofynnol iddo wneud cyfraniad blynyddol o refeniw tuag at y gostyngiad yn ei ofyniad benthyca cyffredinol (sy'n cyfateb i swm a gyfrifir ar sail ddarbodus a bennir gan yr awdurdod yn unol â chanllawiau statudol). Felly, caiff dibrisiant, a cholledion ailbrisio ac amhariad, ac amorteiddio eu disodli gan y cyfraniad o fewn balans y Gronfa Gyffredinol – MRP, trwy gyfrwng trafodiad addasu gyda'r cyfrif addasiad cyfalaf yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y ddau.

## 6. BUDDION I WEITHWYR

### Buddion sy'n daladwy yn ystod eu cyflogaeth

Buddion gweithwyr tymor byr yw'r rhai sydd i fod i gael eu setlo'n gyfan gwbl o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion fel tâl a chyflogau, gwyliau blynyddol â thâl ac absenoldeb salwch â thâl, taliadau bonws a buddion anariannol (ee ceir) ar gyfer gweithwyr cyfredol. Fe'u cydnabyddir fel treuliau am wasanaethau yn ystod y flwyddyn y mae'r gweithwyr yn rhoi gwasanaeth i'r awdurdod. Gwneir croniad am gost yr hawliau gwyliau (neu unrhyw fath o wyliau, ee amser i ffwrdd yn lle oriau a weithir) a enillir gan weithwyr ond na chaiff ei gymryd cyn diwedd y flwyddyn y gall gweithwyr eu dwyn ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Gwneir y croniad ar sail y cyfraddau tâl a chyflog cymwys yn ystod y flwyddyn gyfrifyddu ganlynol, sef y cyfnod y mae'r cyflogai'n cymryd y budd. Codir am y croniad i warged neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau, ond yna caiff ei wrthdroi trwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd i'r cyfrif absenoldebau cronedig fel y codir am hawliadau gwyliau i refeniw yn y flwyddyn ariannol y mae'r absenoldeb gwyliau yn digwydd.

### Buddion Terfynu

Mae buddion terfynu'n symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan yr Awdurdod i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddiad gwirfoddol, yn gyfnewid am y buddion hynny. Codir amdanynt ar sail croniadau i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar yr adeg gynharaf pan na all yr awdurdod dynnu ei gynnig o'r buddion hynny'n ôl mwyach neu pan fydd yr awdurdod yn cydnabod costau ar gyfer ailstrwythuro.

Pan fo buddion terfynu'n cynnwys gwella pensiynau, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol codi i falans y Gronfa Gyffredinol am y swm sy'n daladwy gan yr awdurdod i'r gronfa bensiwn neu'r pensiynwr yn y flwyddyn, nid y swm a gyfrifir yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd, mae priodoleddau'n ofynnol i ac o'r gronfa bensiynau i gael gwared ar y credydau a'r debydau tybiannol ar gyfer buddion terfynu gwelliannau pensiwn ac yn eu lle gael debydau am yr arian a dalwyd i'r gronfa bensiwn a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

### Buddion ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr yr awdurdod yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân:

- Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân, a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Dyfed, Cyngor Sir Caerfyrddin
- y Cynllun Pensiynau Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gyngor Sir y Fflint.

Roedd y ddau gynllun yn darparu buddion diffiniedig i aelodau (cyfansymiau ymddeol a phensiynau), a enillwyd wrth i weithwyr weithio i'r awdurdod.

**Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (FFPS)**

Ystyrir cynllun pensiwn y Diffoddwyr Tân fel cynllun buddion diffiniedig heb ei ariannu - nid oes gan y cynllun unrhyw asedau nac incwm buddsoddiadau:

- Mae rhwymedigaethau'r Gronfa wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull uned ragamcanol — h.y. asesiad o'r taliadau yn y dyfodol a wneir mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yma gan weithwyr, yn seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, cyfraddau trosiant gweithwyr, ac ati, a rhagamcanion enillion ar gyfer y gweithwyr presennol.

- Mae rhwymedigaethau'n cael eu gostwng i'w gwerth yn ôl y prisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd gostyngiad o 4.65% (yn seiliedig ar arenillion bondiau'r Llywodraeth o hyd priodol ynghyd ag elw ychwanegol). Mae'r newid yn yr atebolrwydd pensiwn net yn cael ei ddadansoddi i'r cydrannau canlynol:

Cost gwasanaeth sy'n cynnwys:

- Cost bresennol y gwasanaeth — y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni — a ddyrannwyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau y bu'r gweithwyr yn gweithio iddynt.

- Cost gwasanaeth yn y gorffennol — y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i ddiwygio neu gwtogi cynllun y mae ei effaith yn ymwneud â blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd yn ystod blynyddoedd cynharach — wedi ei ddebydu i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

- Buddiant net ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig net, h.y. costau llog net i'r Awdurdod — y newid yn ystod y cyfnod i'r rhwymedigaeth budd diffiniedig net sy'n deillio o dreigl amser y codir amdani i linell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr — caiff hyn ei gyfrifo trwy gymhwyso'r gyfradd gostyngiad a ddefnyddir i fesur y rhwymedigaeth budd diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod i'r rhwymedigaeth budd diffiniedig net ar ddechrau'r cyfnod — gan ystyried unrhyw newidiadau yn y rhwymedigaeth budd diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i daliadau cyfraniadau a buddion.

Ailfesuriadau sy'n cynnwys:

- Enillion a cholledion actiwaraidd — newidiadau yn y rhwymedigaeth pensiynau net sy'n codi oherwydd nad yw digwyddiadau wedi cyd-daro â rhagdybiaethau a wnaed yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu oherwydd bod yr actiwarïau wedi diweddaru eu rhagdybiaethau — y codir amdanynt i'r Gronfa Bensiwn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

- Cyfraniadau a dalwyd i'r Gronfa — arian parod a delir fel cyfraniadau cyflogwr i'r gronfa bensiwn wrth setlo rhwymedigaethau; nid yw'n cael ei gyfrif fel cost.

Mewn perthynas â buddion ymddeol, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i falans y Gronfa Gyffredinol dalu am y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwr yn y flwyddyn, nid y swm a gyfrifir yn unol â'r safonau cyfrifyddu

perthnasol. Yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd, golyga hyn fod yna drosglwyddiadau i ac o’r Gronfa Bensiwn i gael gwared ar y credydau a’r debydau tybiedig ar gyfer buddion ymddeol ac yn eu lle roi debydau am yr arian a dalwyd i'r gronfa bensiwn ac i bensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol ar y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn felly'n mesur yr effaith fuddiol i'r Gronfa Gyffredinol o orfod cyfrif am fuddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na buddion sy’n cael eu hennill gan weithwyr.

**Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL)**

Ystyrir y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol fel cynllun buddion diffiniedig:

- Mae rhwymedigaethau Cronfa Bensiwn Clwyd i’r a briodolir i’r awdurdod wedi’u cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull uned ragamcanol — h.y. asesiad o'r taliadau yn y dyfodol a wneir mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yma gan weithwyr, yn seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, cyfraddau trosiant gweithwyr, ac ati, a rhagamcanion enillion ar gyfer y gweithwyr presennol.
- Caiff rhwymedigaethau eu gostwng i'w gwerth yn ôl y prisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd gostyngiad o 4.7%-4.9% (yn seiliedig ar y gyfradd enillion ddangosol ar fondiau corfforaethol).
- Mae asedau Cronfa Bensiwn Clwyd y gellir eu priodoli i'r awdurdod wedi'u cynnwys yn Fantolen yn ôl eu gwerth teg:
  – gwarannau a ddyfynnwyd – pris cyfredol y cynnig
  – gwarannau heb eu dyfynnu – amcangyfrif proffesiynol
  – gwarannau unedol – pris cyfredol y cynnig
  – eiddo – gwerth y farchnad.

Mae'r newid yn y rhwymedigaeth pensiynau net yn cael ei ddadansoddi o dan y cydrannau canlynol:

Cost gwasanaeth sy'n cynnwys:

- cost bresennol y gwasanaeth – y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd y flwyddyn hon – a ddyrennir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau y gweithiodd y gweithwyr iddynt
- cost gwasanaeth yn y gorffennol – y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i wella neu gwtogi cynllun y mae ei effaith yn gysylltiedig â’r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd yn ystod blynyddoedd cynharach – wedi’i ddebydu i'r gwarged neu'r diffyg ar y ddarpariaeth gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr [nodwch y bydd y modd y caiff costau gwasanaeth yn y gorffennol eu trin yn dibynnu ar benderfyniadau'r awdurdod ynghylch sut y cânt eu dyrannu i segmentau gwasanaeth]
- buddiant net ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig net (ased), h.y. gwariant llog net ar gyfer yr awdurdod – y newid yn ystod cyfnod y rhwymedigaeth budd diffiniedig net (ased) sy’n digwydd oherwydd treigl amser y codir amdano o linell incwm a gwariant cyllido a buddsoddi y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr – cyfrifir hyn drwy gymhwyso'r gyfradd ostyngiad a ddefnyddir i fesur y rhwymedigaeth budd diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod i'r rhwymedigaeth budd diffiniedig net (ased) ar ddechrau’r cyfnod – gan ystyried unrhyw newidiadau yn y rhwymedigaeth budd diffiniedig net (ased) yn ystod y cyfnod o ganlyniad i daliadau cyfraniadau a buddion.

Ailfesuriadau sy'n cynnwys:

- yr enillion ar asedau'r cynllun – ac eithrio symiau sydd wedi'u cynnwys o fewn llog net ar y rhwymedigaeth budd net diffiniedig (ased) – y codir amdanynt i'r gronfa bensiwn wrth gefn fel incwm a gwariant cynhwysfawr arall
- enillion a cholledion actiwaraidd – newidiadau yn y rhwymedigaeth pensiynau net sy'n codi oherwydd i ddigwyddiadau beidio â chyd-daro â rhagdybiaethau a wnaed yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu oherwydd bod yr actiwarïau wedi diweddaru eu rhagdybiaethau – y codir amdanynt i'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn fel incwm a gwariant cynhwysfawr arall.
- cyfraniadau a delir i'r Gronfa — arian parod a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa bensiwn wrth setlo rhwymedigaethau; nid yw'n cael ei gyfrif fel cost.

Mewn perthynas â buddion ymddeol, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i falans y Gronfa Gyffredinol dalu am y swm sy'n daladwy gan yr awdurdod i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i bensiynwyr yn y flwyddyn, nid y swm a gyfrifir yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd, golyga hyn fod yna drosglwyddiadau i ac o'r gronfa pensiynau wrth gefn i gael gwared ar y debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddion ymddeol a'u disodli â debydau ar gyfer yr arian a delir i'r gronfa bensiwn ac i bensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sy'n codi ar y gronfa bensiwn felly yn mesur yr effaith fuddiol i'r Gronfa Gyffredinol o orfod cyfrif am fuddion ymddeol ar sail llif arian parod yn hytrach na buddion sy'n cael eu hennill gan weithwyr.

**Buddion Dewisol**:

Mae gan yr Awdurdod hefyd bwerau cyfyngedig i ddyfarnu buddion ymddeol yn ôl ei ddisgresiwn os bydd gweithwyr yn ymddeol yn gynnar. Caiff unrhyw rwymedigaethau yr amcangyfrifir eu bod o ganlyniad i ddyfarniad i unrhyw aelod o staff eu cronni yn ystod blwyddyn y penderfyniad i wneud y dyfarniad a chyfrifir amdano gan ddefnyddio'r un polisïau ag a gymhwysir i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

## 7. DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Digwyddiadau ar ôl cyfnod adrodd y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd dyddiad y Fantolen a'r dyddiad pan fydd y datganiad cyfrifon yn cael ei awdurdodi i'w gyhoeddi. Gellir nodi dau fath o ddigwyddiad.

- y rhai sy'n darparu tystiolaeth o amodau oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y datganiad cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath.
- y rhai sy'n arwydd o amodau a gododd wedi'r cyfnod adrodd – nid yw'r datganiad cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond lle byddai digwyddiadau o'r fath yn cael effaith berthnasol, gwneir datgeliad yn y nodiadau o natur y digwyddiadau a'u heffaith ariannol amcangyfrifedig.

Ni chaiff digwyddiadau sy'n digwydd ar ôl dyddiad awdurdodi ei gyhoeddi eu hadlewyrchu yn y datganiad cyfrifon.

## 8. OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae Offeryn Ariannol yn cael ei ddiffinio fel 'unrhyw gontract sy'n arwain at ased ariannol i un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti i un arall'. I ddechrau, caiff rhwymedigaeth ariannol (benthyciadau) ac asedau ariannol (buddsoddiadau) eu mesur yn ôl gwerth teg a chânt eu cario ar sail eu cost wedi'i hamorteiddio. Mae'r llog blynyddol a delir ac a dderbynnir yn y cyfrif Incwm a Gwariant yn seiliedig ar swm cario'r benthyciad neu'r buddsoddiad wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn. Ar gyfer yr holl fenthyciadau a buddsoddiadau sydd gan yr awdurdod, y symiau a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prif weddill ynghyd ag unrhyw log cronedig am y flwyddyn.

Mae'r awdurdod yn cydnabod colledion credyd disgwyliedig ar ei holl asedau ariannol sy'n cael eu dal ar sail cost wedi'i hamorteiddio.

Caiff rhwymedigaethau ariannol eu cydnabod ar y fantolen pan ddaw'r awdurdod yn rhan o ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol a chânt eu mesur yn y lle cyntaf yn ôl gwerth teg a'u cario ar sail eu cost wedi'i hamorteiddio. Mae taliadau blynyddol i'r llinell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) ar gyfer llog sy'n daladwy yn seiliedig ar swm cario'r rhwymedigaeth, wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn. Y gyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd sy'n gostwng taliadau arian parod amcangyfrifedig y dyfodol yn union dros oes yr offeryn i'r swm y cafodd ei gydnabod yn wreiddiol.

Ar gyfer y rhan fwyaf o'r benthyciadau sydd gan yr awdurdod, golyga hyn mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prif swm ad-daladwy sy'n weddill (ynghyd â llog cronedig); a'r llog y codir amdano i'r CIES yw'r swm sy'n daladwy am y flwyddyn yn ôl cytundeb y benthyciad.

### Asedau ariannol

Mae asedau ariannol yn cael eu dynodi ar sail dull dynodi a mesur sy'n adlewyrchu'r model busnes ar gyfer dal yr asedau ariannol a'u nodweddion llif arian. Mae'r awdurdod yn dal asedau ariannol a fesurir ar sail:

- costau wedi'u hamorteiddio, a
- gwerth teg drwy elw neu golled (FVPL)

Model busnes yr awdurdod yw dal buddsoddiadau i gasglu llif arian cytundebol. Felly mae asedau ariannol yn cael eu dynodi fel cost wedi'i hamorteiddio.

### Asedau ariannol a fesurir ar sail cost wedi'i hamorteiddio

Mae asedau ariannol a fesurir ar sail cost wedi'i hamorteiddio yn cael eu cydnabod ar y Fantolen pan ddaw'r awdurdod yn rhan o ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol a chânt eu mesur yn y lle cyntaf yn ôl gwerth teg. Wedi hynny fe'u mesurir ar sail eu cost wedi'i hamorteiddio. Mae credydau blynyddol i'r llinell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi yn y CIES ar gyfer llog sy'n daladwy yn seiliedig ar swm cario'r ased wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r asedau ariannol a ddelir gan yr awdurdod, golyga hyn mai'r swm a gyflwynwyd yn y Fantolen yw'r prif swm taladwy sy'n weddill (ynghyd â llog cronedig), a Llog a gredydir i'r CIES yw'r swm taladwy ar gyfer y flwyddyn o fewn cytundeb y benthyciad.

Mae unrhyw enillion a cholledion sy'n codi wrth ddadgydnabod ased ariannol yn cael eu credydu neu eu debydu i'r llinell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi yn y CIES.

## 9. TRAFODION ARIAN TRAMOR

Pan fo'r awdurdod wedi ymrwymo i drafodiad mewn arian cyfred tramor, caiff y trafodiad ei drawsnewid yn sterling yn ôl y gyfradd gyfnewid sy'n gymwys ar ddyddiad y trafodiad. Pan fydd symiau mewn arian cyfred tramor yn weddill ar ddiwedd y flwyddyn, maent yn cael eu trosi eto ar sail y gyfradd gyfnewid ar 31 Mawrth. Cydnabyddir enillion neu golledion canlyniadol yn y llinell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

## 10. CYFRIF AM GRANTIAU'R LLYWODRAETH

P'un a ydynt yn cael eu talu ar gyfrif, mewn rhandaliadau, neu mewn ôl-ddyledion, cydnabyddir bod grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau a rhoddion trydydd parti yn ddyledus i'r Awdurdod pan fo sicrwydd rhesymol y bydd:

- yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r amodau sy'n gysylltiedig â'r taliadau, ac
- y bydd y cyfraniadau neu'r grantiau yn cael eu derbyn.

Nid yw symiau a gydnabyddir fel rhai sy'n ddyledus yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr nes bod yr amodau sydd ynghlwm wrth y grant neu'r cyfraniad wedi cael eu bodloni.

Caiff arian a gafwyd fel grantiau a chyfraniadau nad yw’r amodau wedi'u bodloni ar eu cyfer eu cario yn y Fantolen fel credydwyr. Pan fodlonir yr amodau, caiff y grant neu'r cyfraniad ei gredydu i'r llinell wasanaeth berthnasol (grantiau a chyfraniadau refeniw y gellir eu priodoli) neu Incwm Trethiant a Grantiau Amhenodol (grantiau refeniw heb eu neilltuo a'r holl grantiau cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo grantiau cyfalaf yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu gwrthdroi allan o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd. Pan nad yw'r grant wedi'i ddefnyddio eto i ariannu gwariant cyfalaf, caiff ei roi yn y Gronfa Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso. Lle mae wedi'i gymhwyso, caiff cael ei roi yn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf. Caiff symiau yn y Gronfa Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf unwaith y byddant wedi'u cymhwyso i ariannu gwariant cyfalaf

## 11. ASEDAU ANNIRIAETHOL

Caiff gwariant ar asedau anariannol sydd heb sylwedd ffisegol ond sy'n cael eu rheoli gan yr awdurdod o ganlyniad i ddigwyddiadau'r gorffennol (ee trwyddedau meddalwedd) ei gyfalafu pan ddisgwylir y bydd buddion economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol yn deillio o'r ased anniriaethol i'r awdurdod.

Mae asedau a gynhyrchir yn fewnol yn cael eu cyfalafu lle mae'n amlwg bod y prosiect yn dechnegol ymarferol a'i fod wedi'i fwriadu i gael ei gwblhau (gydag adnoddau digonol ar gael) a bydd yr awdurdod yn gallu cynhyrchu buddion economaidd yn y dyfodol neu gyflawni potensial gwasanaeth trwy allu gwerthu neu ddefnyddio'r ased. Caiff gwariant ei gyfalafu lle gellir mesur yn ddibynadwy y gellir ei briodoli i'r ased ac fe'i cyfyngir i'r hyn a dynnir yn ystod y cyfnod datblygu (ni ellir cyfalafu gwariant ymchwil).

Nid yw gwariant ar ddatblygu gwefannau yn cael ei gyfalafu os bwriedir i'r wefan hyrwyddo neu hysbysebu nwyddau neu wasanaethau'r awdurdod yn unig neu'n bennaf.

Caiff asedau anniriaethol eu mesur ar sail cost i ddechrau. Caiff symiau eu hailbrisio dim ond pan ellir pennu gwerth teg yr asedau a ddelir gan yr awdurdod drwy gyfeirio at farchnad weithredol. Yn ymarferol, nid oes unrhyw ased anniriaethol sy’n cael ei dal gan yr awdurdod yn bodloni'r maen prawf hwn, ac felly maent yn cael eu cario ar sail cost llai’r dibrisiant cronedig ac unrhyw golledion amhariad cronedig. Bydd swm dibrisiadwy ased anniriaethol yn cael ei amorteiddio dros gyfnod ei oes ddefnyddiol i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Rhoddir prawf ar ased am amhariad pryd bynnag y mae arwydd bod gwerth yr ased wedi lleihau – bydd unrhyw golledion a nodir yn cael eu gosod ar y llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Bydd unrhyw enillion neu golledion sy’n codi ar ôl gwaredu neu adael ased anniriaethol yn cael eu symud i’r llinell gwariant gweithredu arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Lle gellir ystyried gwariant ar asedau anniriaethol fel gwariant cyfalaf at ddibenion statudol, ni chaniateir i amorteiddio, colledion amhariad ac enillion a cholledion gwaredu gael effaith ar falans y Gronfa Gyffredinol. Felly, caiff yr enillion a'r colledion eu gwrthdroi o falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd a’u symud i'r cyfrif addasu cyfalaf ac (ar gyfer unrhyw enillion o werthu sy'n fwy na £10,000) i’r gronfa derbyniadau cyfalaf wrth gefn.

## 12. RHESTRAU STOC

Mae rhestrau stoc wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar sail y gwerth cost a net isaf y gellir ei wireddu. Caiff cost rhestrau stoc ei bennu gan ddefnyddio fformiwla cost FIFO.

## 13. LESOEDD

### Lesoedd Cyllid

Mae lesoedd yn cael eu dynodi fel lesoedd cyllid pan fo telerau'r les yn trosglwyddo'n sylweddol yr holl risgiau a'r gwobrwyon sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth ar yr eiddo, peiriannau neu offer o'r lesydd i'r lesai. Mae'r holl lesoedd eraill yn cael eu dynodi fel lesoedd gweithredu.

Caiff eiddo, peiriannau ac offer a ddelir o dan lesoedd cyllid eu nodi ar y Fantolen ar ddechrau'r les ar sail eu gwerth teg a fesurir ar ddechrau'r les (neu werth presennol y taliadau les isaf, os yw'n is). Caiff yr ased a gydnabyddir ei gyfateb gan rwymedigaeth dros dalu'r lesydd. Ychwanegir costau uniongyrchol cychwynnol yr awdurdod at swm cario'r ased. Mae premiymau a delir wrth gychwyn les yn cael eu cymhwyso wrth nodi rhwymedigaeth y les.

Caiff rhenti wrth gefn eu codi fel treuliau yn y cyfnodau maent yn cael eu tynnu.

Mae taliadau les yn cael eu dosrannu rhwng:

- tâl am gaffael y buddiant yn yr eiddo, peiriannau neu offer – wedi'i gymhwyso i nodi rhwymedigaeth y les, a
- thâl cyllid (wedi'i ddebydu i'r llinell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cyffredinol).

Cyfrifir am eiddo, peiriannau ac offer a gydnabyddir o dan lesoedd gan ddefnyddio'r polisïau a gymhwysir yn gyffredinol i asedau o'r fath, yn amodol ar godi am ddibrisiant dros gyfnod y les os yw hyn yn fyrrach nag oes ddefnyddiol amcangyfrifedig yr ased (lle nad yw perchnogaeth yr ased yn trosglwyddo i'r awdurdod ar ddiwedd cyfnod y les).

Nid yw'n ofynnol i'r awdurdod godi ardoll i dalu am golledion dibrisiant neu ailbrisio a cholledion amhariad sy'n deillio o roi asedau ar les. Yn hytrach, gwneir cyfraniad blynyddol darbodus o gronfeydd refeniw tuag at y buddsoddiad cyfalaf tybiedig yn unol â gofynion statudol. Felly, caiff dibrisiant a cholledion ailbrisio ac amhariad eu disodli gan gyfraniad refeniw o fewn balans y Gronfa Gyffredinol, trwy gyfrwng trafodiad addasu gyda'r cyfrif addasiad cyfalaf yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y ddau.

### Lesoedd Gweithredu

Codir am renti a delir o dan lesoedd gweithredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel treuliau i'r gwasanaethau sy'n elwa o ddefnyddio'r eiddo, peiriannau neu offer sy'n cael eu rhoi ar les. Gwneir taliadau ar sail llinell syth dros oes y les, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyfateb i batrwm y taliadau (e.e. cyfnod di-rent ar ddechrau'r les).

## 14. EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER

Mae asedau sydd â sylwedd ffisegol ac sy'n cael eu dal i'w defnyddio wrth gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rhentu i eraill, neu at ddibenion gweinyddol ac y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol yn cael eu dynodi fel Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar.

### Cydnabod

 Cymryd ymagwedd integredig, gan gydbwyso anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

 Cofio am yr amrywiaeth gyfoethog o bobl yng Ngogledd Cymru a'u hannog i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

 Gweithio ar y cyd i gyflawni'r amcanion llesiant.

1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Yr Hanfodion

Mae awdurdodau tân ac achub yng Nghymru hefyd yn cael eu hystyried yn 'Awdurdodau Gwella Cymreig' ac maent yn ddarostyngedig i ofynion Mesur Llywodraeth Leol 2009. Felly, rhaid iddynt ddilyn proses flynyddol o osod a chyflawni amcanion gwella lleol.

Yn ogystal â'r dyletswyddau a osodir ar gyrff cyhoeddus unigol, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob ardal awdurdod lleol ffurfio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC).

O ran yr ardal a gwmpesir gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, sefydlwyd tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:

- Ynys Môn a Gwynedd.
- Conwy a Sir Ddinbych.
- Sir y Fflint a Wrecsam (unwyd ar y 1af o Ionawr 2023).

Cyhoeddodd pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 'Gynllun Llesiant' i nodi eu blaenoriaethau, a sut maent yn gweithio i gyflawni'r blaenoriaethau hynny yn eu hardaloedd.

## Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff y sector cyhoeddus, wrth arfer eu swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, annhegwch ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan y Ddeddf hon.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu.
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu.


## Safonau'r Gymraeg 2016

Cyflwynodd Comisiynydd y Gymraeg eu Hysbysiadau Cydymffurfio i'r awdurdodau tân ac achub ar 30 Medi 2016. Mae'r ddogfen hon yn rhestru pa rai o Safonau'r Gymraeg (fel y'u rhestrir yn llawn yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5); 2016) y mae'n rhaid i sefydliad gydymffurfio â hwy, ynghyd ag unrhyw eithriadau a'u dyddiadau gweithredu.

# Gogledd Cymru

Mae adnabod Gogledd Cymru heddiw yn helpu'r Awdurdod i gynllunio newidiadau cadarnhaol ar gyfer y dyfodol.


## Poblogaeth




**22.1%** of Wales

[Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru]

## Arwynebedd KM2




**29.7%** of Wales

[Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru]


## Dwysedd Poblogaeth




**112** The Welsh average is 150

[Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru]


## Cartrefi




**22.6%** of Wales

[Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru]


## Eiddo nad ydynt yn Gartrefi




**26.6%** of Wales

[Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru]


## Hyd y Ffordd KM




**28.1%** of Wales

[Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru]


## Arwynebedd Amaethyddol KM2




**31.1%** of Wales

[Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru]

## Siaradwyr Cymraeg




**31.9%** of Wales

[Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru]

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Isod ceir crynodeb o adnoddau a lefelau gweithgareddau'r Awdurdod yn 2022-23.

| Gorsafoedd Tân | Injans Tân Llinell Blaen | Galwadau 999 yr Ymdriniwyd â Hwy | Staff y Gwasanaeth Tân (ar 31 Mawrth 2023) |
|---|---|---|---|
| 44 | 54 | 13,224 | 902 (headcount) |
| **Digwyddiadau Argyfwng y Rhoddwyd Sylw Iddynt** | **Tanau** | **Galwadau Diangen** | **Argyfyngau nad oeddent yn Dân** |
| 5,896 | 2,011 | 2,674 | 1,211 |

## Beth yw ein patrymau sifft presennol?

Mae ein diffoddwyr ar ddyletswydd yn ôl y galw neu ein diffoddwyr ar-alwad (rhan amser) wedi'u lleoli'n bennaf mewn gorsafoedd tân gwledig ar draws ein rhanbarth. Mae'n ofynnol iddynt fyw o fewn pum munud i'w gorsaf dân (er y gellir ymestyn hyn yn dibynnu ar yr achos) a chario hysbyswr er mwyn gallu ymateb i argyfyngau, yn ogystal â mynychu nosweithiau ymarfer unwaith yr wythnos ar gyfer sesiynau hyfforddi a dyletswyddau eraill a drefnir ymlaen llaw.

Mae ein criw dydd yn ddiffoddwyr tân llawn amser wedi'u lleoli ym Mae Colwyn, Llandudno, Bangor, Caernarfon a Chaergybi. Mae system shifft y criw dydd yn ei gwneud yn ofynnol i'n criwiau gyfuno gweithio oriau yn yr orsaf yn ystod y dydd ac aros ar-alwad o leoliad cychwynnol dros nos er mwyn darparu ymateb 24 awr. Mae yna hefyd ddiffoddwyr tân ar-alwad yn y gorsafoedd tân hyn.

Mae ein diffoddwyr tân amser cyflawn neu amser llawn wedi'u lleoli yn Wrecsam, Glannau Dyfrdwy a'r Rhyl. Mae criwiau yn y gorsafoedd hyn yn gweithio sifftiau o'r orsaf gyda'r nos ac yn ystod y dydd er mwyn darparu ymateb 24 awr. Yn ychwanegol, mae yna hefyd ddiffoddwyr tân ar-alwad yn y gorsafoedd tân hyn.


Mae diffoddwyr tân gwledig amser cyflawn hefyd yn gweithio'n llawn amser ac yn gweithio sifftiau dydd 12 awr dros y rhanbarth ar sail ddeinamig yn ôl yr angen.

# Staffio

| Ar 31 Mawrth 2023 | Cryfder cyfwerth ag amser llawn | Cyfrif pennau staff unigol |
|---|---|---|
| Gweithredol Amser Cyflawn (System Dyletswydd Amser Cyflawn) | 279.00 | 280 |
| Gweithredol Rhan Amser (System Dyletswydd Rhan Amser/ar-alwad) | 365.25 | 452 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 135.58 | 139 |
| Ystafell Reoli | 30.71 | 31 |
| **Cyfansymiau** | **810.54** | **902** |

Mae bron i hanner y personél a gyflogir gan yr Awdurdod yn cael eu categoreiddio fel diffoddwyr tân ar-alwad; dyma un o'r cyfrannau uchaf o'i gymharu ag awdurdodau tân ac achub yn Lloegr.

Mae'r siart bar isod yn dangos cyfanswm nifer y diffoddwyr tân ar-alwad (yn ôl cryfder) fel canran o gyfanswm y gweithlu ar draws awdurdodau tân ac achub yn Lloegr a Gogledd Cymru.




Data ar 31ain Mawrth 2022.
Ffynhonnell: [Tablau data ystadegau tân - GOV.UK (www.gov.uk)]

# Beth a Ddisgwylir Gan yr Awdurdod Tân

Mae'n rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru

| | |
|---|---|
| **Atal Tân** | drefnu bod diogelwch tân yn cael ei hyrwyddo yn eu hardaloedd. Mae hyn yn cynnwys addysgu pobl ynghylch atal tân a'u cynghori pa ymateb sydd orau os bydd tân yn digwydd. |
| **Gorfodi Diogelwch Tân** | bod yn gyfrifol am orfodi diogelwch tân mewn adeiladau annomestig, er enghraifft, gwestai, ysgolion, siopau a swyddfeydd. Mae'r ddyletswydd hon yn cynnwys arfer pwerau i orfodi newidiadau, gorfodi a hyd yn oed roi hysbysiadau gwahardd os ydynt yn canfod bod trefniadau diogelwch tân yn anfoddhaol mewn safleoedd. |
| **Ymateb Brys** | gwneud trefniadau ar gyfer derbyn galwadau 999 ac anfon personél hyfforddedig â'r offer priodol i ddiffodd tanau ac amddiffyn bywydau ac eiddo yn y tanau hynny. Mae'n rhaid iddynt hefyd wneud trefniadau ar gyfer achub pobl mewn gwrthdrawiadau ar y ffyrdd a'u hamddiffyn rhag niwed difrifol. |
| **Cynllunio ac Ymateb i Argyfyngau Eraill** | gwneud trefniadau ar gyfer dadheintio pobl ar lefel dorfol ar ôl digwyddiadau cemegol, biolegol neu ymbelydrol, ac ar gyfer achub pobl o drenau, awyrennau ac adeiladau sydd wedi cwympo. Mae'n rhaid iddynt hefyd fod yn barod i gynorthwyo gydag argyfyngau ar raddfa fawr (gan gynnwys ymosodiadau terfysgol) mewn mannau eraill yn y DU. Fel ymatebwyr 'Categori 1' o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil, mae gan awdurdodau tân ac achub ddyletswyddau hefyd yn ymwneud â dyletswyddau digwyddiadau ar raddfa fawr sy'n bygwth niwed difrifol i les pobl, bywyd gwyllt, yr amgylchedd a phrif gadwyni cyflenwi. |
| **Argyfyngau Llifogydd a Dŵr Mewndirol** | gwneud trefniadau i ymateb i achosion o lifogydd neu achub o ddŵr sy'n peri bygythiad uniongyrchol a allai achosi marwolaeth neu anaf. |
| **Cydraddoldeb** | gweithio tuag at ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol. |
| **Y Gymraeg** | trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, gan hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a chydymffurfio â safonau'r Gymraeg sy'n ddiffiniedig. |
| **Gwella Parhaus** | gosod amcanion yn barhaus i wella'r hyn a wnânt, a chyhoeddi gwybodaeth am eu gwelliannau a'u perfformiad. |
| **Cynllunio ar gyfer y Dyfodol** | gweithio tuag at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl yn ogystal â gweithio mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar anghenion cenedlaethau'r dyfodol. |


Gweler tudalen 77 am ffynonellau deddfwriaeth.

# Cynnydd yn Erbyn Amcanion Gwella a Llesiant

Mae'r adran hon yn disgrifio'r cynnydd a wnaeth yr Awdurdod tuag at gyflawni ei amcanion gwella a llesiant hirdymor yn ystod 2022-23. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi'r asesiad hwn o'i berfformiad ei hun ar gyfer 2022-23 a'r dangosyddion perfformiad statudol ar gyfer yr un flwyddyn erbyn 31ain Hydref 2023.

Yn 2018-19 cynyddodd yr Awdurdod nifer yr amcanion yr oedd yn eu dilyn er mwyn cydymffurfio'n well ag adran 3(2) (a) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, sy'n nodi bod yn rhaid i gorff cyhoeddus osod a chyhoeddi amcanion "...sydd wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o'i gyfraniad at gyflawni pob un o'r nodau llesiant".

Gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau ar wefan y Comisiynydd megis 'gwirwyr taith', datblygwyd casgliad newydd o amcanion yn unol â'r datblygiad cynaliadwyedd a fu o gymorth i nodi cyfleoedd o ran sut y gallai'r Awdurdod wella ei gyfraniad at amcanion llesiant Cymru.




Yn ystod 2022-23 gwnaed gwaith i sicrhau bod yr amcanion llesiant yn cael eu hymgorffori ym mhob cynllun adrannol lle bo hynny'n berthnasol. Tanategir y gwaith hwn ymhellach gan ddatblygu set o 'Flociau Adeiladu' sy'n set o fesurau i gefnogi'r amcanion llesiant a'r amcanion adrannol.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2022-23 yn aros am gymeradwyaeth gan yr Awdurdod ar hyn o bryd ac mae'n rhoi trosolwg o'r trefniadau llywodraethu yn ogystal â chadarnhau cynllun gwaith ar gyfer 2023-24.

Ar ôl ei gymeradwyo a'i gyhoeddi, bydd perfformiad yn erbyn y blaengynllun gwaith yn cael ei fonitro drwy Fwrdd Perfformiad Tîm Arweinyddiaeth y Gwasanaeth.

# Amcan 1: Gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a llesiant pobl yng Ngogledd Cymru

**Amcanion llesiant a gyflawnwyd:**

Gall amrywiaeth o ffactorau gynyddu'r risg i bobl ddioddef tanau damweiniol yn y cartref, er enghraifft eu hoedran (plant ifanc ac oedolion hŷn), bod ag anabledd neu gyflwr meddygol cyfyngol, bod ar eu pennau eu hunain adeg y tân, a chael eu heffeithio gan alcohol a/neu gyffuriau.

Mae unigolion a chymunedau sy'n gwybod sut i atal tanau ac aros yn ddiogel pan fyddant yn digwydd nid yn unig yn fwy diogel ac yn iachach, ond hefyd yn fwy gwydn yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol. Mae effeithiau llygredd o danau yn cyfrannu at amgylchedd llai iach, sydd yn ei dro yn atal pobl rhag gwneud gweithgareddau awyr agored a all effeithio'n negyddol ar les corfforol a meddyliol. Trwy gydol 2022-23, parhaodd yr Awdurdod i ganolbwyntio ei ymdrechion ar helpu pobl i gadw'n ddiogel, boed gartref, yn y gwaith, ar y ffyrdd, neu allan yn y gymuned.

## Cam gweithredu 1: cefnogi pobl i atal tanau damweiniol yn y cartref a chadw'n ddiogel os ydynt yn digwydd.

Yn ystod y flwyddyn, aethom at 344 o danau damweiniol mewn cartrefi lle cafodd 23 o bobl anafiadau bach a thri arall angen triniaeth dros nos mewn ysbyty, ac ni chofnodwyd unrhyw farwolaethau tân.

Rhoddodd staff galwadau'r Ystafell Reoli gyngor achub bywyd yn ystod galwadau 999 wrth geisio cadw'r preswylwyr yn bwyllog i ganolbwyntio ar eu dihangfa. Bu'r cyngor hwn yn amhrisiadwy yn ystod galwad at dân mewn tŷ yn Sir Ddinbych tra bod pum injan dân ar eu ffordd, arhosodd ein staff Ystafell Reoli ar y ffôn gan roi cyngor achub bywyd a thawelwch meddwl gydol yr amser. Llwyddodd 12 o bobl i adael yr adeilad a oedd ar dân yn ddiogel, gyda phedwar yn cael eu hachub gan ddiffoddwyr tân, a dim ond mân effeithiau anadlu mwg a ddioddefodd pob un o'r preswylwyr. Yn dilyn ymchwiliad, tybiwyd mai gweddillion braster wedi ymgasglu mewn teclyn coginio oedd yn gyfrifol am y tân.

Mae Grŵp Llywio Ymgyrch sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r Gwasanaeth yn cydweithio â Chyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân i greu ac ymateb i ymgyrchoedd atal lleol a chenedlaethol, er enghraifft:

- Diwrnod Pobl Hŷn
- Diwrnod Dim Ysmygu
- Wythnos Ymwybyddiaeth o fod yn Fyddar

Bu staff diogelwch tân hefyd yn bresennol mewn digwyddiadau lleol a chenedlaethol, fel yr Eisteddfod Genedlaethol, i hyrwyddo ein gwaith atal ac amddiffyn, gan gynnwys yr 'Ymgyrch Gallwch Achub Bywyd' i annog pobl i gadw llygad am eraill mewn ymdrech i helpu i atal tanau damweiniol mewn cartrefi.

## Cam gweithredu 2: cyflawni 20,000 o Archwiliadau Diogel ac Iach naill ai yn Gymraeg neu Saesneg gydag o leiaf 25% o'r aelwydydd a archwiliwyd yn cael eu cyfeirio at y Gwasanaeth gan asiantaeth arall.

Cwblhawyd cyfanswm o 18,052 o Archwiliadau Diogel ac Iach yn ystod y flwyddyn, gyda 32% yn cael eu cynnal mewn ymateb i atgyfeiriad gan asiantaeth bartner; roedd ychydig dros draean o'r holl Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth uchel.

Yn ystod y flwyddyn, dechreuodd y Gwasanaeth ar broses uchelgeisiol o ailgysylltu â phreswylwyr yr oeddem wedi cynnal Archwiliadau Diogel ac Iach 'Blaenoriaeth Uchel' iddynt yn flaenorol, mor bell yn ôl â 2019-2020. Rhoddwyd y manylion cyswllt i'r criwiau tân gweithredol fesul cam, gan ymdrin â nhw bob blwyddyn yn eu tro. Ein nod yw cwblhau'r broses hon erbyn mis Ebrill 2024 ac ar ôl hynny bydd y galwadau ail-ymgysylltu yn parhau flwyddyn ar ôl blwyddyn ac yn dod yn fusnes fel arfer. Nid yw hyn yn cynnwys atgyfeiriadau a wnaed yn dilyn 'perygl o losgi' neu oherwydd trais domestig, am resymau diogelwch amlwg.

Parhawyd i ddarparu ymyriadau pwrpasol i'r rhai mwyaf agored i niwed yn y gymuned, gan cynnwys gosod offer arloesol fel Stoveguards, sef teclyn sy'n diffodd pŵer popty er mwyn atal tân a hynny trwy synhwyro gwres neu gyfuniad o wres a mygdarthau coginio.

Roedd un o'n mentrau ymgysylltu diogelwch tân niferus eleni yn cynnwys hyrwyddo ein rhif testun newydd 07507 303678, a oedd yn cyd-daro â'r 'Diwrnod Pobl Hŷn' fel ffordd amgen i bobl gofrestru cais am Archwiliadau Diogel ac Iach.

Caiff Archwiliadau Diogel ac Iach eu hyrwyddo'n rheolaidd trwy ein gwefan, trwy daflenni ac ar ein cyfryngau cymdeithasol drwy'r ymgyrch #profiddyddmawrth. Mae'r cyfle i dderbyn yr archwiliadau hyn yn ddwyieithog hefyd yn cael ei hyrwyddo i'n cymunedau.

Mae Grŵp Llywio Ymgyrch sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r Gwasanaeth yn gweithio i hyrwyddo ymgyrchoedd sydd â'r nod o gynnal diogelwch y cyhoedd yn ogystal â rhoi cyhoeddusrwydd i'n gwaith atal ac amddiffyn – mae hyn yn cynnwys hyrwyddo archwiliadau diogel ac iach ac ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth o sut i helpu'r rhai sy'n fwy agored i niwed i gadw'n ddiogel ac i barhau i fod yn berchen larymau mwg.

## Cam gweithredu 3: cefnogi asiantaethau eraill i leihau nifer y gwrthdrawiadau ar y ffyrdd a marwolaethau ac anafiadau cysylltiedig.

Mynychwyd cyfanswm o 234 o wrthdrawiadau ar y ffyrdd yn ystod y flwyddyn.

Fis cyn hyrwyddo 'Ymgyrch Darwin', ymgyrch sy'n gweithio gyda phartneriaid i leihau'r risg o farwolaethau ac anafiadau difrifol sy'n gysylltiedig â beiciau modur, aethom i achos o Wrthdrawiad ar y Ffordd difrifol ger Llanrwst; roedd dau feiciwr modur yn rhan o'r digwyddiad hwn a bu un ohonynt farw wythnos yn ddiweddarach, tra bod y llall wedi dioddef anafiadau sydd wedi newid ei fywyd. Roedd yr ymgyrch yn canolbwyntio ar lwybrau beicio poblogaidd yng Nghymru a'i nod oedd chwalu rhwystrau â beicwyr modur drwy ymgysylltu a thrafod.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill gan gynnwys gwasanaethau tân ac achub eraill yng Nghymru i hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd a chodi ymwybyddiaeth o brif achosion Gwrthdrawiadau ar y Ffyrdd angheuol. Mae'r neges 'Pump Angheuol' yn canolbwyntio ar 'Peidiwch ag yfed a gyrru, Arafwch, Peidiwch â bod yn ddiofal, Gwisgwch eich gwregys diogelwch, a Diffoddwch eich ffôn symudol'. Un enghraifft o'r gwaith hwn oedd lansio ffilm diogelwch ffyrdd bwerus yn 2022 yn adrodd hanes merch ifanc a laddwyd mewn Gwrthdrawiad ar y Ffyrdd yng Ngogledd Cymru.

Mae 'Stori Olivia', ffilm addysgol, yn ymwneud â merch ifanc a laddwyd yn drychinebus mewn Gwrthdrawiad ar y Ffyrdd; cyflwynwyd y ffilm mewn digwyddiad arbennig yn Rhuthun lle rhannwyd y neges bwerus ynghylch diogelwch ffyrdd gyda'r gymuned leol am y tro cyntaf. Yna, ymddangosodd y stori ar raglen 'One Show' BBC1 ac fe'i defnyddiwyd gan ein haddysgwyr a'n staff atal mewn ysgolion a cholegau er mwyn hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd. Mae'r neges hon ynghylch diogelwch bellach wedi'i rhannu â thros 2,500 o bobl ifanc; rydym wedi cymryd yr awenau i'w chyflwyno i bob coleg, tra bydd Heddlu Gogledd Cymru yn annerch pob ysgol uwchradd yn ardal ein Gwasanaeth.

Mae Stori Olivia wedi cael ei defnyddio i gynorthwyo i addysgu gyrwyr am ganlyniadau angheuol goryrru neu beidio â thalu sylw wrth yrru – mae hyn yn hollbwysig ymysg gyrwyr iau gan ei bod yn hysbys bod gyrwyr 16-24 oed yn llawer mwy tebygol o gael eu hanafu mewn gwrthdrawiadau ar y ffyrdd.

I gydnabod llwyddiant Stori Olivia, bydd staff yn mynd i Dŷ'r Senedd yn San Steffan ym mis Gorffennaf 2023, pan fydd mam Olivia ac Aelod Seneddol yn annog pobl ifanc i osod 'blychau du' yn eu ceir er mwyn helpu i atal damweiniau yn y dyfodol, diolch i well ymwybyddiaeth gyrwyr.

## Cam gweithredu 4: gwreiddio arferion diogelu mewn gweithgareddau o ddydd i ddydd ac mae'r rhain yn cyd-fynd â chanllawiau a pholisi cenedlaethol.

Rydym yn parhau i sicrhau cydymffurfiad deddfwriaethol a bu cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau diogelu priodol, tra bod cynnwys yr wybodaeth mewn atgyfeiriadau wedi gwella. Yn ogystal, cynhaliwyd adolygiad o hyfforddiant staff er mwyn nodi pa aelodau staff oedd angen cyfarwyddyd ar Lefelau tri a phedwar ac mae hyfforddiant yn cael ei gynllunio ar gyfer y rhai a nodwyd.

Wrth i ni barhau i gyfeirio oedolion a phlant at dimau diogelu awdurdodau lleol, rydym wedi gweld cynnydd parhaus yn nifer yr atgyfeiriadau a wneir ar gyfer oedolion a phlant; mae hyfforddiant ac ymwybyddiaeth barhaus staff GTAGC yn cyfrannu at y cynnydd hwn.

Bydd y Ddyletswydd Trais Difrifol yn cael ei deddfu'n gyfreithiol cyn bo hir, ac mae'r Gwasanaeth yn 'awdurdod penodedig' gyda dyletswydd i gynorthwyo i leihau Trais Difrifol yng Ngogledd Cymru.

O'r 1af o Ragfyr 2022, cyflwynwyd deddfwriaeth newydd i sicrhau bod larwm mwg gwifredig sy'n gweithio yn cael ei osod ar nenfwd pob llawr ym mhob eiddo ar rent. Er mai cyfrifoldeb y landlord yw hyn, rydym wedi darparu arweiniad ar y math o larwm mwyaf priodol ar gyfer yr eiddo.

Mae system atgyfeirio wedi'i datblygu ledled Cymru i atgyfeirio landlordiaid at Rentu Doeth Cymru, a fydd wedyn yn cysylltu â'r awdurdod lleol perthnasol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

## Cam gweithredu 5: parhau i ddatblygu a darparu ymyriadau ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc drwy weithgareddau wedi'u targedu.

Parhawyd i ddarparu cyrsiau Ffenics ledled Gogledd Cymru; mae'r cyrsiau hyn (sydd ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed) wedi'u cynllunio i annog nid yn unig ysbryd cymunedol a datblygiad personol (er enghraifft hyder, gwaith tîm ac ymddiriedaeth) ond hefyd ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar y ffyrdd ac yn y cartref trwy weithgareddau galwedigaethol.

Parhaodd ein haddysgwyr gyda sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb ar gyfer pobl ifanc, gan ymweld â'r mwyafrif o ysgolion cynradd ac uwchradd Gogledd Cymru. Dros y flwyddyn, rhoddodd ein haddysgwyr gyngor diogelwch tân a allai achub bywydau i dros 18,000 o blant ysgol.

Disgwylir i brosiect cydweithredol Cymru gyfan o'r enw Staywise Cymru gael ei gwblhau yn ystod mis Mai 2023. Dyma benllanw blynyddoedd o waith paratoi i ddwyn y prosiect i ffrwyth; bydd gwefan newydd yn cynnig adnoddau y gellir eu lawrlwytho gan ysgolion, athrawon a phobl ifanc, a bydd wedi ymrwymo i achub bywydau trwy addysgu.

Parhawyd i ddarparu rhaglenni Cadetiaid Tân rheolaidd bob wythnos ar draws Gogledd Cymru; mae Cadetiaid Tân yn gynllun addysgol sefydliad ieuenctid sy'n cael ei redeg gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru mewn partneriaeth â Chyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân. Nod y cynllun yw creu cymunedau mwy diogel a chryfach drwy ddatblygu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth unigolion ynghylch eu cymuned er mwyn gwella eu sgiliau dinasyddiaeth. Er i nifer yr unedau Cadetiaid Tân ostwng oherwydd Covid-19, braf yw gweld cynnydd mewn diddordeb, gydag uned newydd yn agor yn 2023 yng Ngorsaf Dân y Bala.

Gwnaethom barhau ein cysylltiad blynyddol â'r ymgyrch BANG (Be a Nice Guy), gan weithio ochr yn ochr â Heddlu Gogledd Cymru i ofyn i bobl ystyried sut maen nhw'n dathlu Calan Gaeaf. Canolbwyntiwyd ar atgoffa rhieni i amddiffyn eu plant rhag y risg tân a berir gan ambell wisg ffansi.

## Cam gweithredu 6: gweithio gyda sefydliadau sy'n cefnogi pobl sy'n agored i niwed.

Mae gan y Gwasanaeth dri Rheolwr Partneriaeth ymroddedig ar draws y Gwasanaeth sy'n mynd ati'n rhagweithiol i feithrin a datblygu perthnasoedd gwaith gydag asiantaethau partner i gynorthwyo ac adnabod y bobl fwyaf bregus yng nghymunedau Gogledd Cymru, megis y rhai sy'n dioddef o ddementia, pobl hŷn a'r rhai sydd mewn mwy o berygl

yn gyffredinol o dân yn y cartref. Yn aml, pan fo angen, sefydlir cytundeb rhannu data i ffurfioli ac egluro cyfnewid gwybodaeth rhwng y ddwy asiantaeth. Pan fo angen rhannu gwybodaeth ddwyffordd (h.y. bydd yr asiantaeth bartner eisiau ymateb), yna bydd angen i ni sefydlu cytundeb llawer manylach o'r enw Protocol Rhannu Gwybodaeth (ISP).

Un enghraifft o'r fath yw cefnogi'r cytundeb parhaus gyda'r Groes Goch Brydeinig mewn perthynas â'i rhaglen gymorth 'Paratoi, Ymateb, Adfer'; mae'r cytundeb yn caniatáu i'r Groes Goch Brydeinig ddarparu cymorth ymarferol ac emosiynol i unigolion yr effeithir arnynt gan ddigwyddiadau argyfwng. Eleni gwelwyd ail gerbyd yn cael ei leoli yn ardal ddwyreiniol y Gwasanaeth er mwyn gwella cefnogaeth ymhellach i gymunedau Gogledd Cymru.

## Cam gweithredu 7: gweithredu'r datblygiadau a'r uwchraddiadau technolegol diweddaraf er mwyn gwella effeithlonrwydd, cywirdeb a diogelwch.

Mae parhau i weithredu Microsoft 365 wedi gweld mudo data o'n canolfan ddata i'r cwmwl, gan ddod ag effeithlonrwydd o ran defnydd ynni'r ganolfan ddata. Mae'r data hwn felly hefyd wedi dod yn fwy hygyrch i staff symudol, gan wella effeithlonrwydd ar unwaith a, thrwy sicrhau bod gwybodaeth diogelwch ar gael yn y fath fodd, wella diogelwch y cyhoedd. Mae gan Microsoft 365 fuddion diogelwch yn ei ddulliau dilysu aml-ffactor ac mae symud ein gwefannau hanfodol o dan yr amlapio dilysu hwn wedi gwella ein hagwedd o ran diogelwch.

Gwnaethpwyd gostyngiadau pellach yn nefnydd pŵer y ganolfan ddata trwy amnewid offer gyda thechnoleg fodern mwy ynni-effeithlon, yn ogystal â thrwy gyfuno gwasanaethau ar ddyfeisiau pwrpasol ar un platfform.

Mae amnewid ein technolegau terfynell data symudol (tabled glyfar electronig wedi'i gosod ar beiriannau tân) wedi arwain at lai o alw am drydan a thanwydd i gynnal yr offer, ynghyd â gwelliannau sy'n lleihau'n sylweddol yr amser a dreulir yn cefnogi'r dyfeisiau hyn yn gorfforol ac yn rhithwir. Mae'r feddalwedd sy'n cael ei chynnal ar y dyfeisiau hyn hefyd wedi'i hadnewyddu, sy'n gwneud mynediad at wybodaeth risg a diogelwch yn gyflymach ac yn fwy diweddar.

Yn olaf, mae dileu systemau ffôn desg a mudo'r rhan fwyaf o'n gwasanaethau llais i ffonau meddal a gefnogir gan y cwmwl wedi gwella effeithlonrwydd staff trwy'r polisi gweithio ystwyth, yn ogystal â dod â manteision cost sylweddol.

## Cam gweithredu 8: gweithredu canfyddiadau ymchwiliad tân ac adolygiad Tŵr Grenfell er mwyn lleihau'r risg i drasiedi o'r fath ddigwydd yng Ngogledd Cymru.

Dechreuodd Llywodraeth Cymru ar y broses o ddeddfu ar gyfer newidiadau a ddaeth yn sgil y tân yn Nhŵr Grenfell a ddigwyddodd ar y 14eg o Fehefin 2017, gan annog grwpiau lefel uchel i edrych ar yr heriau a nodwyd yn ei phapur gwyn. Gallwn ddylanwadu ar hyn drwy weithgor Cymru Gyfan drwy barhau i ymateb i ymgynghoriadau sy'n ymwneud â'r newidiadau gofynnol yn ogystal â'r rhai a fydd yn cael eu cyflwyno drwy'r broses a ddisgrifir uchod. Mae'r ymgynghoriadau yn eang eu cwmpas a byddant yn cael effaith fawr ym mhob agwedd ar ddiogelwch tân.

Rydym hefyd wedi ymateb yn anffurfiol i Brif Ymgynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru, ynghylch y cynnig i beidio â gweithredu'r holl newidiadau diogelwch tân sy'n ofynnol gan Ymchwiliad Tŵr Grenfell.

Rydym yn parhau i gefnogi eiddo ledled Gogledd Cymru yn eu hymdrechion i leihau'r risgiau tân sy'n bresennol; gwneir hyn trwy addysg, archwilio a hysbysiadau ffurfiol.

## Cam gweithredu 9: cyflwyno mwy o gerbydau trydan ecogyfeillgar er mwyn hyrwyddo aer o ansawdd gwell a lleihau allyriadau carbon.

Dyfarnwyd grant cyfalaf i ni gan Lywodraeth Cymru i osod 34 o wefrwyr cerbydau trydan mewn 22 lleoliad o amgylch ardal y Gwasanaeth. Bydd hyn yn cefnogi ein fflyd drydan sy'n cynyddu ac rydym yn archwilio ymarferoldeb caniatáu i staff ac asiantaethau partner gael mynediad i'n rhwydwaith gwefru i adennill costau.

Yn ogystal, mae'r buddsoddiad hwn yn golygu ein bod mewn sefyllfa dda i gynyddu ein fflyd cerbydau trydan yn y dyfodol, gan ein bod bellach wedi ymrwymo i beidio â phrynu ceir a faniau tanwydd petrol a disel o 2025 ymlaen.

## Cam gweithredu 10: cyflawni yn erbyn y strategaeth ar gyfer disodli'r system gorchymyn a rheoli, a ddisgwylir yn 2022-2026. Bydd hyn yn sicrhau bod y dechnoleg ddiweddaraf yn cael ei defnyddio i wneud y defnydd gorau o adnoddau'r Gwasanaeth mewn ymateb brys.

Symudwyd y Gwasanaeth i'r System mobileiddio bresennol ym mis Mawrth 2017, gan ymgymryd â chytundeb pum mlynedd gydag estyniad dewisol o ddwy flynedd. Oherwydd diffyg staffio, cytunwyd i ohirio'r prosiect hwn am gyfnod o 12 mis ac ymestyn y cytundeb presennol. Fodd bynnag, ymgymerwyd â gwaith i sicrhau cytundebau yn uniongyrchol gyda'r prif gyflenwr a fydd yn sicrhau, pan fyddwn yn agor i dendr, bod gan unrhyw gwmnïau posibl lwyfannau cydnaws â nhw yn ogystal â chwrdd â'n gofynion penodol.

## Cam gweithredu 11: hyrwyddo digwyddiadau ymwybyddiaeth iechyd a llesiant i staff y Gwasanaeth a chynnal sesiynau ymwybyddiaeth iechyd a ffitrwydd ar gyfer darpar recriwtiaid.

Mae'r tîm Iechyd, Ffitrwydd a Lles yn chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo arferion iechyd da ledled ein sefydliad. Maent yn rhannu ryseitiau iach yn rheolaidd yn ogystal â sesiynau ymarfer corff hawdd eu dilyn, ac yn codi ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd iechyd a llesiant gan gynnwys diwrnod 'Amser i Siarad', wythnos 'Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl', a diwrnod 'Atal Hunanladdiad y Byd'. Mae eu dull yn cwmpasu ffocws cyfannol ar faeth, ymarfer corff, cwsg, hydradu, osgo, cymeriant alcohol, meddyginiaeth, ysmygu a ffactorau eraill sy'n effeithio ar lesiant corfforol a meddyliol.

Drwy gydol y flwyddyn, bu'r tîm yn cynnal gweithgareddau i hyrwyddo iechyd, ffitrwydd a llesiant; roedd y rhain yn cynnwys Cystadleuaeth Camu, grŵp trafod Menopos, Her Eithaf Safle Tân, cyfarfod grŵp cymorth Parkinson's, a thaith gerdded Alzheimer's Dementia. Nod y mentrau hyn oedd ymgysylltu â gweithwyr, codi ymwybyddiaeth, ac annog cyfranogiad mewn gweithgareddau corfforol.

Gwnaed newidiadau hefyd i'n Hadolygiadau Iechyd a Ffitrwydd Blynyddol, gydag ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n pwysleisio preifatrwydd, cyfrinachedd, a chyngor wedi'i deilwra. Rydym wedi datblygu rhaglenni ymarfer corff pwrpasol ac adnoddau ategol sy'n cyflawni nodau ac anghenion gweithwyr unigol. Mae fideos ffitrwydd a recordiwyd ymlaen llaw ar gael ar ein sianel YouTube yn cynnig opsiynau ymarfer cyfleus a hygyrch. Rydym yn hyrwyddo gweithgareddau corfforol trwy deithiau cerdded llesiant lleol a chydweithio â sefydliadau amrywiol.

Rydym wedi sefydlu Rhwydwaith Staff sy'n Rhieni a Gofalwyr newydd er mwyn cysylltu cydweithwyr a darparu arweiniad a chefnogaeth i aelodau staff sy'n rhieni neu ofalwyr. Mae llawer o aelodau staff wedi dangos diddordeb mewn dod at ei gilydd i rannu cyngor a mynd i'r afael â heriau sy'n gysylltiedig â chyfrifoldebau rhianta a gofalu. Mae'r rhwydwaith yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r bwriad o drefnu gweithgareddau cymdeithasol, ac yn gweithredu fel gweithgor i gefnogi ein Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Bwriad y Rhwydwaith yw tynnu sylw at y gefnogaeth a'r arweiniad perthnasol sydd ar gael i gynorthwyo staff i lywio eu rolau fel rhieni a gofalwyr, gan feithrin cymuned gefnogol o fewn y Gwasanaeth.

Yn 2022, cynhaliodd y tîm Iechyd, Ffitrwydd a Lles sesiynau "Get Fire Fit" ledled Gogledd Cymru. Roedd y dyddiau hyn yn rhoi cyfle i recriwtiaid posibl o grwpiau lleiafrifol ddod i ddeall gofynion corfforol bod yn ddiffoddwr tân, pwysigrwydd ffordd o fyw iach a chynnal lefelau ffitrwydd. Cafodd y recriwtiaid gyfle hefyd i wneud ychydig o brofion maes i asesu a oedden nhw'n bodloni'r gofynion ar gyfer llwyddo yn y prawf dethol corfforol neu i weld a oedd ganddynt wendid mewn maes penodol. Yna, cafodd yr holl gyfranogwyr sesiwn hyfforddi grŵp gydag ymgynghorydd ffitrwydd.

Mae'r tîm wedi bod yn weithgar ar y dudalen Facebook "Get Fire Fit" sy'n rhoi cyfle i recriwtiaid gael mynediad at ddeunyddiau ar-lein, manylion diwrnodau agored, a gwybodaeth am y meysydd rydym yn recriwtio iddynt ar hyn o bryd. Gall y cyhoedd hefyd gael mynediad i ymarferion drwy'r sianel Iechyd, Ffitrwydd a Lles ar 'YouTube'.

Mae'r tîm hefyd wedi bod yn weithgar yn y gymuned yn hyrwyddo cyfleoedd recriwtio, cael trafodaethau am ffyrdd o fyw iach gyda'r cyhoedd a rhoi cyfle iddynt roi cynnig ar weithgareddau. Yn ystod diwrnod agored Gorsaf Dân Bae Colwyn a digwyddiadau Pride, roedd y tîm wedi trefnu cystadleuaeth ffitrwydd ar gyfer plant ac oedolion, ychydig o hwyl i'r teulu cyfan ei fwynhau, gan hefyd fesur pwysedd gwaed a chyfansoddiad y corff i'r rhai oedd eisiau cyngor ffordd o fyw.  Roedd digwyddiadau eraill gydag arlwy debyg yn cynnwys diwrnodau agored yn Llanelwy, y Waun, Corwen, Llangefni, Tywyn; diwrnod 999 yn Wrecsam yn 2022; cyngor ar iechyd ac ymarfer corff mewn cyfarfod LHDTC+ misol yn Mind Rhyl.

Mae ein dull o hyrwyddo iechyd a llesiant drwy ddigwyddiadau ymwybyddiaeth, cymorth llesiant, adolygiadau wedi'u teilwra a gweithgareddau corfforol yn dangos ein hymrwymiad i gynnal gweithlu heini ac iach. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i feithrin diwylliant o lesiant, a darparu adnoddau a chymorth angenrheidiol i'n staff.

## Cam gweithredu 12: cyflwyno hyfforddiant Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i ddiweddaru'r holl staff, gyda hyfforddiant uwch ar gyfer staff diogelwch cymunedol rheng flaen.

Rydym yn parhau i hyfforddi a datblygu ein staff yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ei Fframwaith Hyfforddi Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol; mae hyn yn sicrhau bod yr hyfforddiant mwyaf priodol yn cyfateb â staff mewn rolau amrywiol ar draws y sefydliad, gan sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth a'r sgiliau cywir i wneud gwahaniaeth.

Rydym yn parhau i gefnogi Cymorth i Ferched Cymru a'u partneriaid, Cymorth i Ferched Thrive, Threshold DAS, Cymorth i Ferched Abertawe, DASU, Cymru Ddiogelach, DAS Gorllewin Cymru, RASAC a Bawso yn eu hymdrechion i barhau i gyflawni hyfforddiant Gofyn a Gweithredu tan fis Mawrth 2025. Rydym wedi ymgysylltu â'r partneriaid hyn i gefnogi datblygu cynnwys hyfforddiant ar gyfer hyfforddiant parhaus, yn ogystal â darparu hyfforddiant i staff newydd sefydliadau perthnasol.

Ar Ddiwrnod y Rhuban Gwyn, dangosodd ein staff eu cefnogaeth trwy gymryd rhan mewn fideo a rennir ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal, mynychodd ein staff gynhadledd 'Pawb yn Un' yng Nghyffordd Llandudno, digwyddiad pwysig a ddaeth ag asiantaethau a sefydliadau ynghyd i fynd i'r afael â thrais domestig a chaethwasiaeth fodern yng Ngogledd Cymru. Mae ein staff wedi cael eu hannog i ddod yn Llysgenhadon neu Hyrwyddwyr Rhuban Gwyn, gan weithio'n frwd i frwydro yn erbyn trais gwrywaidd yn erbyn menywod ac i hyrwyddo cydraddoldeb a pharch. Mae Diwrnod y Rhuban Gwyn yn cyd-daro â dechrau Cwpan y Byd dynion FIFA ac felly'n tynnu sylw at yr ymdrech ar y cyd i ddod â thrais yn erbyn menywod a merched i ben. Drwy ymgysylltu ar gyfryngau cymdeithasol a hyrwyddo'r achos hollbwysig hwn, rydym yn cyfrannu tuag at greu cymunedau mwy diogel i bawb.

We continue to support Welsh Women's Aid and their partners, Thrive Women's Aid, Threshold DAS, Swansea Women's Aid, DASU, Safer Wales, West Wales DAS, RASAC and Bawso in their endeavours to continue delivering Ask & Act training until March 2025. We have engaged with these partners to support the development of training content for continuation training, as well as providing training for new staff of relevant organisations.

On White Ribbon Day, our staff demonstrated their support by participating in a video shared on our social media channels. Additionally, our staff attended the 'All for One' conference in Llandudno Junction, an important event bringing together agencies and organisations to address domestic violence and modern slavery in North Wales. Our staff have been encouraged to become White Ribbon Ambassadors or Champions, actively working to combat male violence against women and to promote equality and respect. The coinciding of White Ribbon Day with the start of the FIFA men's World Cup highlights the collective effort to end violence against women and girls. By engaging on social media and promoting this crucial cause, we contribute to the creation of safer communities for everyone.

# Amcan 2: Parhau i gydweithio i helpu cymunedau i wella eu gwytnwch

**Amcanion llesiant a gyflawnwyd:**

Mae gweithio gyda chymunedau lleol yn hynod bwysig i wella diogelwch ac i helpu cymunedau i ddod yn fwy gwydn. Bu'r Awdurdod yn gweithio'n agos gydag asiantaethau partner drwy gydol 2022-23 o amgylch ardaloedd wedi'u targedu er mwyn cynorthwyo cymunedau a busnesau lleol i rag-gynllunio ac addysg, gan eu galluogi i ddod yn fwy gwydn mewn argyfyngau.

Mae'r risgiau sy'n wynebu cymunedau yn parhau, ac yn 2022-23 parhaodd yr Awdurdod i ymrwymo i weithio gyda phobl a'u cefnogi i ddod yn fwy gwydn. Gan gydweithio'n agos â phartneriaid, parhaodd yr Awdurdod i sicrhau bod neges gydgysylltiedig yn cael ei chyfleu, nid yn unig am ddiogelwch ond hefyd o ran amrywiaeth o fentrau eraill a gynlluniwyd i wella llesiant y gymuned gyfan.

## Cam gweithredu 1: gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid fel Cyfoeth Naturiol Cymru a ffermwyr / porwyr, i nodi lleoliadau yng Ngogledd Cymru sydd mewn mwy o berygl o danau awyr agored / glaswelltir a helpu i ddatblygu cynlluniau ymateb brys.

Yn ystod yr haf, gweithiodd staff yn agos gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, Heddlu Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol ar fynyddoedd Llantysilio a Rhiwabon i ymgysylltu ag ymwelwyr er mwyn helpu i atal a lleihau nifer y digwyddiadau yn ystod y tywydd poeth, ac i godi ymwybyddiaeth o'r difrod y gall tanau yn yr awyr agored eu hachosi i dirwedd yr ucheldir. Roedd y gwaith diogelwch tân hwn yn cynnwys gweithio ochr yn ochr â Cheidwaid Sir Ddinbych i adnabod ardaloedd risg uchel.

Ym mis Tachwedd 2022, lansiodd gwasanaethau tân ac achub Cymru, dan arweiniad Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac mewn cydweithrediad â Chyngor Sir Ddinbych, fideo newydd ar faes y sioe Frenhinol yn Llanfair-ym-Muallt i ddarparu canllaw cam wrth gam i dirfeddianwyr ar sut i losgi dan reolaeth, gyda'r nod o addysgu tirfeddianwyr a helpu i leihau tanau yn yr awyr agored sy'n deillio o losgi dan reolaeth anghyfrifol.

Mae tân yn yr awyr agored bellach wedi'i gydnabod yn swyddogol fel prif berygl yn y Deyrnas Unedig, gyda'i gynnwys ar y Gofrestr Risg Genedlaethol o Argyfyngau Sifil.

## Cam gweithredu 2: parhau i gyfrannu at ddatblygu cynllun tân yn yr awyr agored rhanbarthol amlasiantaethol.

Cynhaliwyd digwyddiad amlasiantaeth hyfforddi hofrennydd tân yn yr awyr agored ym Maes Awyr Caernarfon i ddangos sut y gellid defnyddio hofrennydd; roedd hyn yn cynnwys llenwi bwced o'r tu ôl i argae cyfagos. Mae hyn wedi gwella ein mynediad at ddŵr wrth ddelio â thanau yn yr awyr agored.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn rhan o grŵp amlasiantaeth sy'n cydweithio â chwmni lleol 'Darlun TV' i gynhyrchu cyfres deledu o'r enw 'Snowdonia SOS' a fydd yn cael ei darlledu'r flwyddyn nesaf. Bydd y cyfle hwn yn cynorthwyo'r Gwasanaeth i hyrwyddo negeseuon diogelwch tân, a bydd yn amlygu gweithio mewn partneriaeth yn ogystal ag edrych yn ôl ar yr heriau sy'n ymwneud â thanau yn yr awyr agored a recriwtio diffoddwyr tân ar-alwad.

Parhawyd i weithio gyda phartneriaid strategol, cymunedau ffermio a thirfeddianwyr i leihau digwyddiadau tân yn yr awyr agored ar draws y rhanbarth. Cafodd y DU a Gogledd Cymru haf poeth digynsail ynghyd â sychder, gyda'r tymheredd mewn rhai rhannau o'r DU yn uwch na 40 gradd Celsius. O ganlyniad, cafwyd cynnydd i 35 o danau awyr agored yn ystod y flwyddyn ac aeth cyfanswm o 108 o gerbydau i ddelio â'r tanau am dros 646 awr.

Cydweithiodd y Gwasanaeth â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill Cymru i greu Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru ac mae eisoes wedi drafftio Siarter Tanau Gwyllt Cymru Gyfan. Mae gan y Bwrdd bartneriaid strategol allweddol gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, y Swyddfa Dywydd a Gwasanaethau Heddlu Cymru sy'n gweithio gyda thirfeddianwyr, ffermwyr a rheolwyr tir i helpu i leihau tanau awyr agored yn genedlaethol ac yn lleol. Rydym yn parhau i fynychu marchnadoedd ffermwyr ac yn defnyddio negeseuon cyfryngau a fideos ar nifer o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth ac addysgu ffermwyr a thirfeddianwyr fel ei gilydd.

Lansiodd y tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru fideo newydd yn y Ffair Aeaf yn Llanfair-ym-Muallt ym mis Tachwedd i roi canllaw cam wrth gam i dirfeddianwyr ar sut i losgi dan reolaeth yn ddiogel. Bob blwyddyn yng Nghymru, mae tân yn gyfrifol am ddifrodi miloedd o hectarau o dir cefn gwlad, mannau agored a chynefinoedd bywyd gwyllt. Mae criwiau tân ledled Cymru eisiau parhau i weithio gyda chymunedau lleol, ffermwyr a thirfeddianwyr i amddiffyn ein tirwedd werthfawr yng Nghymru.

## Cam gweithredu 3: meithrin cydberthnasau â phartneriaid megis Cyfoeth Naturiol Cymru, Fforymau Lleol Cymru Gydnerth, y Grŵp Gwasanaethau Brys ar y Cyd a grwpiau achub rhag llifogydd a dŵr mewndirol i wella galluoedd asiantaethau ar y cyd i helpu'r rhai yr effeithir arnynt gan lifogydd.

Llwyddodd chwe aelod o staff o bob rhan o'r Gwasanaeth i gwblhau cwrs hyfforddi yn Glasgow a oedd yn edrych ar dechnegau achub o gerbydau tanddwr. Rhoddodd y cwrs fewnwelediad go iawn i'n Hyfforddwyr i dechnegau newydd, gyda phrofiad ymarferol mewn tymheredd dŵr heriol.

Mae Grŵp Rhybuddio a Hysbysu Gogledd Cymru yn rhoi cyfle gwych i weithwyr proffesiynol gyfathrebu a chydweithio ar draws sefydliadau Fforwm Lleol Cymru Gydnerth; mae hyn yn helpu'r naill barti i hyrwyddo negeseuon y llall, ac i rybuddio a hysbysu'r cyhoedd ar adegau o argyfyngau megis llifogydd ac ati.

Prynodd yr Adran Gweithrediadau Technegol gamerâu tanddwr a pholion cyrraedd ar gyfer pob uned digwyddiad dŵr. Mae hyn yn dilyn derbyn nodyn gweithredu gan Grŵp Defnyddwyr Dysgu Gweithredol Cenedlaethol y Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid Tân, sy'n

ymwneud â diffoddwyr tân yn rhoi eu hunain mewn perygl trwy geisio chwilio o dan wyneb y dŵr heb yr offer a'r cymwysterau angenrheidiol. Bydd yr offer hyn yn gwella diogelwch diffoddwyr tân yn fawr wrth i ni symud ymlaen.

## Cam gweithredu 4: Gweithio ar y cyd â chymunedau a diffoddwyr tân rhan amser i wella gwytnwch gofal tân yn eu hardaloedd.

Mynychodd staff, a chymryd rhan mewn rhediadau parc lleol a digwyddiadau ffitrwydd eraill i helpu i hyrwyddo recriwtio diffoddwyr tân; ymhlith y rhediadau parc a fynychwyd roedd y rhai a gynhaliwyd yng Nghastell Penrhyn, Bangor, Parc Gwepra, Glannau Dyfrdwy, Conwy, Coedwig Niwbwrch, Ynys Môn ac Erddig, Wrecsam.

Yn ogystal â'r ffenestr recriwtio diffoddwyr tân llawn amser ym mis Ebrill 2022, parhawyd i hysbysebu cyfleoedd diffoddwyr tân ar-alwad trwy gydol y flwyddyn. Cynhaliwyd Diwrnodau Blasu yng Ngorsaf Dân y Rhyl i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael; roedd y rhain yn agored i grwpiau a nodwyd oedd heb gynrychiolaeth ddigonol o fewn y Gwasanaeth sydd ar hyn o bryd yn cynnwys menywod a phobl LGBTQ+, grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig. Targedwyd ardaloedd allweddol gorsafoedd tân gan dîm recriwtio pob ardal er mwyn edrych ar sut i annog ceisiadau addas gan ystod o ymgeiswyr i wella gwytnwch y gofal tân yn yr ardal benodol honno.

Mae cyfleoedd diffoddwyr tân ar-alwad yn cael eu hyrwyddo'n rheolaidd drwy wefan y Gwasanaeth ac ar y cyfryngau cymdeithasol drwy gydol y flwyddyn, gan dynnu sylw at sut brofiad yw bod yn ddiffoddwr tân ar-alwad, sut y gall pobl helpu i ddiogelu eu cymunedau, a chyfraniad pwysig cyflogwyr lleol wrth ganiatáu i'w staff weithredu fel diffoddwyr tân ar-alwad.

## Cam gweithredu 5: cyflwyno Microsoft 365 fel ffordd o wella cyfathrebu ac integreiddio ymhellach gyda phartneriaid.

Mae'r holl ddefnyddwyr wedi cael eu mudo'n llwyddiannus i'r fersiwn cwmwl o Microsoft 365 ac mae diogelwch TGCh wedi cynyddu ers cyflwyno Dilysu Aml-ffactor, gan ganiatáu mynediad i ddefnyddwyr at systemau gwaith trwy eu dyfeisiau personol. Cynigir hyfforddiant aml-ddull i'r holl staff sy'n defnyddio MS Teams ar hyn o bryd er mwyn cefnogi trosglwyddiad esmwyth i'r feddalwedd newydd.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i greu mewnrwyd Gwasanaeth hawdd ei ddefnyddio a fydd hefyd yn hygyrch i staff sy'n gweithio gartref neu i ffwrdd o'r swyddfa; bydd yn cynnwys tudalennau gwybodaeth cyfeirio cyflym yn ymwneud ag Iechyd, Diogelwch a Llesiant Gweithwyr.

Mae'r Gwasanaeth wedi bod yn gweithio hefyd ar lansio mewnrwyd newydd i staff a fydd yn helpu i wella cyfathrebu ar draws pob ardal o'r Gwasanaethau a'r holl systemau dyletswydd. Bydd y fewnrwyd newydd yn cael ei lansio ym mis Gorffennaf 2023.

# Amcan 3: Gweithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael

**Amcanion llesiant a gyflawnwyd:** 

O ystyried y cefndir o ansicrwydd ariannol, yr argyfwng costau byw, chwyddiant cynyddol a'r cynnydd posibl yn y galw am wasanaethau ar draws y sector cyhoeddus, mae'n anochel y bydd yr Awdurdod yn wynebu heriau o ran gallu cynnal ei wasanaethau dros y degawdau nesaf. Mae'r pwysau ar wasanaethau tân ac achub yn debygol o ddod o sawl cyfeiriad gwahanol, gan gynnwys y gallu i recriwtio a chadw digon o ddiffoddwyr tân ar-alwad.

Mae'r Awdurdod wedi dechrau nifer o adolygiadau i gefnogi'r Gwasanaeth i weithredu mor effeithlon ac effeithiol â phosibl; un adolygiad o'r fath fydd yr 'Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys' a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod 2023-24.

## Cam gweithredu 1: darparu gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru o fewn y gyllideb y cytunwyd arni.

Parhaodd yr Awdurdod i fod yn ymrwymedig i chwarae ei ran wrth adeiladu cymunedau cryfach a mwy diogel. Mae'n cydnabod bod angen hyblygrwydd ac arloesedd i baratoi ar gyfer heriau ariannol yn y dyfodol, wrth ddal i allu cynnal cyflawni gwasanaeth.

Nododd yr asesiad cynllunio cychwynnol ar gyfer 2022-23 ofyniad cyllideb net o £39.41m, o'i gymharu â £37.07m ar gyfer 2021-22; wedi'i ddatblygu ar sail darpariaeth bresennol y Gwasanaeth, gan gadw mewn cof yr angen i gadw'r cynnydd i awdurdodau cyfansoddol mor isel â phosibl. Ym mis Tachwedd 2021, bu aelodau'r Awdurdod Tân yn myfyrio ar rai heriau allweddol a amlygwyd drwy asesiad sefyllfa'r Prif Swyddog Tân newydd, a'r canlyniadau i gyllideb yr Awdurdod. Roedd y gyllideb refeniw a gymeradwywyd wedi hynny ym mis Ionawr 2022 yn cynnwys cynnydd o £1.13m i fynd i'r afael â'r heriau hynny.

Er mwyn cynnal y gwasanaeth a ddarperir, cynhaliwyd sawl adolygiad yn ystod 2022-23 gan gynnwys adolygiad o danau gwyllt yn yr awyr agored, adolygiad o'r system dyletswydd rhan amser; dechreuodd yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys ac mae'n dal i fynd rhagddo.

## Cam gweithredu 2: parhau i ddilyn effeithlonrwydd mewnol parhaus.

Gweithredwyd amryw o arbedion costau yn ystod 2022-23 a oedd yn cynnwys:

- Parhau i weithredu mesurau effeithlonrwydd ynni er mwyn arbed ynni yn yr hirdymor.
- Cynyddu nifer y cerbydau trydan a hybrid plygio i mewn yn y fflyd er mwyn lleihau'r defnydd o danwydd a hyrwyddo cynaliadwyedd ar gyfer y dyfodol.

- Parhau i adolygu'r defnydd o systemau TGCh. Er enghraifft, mae staff bellach yn derbyn slipiau cyflog electronig yn lle fersiynau papur a bostiwyd i'w cyfeiriadau cartref, y defnydd o Microsoft Teams ar gyfer cyfarfodydd a galwadau ffôn.

Yn ogystal â sicrhau bod y gyllideb refeniw yn cael ei rheoli'n ofalus, parhaodd yr Awdurdod i graffu ar ei raglen gyfalaf er mwyn sicrhau gwerth gorau. Roedd yr Awdurdod yn parhau'n ymrwymedig i sicrhau bod ei asedau'n cael eu defnyddio'n effeithlon ac effeithiol, a pharhaodd i ddadansoddi'r rhaglen gyfalaf yn erbyn goblygiadau refeniw negyddol posibl.

## Cam gweithredu 3: monitro cynnydd ail-integreiddio gwasanaethau ariannol a roddwyd yn flaenorol ar gytundeb i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Ail-integreiddiwyd yr holl wasanaethau ariannol yn llwyddiannus yn ystod mis Ebrill 2022, ynghyd â gweithredu'r system ariannol newydd; roedd hyn yn cynnwys ailstrwythuro'r Adran Cyllid a Chaffael er mwyn cyflawni'r llwyth gwaith cynyddol. Fel sy'n wir gyda chyrff cyhoeddus eraill yn ardal Gogledd Cymru, mae wedi bod yn anodd denu ymgeiswyr ar gyfer y swyddi arbenigol sydd eu hangen, ac mae recriwtio yn parhau.

## Cam gweithredu 4: adeiladu ar fesurau presennol i fonitro perfformiad gweithredol gan griwiau tân cyn, yn ystod ac ar ôl digwyddiadau.

Ymgymerir â sicrwydd gweithredol criwiau tân gan y rheolwr dyletswydd hyblyg cyntaf sy'n bresennol (math o rota gweithio wedi'i staffio gan bersonél gweithredol) ac mae pob sicrwydd gweithredol yn cynhyrchu dychweliad sy'n cael ei ddadansoddi gan y tîm sicrwydd gweithredol. Ymdrinnir yn briodol â thueddiadau a materion a nodir er mwyn sicrhau bod y Gwasanaeth yn parhau i wella. Mae'r tîm sicrwydd gweithredol yn monitro digwyddiadau o bell hefyd, er mwyn sicrhau bod safon y negeseuon a'r modd yr ymdrinnir â materion cysylltiedig eraill yn briodol. Mae ystod o ôl-drafodaethau yn digwydd ar ôl digwyddiadau, gan gynnwys briff dwys cychwynnol ar ddiwedd y digwyddiad. Bydd ôl-drafodaeth strwythuredig yn digwydd ar gyfer digwyddiadau mwy a fydd yn cynnwys personél allweddol y Gwasanaeth i nodi meysydd arfer da a meysydd ar gyfer gwelliant posibl. Bydd digwyddiadau mwy sy'n cynnwys asiantaethau partner yn arwain at ôl-drafodaeth aml-asiantaeth wedi'i hwyluso gan Fforwm Lleol Cymru Gydnerth, a bydd y rhain yn canolbwyntio ar bwysigrwydd gweithio rhyngasiantaethol ac a yw egwyddorion Rhaglen Rhyngweithredu ar y Cyd y Gwasanaethau Brys wedi'u cymhwyso'n gywir. Rhoddir sylw priodol i unrhyw faterion a nodir.

## Cam gweithredu 5: datblygu model mwy hyblyg ar gyfer cyflawni hyfforddi a datblygu, gan gynnwys darparu hyfforddiant yn fwy lleol er mwyn cefnogi anghenion diffoddwyr tân rhan amser / ar-alwad.

Adolygodd y Tîm Hyfforddi a Datblygu eu cynnig hyfforddiant gweithredol yn 2022-23, gan feincnodi'r ddarpariaeth hyfforddi bresennol yn erbyn cymwyseddau craidd criwiau

gweithredol. Mae'r model hyfforddi diwygiedig yn gweld cynnydd yn y capasiti hyfforddi i gyflawni hyfforddiant sy'n hanfodol i risg ar draws ystod o sgiliau tân ac achub.

Cefnogir y model hyfforddi gan strategaeth hyfforddiant gweithredol a chaiff ei ategu gan gynllun cyflawni hyfforddi tair blynedd sy'n nodi amserlen y cyrsiau hyfforddi gweithredol o 2023-24.

Nod y cynllun yw cyflwyno rhaglen hyfforddi gynhwysfawr sy'n cynnwys cyrsiau cychwynnol newydd a chylch tair blynedd o gyrsiau diweddaru. Er mwyn cyflawni'r cynllun hwn, bu cynnydd yn nifer yr hyfforddwyr gweithredol i alluogi cyflwyno cyrsiau datblygu newydd, diwrnodau hyfforddi meistroli digwyddiadau, ac ailwampio systemau rheoli dysgu.

Anogir rheolwyr i ddefnyddio'r cynllun i nodi gofynion hyfforddi ac i ddewis dyddiadau hyfforddi ar gyfer eu staff. Bydd cyrsiau diweddaru yn cael eu cyflwyno ar draws nifer o sgiliau craidd, gan gynnwys gwrthdrawiadau ar y ffyrdd, deunyddiau peryglus, a gweithio o uchder. Mae hyblygrwydd hefyd wedi'i ystyried yn y cynllun hyfforddi i alluogi cyrsiau i gael eu cynnal yn lleol yn adeiladau'r Gwasanaeth, yn ogystal â dyddiadau ychwanegol ar y penwythnos a fydd yn ei gwneud yn haws i'n staff ar-alwad fynychu.

Mae'r cynllun newydd yn gam mawr ymlaen yn ein darpariaeth hyfforddi a datblygu; bydd y cynllun cynhwysfawr yn galluogi staff i nodi eu hanghenion hyfforddi a dewis y dyddiadau sy'n gweithio orau iddyn nhw. Bydd y cynnydd yn nifer yr hyfforddwyr gweithredol yn sicrhau bod yr wybodaeth yn effeithiol ac yn gyfredol, a bydd ailwampio'r systemau rheoli dysgu yn gwella'r cynnwys sy'n seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael i staff.

## Cam gweithredu 6: canolbwyntio ar wella effeithiolrwydd y sicrwydd a ddarperir drwy'r System Dyletswydd Rhan Amser / ar-alwad (diffoddwyr tân ar-alwad).

Mae dyfodiad y timau recriwtio ac argaeledd ym mhob ardal wedi darparu adnodd pwrpasol i ganolbwyntio ar y mater o recriwtio ac argaeledd. Mae'r Gwasanaeth yn gallu targedu ardaloedd penodol ar gyfer recriwtio, yn ogystal â nodi gofynion hyfforddi a datblygu allweddol er mwyn gwella argaeledd staff ar-alwad.

Yn ystod y flwyddyn, bu tîm o staff yn gweithio'n galed i gynhyrchu'r adolygiad o brofiad staff Dyletswydd Rhan Amser a gyhoeddwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Bydd canfyddiadau'r adroddiad hwn yn rhan sylfaenol o gynllun busnes y swyddogaeth ymateb yn y flwyddyn 2023-24.

Yn ystod y flwyddyn, cyrhaeddodd y Gwasanaeth garreg filltir arwyddocaol lle cofnodwyd cynnydd net mewn sefydlu staff ar-alwad, gan roi tystiolaeth gadarnhaol i'r timau recriwtio ac argaeledd ym mhob ardal.

## Cam gweithredu 7: adolygu Rheoli Parhad Busnes a gwella gallu'r Gwasanaeth i ddelio â digwyddiadau ar raddfa fawr.

Fe wnaeth gweithredu ein hailstrwythuro rheolaeth yn 2022-23 arwain at adolygiad graddfa gyflawn o'n cynlluniau parhad busnes ar draws pob adran, gan sicrhau y gall

y Gwasanaeth weithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl yn ystod cyfnodau o aflonyddwch posibl.

Fel gyda llawer o sefydliadau yn y sector cyhoeddus, roedd gweithredu diwydiannol posibl yn peri risg sylweddol o ran rheoli parhad busnes a oedd angen ei gynllunio yn ystod 2022-23. Yn dilyn pleidlais lwyddiannus gan Undeb y Brigadau Tân, rhoddodd y Gwasanaeth grwpiau Rheoli Parhad Busnes Aur ac Arian ar waith a chychwynnodd ar gynllunio a pharatoi ar gyfer gweithredu diwydiannol ar raddfa fawr gan staff ar draws Gogledd Cymru. Er bod setliad cyflog cenedlaethol wedi osgoi gweithredu diwydiannol, roedd y Gwasanaeth wedi paratoi'n dda ar gyfer gweithredu diwydiannol, ac mae'r cynlluniau'n parhau yn eu lle yn barod i'w gweithredu, pe bai gweithredu diwydiannol yn dod yn bosibilrwydd unwaith eto.

Ym mis Mawrth 2023, cymerodd y Gwasanaeth ran mewn ymarfer Rheoli Parhad Busnes Cenedlaethol a hwyluswyd ar draws yr holl Fforymau Lleol Cymru Gydnerth a Llywodraethau Cymru a Chenedlaethol. Roedd Ymarfer 'Mighty Oak' yn ymarfer tridiau o hyd i brofi ymateb y DU i Ddiffoddiad Pŵer Cenedlaethol. Er bod y canlyniadau a'r dysgu o'r ymarfer yn dal i gael eu datblygu gan yr hwyluswyr, mae'r Gwasanaeth wedi dechrau ar ddatblygiad ei hun o gynllun Rheoli Parhad Busnes ar draws y Gwasanaeth ar gyfer Diffoddiad Pŵer Cenedlaethol. Bydd hwn yn cael ei fireinio yn ystod 2023-24 fel ei fod yn barod i'w roi ar waith, pe bai senario'r ymarfer yn dod yn realiti.

Mewn perthynas â'n parodrwydd ar gyfer ymarfer ar raddfa fawr, mae'r crynodeb isod yn amlinellu rhai o'r gweithgareddau ymarfer amlasiantaethol a gwblhawyd yn 2022-23.

### Ymarfer Twnnel Conwy

Manteisiwyd ar y ffaith bod y gerbytffordd i gyfeiriad y gorllewin ar gau am wythnos er mwyn trefnu ymarfer hyfforddi amlasiantaeth ac ymweliad ymgyfarwyddo â'r twnnel. Rhoddodd hyn senario hyfforddi realistig i griwiau a chyfle i adolygu cynlluniau tactegol gweithredol ar gyfer y twnnel.

### Ymarfer Porthladd Caergybi

Cynhaliwyd senario hyfforddi i brofi ymateb gweithredol mewn lleoliad morwrol ym Mhorthladd Caergybi. Roedd ffocws penodol ar weithdrefnau offer anadlu a'r defnydd o'r Cwfl Mwg Drager.

### Ymarfer Eithin

Cynhaliwyd ymarfer ym Mangor a oedd wedi'i leoli mewn neuaddau preswyl i fyfyrwyr yn cynnwys bloc llety pedwar llawr.

### Ymarfer Cyswllt

Cynhaliwyd ymarfer diogelwch ac ymateb brys ar safle datgomisiynu Trawsfynydd, gan weithio gyda staff Magnox a'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear a oruchwyliodd y digwyddiad hyfforddi.

## Cam gweithredu 8: Monitro a gwerthuso effaith ac effeithiolrwydd rhaglenni a gynhelir mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.

Mae ffurfio a chynnal partneriaethau gyda gwasanaethau ac asiantaethau brys eraill yn ein galluogi i ymestyn ein negeseuon diogelwch i'r gymuned, ac yn helpu i hyrwyddo a chynnal ein proffil cymunedol.

Dyma rai enghreifftiau o'n partneriaethau sy'n gweithio fel hyn:

### Heddlu Gogledd Cymru ac Ymgyrch Diopside – Cydweithio 5 Angheuol

Cynhaliwyd Ymgyrch Diopside yn ardal y Rhyl, gyda Heddlu Gogledd Cymru yn stopio gyrwyr am oryrru, am beidio â gwisgo gwregys diogelwch, am ddefnyddio ffonau symudol a gyrru'n ddiofal / anystyriol. Gan ddibynnu ar ddifrifoldeb y drosedd, cynigiwyd i yrwyr fynychu cwrs ymyrraeth diogelwch ar y ffyrdd, tra bod eraill yn cael dirwyon a phwyntiau ar eu trwydded yrru.

### GIG a Helpa fi i Stopio (mae 7.3% o danau damweiniol mewn cartrefi yn ymwneud â deunyddiau ysmygu)

Eleni, fel rhan o fenter newydd, rhoddodd staff fanylion i ysmygwyr am y cymorth sydd ar gael am ddim gan arbenigwyr rhoi'r gorau i ysmygu lleol yn ystod ymweliadau archwiliadau diogel ac iach yn eu cartrefi. Yn ogystal ag effeithiau ysmygu ar eu hiechyd, mae angen i bobl fod yn ymwybodol o'r risgiau marwol yn y cartref, a sut y gall gwaredu deunyddiau ysmygu yn ddiofal arwain at dân, yn hawdd ac yn gyflym iawn.

### Outside Lives Ltd

Aeth staff i ddigwyddiad yn Sir y Fflint i ddathlu Wythnos Gofalwyr. Roedd y digwyddiad, a drefnwyd gan Wasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWCIS) mewn partneriaeth ag Outside Lives Ltd, yn gyfle i ofalwyr di-dâl archwilio arferion llesiant newydd, a rhoddodd hyn gyfle i'n staff siarad â gofalwyr o bob rhan o'r rhanbarth.

## Cam gweithredu 9: datblygu system rheoli asedau effeithiol sy'n hyrwyddo'r dyraniad adnoddau gorau posibl.

Mae'r system rheoli asedau wedi cael ei hailwampio yn dechnolegol, gan gynnwys integreiddio â phrosesau rhanddeiliaid o adrannau eraill a datblygiad system i gyflymu'r broses o ddarganfod ac adennill asedau sydd wedi'u dyrannu i staff sydd wedi gadael y sefydliad.

Mae archwiliadau rheolaidd wedi cael eu cynnal, er mai dim ond ar sail manteisgar neu adweithiol y dechreuwyd arnynt, tra bod recriwtio staff TGCh yn parhau heb ei ddatrys.

# Cam gweithredu 10: gweithredu canfyddiadau ymchwiliad ac adolygiad Tŵr Grenfell er mwyn lleihau'r risg i drasiedi o'r fath ddigwydd yng Ngogledd Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau'r broses o ddeddfu ar gyfer newidiadau a ddaeth yn sgil digwyddiad Grenfell; mae'n annog grwpiau lefel uchel i edrych ar yr heriau a nodwyd yn y papur gwyn.

Gallwn ddylanwadu ar hyn drwy'r gweithgor Cymru gyfan, drwy barhau i ymateb i ymgynghoriadau sy'n ymwneud â newidiadau sydd eu hangen yn ogystal â'r rhai a gyflwynir drwy'r broses a ddisgrifir uchod. Mae'r ymgynghoriadau yn eang eu cwmpas a byddant yn cael effaith sylweddol ym mhob agwedd ar ddiogelwch tân.

Rydym hefyd wedi ymateb yn anffurfiol i Brif Ymgynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru, ynghylch y cynnig i beidio â gweithredu'r holl newidiadau diogelwch tân sy'n ofynnol gan Ymchwiliad Tŵr Grenfell.

Rydym yn parhau i gefnogi eiddo ledled Gogledd Cymru yn eu hymdrechion i leihau'r risgiau tân sy'n bodoli; cyflawnir hyn trwy addysgu, archwilio a rhoi hysbysiadau ffurfiol.

Mae'r holl gamau gweithredu o gam un ymchwiliad Tŵr Grenfell wedi'u cwblhau; mae'r Gwasanaeth wedi adolygu sut mae'n hyfforddi, paratoi a chyfathrebu rhwng safle'r digwyddiad a'r Ystafell Reoli.

We have also responded on an informal basis to the Chief Fire and Rescue Advisor and Inspector for Wales, about the proposal not to enact all of the fire safety changes required by the Grenfell Tower Inquiry.

We continue to support premises throughout North Wales in their efforts to reduce the fire risks present; this is achieved by education, auditing and formal notices.

All actions from stage one of the Grenfell Tower inquiry have been completed; the Service has reviewed how it trains, prepares, and communicates between the incident ground and Control.

# Objective 4: Parhau i nodi cyfleoedd i annog mwy o ymgysylltu â phobl, cymunedau, staff a rhanddeiliaid

**Amcanion llesiant a gyflawnwyd:**

Yn ystod 2022-23, parhaodd yr Awdurdod i wella'r ffordd y mae'n cyfathrebu ac yn ymgysylltu â chymunedau ynghylch y gwasanaethau y mae'n eu cyflawni.

Mae dull cydweithredol o weithio ar draws ein swyddogaethau ein hunain ac ar y cyd â'n partneriaid gwasanaethau brys, awdurdodau lleol, byrddau gwasanaethau cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill yn sicrhau bod negeseuon diogelwch yn cael eu hyrwyddo'n gyson ac yn eang yn ogystal â datblygu technegau arloesol a rhannu arferion gorau.

Ffocws arbennig eleni oedd gwella cyfathrebu â'n staff, yn enwedig mewn perthynas â'r rhai a gyflogir o dan y system dyletswydd rhan amser (ar-alwad) a gweithredu'r canfyddiadau allweddol o'n harolwg staff Teulu Tân cyntaf un.

## Cam gweithredu 1: codi ymwybyddiaeth am, helpu i atal ymosodiadau llosgi bwriadol a lleihau nifer y tanau bwriadol a galwadau diangen.

Parhaodd Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol i ymgysylltu â thimau plismona, gan gyflwyno'r ddogfen 'Angen Gwybod' yn rheolaidd ar sut i gysylltu â a sut i gyfeirio unigolyn at Dîm Lleihau Llosgi Bwriadol. Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi ac ymwybyddiaeth i bob Cwnstabl Heddlu newydd a recriwtiaid Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu fel rhan o'u hyfforddiant cychwynnol.

Gweithiodd y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol gyda phartneriaid amrywiol i godi ymwybyddiaeth ynghylch y tîm a nodi unrhyw fannau problemus. Fe wnaethom gofnodi a dadansoddi'r holl ystadegau tanau bwriadol i nodi unrhyw dueddiadau oedd yn dod i'r amlwg, a pha bartneriaid y mae angen i ni ymgysylltu â nhw, yn dibynnu ar y math o danau a throseddau a materion cysylltiedig yn y maes hwnnw. Aethom i bob cyfarfod Risg ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Oedolion sy'n Agored i Niwed ar draws ardal y Gwasanaeth, a chynhyrchwyd adroddiadau ar weithgarwch a gwaith y Tîm gyda phartneriaid yn y meysydd hynny a nodwyd.

Parhawyd i gynnal ymweliadau safle mewn eiddo adfeiliedig risg uchel ledled Gogledd Cymru, gan weithio gyda pherchnogion ac awdurdodau lleol i'w diogelu er mwyn helpu i leihau'r risg o danau bwriadol a'r risg i ddiogelwch y cyhoedd. Gwnaethom hefyd ymweld â busnesau y nodwyd eu bod mewn perygl o danau bwriadol.

Mae'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol yn bwynt cyswllt ar gyfer pob atgyfeiriad risg uchel am fygythiadau i losgi, lladd neu niweidio pobl sy'n agored i niwed ledled Gogledd Cymru; daw'r atgyfeiriadau hyn gan wahanol bartneriaid gan gynnwys yr Heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Uned Diogelwch Cam-drin Domestig, y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a'r Gwasanaeth Prawf. Mae'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol yn rheoli atgyfeiriadau ac yn darparu ymyriadau ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion er mwyn lleihau tanau

bwriadol pellach. Mae'r Tîm yn ymweld ag ysgolion i drafod canlyniadau Llosgi Bwriadol gyda grwpiau bach ac mewn gwasanaethau ysgol gyfan.

Mae'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol hefyd yn mynychu Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd a chyfarfodydd Asesu Risg Amlasiantaeth; mae'r rhain ar gyfer pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar.

## Cam gweithredu 2: ymgysylltu â chyflogwyr, cymunedau lleol a'r rhai y mae tân a digwyddiadau brys eraill yn effeithio arnynt yn uniongyrchol i ddatblygu gweithgareddau ac ymgyrchoedd atal.

Parhaodd y Gwasanaeth i gynnal cyfarfodydd deufisol gyda'r Groes Goch Brydeinig i adolygu digwyddiadau er mwyn gwella gweithio mewn partneriaeth. Ym mis Mehefin fe wnaeth y Groes Goch Brydeinig fynychu dau ddigwyddiad yng Ngogledd Cymru, roedd un ohonynt i ddarparu cefnogaeth i deulu mawr a oedd wedi cael eu gwneud yn ddigartref yn anfwriadol ar ôl tân yn y gegin. Buont yn cefnogi'r preswylwyr wrth iddynt gael eu hailgartrefu ac yn darparu bwyd brys, arian a dillad. Roedd yr ail achlysur wedi i dân yng ngofod y to adael teulu a'u ci gyda dim ond y dillad yr oeddent yn eu gwisgo. Ar yr achlysur hwn, cafodd y preswylwyr gartref am gyfnod byr gan ffrindiau a theulu, gyda chymorth ychwanegol gan y Groes Goch Brydeinig ar ffurf arian parod, dillad a nwyddau ymolchi brys.

Dywedodd staff y Groes Goch Brydeinig fod y gwirfoddolwyr wrth eu bodd bod Penaethiaid y Safle wedi gofyn iddynt fod yno a'u bod wedi eu rhoi ar waith. Aethant ymlaen i ddweud bod yr wybodaeth a ddarparwyd gan Benaethiaid y Safle trwy weithredwyr yr Ystafell Reoli yn sicrhau bod gan y gwirfoddolwyr ymwybyddiaeth a mewnwelediad sefyllfaol da ynghylch yr hyn oedd ei angen cyn iddynt gyrraedd.

## Cam gweithredu 3: hyrwyddo ymgyrchoedd diogelwch cenedlaethol a lleol, gan sicrhau bod ardaloedd lle mae'r risg fwyaf yn cael blaenoriaeth, er enghraifft tanau a achosir gan goginio.

Eleni lansiwyd ymgyrch newydd ar y cyd â'n cydweithwyr o Wasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a De Cymru i ymateb i bryderon am ddiogelwch tân yn ystod yr 'Argyfwng Costau Byw'.

Erbyn Ionawr 2023 roedd disgwyl y gallai mwy na hanner cartrefi'r DU fod mewn 'Tlodi Tanwydd' ac mae hyn yn debygol o gynyddu'r risg o dân yn y cartref wrth i bobl chwilio am ffyrdd eraill o wresogi a goleuo eu cartrefi.

## Cam gweithredu 4: cynnal cyfoesedd y cytundebau rhannu gwybodaeth presennol, a cheisio sefydlu cytundebau newydd lle bo'n briodol.

Cafodd rheolwyr partneriaeth o bob rhan o'r gwasanaeth y dasg o fynd ar ôl cytundebau datgelu data gydag asiantaethau partner gan ddefnyddio'r templed cyffredinol sy'n sicrhau y cedwir at ofynion y ddeddfwriaeth berthnasol.

Fodd bynnag, mae'r cynnydd wedi bod yn araf gan ei bod yn aml yn anodd annog partneriaid i lofnodi cytundebau, ond rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod y cytundebau hyn yn cael eu llunio a'u llofnodi gyda'r bwriad o'u hychwanegu at Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI). Mae gwaith wedi'i gynllunio i adolygu cytundebau presennol ar eu dyddiad adnewyddu er mwyn eu huwchraddio i'r fformat diweddaraf. Bydd y gwaith hwn yn barhaus wrth i ni ddatblygu partneriaethau newydd, cau hen rai a chynnal cyfredoldeb cytundebau gweithredol.

Un enghraifft o'r fath oedd cwblhau cytundeb rhannu data newydd gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) er mwyn i ni ddarparu manylion cyfanredol a dienw am danau glaswelltir, coetir a chnydau. Bydd hyn yn caniatáu i ICC ddadansoddi'r data ar sail Cymru gyfan a bydd yn llywio'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu i'w defnyddwyr.

## Cam gweithredu 5: cynnal arolwg iechyd a llesiant o'r holl staff, gan hyrwyddo gweithgareddau drwy'r Gwasanaeth cyfan.

Rydym wedi gwneud ymdrechion sylweddol i hyrwyddo iechyd, ffitrwydd a llesiant ein staff. Mewn cydweithrediad ag elusen Mind, fe wnaethom gefnogi wythnos ymwybyddiaeth iechyd meddwl. Trefnodd ein tîm iechyd, ffitrwydd a llesiant ymroddedig weithgareddau dyddiol ar blatfform Facebook Workplace, gan annog staff i flaenoriaethu eu hiechyd meddwl a darparu cefnogaeth i'r rhai a allai fod yn wynebu heriau.

Fel rhan o'n hymrwymiad i lesiant gweithwyr, fe wnaethom gyflwyno'r Gronfa Calon wedi'i hailfrandio a'i diwygio, cronfa staff wirfoddol sy'n gweithredu'n annibynnol ond gyda'n cefnogaeth ni; nod y gronfa hon yw darparu cymorth emosiynol, corfforol, cymdeithasol ac elusennol i'n staff. Yn ogystal, rydym yn cynnig ystod o adnoddau i sicrhau llesiant ein gweithwyr; mae'r rhain yn cynnwys y Tîm Iechyd, Ffitrwydd, a Lles, Cefnogwyr Cydweithwyr, Hyrwyddwyr Golau Glas, Care First (Rhaglen Cymorth i Weithwyr), a Chaplan ein Gwasanaeth, sydd oll yn darparu cymorth cyfrinachol, cymorth iechyd meddwl ac arweiniad emosiynol.

Cefnogwyd diwrnod 'Amser i Siarad', gan bwysleisio pwysigrwydd cadw mewn cysylltiad â chychwyn sgyrsiau am lesiant. Amlygodd ein Cynghorydd Iechyd, Ffitrwydd a Llesiant effaith gadarnhaol estyn allan a siarad â rhywun, a sut i gael gafael ar gymorth ffurfiol ac anffurfiol. Drwy annog ein digwyddiad 'Paned a Sgwrs', mae gan ein staff gyfle i gysylltu ac ehangu eu rhwydweithiau o fewn y Gwasanaeth.

Dathlwyd Diwrnod Rhyngwladol y Dynion yn Llangefni drwy ddod â staff o bob rhan o'r Gwasanaeth at ei gilydd. Dechreuodd y digwyddiad gyda ras parc 5km, gyda llwyddiant nodedig un swyddog tân yn rhedeg mewn cit tân llawn, ac aeth y bore yn ei flaen gyda sesiwn 'Paned a Sgwrs' yng Ngorsaf Dân Llangefni i hyrwyddo ymgysylltu, codi ymwybyddiaeth o bryderon dynion, a phwysleisio pwysigrwydd llesiant iechyd meddwl. Daeth ein Dirprwy Brif Swyddog Tân i'r digwyddiad a gwerthfawrogwyd ei gefnogaeth yn fawr. Tanlinellodd y digwyddiad arwyddocâd gofalu am iechyd meddwl dynion a meithrin sgyrsiau agored.

Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, cymerodd rhai o'n staff ran mewn digwyddiad LGBTQ+ ar-lein a gyflwynwyd gan y Rhwydwaith Trawsryweddol Unigryw. Rhoddodd y cwrs fewnwelediadau ac arweiniad gwerthfawr, gan rymuso cyfranogwyr i fod yn Gefnogwyr Pride Tân ac i gefnogi unigolion LGBTQ+ yn y gweithle. Roedd ei amcanion yn cynnwys gwella dealltwriaeth o'r heriau a wynebir gan Bobl Rhywedd Amrywiol, rhoi'r wybodaeth

i gyfranogwyr i'w cefnogi a chydweithio â nhw, a sicrhau cydymffurfiaeth â hawliau cyfreithiol a dyletswyddau cydraddoldeb. Llwyddodd y digwyddiad i ddathlu'r profiadau a'r doniau unigryw y mae amrywiaeth rhywedd yn eu cynnig i'r gweithle wrth feithrin newid cadarnhaol mewn dealltwriaeth ac ymddygiad.

## Cam gweithredu 6: cwblhau adolygiad o'r Strategaeth Cyfathrebu Gorfforaethol.

Cwblhawyd y cam gweithredu hwn yn ystod 2021-22, gyda'r sylwadau canlynol.

Cyhoeddwyd cynllun Cyflawni Cyfathrebu Corfforaethol newydd ar gyfer 2021-24 yn dilyn adolygiad o'r Strategaeth Cyfathrebu Gorfforaethol.

Mae'r cynllun cyflawni yn amlinellu'r cyfeiriad a'r fframwaith yn weithredol i gefnogi ac ymgysylltu ag ystod eang o gynulleidfaoedd mewnol ac allanol, a gwneud hynny'n glir ac yn effeithiol.

## Cam gweithredu 7: adrodd ar y defnydd o ynni a lleihau nifer yr achosion o garbon yn adeiladau GTAGC, gan gynnwys datblygu cronfa 'Buddsoddi i Arbed' ar gyfer prosiectau lleihau carbon yn y dyfodol.

Mae'r cam gweithredu hwn yn parhau ac rydym bellach wedi cyflogi Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd i oruchwylio ein defnydd o ynni a'n hallyriadau carbon.

Rydym wedi paratoi Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer y cyfnod hyd at 2030 sy'n nodi sut y byddwn yn gwella effeithlonrwydd ynni ein hadeiladau, yn lleihau gwastraff ac yn lleihau ein hallyriadau carbon.

Rydym wedi datblygu adnodd dadansoddi defnydd ynni sy'n ein galluogi i gymharu effeithlonrwydd ynni ac allyriadau yn uniongyrchol ar draws ein hystâd gyfan, tra hefyd yn gwneud yn iawn am wahaniaethau o ran maint adeiladau a thywydd lleol. Gan ddefnyddio hyn, byddwn yn blaenoriaethu'r adeiladau sy'n perfformio waethaf er mwyn eu gwella.

Rydym wedi ymgysylltu â 'Re:Fit Cymru', darparwr fframwaith caffael a fydd yn ein cynorthwyo i nodi pecyn o welliannau effeithlonrwydd ynni ar draws ein hystâd gyfan a fydd, ar ôl ei osod, yn cael yr arbedion ariannol wedi'u gwarantu'n gytundebol gan y gosodwr. Byddwn yn ceisio benthyca'r arian i ariannu'r mesurau hyn yn ddi-log, gan ddefnyddio'r arbedion costau gwarantedig i ariannu'r ad-daliadau; bydd hyn yn ein galluogi i leihau ein defnydd o ynni ac allyriadau carbon heb effeithio ar gyllidebau mewn mannau eraill yn y Gwasanaeth.

## Cam Gweithredu 8: datblygu arolwg treigl cyffredinol / annibynnol ar-lein sy'n adlewyrchu pob un o'r saith amcan corfforaethol y gellid eu defnyddio i gofnodi adborth gan yr holl randdeiliaid ar y gwasanaethau y mae'r Awdurdod yn eu darparu.

Ni chwblhawyd y cam gweithredu hwn yn ystod 2022-23; fodd bynnag, gweithredwyd proses newydd ar gyfer cynllun adrannol yn ystod y flwyddyn ac mae'r holl amcanion perthnasol yn cael eu nodi o fewn y cynlluniau hyn. Bydd y cynlluniau'n cael eu hadolygu bob chwarter yn ystod 2023-24 i gasglu tystiolaeth yn erbyn amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y Blociau Adeiladu Gwasanaethau ac Amcanion y Cynllun Corfforaethol.

## Cam gweithredu 9: gweithredu adolygiad dan arweiniad staff ynghylch profiadau staff a gyflogir o dan y System Dyletswydd Rhan Amser / Ar-Alwad.

Yn ystod mis Ionawr 2023, cwblhawyd Adolygiad Profiad Staff y System Dyletswydd Rhan Amser. Roedd yr adolygiad hwn yn dwyn ynghyd brofiadau, meddyliau, syniadau a barn staff sy'n darparu gwasanaeth 'ar-alwad' mewn gorsafoedd ledled Gogledd Cymru.

Roedd tîm ymroddedig o bersonél y Gwasanaeth wedi ymrwymo i gwblhau ymchwil, nodi canfyddiadau allweddol a chynnig argymhellion yn erbyn 10 trywydd ymholi allweddol a oedd yn ymwneud â:

- Talu a gwobrwyo staff System Dyletswydd Rhan Amser
- Denu, dethol, recriwtio a chynefino staff System Dyletswydd Rhan Amser
- Proses dyrchafu staff System Dyletswydd Rhan Amser
- Cadw staff a rheolwyr llinell leol
- Neilltuo amser ar gyfer hyfforddi
- Neilltuo amser ar gyfer gweinyddu
- Defnydd o sgiliau
- Ymgysylltu â phrif gyflogwyr
- Cydnabod cyfraniad a dathlu cyflawniad
- Gofynion adnoddau

Bydd y rhain nawr yn cael eu hadolygu gan Dîm Arweinyddiaeth y Gwasanaeth a bydd cynllun gweithredol yn cael ei ddatblygu.

## Cam gweithredu 10: gweithio i gytuno ar gynllun gweithredu i ganolbwyntio ar ganfyddiadau allweddol arolwg staff y Teulu Tân mewn perthynas â newid diwylliannol a newid arfaethedig i strwythur staff.

Rhyddhawyd yr arolwg yn llwyddiannus yn ystod y flwyddyn 2021-22, gyda'r canlyniadau'n cael eu dadansoddi a chynllun gweithredu wedi'i lunio a'i rannu gydag aelodau Tîm Arweinyddiaeth y Gwasanaeth a'r gweithlu ehangach.

Yna darparwyd diweddariadau mewn perthynas â chynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu gan ddefnyddio cyfres o ffeithluniau.

Bydd rhagor o wybodaeth nawr yn cael ei darparu ar gyfer cyfarfod nesaf y Tîm Arweinyddiaeth y Gwasanaeth ym mis Hydref i drafod sut y gellir diweddaru'r cynllun gweithredu a'i adolygu.

Mae gwaith paratoi eisoes wedi dechrau ar gyfer yr arolwg nesaf a fydd yn cael ei gyhoeddi yn niwedd 2023.

# Amcan 5: Cynnal gweithlu cydnerth, medrus, proffesiynol a hyblyg

**Amcanion llesiant a gyflawnwyd:**

Parhaodd yr Awdurdod i ymestyn ei ymdrechion i ddenu, datblygu a chadw gweithlu sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth o fewn y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

Mae cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth galon diwylliant a gwerthoedd craidd yr Awdurdod, gan groesawu ymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant, awydd i ymdrechu am ragoriaeth, amddiffyn cymunedau a gwerthfawrogi ei bobl. Mae gweithlu sydd wedi'i ddatblygu a'i hyfforddi'n briodol i fod yn ddiogel o fudd i bobl Cymru, ac mae fframwaith rheoli perfformiad datblygedig yn cefnogi rheolwyr i fodloni gofynion eu rolau.

## Cam gweithredu 1: recriwtio, datblygu a chadw gweithlu medrus, llawn cymhelliant a dwyieithog.

Mae'r Gwasanaeth wedi ailddechrau cymryd rhan weithredol mewn digwyddiadau recriwtio wyneb yn wyneb a ffeiriau swyddi a gynhelir ledled y rhanbarth. Mae'r digwyddiadau hyn yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ni ymgysylltu â cheiswyr gwaith, i hyrwyddo swyddi gwag presennol a rhai sydd i ddod, ac i ryngweithio â darpar ymgeiswyr. Mae digwyddiadau nodedig yn cynnwys ffeiriau swyddi Cymraeg eu hiaith ym Mangor, Dolgellau a'r Bala, yn ogystal â diwrnodau gyrfaoedd ym Mae Colwyn, y Rhyl, Glannau Dyfrdwy, Llangollen a Wrecsam, gan roi sylw i ni ledled Gogledd Cymru.

Rydym wedi cymryd camau rhagweithiol i dynnu sylw at swyddi gwag ac i annog ceisiadau; enghreifftiau o hyn yw rhannu swyddi gwag ar brif dudalen Facebook y Gwasanaeth, ac ar grwpiau cyffredinol Gogledd Cymru a grwpiau swyddi sirol lleol ar y platfform. Ar ben hynny, rydym wedi creu tudalen benodol ar gyfer Gyrfaoedd Tân Gogledd Cymru ar Facebook sydd â nifer sylweddol o ddilynwyr. Yn nodedig, mae ein postiadau ar Facebook wedi cyrraedd miloedd o bobl ac wedi derbyn rhyngweithio sylweddol, gan arwain at fwy o welededd a diddordeb yn rolau'r Gwasanaeth. Fel rhan o'n strategaeth i arddangos yr ystod amrywiol o rolau o fewn y Gwasanaeth, rydym wedi cynhyrchu fideos sy'n cynnwys deiliaid presennol y swyddi; mae'r rhain yn rhoi cipolwg ar ddiwrnod arferol o fewn y rôl ac yn amlygu'r boddhad y mae unigolion yn ei gael wrth weithio i ni. Y nod yw denu darpar ymgeiswyr nad ydynt efallai wedi ein hystyried o'r blaen.

Mae'r Arbenigwyr Recriwtio Adnoddau Dynol (AD) yn chwarae rhan hanfodol yng ngrŵp Recriwtio ac Argaeledd y Gwasanaeth, gan ganolbwyntio ar strategaethau recriwtio Ar-Alwad. Cynhaliwyd adolygiad o lenyddiaeth a thempledi Ar-Alwad i sicrhau cysondeb o ran brandio a negeseuon, gan eu halinio â chanllawiau sefydliadol. Yn yr un modd, cynhaliwyd adolygiad trylwyr o lenyddiaeth recriwtio'r Llyfr Gwyrdd i wella ei effeithiolrwydd. Mae adnewyddu'r dogfennau hyn mewn fformat newydd yn eu halinio â thempledi polisi ac yn cyfathrebu ein gwerthoedd craidd yn effeithiol, gan hyrwyddo apêl ymhlith recriwtiaid newydd.

Mae'r Gwasanaeth wedi gwneud diweddariadau amrywiol a gwelliannau i ddeunyddiau a phrosesau recriwtio. Mae llyfrynnau ymgeiswyr bellach yn cynnwys lluniau sy'n adlewyrchu amrywiaeth ein gweithwyr a'n rolau, er mwyn amlygu'r gwahanol gyfleoedd o fewn y Gwasanaeth a'u gwneud yn fwy deniadol. Mae dogfennau Rheolwr Llinell ar

gyfer ymgeiswyr mewnol wedi'u diweddaru er mwyn casglu gwybodaeth fwy perthnasol sy'n ategu data AD presennol. Mae dogfennau cytundeb hefyd wedi'u diweddaru yn unol â deddfwriaeth, h.y. cydymffurfiaeth o ran fetio, DBS, hawl i weithio, hyfforddiant, a chymwysterau.

Mae'r Arbenigwyr Recriwtio AD yn mynychu ac yn cyfrannu at y grŵp iaith Gymraeg, gan symleiddio gofynion hyfedredd yn y Gymraeg ar gyfer gweithwyr presennol, recriwtiaid newydd ac ymgeiswyr. Mae fideos llawn gwybodaeth sy'n cynnwys aelodau o staff yr Ystafell Reoli a Swyddogion Cydymffurfiaeth yn dangos y defnydd ymarferol o'r Gymraeg mewn rolau amrywiol, yn gwasanaethu dibenion recriwtio ac yn cael eu dangos yn ystod digwyddiadau ysgol. Mae diweddariadau i'r llyfryn gwybodaeth recriwtio yn egluro gofynion y Gymraeg, gan ddileu camsyniadau a sicrhau dealltwriaeth gywir. Mae rhestr wirio wedi'i gweithredu er mwyn cwrdd yn gyson â gofynion dwyieithrwydd y Gwasanaeth ar gyfer rolau a hysbysebir.

Mae'r Arbenigwyr Adnoddau Dynol yn ymweld â gorsafoedd ac adrannau ac yn cynnal sesiynau Siop Siarad. Ysgogwyd y fenter hon gan yr arolwg staff Teulu Tân a'i nod yw hyrwyddo sgyrsiau dwy ffordd a rhoi'r cyfle i siarad yn rhydd am faterion ehangach, ac i amlygu safbwyntiau a syniadau newydd gan staff mewn gorsafoedd a lleoliadau ar draws y rhanbarth. Mae'n gyfle i rwydweithio ac i rannu syniadau newydd, i fod yn agored i ffyrdd newydd o feddwl, ac i helpu staff i deimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u bod yn gallu herio prosesau mewn amgylchedd cadarnhaol a chefnogol i'r ddwy ochr. Rhennir adborth o'r sesiynau hyn gyda'r grwpiau / pwyllgorau perthnasol er mwyn iddynt gael eu hystyried ac i godi ymwybyddiaeth.

## Cam gweithredu 2: datblygu arferion cyflogaeth gyda'r nod o gynyddu rhagolygon cyflogaeth pobl a allai fel arall ei chael hi'n anodd cael mynediad i waith a blaenoriaethu cam gweithredu i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol.

Mae'r Adran AD bellach yn darparu gwybodaeth reoli i gefnogi gwneud penderfyniadau wrth gynllunio'r gweithlu; mae'r wybodaeth hon yn cynnwys data ar niferoedd staffio, dechreuwyr, ymadawyr, a metrigau sy'n ymwneud â recriwtio, ac mae'r Pwyllgor Adnoddau Sefydliadol sydd wedi'i ddiweddaru yn dibynnu ar yr wybodaeth hon i lywio ei benderfyniadau. Rydym wedi gwella'r broses o gasglu data Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ystod y cam recriwtio, a bydd hyn yn helpu i nodi tueddiadau a monitro grwpiau penodol sy'n wynebu heriau yn y broses ymgeisio er mwyn gallu cymryd camau cadarnhaol wedi'u targedu.

Yn ystod y chwarter cyntaf ac ail, cynhaliodd y Gwasanaeth recriwtio ar gyfer Diffoddwyr Tân System Dyletswydd Amser Cyflawn, gan gynnal cyfanswm o 120 o gyfweliadau o bell trwy Zoom. Derbyniwyd cyfanswm o 796 o geisiadau am y swyddi; ymhlith yr ymgeiswyr, roedd 15% yn fenywod a 3% o gefndiroedd BME, sy'n dangos rhywfaint o amrywiaeth yn y pwll ymgeiswyr. Mewn ymdrech i ddenu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, cynhaliwyd sesiynau rhagflas cyn yr ymgyrch ym mis Mawrth 2022 ac roedd y sesiynau hyn yn targedu unigolion o gefndiroedd amrywiol yn benodol, gan gynnwys cyfranogwyr benywaidd, BME a LGBTQ+. Dros gyfnod o dair sesiwn, daeth 19 unigolyn i'r sesiynau blasu; Yn wefreiddiol, aeth 16 o'r cyfranogwyr hyn ymlaen i wneud cais am rôl Diffoddwr Tân System Dyletswydd Amser Cyflawn, a chwblhaodd chwe ymgeisydd bob cam o'r broses recriwtio yn llwyddiannus. O'r ddau gyflenwad, mae 12 o'r ymgeiswyr penodedig yn fenywod, un yn BAME, tri yn LGBTQ+, saith yn siaradwyr Cymraeg rhugl ac

mae dau â chyflyrau niwroamrywiol datganedig. Mae pump hefyd yn weithwyr presennol y gwasanaeth, mae pedwar yn cael eu cyflogi fel diffoddwyr tân ar-alwad ac un yn cael ei gyflogi mewn rôl gefnogi. Mynychodd pump o'r ymgeiswyr a benodwyd y sesiynau gweithredu cadarnhaol cyn yr ymgyrch ym mis Mawrth 2022 hefyd.

Felly er mwyn deall yn well a mynd i'r afael â'r rhwystrau a wynebir gan ymgeiswyr di-waith, mae'r Arbenigwyr AD wedi bod yn mynychu digwyddiadau recriwtio ac yn meithrin perthynas â'r sectorau perthnasol. Mae'r ymrwymiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y rhwystrau sy'n wynebu ymgeiswyr gwaith yn ogystal â chyfleoedd i archwilio atebion posibl. Mae digwyddiadau recriwtio allanol a ffeiriau swyddi yn ein galluogi i ymgysylltu â cheiswyr gwaith, hyrwyddo swyddi gwag, a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau a allai fod wedi atal unigolion rhag ymgeisio. Drwy fynd i'r afael yn weithredol â'r rhwystrau hyn, ein nod yw gwella cynwysoldeb yn y broses recriwtio.

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb a thegwch, a bydd yn ystyried pob cais am gefnogaeth ac addasiadau rhesymol o fewn y broses recriwtio. Anogir pob ymgeisydd, boed yn fewnol neu'n allanol, i ddatgelu unrhyw anabledd neu gyflyrau niwrowahanol yn eu cais er mwyn i unrhyw addasiadau rhesymol a phriodol gael eu hystyried. Fodd bynnag, cydnabyddir nad oes rheidrwydd ar weithwyr ac ymgeiswyr i ddatgelu cyflwr niwroddargyfeiriol; fodd bynnag, ni ellir cynnig cefnogaeth briodol oni bai bod yr ymgeisydd yn gwneud y Gwasanaeth yn ymwybodol o'r amod.

Cynhaliodd y Gwasanaeth adolygiad trylwyr ac ailgynlluniwyd ei lenyddiaeth recriwtio i ddileu rhwystrau posibl a allai lesteirio ymgysylltiad a dealltwriaeth ymgeiswyr. Gwnaed ymdrechion i gael gwared ar jargon a therminoleg gymhleth ac i greu deunyddiau hygyrch a chynhwysol. Mae'r hysbysebion bellach yn cynnwys gwerthoedd craidd y Gwasanaeth yn yr is-bennawd, gan gyfleu cenhadaeth a diwylliant y sefydliad yn dryloyw. Mae hyn yn caniatáu i ymgeiswyr asesu eu haliniad â gwerthoedd y Gwasanaeth o'r dechrau, gan hwyluso hunanddewis a chydweddiad gwell rhwng ymgeiswyr ac ethos y sefydliad. Mae ein hysbysebion hefyd yn amlygu ymroddiad y Gwasanaethau i raglenni niferus, gan gynnwys y rhai sy'n mynd i'r afael â thrais domestig, chwythu'r chwiban, iechyd corfforaethol a'r Lluoedd Arfog; maent hefyd yn pwysleisio ein statws fel cyflogwr sy'n cefnogi unigolion ag anableddau.

Lansiwyd tudalen Facebook bwrpasol i wella hygyrchedd ac ymgysylltiad, gan wasanaethu fel canolbwynt i ledaenu gwybodaeth am swyddi gwag, gyda'r holl swyddi wedi'u rhestru'n ddwyieithog er mwyn darparu ar gyfer cynulleidfa amrywiol. Mae delweddau amrywiol o aelodau staff wedi cael eu defnyddio i roi golwg gyfannol o'r Gwasanaeth ac i godi ymwybyddiaeth o'r holl rolau sydd ar gael. Yn ogystal, mae'r dudalen yn dangos aelod o staff sydd yn y rôl a hysbysebir ar hyn o bryd, gan gynnig persbectif personol a gwybodaeth hanfodol i ymgeiswyr; mae'r dull hwn yn creu gofod ar-lein deniadol lle gall darpar ymgeiswyr ddatblygu dealltwriaeth wirioneddol o'r rolau sydd ar gael.

Mae'r Gwasanaeth yn glynu at ymagwedd deg sy'n seiliedig ar deilyngdod wrth werthuso pob cais, heb ragfarn na gwahaniaethu. Mae'r Gwasanaeth yn annog ymgeiswyr i ofyn am addasiadau rhesymol yn ystod y cyfnodau ymgeisio a chyfweld; mae'r ymrwymiad hwn yn cael ei ailadrodd drwy gydol y broses recriwtio, gan amlygu'r cyfle i ymgeiswyr ofyn am yr addasiadau angenrheidiol. Ein nod yw creu amgylchedd lle mae ymgeiswyr yn teimlo'n gyfforddus ac wedi'u grymuso i gymryd rhan lawn, ac i ddarparu ar gyfer eu hanghenion penodol yn briodol.

## Cam gweithredu 3: mabwysiadu modelau gweithio ystwyth a hyblyg a fydd yn cyfrannu at gymdeithas garbon isel drwy leihau allyriadau sy'n gysylltiedig â theithio at ddibenion gwaith.

Mae'r Gwasanaeth wedi gweithredu polisi gweithio ystwyth sy'n rhoi hyblygrwydd i aelodau staff weithio naill ai gartref neu o'r swyddfa, gan feithrin trefniant hybrid pan fo hynny'n ymarferol; mae'r polisi hwn yn berthnasol i weithwyr presennol a newydd, gan sicrhau ymagwedd gyson drwy'r Gwasanaeth. Drwy leihau'r angen am gymudo dyddiol, mae'r dull gweithio ystwyth yn cyfrannu'n sylweddol at ostyngiad nodedig yn yr allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â gyrru.

Mae'r Gwasanaeth yn cefnogi mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio, i greu timau mwy hyblyg a thechnolegol a all weithio'n fwy effeithlon i ddarparu gwasanaeth rhagorol tra'n gwella'r berthynas rhwng gwaith a bywyd cartref. Rydym hefyd yn cydnabod manteision amgylcheddol defnyddio gweithio ystwyth i leihau teithio diangen. Mae gweithio ystwyth yn opsiwn i'r rhai mewn rolau penodol a chânt eu cefnogi lle bynnag y bo modd; ar gyfer cyflogeion mewn rhai rolau gan gynnwys diffodd tân rheng flaen, efallai y bydd rhai elfennau o weithio ystwyth (fel cyfarfodydd rhithwir) yn bosibl, ond efallai na fydd hyblygrwydd ynghylch gweithio o wahanol leoliadau yn bosibl er mwyn cynnal gofynion cyflawni gweithredol. Nodir hyn ym mhob hysbyseb swydd a chaiff ei drafod ag ymgeiswyr yn ystod y broses gyfweld.

Ar hyn o bryd rydym yn y broses o adolygu a diweddaru ein polisi Gweithio Hyblyg i sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac i ymgorffori arferion gorau. Mae ein polisi presennol yn dilyn dull gweithredu niwtral o ran rheswm, sy'n galluogi cyflogeion i ofyn am drefniadau gweithio hyblyg heb orfod datgelu'r rhesymau penodol y tu ôl i'w cais. Mae'r dull hwn yn parchu ac yn cydnabod preifatrwydd unigolion wrth hyrwyddo amgylchedd gwaith cefnogol a chynhwysol.

Ymhellach, mae mabwysiadu arferion gweithio ystwyth o fewn y Gwasanaeth wedi hwyluso'r defnydd parhaus o offer cyfathrebu digidol megis Teams, gan alluogi cyfarfodydd rhithwir a lleihau'r angen am deithio cysylltiedig â gwaith. Mae'r symudiad strategol hwn tuag at weithio hybrid a chydweithio o bell hefyd wedi chwarae rhan hanfodol wrth leihau allyriadau.

Yn ogystal â lleihau allyriadau carbon, mae'r trefniadau gweithio hyblyg yn hyrwyddo'r cysyniad o "ddesgiau poeth", gan annog gweithwyr i wneud y gorau o ofod desg a thrwy hynny leihau'r defnydd o ynni sy'n gysylltiedig â goleuo a gwresogi.

## Cam gweithredu 4: parhau i chwilio am gyfleoedd newydd i ddatblygu cynlluniau prentisiaeth o fewn y Gwasanaeth.

Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu sawl rhaglen brentisiaeth, sydd ar hyn o bryd yn ein Hadrannau Cyllid a Fflyd, ac yn cynnig rolau gweithredol ar ffurf Prentisiaid Diffoddwyr Tân. Mae pob un o'r cynlluniau hyn yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd.

Dechreuodd grŵp o 12 o Brentisiaid Diffoddwyr Tân system dyletswydd amser cyflawn yn eu rolau ym mis Medi 2022, ac ymunodd 12 o brentisiaid ychwanegol â'r Gwasanaeth ym mis Ionawr 2023. Rhwng y ddau gyflenwad, mae 12 o'r ymgeiswyr penodedig yn fenywod, un yn BME, tri yn LGBTQ+, saith yn siaradwyr Cymraeg rhugl ac mae dau â chyflyrau

niwroamrywiol datganedig. Mae pump hefyd yn weithwyr presennol y Gwasanaeth, pedwar yn cael eu cyflogi fel diffoddwyr tân ar-alwad ac un yn cael ei gyflogi mewn rôl cefnogi. Hefyd, mynychodd pump o'r ymgeiswyr a benodwyd y sesiynau gweithredu cadarnhaol cyn yr ymgyrch ym mis Mawrth 2022. Er mwyn cefnogi eu sefydlu cychwynnol, cynhaliodd yr Adran AD sesiwn wybodaeth a roddodd drosolwg o'r Adran AD, ei phrosesau allweddol a gwybodaeth berthnasol mewn perthynas â'u cyflogaeth. Yr amcanion oedd sicrhau eu hymgysylltiad gweithredol â'r Gwasanaeth, hyrwyddo trosglwyddiad esmwyth i'w rolau a chynorthwyo i'w cadw.

Trwy gydol camau cychwynnol y broses recriwtio, ymgynghorir yn gyson â rheolwyr penodi ynghylch addasrwydd y rolau ar gyfer prentisiaethau. Mae opsiynau ar gyfer cyfleoedd prentisiaeth yn cael eu harchwilio a'u hailystyried wrth i'r broses recriwtio fynd yn ei blaen.

Mae'r Gwasanaeth wedi mabwysiadu Cynllun Mynediad Uniongyrchol Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân yn gynnar ac ar hyn o bryd mae'n hysbysebu am swyddi Rheolwr Gorsaf. Rydym eisoes wedi recriwtio mynediad uniongyrchol i rolau ar lefelau Rheolwyr Strategol, Canolig a Goruchwylio. Prif nod y cynllun yw paratoi llwybr gwahanol i mewn i rôl Rheolwr Gorsaf, ochr yn ochr â'r llwybr mwy traddodiadol ar gyfer diffoddwyr tân. Gall hyn chwarae rhan werthfawr wrth sicrhau amrywiaeth o uwch reolwyr yn y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Mae'r Gwasanaeth yn parhau i adolygu addasrwydd mynediad uniongyrchol i bob rôl rheoli weithredol cyn recriwtio, ac yn ddiweddar mae wedi cwblhau proses recriwtio ar gyfer rôl Rheolwr Ardal fel rhan o Dîm Arweinyddiaeth y Gwasanaeth, ac wedi cynnig hyn fel llwybr mynediad uniongyrchol. Yn dilyn proses ddethol deg ac agored gydag amrywiaeth o ymgeiswyr o gefndiroedd gweithredol ac anweithredol, cynigiwyd y rôl i ymgeisydd benywaidd anweithredol ond gwrthododd y swydd yn ddiweddarach; cynigiwyd y rôl wedyn i'r ymgeisydd nesaf sydd â phrofiad gweithredol.

## Cam gweithredu 5: mabwysiadu dull mwy cyfannol o wella llesiant gweithwyr, parhau i fuddsoddi mewn lleihau absenoldeb a chanolbwyntio ar hyrwyddo iechyd.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Adran AD wedi cydweithio â'r darparwr Iechyd Galwedigaethol i wella'r prosesau presennol ac i nodi meysydd i'w datblygu. Mae cyfarfodydd misol rheolaidd gyda'r Rheolwr Cytundebau wedi sefydlu partneriaeth gref ac wedi hwyluso gweithredu dulliau gweithio newydd sy'n cyd-fynd ag arfer gorau.

Mae'r Arbenigwyr AD yn ymweld â gorsafoedd ac adrannau i ddarparu sesiynau Trosolwg AD, gan gynnwys diweddariadau pwysig i ymgyfarwyddo gweithwyr â'r gwasanaethau y mae AD yn eu darparu a'r buddion sydd ar gael iddynt; maent hefyd yn hwyluso sesiynau Siop Siarad. Ysgogwyd y fenter hon gan yr arolwg staff Teulu Tân a'i nod yw hyrwyddo sgyrsiau dwyffordd a rhoi'r cyfle i siarad yn rhydd am faterion ehangach, yn ogystal â thynnu sylw at farn a syniadau newydd gan staff mewn gorsafoedd a lleoliadau ar draws y rhanbarth. Mae'n gyfle i rwydweithio ac i rannu syniadau newydd, i fod yn agored i ffyrdd newydd o feddwl, ac i helpu staff i deimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u bod yn gallu herio prosesau mewn amgylchedd cadarnhaol a chefnogol i'r ddwy ochr. Rhennir adborth o'r sesiynau hyn gyda'r grwpiau / pwyllgorau perthnasol er ystyriaeth ac ymwybyddiaeth.

Mae sefydlu'r Pwyllgor Presenoldeb, Cwynion a Disgyblaeth yn gam arwyddocaol i'r Gwasanaeth, gan fod y corff hwn yn cymryd cyfrifoldeb am ddatblygu polisïau

sy'n ymwneud â rheoli absenoldeb, cwynion a materion ymddygiad, gan gynnwys gweithdrefnau disgyblu. Drwy ganolbwyntio ar y meysydd hanfodol hyn, mae'r Pwyllgor yn hyrwyddo amgylchedd gwaith teg a thryloyw sy'n annog ymddygiad priodol ac sy'n ceisio datrys anghydfodau'n effeithiol.

Gan gydnabod pwysigrwydd cefnogi gweithwyr â chyflyrau iechyd hirdymor ac anawsterau iechyd meddwl sy'n deillio o straen, mae'r Gwasanaeth wedi creu dau lwybr gwahanol yn arweiniad i Reolwyr Llinell. Mae'r llwybrau hyn wedi'u teilwra i fynd i'r afael ag anghenion penodol ac mae disgwyl iddynt gael eu rhannu â rheolwyr yn gynnar yn 2023. Mae hyn yn sicrhau bod gan y rheolwyr yr adnoddau a'r wybodaeth angenrheidiol i ddarparu cymorth ac arweiniad priodol i aelodau eu tîm.

Er mwyn gwella ymwybyddiaeth a hygyrchedd i'r gwahanol fathau o gymorth sydd ar gael o fewn y sefydliad, mae poster newydd wedi'i ddylunio a'i ddosbarthu i bob adran a gorsaf. Mae'r poster yn amlwg yn cynnwys yr ystod o ddewisiadau cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd, gyda ffocws penodol ar gymorth ap symudol ar ffurf codau QR. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am gymorth dros y ffôn a'r we, gan gynnig nifer o ffyrdd i weithwyr ofyn am gymorth, yn seiliedig ar eu hanghenion a'u dewisiadau unigol.

Mewn ymdrech ragweithiol i ddeall yn well a diwallu anghenion gweithwyr sydd angen cymorth, ymwelodd aelodau o'r tîm AD a thîm yr Uned Iechyd Galwedigaethol â Jubilee House. Rhoddodd yr ymweliad hwn gipolwg gwerthfawr ar y gwasanaethau a gynigir yn y ganolfan, gan roi'r wybodaeth uniongyrchol i'r tîm AD i'w galluogi i arwain a chefnogi gweithwyr sy'n chwilio am gymorth yn effeithiol.

Mae tîm iechyd a llesiant ymroddedig wedi'i sefydlu i sicrhau dull cyfannol a rhagweithiol o ymdrin â llesiant gweithwyr mewn cydweithrediad â chymorth gan y tîm AD. Mae'r tîm iechyd a llesiant yn ymroddedig i hyrwyddo a chefnogi iechyd a llesiant cyffredinol gweithwyr, gan feithrin amgylchedd gwaith cadarnhaol.

## Cam gweithredu 6: ailddilysu'r Wobr Platinwm Safon Iechyd Corfforaethol.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom gyflwyno tystiolaeth am wiriad statws i Gymru Iach ar Waith i geisio ailddilysu ein Gwobr Platinwm Safon Iechyd Corfforaethol.

Roedd ein cyflwyniad yn manylu ar waith llawer o dimau ar draws ein sefydliad ac yn ceisio dangos ein hymrwymiad i gynaliadwyedd a chyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol. Amlygodd ein cyflwyniad ein Strategaeth Amgylcheddol 2023-2030, sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n cwmpasu gwastraff ac ailgylchu, rheoli dŵr, gweithrediadau fflyd, bioamrywiaeth, cadwraeth ynni, caffael cynaliadwy ac ymgysylltu â'r gymuned.

Cawsom ein canmol am ein cyflawniadau corfforaethol mewn gwahanol feysydd. Roedd cyflawniadau nodedig yn cynnwys gosod Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan mewn sawl safle, disodli ceir fflyd disel am gerbydau hybrid a threial gweithredol o Olew Llysiau Hydrogenedig yn lle disel. Nodwyd ein cydweithrediad gweithredol gyda phartneriaid megis Heddlu Gogledd Cymru mewn materion caffael a'n cyfranogiad mewn ymarferion Caffael Cymru Gyfan gyda'r nod o gyflawni gwerth cymdeithasol ac economaidd.

Cafodd ein hymgyrch i wella ein hystâd trwy welliannau rheoli cyfleusterau megis gosodiadau goleuo ynni-effeithlon, gosod drysau newydd, gwell rheolaethau gwresogi ac

archwilio pympiau gwres ffynhonnell aer dderbyniad cadarnhaol. Roedd ein hymrwymiad i leihau gwastraff yn amlwg drwy ein cyflawniadau lleihau gwastraff i safleoedd tirlenwi.

Roedd mentrau ymgysylltu cymunedol megis partneriaethau gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a noddi digwyddiadau yn dangos ein cefnogaeth i amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at ymroddiad y Gwasanaeth i weithio gyda phlant a phobl ifanc drwy raglenni fel Cadetiaid Tân, addysg diogelwch mewn ysgolion a chydweithrediadau i atal tanau a hyrwyddo llesiant.

Daeth adroddiad yr aseswr i ben trwy ddyfarnu'r Gwiriad Statws Uwch Platinwm i'r Gwasanaeth, gan gydnabod ymdrechion ac ymroddiad rhagorol y sefydliad i gynaliadwyedd a chyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol.

## Cam gweithredu 7: parhau i gyfrannu at 'Strategaeth Datblygu Pobl a Sefydliadol' Cymru Gyfan.

Mae Cadeirydd newydd y Grŵp Datblygiad Pobl a Sefydliadol wedi diweddaru Cylch Gorchwyl y grŵp (a'r Agenda). Cytunodd y grŵp yn unfrydol i lofnodi a chymeradwyo'n ffurfiol y fersiwn wedi'i ailddrafftio. Mae ei brif gynnwys yn nodi pwrpas y grŵp i weithio ar ran y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru i gyflawni'r canlynol:

- Cynnal trosolwg o'r holl weithgareddau Adnoddau Dynol, Dysgu a Datblygiad, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, a Chymraeg.
- Nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithredu ym maes Adnoddau Dynol, Dysgu a Datblygiad, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, a'r Gymraeg.
- Rhagweld, mynd i'r afael ag ac arwain ar ddatrys materion sy'n effeithio ar bobl yn allanol neu'n fewnol.
- Datblygu Strategaeth a Chynllun Gweithredu POD, Adnoddau Dynol Cymru Gyfan.
- Creu a monitro Grwpiau Gorchwyl a Gorffen yn ôl yr angen.
- Ffrydiau Gwaith Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC) – ystyried gwybodaeth sy'n deillio o'r NFCC.
- Gweithio i ddatblygu cysylltiad agos â Llywodraeth Cymru, NFCC, a rhanddeiliaid allweddol eraill.
- Aelodau'r Grŵp POD i friffio aelodau Tîm Arweinyddol eu Gwasanaeth eu hunain fel eu bod yn cael eu briffio'n llawn a bod safbwyntiau wedi'u rhannu.

Yn ogystal, mae menter barhaus i sefydlu fforwm pwrpasol sy'n canolbwyntio ar recriwtio a gwella cynrychiolaeth grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Yr amcan yw ffurfio is-grŵp o dan y Grŵp Datblygu Sefydliadol a Phobl, sydd ar y cyd yn archwilio themâu ac arferion gorau penodol; bydd yr is-grŵp hwn yn sefydlu rhwydwaith ar draws Cymru gyfan, gan hwyluso cydweithredu a chynnydd yn yr ardaloedd hyn.

O ran materion gweithredol, cynhaliwyd adolygiad o bapur Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân ar 'ddyletswyddau wedi'u haddasu' ac mae safonau ffitrwydd yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd i sicrhau cysondeb ar draws y tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru. Gwahoddwyd cynghorwyr iechyd a ffitrwydd i gymryd rhan mewn cyfarfodydd yn y dyfodol er mwyn cyfrannu eu harbenigedd. Ar ben hynny, mae trafodaethau parhaus yn cael eu cynnal ynghylch arweiniad a hyrwyddo Elusen y Diffoddwyr Tân, gyda'r nod o ddarparu cymorth ac adnoddau i ddiffoddwyr tân.

Mae adolygiad o bapur Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân ar 'ddyletswyddau addasedig' wedi ei gynnal, ac mae safonau ffitrwydd hefyd yn cael eu hadolygu i sicrhau

cysondeb ar draws y tri gwasanaeth Cymreig. Gwahoddwyd ymgynghorwyr Iechyd a Ffitrwydd i fynychu cyfarfodydd yn y dyfodol, tra bod trafodaethau'n parhau ynghylch arwain a hyrwyddo Elusen y Diffoddwyr Tân.

Bydd y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru yn adolygu Lefelau Modiwl Aeddfedrwydd Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân yn unigol er mwyn cynnal dadansoddiad o'r bwlch. Mae meysydd fel cydraddoldeb a recriwtio yn cael eu hystyried ar gyfer adolygiad Cymru gyfan sy'n asesu perthnasedd pynciau penodol yn y cyd-destun hwn.

## Cam gweithredu 8: Gwella ffyrdd o gefnogi staff i ddod yn arweinwyr y dyfodol.

Mae'r Gwasanaeth wedi cymryd rhan mewn nifer o ffrydiau gwaith sy'n ymwneud â chynllun mynediad uniongyrchol sy'n cael ei ddatblygu gan Gyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân. Comisiynwyd y cynllun drwy brosiect Arweinyddiaeth Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân, ochr yn ochr â sawl menter arall i gefnogi datblygiad arweinwyr o fewn y sector tân. Bydd y cynllun yn fframwaith i gefnogi pobl sy'n ymuno â'r gwasanaeth tân ar lefel yr Orsaf a Rheolwr Ardal wrth ymgymryd â rolau gweithredol. Mae'n rhaglen sydd wedi'i datblygu'n genedlaethol sy'n gadarn, yn sicr o ran ansawdd, ac yn gredadwy; bydd yn cael ei chydlynu a'i chefnogi'n ganolog ar lefel genedlaethol, wrth gael ei chyflawni ar lefel ranbarthol a lleol. Bydd y cynllun yn cael ei ddylunio i fod yn ychwanegol i ac i ategu'r llwybrau dilyniant presennol er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i feithrin a datblygu ein staff mewnol. Mae GTAGC, ynghyd â chwe Gwasanaeth Tân ac Achub arall yn y DU, wedi ymrwymo i gefnogi'r prosiect ac yn rhagweld recriwtio un ymgeisydd Cynllun Mynediad Uniongyrchol ar raglen llwybr Rheolwr yr Orsaf.

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad rhyngweithiol yn Hen Golwyn a'r Rhyl a oedd yn canolbwyntio ar hyrwyddo gweithle cynhwysol ac arweinyddiaeth gref o fewn y Gwasanaeth. Roedd sesiwn y bore yn canolbwyntio ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, dan arweiniad Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gwasanaeth; yn y prynhawn, cyflwynodd siaradwr o Academi Cymru gyflwyniad 'Arweinyddiaeth ar Iâ', gyda'r nod o ysbrydoli staff i ddilyn eu pwrpas gydag angerdd, ymarfer gwerthoedd cadarn a sefydlu perthnasoedd parhaus. Nod y digwyddiadau hyn oedd datblygu ymddygiad arweinyddiaeth a mynd i'r afael â meysydd i'w gwella fel y nodwyd drwy ein Harolwg Staff 'Teulu Tân'. Mae dod yn sefydliad cynhwysol yn daith barhaus ac mae digwyddiadau fel y rhain sy'n datblygu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth ein harweinwyr yn y dyfodol yn sicrhau y gallwn esblygu fel Gwasanaeth i gwrdd â'r galwadau newidiol ar wasanaethau cyhoeddus.

## Cam gweithredu 9: cyflwyno strwythur staff newydd a fydd yn helpu i gynyddu nifer y staff mewn cymunedau.

Cafodd yr ailstrwythuro rheoli newydd ei weithredu ym mis Ebrill 2022, gan ddarparu adnodd staff ychwanegol ym mhob un o'r adrannau i gynorthwyo gydag argaeledd, recriwtio a hyfforddi staff er mwyn ceisio gwella argaeledd offer tân ar-alwad. Mae adnoddau ychwanegol hefyd ar gael i wella parodrwydd gweithredol criwiau trwy wneud mwy o ymarfer corff, gan ganiatáu i staff gynyddu eu gwybodaeth ynghylch risgiau allweddol a chynnal ymarferion hyfforddi yn y lleoliadau hynny (er enghraifft Gorsaf Bŵer Trawsfynydd). Yn ystod y flwyddyn, gwnaed adolygiad o'r ailstrwythuro ac mae rhai newidiadau bach wedi'u cynllunio ar gyfer mis Mehefin 2023.

# Objective 6: Datblygu ffyrdd o ddod yn fwy ymwybodol o'r amgylchedd er mwyn lleihau effaith ein gweithgareddau ar yr amgylchedd

**Amcanion llesiant a gyflawnwyd:**

Yn 2017, gosododd Llywodraeth Cymru uchelgais i sicrhau sector cyhoeddus carbon niwtral net erbyn 2030. Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddodd 'Ffyniant i Bawb: Cymru Garbon Isel' sy'n ceisio cefnogi'r sector cyhoeddus i waelodlin, monitro ac adrodd ar gynnydd tuag at niwtraliaeth garbon.

- Mae gwasanaeth 'codi llais' cyfrinachol yn cael ei gaffael i ddarparu modd dienw, trwy ddarparwr allanol, i weithwyr roi gwybod am unrhyw bryderon difrifol sydd ganddynt ynghylch ymddygiad neu gamymddwyn amhriodol neu wahaniaethol.

- Mae canllaw i weithwyr wedi'i lunio i helpu i drosi Gwerthoedd Craidd a disgwyliadau'r Gwasanaeth i'r ffordd y dylai gweithwyr weithredu. Mae'r ddogfen yn manylu ar ddyheadau'r Gwasanaeth o ran y Gwerthoedd Craidd ac yn cyfeirio gweithwyr at bolisïau a all ddarparu gwybodaeth bellach pan fydd materion yn codi.

- Mae GTAGC yn cymryd diogelwch ein staff a'n cymunedau o ddifrif, a dyna pam rydym yn mynnu bod pob aelod o staff yn ymgymryd â gwiriad DBS neu Fetio cyn cyflogi, ac yn gofyn i staff ddatgelu unrhyw euogfarnau troseddol yn ystod y broses recriwtio a thrwy gydol eu gyrfa gyda'r Gwasanaeth. O 1 Ebrill 2023, bydd y Gwasanaeth yn cychwyn adolygu statws DBS a Fetio ei staff bob tair blynedd. Bydd y Gwasanaeth yn gweithredu amnest ym mis Ebrill 2023 ac yn ystod y cyfnod hwn, bydd unrhyw aelod o staff nad yw wedi datgelu cysylltiad â'r Heddlu o'r blaen yn cael y cyfle i wneud hynny heb fod yn destun camau disgyblu am dorri cytundeb oherwydd diffyg datgelu. Bydd unrhyw euogfarnau a ddatgelir yn cael eu hystyried fesul achos yn unol â'n gwerthoedd craidd a'n llawlyfr disgyblu.

- Mae GTAGC wedi sefydlu tri rhwydwaith staff newydd i ganolbwyntio ar grefydd, ethnigrwydd a threftadaeth ddiwylliannol; niwroamrywiaeth; a rhieni a gofalwyr. Mae'r rhwydweithiau newydd hyn yn ategu'r rhwydweithiau 'Merched yn y Gwasanaeth Tân' a 'Firepride' sy'n galluogi staff i gyfarfod yn rheolaidd i godi pryderon a rhannu syniadau ar sut y gall y gwasanaeth wella. Mae gan rai o'r rhwydweithiau staff uwch noddwr ac mae hyn wedi atgyfnerthu'r berthynas rhwng uwch arweinwyr ac aelodau staff.




- Cynhyrchodd GTAGC ganllawiau newydd ym mis Mawrth 2023 yn ymwneud â chefnogi cydweithwyr Mwslimaidd yn ystod Ramadan. Bydd dogfennau canllaw Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant tebyg yn cael eu datblygu trwy gydol 2023-24 i greu cyfres o adnoddau sy'n helpu godi ymwybyddiaeth a galluogi ein pobl greu diwylliant gweithle mwy cefnogol a chynhwysol. Mae hyrwyddo dogfennau cyfarwyddyd o ffynonellau allanol hefyd yn cynorthwyo ymwybyddiaeth ddiwylliannol a datblygiad staff.



- Cyflwynodd y Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sesiwn hanner diwrnod yng Nghynhadledd goruchwylio ac arweinyddiaeth gyfun cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant y rheolwyr canol ym mis Mawrth 2023. Roedd y sesiwn hon yn canolbwyntio ar arferion cynhwysol, diwylliant yn y gweithle a theori arweinyddiaeth.

- Mae GTAGC wedi parhau i ddarparu hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant penodol i staff yn ymwneud â chynhwysiant LGBTQ+, rhagfarn anymwybodol, niwroamrywiaeth a chydraddoldeb rhyw. Mae'r hyfforddiant hwn wedi helpu i godi ymwybyddiaeth a chyflwyno cysyniadau newydd i staff. Er enghraifft, yn ystod mis Mawrth 2023, hyrwyddodd y Gwasanaeth 'Wythnos Dathlu Niwroamrywiaeth 2023' ac roedd yr ymgyrch hon yn cynnwys nifer o ddeunyddiau dysgu anffurfiol gan gynnwys dolenni fideo, dogfennau cyfarwyddyd ac astudiaethau achos.

- Cyflwynwyd sgrinio dyslecsia cychwynnol i staff ym mis Medi 2022. Mae sgrinio wedi galluogi staff i ddatblygu hunanymwybyddiaeth ac mae'r gwasanaeth wedi ystyried a gweithredu rhai addasiadau rhesymol sylfaenol. Mae teclyn sgrinio manylach wedi cael ei archwilio yn ystod y misoedd diwethaf i sicrhau bod y gwasanaeth yn ystyried y gwahanol ffyrdd y mae staff yn dysgu, yn prosesu ac yn derbyn gwybodaeth. Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, mae'r broses hon yn mynd ati'n rhagweithiol i helpu GTAGC i nodi addasiadau rhesymol sy'n galluogi staff i berfformio hyd eithaf eu gallu.

- Mae gwaith pellach wedi'i gwblhau i sicrhau bod y gwasanaeth yn lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Gyda'r bwlch hwn yn cau o ganlyniad i fwy o fenywod yn cael eu recriwtio i'r gwasanaeth, gan gynnwys i rolau gweithredol, gyda llawer ohonynt wedi bod yn llwyddiannus mewn prosesau hyrwyddo diweddar. Mae data bwlch rhwng y rhywiau ar gyfer 2022-23 wedi'i gyflwyno i'r llywodraeth



ac mae'r naratif perthnasol wedi'i gynnwys mewn adroddiad blynyddol sydd wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn unol â'r gofynion adrodd deddfwriaethol.

- Mae'r Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi mynychu fforymau amrywiol gan gynnwys Rhwydwaith 'OEDRAN yn y Gwaith' yn ystod 2022-23 sydd wedi'i drefnu gan Busnes yn y Gymuned ac Age Cymru. Mae'r rhwydwaith hwn wedi galluogi ein gwasanaeth i rannu a nodi arfer gorau, polisi a phrosesau o ran creu gweithle cynhwysol i bobl hŷn.

- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae GTAGC wedi ymaelodi â Chymdeithas Gwasanaeth Tân Asiaidd. Mae ein staff yn mynychu cyfarfodydd ei phwyllgor gwaith sy'n ein galluogi i nodi arfer gorau. Mae ein staff hefyd yn elwa'n fawr o fynychu cynadleddau blynyddol y Gymdeithas Gwasanaeth Tân Asaidd sy'n galluogi rhwydweithio a dysgu o amgylch cydraddoldeb hiliol a themâu eraill sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb.



- Mae GTAGC hefyd wedi parhau â'n haelodaeth gyda Menywod yn y Gwasanaeth Tân a mynychodd staff eu penwythnos datblygu blynyddol ym mis Mehefin 2022.

- Mae GTAGC wedi mynd ati i fynychu Cyfarfodydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Cymru gyfan ochr yn ochr â'n cymheiriaid o Ganolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf yn Y Drenewydd ddydd Iau 9fed Chwefror 2023. Mae'r fforwm hwn yn galluogi pob Gwasanaeth i ddarparu diweddariadau ar flaenoriaethau allweddol, rhannu adnoddau a chydweithio. Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob chwarter.

- Mynychodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân, Stewart Forshaw a'r Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Benji Evans Gynhadledd Ddiwylliant Cyngor Cenadlaethol y Penaethiaid ym mis Mawrth 2023. Amlygodd siaradwyr amrywiol bryderon yn ymwneud â diwylliant y gweithle yn y sector tân ac achub. Mae Adolygiad Diwylliant Brigâd Dân Llundain ac adroddiadau diwylliant dilynol gan Gyngor Cenadlaethol y Penaethiaid a HMICFRS wedi amlinellu camau gweithredu ac argymhellion allweddol i'r sector GTA eu hystyried. Fel gwasanaeth, rydym wedi defnyddio'r argymhellion i lywio ein cynllunio ar gyfer y dyfodol.

- Bydd yr Adroddiad Monitro Cyflogaeth yn cael ei gyhoeddi yn hydref 2023. Mae hyn yn cynnwys yr holl ddata cyflogaeth a nodir gan Ddyletswydd Cydraddoldeb Penodol Cymru 2011 gan sicrhau bod hyn yn cael ei adrodd yn ôl math o gytundeb, cytundebau parhaol a chyfnod penodol, amser llawn, rhan-amser a threfniadau gweithio hyblyg eraill. Mae'r wybodaeth hon yn galluogi'r awdurdod i fonitro amrywiaeth ei weithlu a chynllunio gweithgarwch gweithredu cadarnhaol yn unol â hynny.

## Amcan Cydraddoldeb 4

Trwy raglen gynhwysfawr o addysg a chyngor wedi'u teilwra a ddarperir yn unigol ac ar y cyd, i rymuso pobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Gogledd Cymru i barhau i leihau eu lefel eu hunain o risg o dân a pheryglon eraill trwy gydol y cyfnodau gwahanol yn eu bywydau.

**Gan weithio i gyflawni'r amcan hwn, mae'r Awdurdod wedi:**



- Nifer yr ysgolion sy'n cymryd rhan ym mlwyddyn ariannol 2022-23 yw 74 o ysgolion cynradd a 45 o ysgolion uwchradd. Mae hyn wedi arwain at 7,324 o blant ysgolion cynradd ac 8,590 o blant ysgolion uwchradd yn derbyn gwybodaeth diogelwch allweddol.
- Yn ogystal â hyn mae addysgwyr GTAGC wedi cyflwyno i 20 o ffermwyr ifanc, 20 aelod o glybiau merlod, 340 o bobl ifanc mewn saith ymweliad â gorsaf, 25 o fyfyrwyr o'r Frigâd Merched a 30 o blant sy'n cael eu haddysgu gartref mewn un ymweliad.



- Mae'r Addysgwyr wedi darparu dau ymyriad cynnau tanau a 10 sesiwn o Stori Olivia i 750 o fyfyrwyr. Mae hyn yn golygu bod yr Addysgwyr wedi darparu gwybodaeth ddiogelwch allweddol i 18,001 o blant a phobl ifanc mewn 139 o gysylltiadau.
- Mae effeithiau ychwanegol yr ymgysylltiad hwn yn golygu bod pobl ifanc yn datblygu eu gwytnwch eu hunain i sicrhau eu bod yn fwy diogel yn eu cartref, ar y ffordd ac yn eu cymunedau.
- Mae GTAGC mewn cydweithrediad â phartneriaid diogelwch ar y ffyrdd a Gwasanaethau Tân ac Achub eraill Cymru yn darparu ymyriad diogelwch ar y ffyrdd o'r enw Stori Olivia gyda'r nod o leihau'r rhai a laddwyd ac a anafwyd yn ddifrifol ar y ffordd, ac yn benodol, gyrwyr ifanc. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn cyflwyno Stori Olivia i bob ysgol uwchradd ac mae GTAGC yn ei chyflwyno i sefydliadau addysg bellach fel colegau, ac i brentisiaid mewn gweithleoedd, fel AirBus. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae dros 5,107 o bobl ifanc a gyrwyr ifanc wedi derbyn yr ymyrraeth hon.
- Yn y flwyddyn flaenorol, mae ein gwasanaeth wedi mabwysiadu rhai adnoddau a ddatblygwyd gan Ganolfan Gweithgareddau Addysg PentrePeryglon ac elusen CSSEF. Mae'r adnoddau hyn wedi ehangu mynediad i blant oed ysgol sy'n fyddar ac yn drwm eu clyw i gael mynediad at wybodaeth diogelwch allweddol. Bydd y gwasanaeth hefyd yn parhau i ddatblygu ystod o adnoddau y byddwn yn eu cyrchu trwy lwyfan addysg StayWise Cymru.
- Mae ymarfer mapio cynhwysfawr wedi'i gynnal i nodi grwpiau budd cydraddoldeb ar draws Gogledd Cymru. Mae'r wybodaeth hon wedi galluogi ein gwasanaeth i dargedu grwpiau penodol drwy fabwysiadu methodoleg cyfathrebu ac ymgysylltu priodol. Mae'r darn hwn o waith wedi arwain at weithio mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol lleol ac elusennau sydd wedi arwain at alluogi ein Gwasanaeth i hyrwyddo ein negeseuon diogelwch allweddol. Er enghraifft, mae ein gwaith gyda Chanolfan Merched Gogledd Cymru wedi ein galluogi i gysylltu â llawer o fenywod sy'n aml yn darparu gofal sylfaenol. Mae pobl sy'n byw ar eu pen eu hunain mewn mwy o berygl o dân yn y cartref, felly mae gweithio gyda grwpiau menywod yn ein helpu i gysylltu â grŵp o bobl sy'n digwydd bod yn cyfrif am 90% o rieni sengl yr ardal.

# Blaenoriaeth 4 – Diogelwch Personol




## Amcan Cydraddoldeb 5

Lleihau'r risg o farwolaeth neu anaf oherwydd tanau yng Ngogledd Cymru trwy ddarparu gwasanaethau atal ac amddiffyn effeithiol ac ymateb brys i dân ac achub.

### Gan weithio i gyflawni'r amcan hwn, mae'r Awdurdod wedi:

- Parhau i ddarparu hyfforddiant iaith Gymraeg i staff, gyda'r bwriad o barhau â chynllun hyfforddi ar gyfer dechreuwyr newydd a hyfforddiant gloywi ar gyfer aelodau staff presennol. Mae siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu yn galluogi ein staff i gyfathrebu negeseuon diogelwch allweddol, mynychu digwyddiadau cymunedol, derbyn galwadau brys ac ymateb yn effeithiol i argyfyngau.

- Mae'r holl staff yn cyrchu ac yn cwblhau e-ddysgu gorfodol Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i gyflwyno (ac adnewyddu) gwybodaeth sylfaenol. Yn ogystal, mae'r holl staff wedi datblygu hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant pwrpasol ar gyfer pob adran i ddarparu arfer gorau wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol. Cyflwynwyd yr hyfforddiant hwn i Weithwyr Cymorth Diogelwch yn y Cartref yn ardal y Dwyrain ym mis Chwefror 2023 ynghyd â staff o'n tîm lleihau tanau bwriadol. Mae'r hyfforddiant hwn yn ymdrin â phob math o wahaniaethu, aflonyddu a chamdrin gydag astudiaethau achos penodol yn ymwneud â diogelwch yn y cartref sy'n ystyried croestoriad. Bydd yr hyfforddi hwn yn dechrau drwy gydol 2023-24.



- Er mwyn datblygu ymhellach ein dealltwriaeth o anghenion penodol dioddefwyr trais domestig gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, mae GTAGC yn gweithio i ailddilysu ein hachrediad Rhuban Gwyn. Mae gwaith cychwynnol wedi'i wneud yn ystod y misoedd diwethaf i ailgysylltu â phartneriaid perthnasol ar gefn y Pandemig Covid-19. Bydd gweithio mewn partneriaeth â grwpiau cymorth lleol ac elusennau yn galluogi ein gwasanaeth i roi gwell cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig y byddwn yn dod i gysylltiad â nhw.

- Rhoddir yr annibyniaeth i reolwyr partneriaeth fod yn arloesol gyda'u hatebion i weithgarwch atal. Roedd un prosiect peilot yn ymwneud â gosod dyfeisiau synhwyro tân newydd yng ngheginau 17 o bobl 'mewn perygl', a oedd yn digwydd bod yn breswylwyr hŷn yn byw mewn gwahanol adeiladau uchel yn Sir y Fflint. Canfu o'r data a gasglwyd o'r dyfeisiau fod 18 o danau cegin posibl wedi'u hosgoi oherwydd bod y dyfeisiau wedi diffodd y popty pan ddangosodd y synwyryddion fod person wedi gadael coginio yn anfwriadol am gyfnod o amser, bod y popty yn rhy boeth neu pan oedd bwyd/olew yn llosgi. Mae'r gweithgaredd atal creadigol hwn yn achub bywydau ein pobl sydd fwyaf 'mewn perygl'. Mae cynlluniau i ehangu'r cynllun peilot i fwy o breswylwyr wedi'u cynllunio ar gyfer 2023-24.

- Yn y bôn, mae GTAGC yn ôl i lefelau a dulliau ymgysylltu cyn y pandemig e.e. wyneb yn wyneb. Mae hyn wedi arwain at lefel gadarnhaol o ymgysylltu â busnesau lleol.

# Blaenoriaeth 5 – Cyfranogiad a Chyfathrebu

## Amcan Cydraddoldeb 6



Trwy fod yn agored ac yn atebol am yr hyn rydym yn ei wneud a beth yw ein cynlluniau, annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y broses o benderfynu ar y ffordd y caiff gwasanaethau tân ac achub eu darparu yng Ngogledd Cymru, a cheisio cynyddu'r amrywiaeth o leisiau cynrychioliadol sy'n cyfrannu at y broses honno.

### Gan weithio i gyflawni'r amcan hwn, mae'r Awdurdod wedi:

- Mae staff GTAGC wedi cymryd rhan weithredol yn Rhwydwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru a Grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Cymru Gyfan sy'n cyfarfod bob yn ail fis a chwarterol yn y drefn honno. Mae'r fforymau hyn yn helpu i rannu arfer gorau ac adnoddau a chydweithio ar drefnu hyfforddiant, digwyddiadau a gweithgareddau cysylltiedig ag ymgysylltu eraill. Mae denu a recriwtio i'r sector cyhoeddus wedi bod yn ffocws allweddol yn ystod 2022-23.




- Mae Rheolwyr Partneriaeth GTAGC wedi bod yn weithgar iawn yn cynnal partneriaethau presennol ac yn meithrin perthnasoedd newydd i sicrhau bod y Gwasanaeth yn hyrwyddo negeseuon diogelwch allweddol i'r bobl sydd fwyaf mewn perygl yng Ngogledd Cymru. Er enghraifft, mae llawer o brosiectau newydd wedi'u sefydlu yn ystod 2022-23 gan gynnwys sesiynau 'cerdded a siarad' a ddatblygwyd ar y cyd â'r ymddiriedolaeth genedlaethol i ymgysylltu â phobl hŷn â dementia. Mae sesiynau tebyg wedi'u datblygu gyda Grŵp Parkinson's a Grŵp Cymorth Lymphedema. Mae'r ymgysylltu penodol hwn yn helpu i dargedu pobl yn y categori 'mewn perygl' ac aelodau o'u teuluoedd ehangach sy'n darparu adborth a ddefnyddiwn i werthuso a llywio ein darpariaeth gwasanaeth.






- Mae ymgysylltu penodol â chydweithwyr yn Fforwm Rhyng-ffydd Gogledd Ddwyrain Cymru wedi galluogi ein gwasanaeth i gysylltu'n fwy effeithiol â grwpiau crefyddol a dyneiddiol. Mae'r rhwydweithiau hyn wedi bod yn ddefnyddiol i gyfleu negeseuon diogelwch allweddol i bobl hŷn sy'n gynulleidfa darged ynghylch tân yn y cartref, tra'n estyn allan at bobl sy'n dathlu ac yn arsylwi crefydd yn elwa o wybodaeth diogelwch tân sy'n ymwneud â choginio, cynnau coelcerthi, llusernau, canhwyllau a llosgwyr olew.



- Mae cyflwyno rhai dathliadau a defodau crefyddol ychwanegol yn ein calendr ymgyrchoedd wedi'u cyfathrebu trwy'r wefan a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

Mae cydweithio â phartneriaid allanol wedi gwella ein cyrhaeddiad cyfryngau cymdeithasol ar draws Gogledd Cymru a thu hwnt trwy rannu, ail-bostio a hoffi postiadau.

- Mae staff o rwydwaith Pride Tân y gwasanaeth yn aelodau gweithgar o Pride Gogledd Cymru a buont yn bresennol yn eu digwyddiad pride blynyddol ym Mangor (Mehefin 2022) a nifer o gyfarfodydd rhithwir a chorfforol trwy gydol 2022-23. Mae'r ymgysylltiad hwn wedi galluogi'r gwasanaeth i gysylltu â chymunedau LGBTQ+, cyfathrebu gwybodaeth ddiogelwch allweddol a gofyn am adborth ar wahanol faterion a ffrydiau gwaith.

- Mae GTAGC wedi mynychu Grŵp Mynediad Arfon a ailddiwygiwyd ym mis Chwefror 2023. Mae'r grŵp hwn yn helpu ein gwasanaeth i gysylltu â rhwydwaith ehangach o bobl ag anabledd yng Ngwynedd a Môn i gyfleu gwybodaeth a gofyn am adborth.



- Mae staff diogelwch cymunedol hefyd wedi bod yn ymgysylltu mwy â banciau bwyd a lansiwyd ymgyrch costau byw ledled Cymru yn ystod misoedd y gaeaf gyda negeseuon rheolaidd ar gyfryngau cymdeithasol – i dargedu grwpiau agored i niwed y mae'r argyfwng costau byw presennol yn effeithio arnynt a'r rheini nas clywir yn aml yn ein cymunedau.

- Mae gwelliannau hygyrchedd wedi'u gwneud i'n gwefan i sicrhau ein bod yn cynnal y safonau gofynnol a bod aelodau'r gymuned yn canfod bod gwybodaeth yn hygyrch. Mae ein staff yn derbyn hyfforddiant hygyrchedd gwefan i sicrhau ein bod yn cynnal safonau wrth symud ymlaen.

- Mae ymgysylltu cynyddol â grwpiau lleiafrifoedd ethnig ar draws Gogledd Cymru wedi gwella ein cyrhaeddiad i rai pobl nas clywir yn aml. Mae mynd i ddigwyddiadau cymunedol a drefnir gan grwpiau lleiafrifoedd ethnig a grwpiau budd cydraddoldeb eraill yn cyfrannu at ymgysylltu a meithrin perthynas â phobl nad oes ganddynt lais yn aml iawn. Noddodd GTAGC y digwyddiadau Mis Hanes Pobl Dduon cyntaf a gynhaliwyd yn Wrecsam a Bangor ym mis Hydref 2022. Bu staff hefyd yn mynychu digwyddiadau Nadolig a digwyddiadau amlddiwylliannol ym mis Chwefror 2022. Mae'r digwyddiadau hyn yn galluogi staff i ymgysylltu â grwpiau Affricanaidd, Caribïaidd, Portiwgaleg ac amrywiol grwpiau lleiafrifoedd ethnig eraill a fynychodd.

- Yn ystod 2022-23, diweddarwyd templed Cydraddoldeb, Asesiad Effaith (EqIA) y gwasanaethau i gynnwys dyletswydd economaidd-gymdeithasol, y Gymraeg, daearyddiaeth, adran i amlygu unrhyw effaith bosibl yn erbyn staff ar-alwad a grwpiau budd cydraddoldeb 'eraill'. Mae'r templed newydd hwn yn defnyddio matrics sgôr sy'n asesu'r 'tebygrwydd' a'r 'effaith' posibl felly mae mesur clir o'r risg sy'n galluogi lliniaru i ddigwydd. Mae staff ar draws gwahanol adrannau wedi cwblhau hyfforddiant EqIA. Bydd yr hyfforddiant hwn yn parhau i gael ei gyflwyno i staff drwy gydol 2023-24.

In accordance with the requirements of the Equality Act 2010, our annual Gender Pay Gap report and employment information in respect of employees and applicants between 1st April 2022 and 31st March 2023 have been published on our website.

**I hyrwyddo cyfle cyfartal a hygyrchedd, cysylltwch â'n Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, os oes angen yr adroddiad hwn arnoch mewn print bras, iaith wahanol neu fformat arall.**

# Crynodeb Gwybodaeth Perfformiad

Cyflwynodd Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2015 dri dangosydd perfformiad statudol sy'n cyd-fynd â dangosyddion sector a gasglwyd yn lleol.

| DANGOSYDDION STATUDOL: | Blwyddyn 1 ein Cynllun 2021-22 | | Blwyddyn 2 ein Cynllun 2022-23 | | Blwyddyn 3 ein Cynllun 2023-24 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhif | Cyfradd | Rhif | Cyfradd | Rhif | Cyfradd |
| Tanau yr aethpwyd atynt | 1,879 | 26.71 | 2,011 | 29.27 | | |
| Galwadau diangen yr aethpwyd atynt | 2,517 | 35.79 | 2,674 | 38.92 | | |
| Gwrthdrawiadau ar y ffyrdd | 207 | 2.94 | 234 | 3.41 | | |
| Digwyddiadau brys eraill yr aethpwyd atynt | 751 | 10.68 | 977 | 14.22 | | |
| Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar 10,000 o'r boblogaeth | | | | | | |
| Marwolaethau ac anafiadau tân | 58 | 8.25 | 40 | 5.82 | | |
| Marwolaethau ac anafiadau yn sgil tanau a ddechreuwyd yn ddamweiniol | 50 | 7.11 | 35 | 5.09 | | |
| Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar 100,000 o'r boblogaeth | | | | | | |
| Tanau cartref wedi'u cyfyngu i'r ystafell wreiddiol | 375 | 87.62% | 330 | 86.84% | | |
| Fel canran o'r nifer o danau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt | | | | | | |

Cyflwynwyd dangosyddion sector ar gyfer 2015 a chytunwyd i gael eu casglu a'u rhannu gan y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru.

| **DANGOSYDDION SECTOR:** | **Blwyddyn 1 ein Cynllun 2020-21** | | **Blwyddyn 2 ein Cynllun 2021-22** | | **Blwyddyn 3 ein Cynllun 2022-23** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Rhif** | **Cyfradd** | **Rhif** | **Cyfradd** | **Rhif** | **Cyfradd** |
| Tanau bwriadol | 472 | 6.71 | 519 | 7.55 | | |
| Tân damweiniol (neu ddim yn hysbys) | 1,408 | 20.02 | 1,492 | 21.71 | | |
| Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar 10,000 o'r boblogaeth | | | | | | |
| Marwolaethau yn gysylltiedig â thân | 7 | 1.00 | 0 | 0.00 | | |
| Anafiadau wedi'u hachosi gan dân | 51 | 7.25 | 40 | 5.82 | | |
| Marwolaethau cysylltiedig â thân mewn cartrefi | 5 | 0.71 | 0 | 0.00 | | |
| tanau damweiniol | 0 | 0 | 0 | 0.00 | | |
| Marwolaethau yn gysylltiedig â thân mewn cartref | 39 | 5.54 | 26 | 3.78 | | |
| tanau bwriadol | 5 | 0.71 | 3 | 0.44 | | |
| Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar 100,000 o'r boblogaeth | | | | | | |
| Tanau cartref | 429 | 13.02 | 380 | 11.49 | | |
| Tanau damweiniol yn y cartref | 400 | 12.14 | 344 | 10.40 | | |
| Tân bwriadol mewn cartrefi | 29 | 0.88 | 36 | 1.09 | | |
| Galwadau diangen LTAau mewn cartrefi | 1,100 | 33.40 | 1,165 | 35.23 | | |
| Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar 10,000 o cartrefi | | | | | | |
| Tanau mewn adeiladau annomestig | 156 | 4.74 | 158 | 4.70 | | |
| Galwadau diangen LTAau mewn eiddo annomestig | 295 | 8.95 | 365 | 10.86 | | |
| Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar 1,000 o adeiladau annomestig | | | | | | |
| Tanau mewn cartrefi lle nad oedd larwm mwg wedi'i osod | 58 | 13.52% | 50 | 13.16% | | |
| Fel canran o'r nifer o danau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt | | | | | | |



# Siarter Ymateb i Danau Mewn Cartrefi yn 2022-23

Yn ystod 2012, datblygodd y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru Siarter Cymru gyfan ar y cyd i sicrhau, lle bynnag y mae pobl yn byw yng Nghymru, y gallant ddisgwyl cael cymorth a chefnogaeth i aros yn ddiogel rhag tân yn eu cartrefi. Dylent hefyd allu disgwyl, os bydd tân yn cynnau, y byddant yn cael ymateb brys prydlon, effeithiol a phroffesiynol i'w galwad am gymorth.

Mae'r Siarter yn gwneud saith ymrwymiad penodol y bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn:

1. Cymryd yr awenau wrth leihau nifer y tanau mewn cartrefi sy'n digwydd a lleihau eu heffaith ar bobl.
2. Ymateb yn gyflym ac yn effeithlon bob tro y byddwn yn derbyn galwad brys 999 i fynychu tân mewn cartref.
3. Mynychu tanau mewn cartrefi yn gyflym a chyda'r offer priodol i ddelio â nhw.
4. Delio â thanau cartref yn effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol.
5. Helpu i adfer normalrwydd i gymunedau yn sgil tanau mewn cartrefi.
6. Ymchwilio i achosion tanau mewn cartrefi a dal y bobl berthnasol i gyfrif pan fo'n briodol gwneud hynny.
7. Ymdrechu i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.

Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi gwybodaeth am ein cydymffurfiaeth â'r ymrwymiadau hyn yn ystod 2022-23.

Er cysondeb, rydym yn defnyddio naratif safonol ar gyfer adrodd yn erbyn y Siarter bob blwyddyn, a dim ond yn diweddaru'r ffigurau o fewn y fframwaith naratif.

## 1. Byddwn yn arwain y gwaith o leihau nifer y tanau sy'n digwydd mewn cartrefi a lleihau eu heffaith ar bobl.



Rydym wedi ymrwymo i arwain y gwaith o gynnal gostyngiad yn nifer yr achosion o danau mewn cartrefi a'r anafusion cysylltiedig yng Nghymru.

Yn 2022-23 rhoesom gyngor ac anogaeth i bobl ar sut y gallant atal tanau rhag cychwyn yn eu cartref a sut y gallant gadw eu hunain yn ddiogel rhag tân. Roedd ein gweithgarwch atal yn cynnwys cyflwyno 18,052 o Archwiliadau Diogel ac Iach i ddeiliaid tai, a chafodd 18,001 o blant a phobl ifanc yng nghyfnodau allweddol 1 - 4 sgwrs diogelwch tân.

Yn ystod 2022-23 aethom i 344 o danau damweiniol mewn cartrefi. O ganlyniad i'r tanau hynny, ni chofnodwyd unrhyw farwolaethau, ond cafodd 28 o bobl anafiadau difrifol. Mae nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi yn ardal yr ATA wedi tueddu i fyny gyda 399 o danau damweiniol wedi eu mynychu yn ystod 2021-22.

Yn anffodus, mae nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi yn ardal yr ATA dros y pum mlynedd diwethaf wedi tueddu i fyny.

## 2.Byddwn yn ymateb yn gyflym ac yn effeithlon bob tro y byddwn yn derbyn galwad 999 frys i fynd i dân mewn cartrefi.

Rydym wedi ymrwymo i ymateb yn gyflym ac effeithlon pan fydd y gweithredwr yn rhoi galwadau 999/112 brys i ni.

Mae ein hystafell reoli tân brys yn parhau i fod ar gael bob awr o'r dydd a'r nos bob dydd o'r flwyddyn, gyda threfniadau arbennig ar waith ar gyfer trosglwyddo galwadau'n ddi-dor o un ystafell reoli i'r llall os bydd aflonyddwch difrifol neu ymchwydd yn nifer y galwadau sy'n dod i mewn ar yr un amser.



Mae systemau mapio ac electronig soffistigedig yn ein helpu i: a) nodi lleoliad y digwyddiad a adroddir a b) anfon yr adnodd mwyaf priodol sydd ar gael i fynychu'r digwyddiad.

Yn 2022-23, gwnaethom ddelio â chyfanswm o 13,224 o alwadau 999/112 brys. Roeddem yn gallu cael digon o wybodaeth am achosion o danau mewn cartrefi i rybuddio'r ymateb cychwynnol priodol o fewn 90 eiliad ar 86.1% o achlysuron a rhwng 91 a 120 eiliad ar 7.8% o achlysuron.

Fodd bynnag, gwyddom nad cyflymder trin galwadau - er yn bwysig – yw'r unig ffon fesur berthnasol. Mae gwybod ble mae angen ein gwasanaethau yn gofyn am sgiliau arbenigol i gael gwybodaeth yn effeithiol gan alwyr a all, er enghraifft, fod yn anghyfarwydd â'r ardal y maent ynddi, yn ofnus neu mewn trallod, yn ifanc iawn, neu ag anawsterau cyfathrebu neu iaith.

Sgil bwysig arall yw cydnabod pan fo galwr yn cam-drin y system 999/112 drwy honni ar gam fod yna argyfwng pan nad oes, mewn gwirionedd. Mae'n drosedd gwneud galwadau diangen i'r gwasanaethau brys yn fwriadol. Yn anffodus, nid yw'n ymddangos bod hynny'n atal lleiafrif o bobl sy'n clymu'r llinellau 999 ac yn dargyfeirio gwasanaethau i ffwrdd oddi wrth bobl a allai fod mewn sefyllfa wirioneddol sy'n peryglu bywyd. Bob tro y byddwn yn mynd allan at un o'r galwadau diangen maleisus hyn, mae'n gwastraffu amser ac arian, ac yn peri mwy o berygl i weddill y gymuned.

Yn 2022-23, cawsom 114 o alwadau diangen maleisus. Mewn 54% o achosion, roeddem yn gallu cadarnhau nad oedd y galwadau hyn yn ddilys ac felly osgoi defnyddio adnoddau yn ddiangen i'w mynychu.

## 3.Byddwn yn mynychu tanau mewn cartrefi yn gyflym a chyda'r offer priodol i ddelio â hwy.



Unwaith y byddwn wedi ateb y galwad brys 999/112 a dosbarthu'r adnoddau mwyaf priodol i wneud iawn am y presenoldeb cychwynnol yn y digwyddiad, ein blaenoriaeth nesaf yw cyrraedd y digwyddiad yn gyflym, yn ddiogel ac yn meddu ar y cyfarpar priodol i ddelio ag ef.

Yn 2022-23 rydym wedi ymateb i 10% o danau mewn cartrefi o fewn 1-5 munud, 53% o fewn 5-10 munud, 20% o fewn 10-15 munud ac 17% mewn mwy na 15 munud. Mae'r amseroedd hyn yn cynnwys yr amser y mae'n ei gymryd i bersonél cyrraedd yr orsaf dân yn ogystal â'r amser teithio. O ganlyniad, gall nifer o bethau effeithio ar y ffigurau cyflymder ymateb, gan gynnwys daearyddiaeth drefol/gwledig a natur rhwydweithiau ffyrdd yn yr ardal.

Mae cyflymder yr ymateb i danau mewn cartref yn hynod bwysig, ond ni allwn orbwysleisio pwysigrwydd atal y tanau hynny rhag digwydd yn y lle cyntaf, ac o gael o leiaf un larwm mwg gweithredol wedi'i osod a llwybr dianc wedi'i gynllunio ymlaen llaw rhag ofn y bydd tân yn digwydd. Fodd bynnag, os bydd tân mewn cartref wedi digwydd, rydym yn sicrhau bod ein criwiau diffodd tân mewn sefyllfa briodol i ddelio ag ef.

Rydym yn arfogi ein diffoddwyr tân gydag offer amddiffynnol personol ac offer diffodd tân o ansawdd uchel. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn heini ac yn iach yn weithredol ac rydym yn sicrhau bod eu sgiliau'n cael eu profi a'u hymarfer yn rheolaidd. Rydym hefyd yn gwirio fel mater o drefn bod y ffordd yr ymdriniodd ein criwiau â digwyddiadau yn unol â gweithdrefnau diffodd tân derbyniol.

Rydym yn cymryd diogelwch ein diffoddwyr tân o ddifrif, o ystyried natur y gwaith y maent yn ei wneud. Yn 2022-23, mynychodd ein criwiau 2,011 o danau mewn amrywiaeth o wahanol fathau o adeiladau ac mewn lleoliadau awyr agored. Wrth ddiffodd y tanau hynny, cafodd wyth aelod o staff gweithredol anaf.



## 4.Byddwn yn delio â thanau mewn cartrefi yn effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol.

Rydym wedi ymrwymo i ddelio â thanau'n effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol. I'r perwyl hwn, rydym yn arfogi ein criwiau tân tra hyfforddedig â'r sgiliau cywir, y wybodaeth, yr offer diffodd tân a'r cymorth gorchymyn fel y byddant, beth bynnag fo amgylchiadau'r tân mewn cartref, wedi'u paratoi'n gywir i ddelio ag ef.

Yn 2022-23, o'r holl danau mewn cartrefi a aethpwyd atynt, roedd 87% wedi'u cyfyngu yn llwyddiannus i'r ystafell wreiddiol, heb ledaenu ymhellach. Er y gallai nifer o ffactorau gyfrannu at yr ystadegyn hwn a fyddai y tu allan i reolaeth y criwiau oedd yn mynychu, megis faint o amser y byddai'n ei gymryd i rywun ddarganfod y tân yn y lle cyntaf, a oedd drysau mewnol wedi'u cau ai peidio i helpu i atal y tân rhag lledaenu, a pha mor bell i ffwrdd o orsaf dân y lleolwyd y cartref, rydym yn dal i ystyried hyn yn ddangosydd rhesymol o'n llwyddiant diffodd tân.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ymchwil a gwelliannau i offer, ac yn sicrhau ein bod yn buddsoddi amser ac ymdrech i gadw mewn cysylltiad â'r datblygiadau diweddaraf.

Rydym hefyd yn cymryd o ddifrif ddelwedd broffesiynol y gwasanaeth tân ac achub. Rydym yn rhoi pwyslais mawr ar rinweddau a phriodoleddau personol ein holl staff gweithredol, yn ogystal â'u ffitrwydd corfforol a seicolegol a safon uchel eu hyfforddi gweithredol a rheoli.

Rydym yn annog ein holl staff i gadw at set o werthoedd craidd a fabwysiadwyd yn genedlaethol gan Wasanaeth Tân ac Achub y DU. Mae hyn yn mynegi ein hymrwymiad i werthfawrogi gwasanaeth i'r gymuned, pobl, amrywiaeth a gwelliant.



## 5. Byddwn yn helpu i adfer normalrwydd i gymunedau yn sgil tanau mewn cartrefi.

Rydym wedi ymrwymo i helpu i adfer normalrwydd i gymunedau yn sgil tanau mewn cartrefi.

Mae tân yn y cartref yn gallu gwneud i bobl deimlo'n fregus iawn. Pan fydd pobl wedi colli eu heiddo, bydd angen cymorth ymarferol ac emosiynol arnynt. Pan fydd pobl wedi cael eu hanafu neu eu lladd yn y tân, gall y profiad effeithio ar gymunedau cyfan yn ogystal â'r unigolyn a'i ffrindiau a'i deulu agos. Am y rheswm hwn, nid yw rôl y gwasanaeth tân ac achub wrth gefnogi cymunedau yn dod i ben pan gafodd y tân ei ddiffodd a phan gyfrifwyd am bawb.

Ym mhob achos, bydd achos y tân yn cael ei ymchwilio a'i gofnodi'n ofalus. Bydd pob manylyn ynghylch sut a ble y cychwynnodd y tân, i ba raddau y lledaenodd, unrhyw amgylchiadau arbennig, ac unrhyw ffactorau penodol a gyfrannodd at y tân yn cael eu cofnodi fel ffynhonnell dysgu, ymchwil a monitro yn y dyfodol.

Os oes rhesymau i gredu bod tân wedi'i gynnau'n fwriadol mewn cartref, naill ai gan rywun sy'n byw yno neu gan rywun arall, bydd yr heddlu ac asiantaethau perthnasol eraill yn mynd ar drywydd hyn.

Mewn rhai adeiladau, megis blociau o fflatiau neu dai a feddiannwyd gan nifer o wahanol denantiaid, gallai'r ymchwiliadau ôl-digwyddiad ddangos bod landlord wedi methu â sicrhau'r lefel angenrheidiol o ddiogelwch tân. Yna gallai ein hymchwilwyr tân arbenigol fod yn rhan o ymchwiliad troseddol ac achos llys.

Os canfyddir bod tân wedi dechrau'n ddamweiniol, efallai y byddwn yn ymgymryd â rhyw fath o weithgaredd diogelwch cymunedol neu ymgyrch yn y cyffiniau, gan gynnig cyngor a sicrwydd trwy Archwiliadau Diogel ac Iach am ddim.



## 6. Byddwn yn ymchwilio i achosion tanau mewn cartrefi ac yn dal y bobl berthnasol i gyfrif pan fo'n briodol i wneud hynny.

Rydym bob amser yn ymchwilio i achosion tanau mewn cartrefi. Mewn llawer o achosion, bydd achos a tharddiad tân yn glir ac yn syml iawn, ond mewn eraill bydd angen ymchwiliad mwy manwl a fforensig i ganfod achos mwyaf tebygol y tân. Yn 2022-23, cofnodwyd bod achos anhysbys i 18 o danau mewn cartrefi.

Os amheuir trosedd, bydd ymchwiliad y tân yn cael ei gynnal gyda'r heddlu. Mae'n debygol y bydd pobl sy'n cael eu hamau o gynnau tân mewn cartref yn fwriadol yn wynebu erlyniad troseddol, er, mewn rhai achosion, efallai nad dyma'r unig gamau gweithredu sydd ar gael, er enghraifft os cafodd y tân ei gychwyn gan blentyn ifanc neu gan berson sy'n ceisio lladd ei hun.

Yn 2022-23, aethom i 380 o danau mewn cartrefi, a chanfuwyd bod 36 ohonynt wedi'u dechrau'n fwriadol.

Mewn rhai adeiladau preswyl, megis fflatiau a thai amlfeddiannaeth, mae'r ardaloedd cymunedol a rennir yn dod o dan reoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i bwy bynnag sy'n gyfrifol am y fangre honno (fel y landlord neu'r rheolwr safle) fod â threfniadau diogelwch tân da ar waith.

Gall methu â gwneud hynny arwain at gau'r safle ac erlyn y person cyfrifol gyda'r posibilrwydd o garchar a/neu ddirwy ddiderfyn.

Fel awdurdod gorfodi, rydym yn sicrhau bod personau cyfrifol yn cyflawni eu rhwymedigaethau o dan y ddeddfwriaeth hon, ac yn gallu dewis o blith ystod o opsiynau gorfodi sydd ar gael i ni, yn dibynnu ar ddifrifoldeb a risg y drosedd.

Yn 2022-23, fe wnaethom gyflwyno un Hysbysiad Gorfodi ac un Hysbysiad Gwahardd. Ni ddaeth unrhyw Rybuddion Ffurfiol nac erlyniadau i ben yn ystod y flwyddyn.

## 7. Byddwn yn ymdrechu i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.

Rydym yn ymdrechu'n barhaus i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.

O dan ddeddfwriaeth, mae Awdurdodau Tân ac Achub yn cael eu hystyried yn 'Awdurdodau Gwella Cymreig' a disgwylir iddynt adolygu a gwella eu perfformiad eu hunain yn rheolaidd trwy broses ffurfiol o osod, gweithredu ac adrodd yn erbyn amcanion gwella blynyddol.

Nid ydym yn cyfyngu ein gweithgarwch gwella i'r broses flynyddol ffurfiol hon; mae safonau uchel a gwelliant parhaus yn rhan annatod o'n gwaith beunyddiol o redeg y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Mae enghreifftiau o weithgareddau gwella sy'n digwydd yn cynnwys:

- Ymateb yn gadarnhaol i adolygiadau cymheiriaid, archwiliadau ac arolygiadau;
- Ymateb yn gadarnhaol i ymatebion i'r ymgynghoriad, adborth gan randdeiliaid, cwynion a chanmoliaeth;
- Dysgu o'n profiadau, megis o sesiynau briffio ôl-digwyddiad, adroddiadau ar ddamweiniau, neu 'Damweiniau agos';
- Cyfrannu at weithgorau, rhannu arfer da, a dysgu o ymchwil a wnaed;
- Cymryd cyfleoedd i ddysgu gan, a chyda sefydliadau eraill drwy bartneriaethau, pwyllgorau, byrddau a chymdeithasau proffesiynol;
- Cynllunio ar gyfer heriau posibl er mwyn cynnal ein gweithrediadau, megis trwy brosesau rheoli parhad busnes;
- Cynllunio ar gyfer heriau posibl i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol, megis drwy fforymau cydnerthedd lleol;
- Datblygu sgiliau technegol a phroffesiynol ein staff yn barhaus;
- Cynnal ac adnewyddu ein hasedau ffisegol a chyfrifiadurol fel ein cyfarpar, cerbydau, adeiladau a thechnoleg



# Beth Mae Eraill yn ei Ddweud Amdanom ni

### Archwilio Cymru – Lleihau Galwadau Diangen

Mae'r Awdurdod wedi lleihau nifer y galwadau tân annomestig diangen y mae'n ymateb iddynt yn sylweddol, ond mae angen iddo fynd i'r afael â risgiau ariannol a phroblemau capasiti i sicrhau bod ei ddull seiliedig ar risg yn gynaliadwy. Rydym wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd:

- Mae'r Awdurdod yn dangos dealltwriaeth dda o'r lleoliadau, achosion ac effeithiau larymau tân mewn safleoedd annomestig;
- Mae gan yr Awdurdod bolisi wedi'i wreiddio'n dda i fynd i'r afael â galwadau tân diangen mewn adeiladau annomestig, ac mae wedi diwygio ei ddull o adlewyrchu risgiau sy'n esblygu.
- Mae'r Awdurdod yn monitro ymatebion i larymau tân awtomatig yn agos ac yn gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â safleoedd problemus.

Mae polisi'r Awdurdod wedi arwain at ostyngiad dramatig yn nifer y galwadau tân diangen y mae'n ymateb iddynt. Fodd bynnag, mae'r niferoedd wedi cynyddu'n raddol ers 2015-16 ac mae angen i Aelodau graffu ar berfformiad yn y dyfodol yn wyneb pwysau ariannol heriol.

### Adroddiad Lleihau Allyriadau Carbon – Archwilio Cymru

Daeth adroddiad 2020-21 i'r casgliad ei bod yn annhebygol y bydd yr Awdurdod yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol ac yn dod yn sero carbon net erbyn 2030 oni bai bod newid sylweddol mewn perfformiad. Roedd y casgliad hwn yn seiliedig ar ddau ganlyniad allweddol: Nid oes gan yr Awdurdod gwaelodlin gywir ar ei holl allyriadau carbon, ac nid oes ganddo gynllun cynhwysfawr i leihau ei allyriadau carbon a dod yn sero carbon net.

### Archwilio Cymru – Adolygiad o Gyfranogiad 2019-20

Roedd adroddiad 2019-20 gan Archwilio Cymru yn canolbwyntio ar ddull a rheolaeth yr Awdurdod o gynnwys rhanddeiliaid wrth gynnig newidiadau i wasanaethau a pholisi, ac wrth ddylunio gweithgareddau. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod gan yr Awdurdod bocedi o weithgarwch ymgysylltu da ond nid yw wedi symud eto i ddull strategol integredig o ymglymiad.

### Archwilio Cymru - Cydnerthedd Corfforaethol 2020-21

Mae'r adroddiad diweddaraf gan Archwilio Cymru wedi adolygu dull yr Awdurdod o gydnerthedd corfforaethol er mwyn rhoi sicrwydd ar ba mor dda y mae'n mynd i'r afael â'r heriau ariannol a chapasiti sy'n wynebu cyrff cyhoeddus. Canfu'r adroddiad fod yr Awdurdod wedi dangos ei wytnwch tymor byr, ond bod angen iddo wneud rhai penderfyniadau mawr i barhau'n wydn yn y dyfodol:

- Cyllid Mae'r Awdurdod wedi rheoli cyllidebau yn dda, ond mae angen mynd i'r afael â rhai risgiau allweddol i barhau i fod yn gynaliadwy yn ariannol;

- Llywodraethu: Mae gan yr Awdurdod fframwaith llywodraethu priodol, ond mae angen i Aelodau chwarae rhan fwy canolog wrth fynd i'r afael â'r risgiau mawr sy'n wynebu'r Gwasanaeth Tân ac Achub;
- Gweithlu: Mae gan yr Awdurdod weithlu gwydn ac mae wedi delio'n dda â heriau uniongyrchol, ond mae rhai risgiau tymor canolig y mae angen eu rheoli i sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy;
- Asedau: Mae gan yr Awdurdod enghreifftiau da o sut y mae'n integreiddio asedau ac yn datblygu ei ddefnydd o dechnoleg, ond mae rhai heriau hirsefydlog y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn helpu i gefnogi gwydnwch yn y dyfodol; a
- Parhad busnes: Mae cynlluniau parhad busnes yr Awdurdod wedi helpu i gynnal gwytnwch corfforaethol a gweithredol wrth ymateb i'r pandemig.

# Gwybodaeth Arall

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 yn egluro dyletswyddau a phwerau'r Awdurdod i:

- Hyrwyddo diogelwch tân
- Diffodd tanau
- Amddiffyn pobl ac eiddo rhag tanau
- Achub pobl rhag damweiniau ar y ffyrdd
- Ymateb i risgiau penodedig eraill, megis digwyddiadau cemegol
- Ymateb i argyfyngau ar raddfa fawr megis ymosodiadau terfysgol.

Mae **Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) 2007 a Gorchymyn (Diwygio) 2017** yn gosod dyletswyddau ar yr Awdurdod mewn cysylltiad ag argyfyngau sy'n cynnwys halogyddion cemegol, biolegol neu ymbelydrol; cwymp strwythurol; trenau, tramiau neu awyrennau; ac argyfyngau llifogydd a dŵr mewndirol pan fyddant yn peri risg o farwolaeth, anaf difrifol neu salwch.

Mae **Deddf Argyfyngau Sifil 2004** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gynllunio ar gyfer ac ymateb i argyfyngau ar raddfa fawr sy'n bygwth niwed difrifol i les pobl, yr amgylchedd neu i ddiogelwch.

Mae **Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod orfodi diogelwch tân mewn adeiladau annomestig gan gynnwys rhannau cymunedol blociau o fflatiau a thai amlfeddiannaeth.

O dan y **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009** rhaid i'r Awdurdod osod amcanion i wella'r hyn y mae'n ei wneud yn barhaus a chyhoeddi gwybodaeth am ei welliant a'i berfformiad.

Mae'r **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod weithio tuag at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol cenedlaethau'r dyfodol o bobl yng Nghymru, yn unigol ac fel aelod statudol o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru.

Mae'r **Ddeddf Cydraddoldeb 2010** yn rhoi dyletswydd ar yr Awdurdod i roi sylw dyledus i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac dioddefiaeth, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol.

Mae **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** yn disodli Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Fel rhan o'r ddeddfwriaeth newydd yng Nghymru, mae gan y Gymraeg statws cyfreithiol cyfartal â'r Saesneg ac ni ddylid ei thrin yn llai ffafriol. Nid oes angen i gyrff cyhoeddus ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg mwyach a rhaid iddynt gydymffurfio â set o Safonau'r Iaith Gymraeg cenedlaethol yn lle hynny.

Cyflwynwyd **Deddf Diogelu Data'r Deyrnas Unedig 2018** i foderneiddio cyfreithiau diogelu data a diwallu anghenion economi a chymdeithas gynyddol ddigidol. Mae'n darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer diogelu data, yn gweithredu safonau GDPR ar draws yr holl brosesu data cyffredinol ac yn sicrhau bod y DU yn parhau i fod â deddfwriaeth diogelu data priodol ar waith ar ôl iddi adael yr UE.

**Llywodraeth Cymru – Pobl a Chymunedau**

http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/fire/?lang=en

**Archwilio Cymru**

Mae Archwilio Cymru yn cyhoeddi adroddiadau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol y mae'n ofynnol iddo asesu'r tebygolrwydd y bydd yr Awdurdod yn parhau i wella ac a yw'r Awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau ac yn gweithredu'n unol â chanllawiau cyhoeddedig perthnasol. Mae'r archwilwyr hefyd yn gweithio gydag Awdurdodau Tân ac Achub ledled Cymru i gyflwyno rhaglen o archwiliadau ariannol a gwerth am arian.

**Trwydded i Atgynhyrchu Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus**

Atgynhyrchir deunydd hawlfraint y Goron yn y ddogfen hon o dan Rhif Drwydded C2010002320.

Ffynonellau gwybodaeth allanol a ddefnyddiwyd wrth lunio'r ddogfen hon Ystadegau Digwyddiadau Tân ac Achub Cymru: Digwyddiadau tân (llyw.cymru) Ystadegau Digwyddiadau Tân ac Achub Lloegr:

Tablau data ystadegau tân - GOV.UK (www.gov.uk) Adroddiad Tueddiadau Dyfodol Llywodraeth Cymru 2017:

https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/170505-future-trends- report-2017-en.pdf

## YMYRRAETH OS BYDD METHIANT NEU FETHIANT POSIBL I GYDYMFFURFIO:

Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau ymyrraeth:

- o dan adran 22 o'r **Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004** os yw'n ystyried bod Awdurdod Tân ac Achub yn methu, neu'n debygol o fethu, gweithredu yn unol â'r Fframwaith Cenedlaethol. Mewn achosion o'r fath, byddai adran 23 - Protocol Ymyrraeth yn berthnasol.
- o dan adran 29 o **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009** os yw'n ystyried bod Awdurdod Tân ac Achub yn methu, neu mewn perygl o fethu, i gydymffurfio â'r Mesur. Fodd bynnag, ym mhob un ond yr amgylchiadau mwyaf eithriadol, ni chaiff Gweinidogion Cymru ymyrryd ar ôl iddynt gynnig cymorth gwirfoddol i'r Awdurdod o dan adran 28 o'r Mesur.

# Ymgynghoriadau

Bob blwyddyn mae'r Awdurdod yn ceisio barn a safbwyntiau cyhoedd Gogledd Cymru a rhanddeiliaid eraill fel rhan o'i broses o ddatblygu ei gynlluniau a'i amcanion strategol.

Rhestrir ymgynghoriadau diweddar isod: Arolwg o Deuluoedd Staff 2021-22 arolwg mewnol arolwg traws-drefniadaeth ac yn bwriadu ailymweld yn hydref 2023.

| Teitl | Ymgynghori | Cyhoeddi | Am flwyddyn |
|---|---|---|---|
| Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2020-21 ymlaen (strategaeth amgylcheddol newydd) | Hydref/Gaeaf 2019 | Mawrth 2020 | 2020-21 |
| Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2019-20 ymlaen | Haf/Hydref 2018 | Mawrth 2019 | 2019-20 |
| Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2018-19 ymlaen | Hydref 2017 | Mawrth 2018 | 2018-19 |
| Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2017-18 ymlaen | Hydref 2016 | Mawrth 2017 | 2017-18 |
| Amcanion Gwella ar gyfer 2016-17 | Hydref 2015 | Mawrth 2016 | 2016-17 |
| Amcanion Gwella ar gyfer 2015-16 | Hydref 2014 | Mawrth 2015 | 2015-16 |



# Geirfa a Diffiniadau

## Tanau

Mae pob tân yn perthyn i un o dri chategori – prif danau, tanau eilaidd neu danau simnai.

## Prif Danau

Mae'r rhain yn danau nad ydynt yn danau simnai, ac sydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau a threlars, storfeydd awyr agored, planhigion a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigaeth, a strwythurau awyr agored eraill fel pontydd, blychau post, twneli, ac ati.

Mae tanau mewn unrhyw leoliad yn cael eu categoreiddio'n brif danau os oedden nhw'n cynnwys anafiadau, achub neu ddianc, yn ogystal â thanau mewn unrhyw leoliad yr aeth pump neu fwy o beiriannau tân atynt.

## Tanau Eilaidd

Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simnai nac yn brif danau. Tanau eilaidd yw'r rhai a fyddai fel arfer yn digwydd mewn lleoliadau fel tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried – yn yr un ffordd ag eiddo amaethyddol a choedwigaeth – i fod yn brif danau), dodrefn awyr agored, goleuadau traffig, ac ati.

Nid yw tanau eilaidd yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd at y digwyddiad.

## Tanau Simnai

Mae'r rhain yn danau mewn adeiladau a feddiannir lle mae'r tân wedi'i gyfyngu o fewn strwythur y simnai, hyd yn oed os yw difrod gwres neu fwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.

Nid yw tanau simnai yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd at y digwyddiad.

## Tanau yn yr awyr agored

Tân glaswelltir, coetir a chnydau lle'r aeth pedwar cerbyd neu fwy at y digwyddiad, neu lle bu'r Gwasanaeth yn bresennol am chwe awr neu fwy, neu lle amcangyfrifwyd bod ardal difrod y tân yn fwy na 10,000 metr sgwâr.

## Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig (digwyddiadau brys eraill)

Digwyddiadau heb dân yw'r rhain lle mae angen presenoldeb peiriant tân neu swyddog ac maent yn cynnwys:

- argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau ar y ffyrdd, achub personau, 'gwneud yn ddiogel' ac ati;
- trychinebau mawr;
- digwyddiadau domestig e.e. dŵr yn gollwng, pobl sydd wedi'u cloi i mewn neu allan ac ati;
- trefniadau blaenorol i fynd at ddigwyddiadau, a all gynnwys darparu cyngor ac archwiliadau.

## Marwolaethau Tân (cysylltiedig â thân)

Pan fo marwolaeth person yn cael ei phriodoli i dân hyd yn oed os digwyddodd y farwolaeth wythnosau neu fisoedd yn ddiweddarach. Mae yna achosion achlysurol hefyd lle daw'n amlwg wedi hynny nad y tân oedd achos y farwolaeth. Felly, mae'r ffigurau hyn yn destun adolygu.

## Anafiadau tân

Er mwyn sicrhau cysondeb ar ôl mis Ebrill 2009 ledled y DU, cofnodir anafiadau tân o dan bedwar categori difrifoldeb:

- Aeth y dioddefwr i'r ysbyty, ac mae'n ymddangos bod yr anafiadau'n ddifrifol.
- Aeth y dioddefwr i'r ysbyty, mae'n ymddangos bod yr anafiadau'n rhai bach.
- Rhoddwyd cymorth cyntaf i'r dioddefwr yn y fan a'r lle yn unig, ond nid oedd angen triniaeth bellach.
- Cafodd archwiliad rhagofalus ei argymell - cafodd y person ei anfon i'r ysbyty neu fe'i cynghorwyd i weld meddyg fel rhagofal, ond heb unrhyw anaf na gofid amlwg.

## Galwadau Diangen (canllawiau cyffredinol)

Lle mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd at leoliad gan gredu bod yna ddigwyddiad, ond wrth gyrraedd yn darganfod nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli, neu wedi bodoli.

Sylwer: os yw'r peiriant yn cael ei 'droi nôl' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad nid yw'n cael ei hystyried fel un ag aethpwyd ato ac nid oes angen adrodd amdano.

## Maleisus

Mae'r rhain yn alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y Gwasanaeth Tân ac Achub i fynychu digwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys amcanion bwriadol a rhai yr amheuir eu bod yn faleisus.

## Bwriad Da

Mae'r rhain yn alwadau a wneir yn ddidwyll yn y gred y byddai'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynychu digwyddiad tân neu wasanaeth arbennig.

## Larwm Tân Awtomatig (LTAau)

Mae'r rhain yn alwadau sydd wedi'u cychwyn gan larwm tân ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys offer larwm yn cychwyn yn ddamweiniol neu lle mae larwm yn canu a bod person wedyn yn galw'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn rheolaidd fel rhan o drefniant sefydlog, heb unrhyw 'feirniadaeth', er enghraifft gan ganolfan alwadau diogelwch neu berson enwebedig mewn sefydliad.

# Dweud eich dweud

Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella ein gwasanaeth ac i gyflwyno gwybodaeth sy'n ystyrlon. Er mwyn ein helpu i wneud hyn rydym am sicrhau bod eich barn yn cael ei hystyried wrth gyflawni ein gweithgareddau ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi. Felly, os oes gennych unrhyw sylwadau am yr asesiad hwn, neu sut y gallem wella ein hasesiadau perfformiad blynyddol yn y dyfodol, hoffem glywed gennych.

Mae fersiynau eraill o'r ddogfen hon ar gael

- Mewn fformatau papur ac electronig.
- Yn Gymraeg a Saesneg.
- Fel taflen gryno o'r pwyntiau allweddol.
- Mewn fformatau hygyrch trwy ein gwefan.

| | |
|---|---|
| **Ysgrifennwch atom** | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC)<br>Ffordd Salesbury<br>Parc Busnes Llanelwy<br>Sir Ddinbych<br>LL17 0JJ |
| **Ffoniwch ni** | 01745 535 250 |
| **Anfonwch e-bost atom** | Corporateplanning.helpdesk@northwalesfire.gov.wales |
| **Ewch i'n gwefan** | www.tangogleddcymru.llyw.cymru |
| **Neu dilynwch ni ar** | **Twitter:** @northwalesfire<br>**Facebook:** www.facebook.com/northwalesfireservice<br>**Instagram:** @northwalesfire |

# Ffoniwch 999 mewn argyfwng yn unig

*This document is available in English.* **Eitem Agenda 11**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **16 Hydref 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen Howard, Pennaeth Cyllid** |
| Pwnc | **Alldro Dros Dro 2023/24** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Rhoi diweddariad i'r aelodau ar y rhagolygon gwariant cyfalaf a refeniw ar gyfer 2023/24, fel yr oedd ar 31 Awst 2023.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Cafodd y gofyniad cyllideb net ei gymeradwyo gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn ei gyfarfod ar 26 Ionawr 2023. Cadarnhaodd hyn ofyniad net o £44.39m i'w ariannu gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol.

3 Rhagwelir y bydd gwariant gwirioneddol yn £45.478m sy'n cynnwys costau mewn perthynas â phrosiectau amrywiol, setliadau cyflog cenedlaethol uwchlaw'r ddarpariaeth gyllidebol, a phwysau cyffredinol oherwydd chwyddiant. Bydd y defnydd o arian wrth gefn a glustnodwyd, y gronfa gyffredinol a darpariaethau yn lliniaru'r costau ychwanegol ac ni ragwelir y bydd angen ardoll atodol.

4 Cymeradwyodd yr Awdurdod gyllideb gyfalaf 2023/24 o £6.532m ar 16 Ionawr 2023. Roedd hyn yn cynnwys £3.00m ar gyfer prynu tir yn ymwneud â'r ganolfan hyfforddi arfaethedig, sydd eto i'w gytuno. Yn ogystal, mae yna gyllid treigl o £0.625m o 2022/23. Mae'r rhaglen gyfalaf yn destun pwysau costau ac felly mae cynlluniau'n cael eu blaenoriaethu, er mwyn parhau o fewn y cyllid sydd ar gael. Rhagwelir y bydd gwariant yn £5.14m a gofyniad i dreiglo cyllid o £2.02m.

## ARGYMHELLION

5 Gofynnir i aelodau:

i) nodi'r rhagamcanion alldro cyfalaf a refeniw drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 fel y nodir yn yr adroddiad;
ii) nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â chwyddiant a materion yn y gadwyn gyflenwi;
iii) nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r trafodaethau cyflog parhaus; a
iv) cymeradwyo'r defnydd o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a rhai cyffredinol.

## SYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

6 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried gan yr aelodau o'r blaen.

## CEFNDIR

7 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am y sefyllfa alldro gwariant cyfalaf a refeniw drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.

## GWYBODAETH

## CYLLIDEB REFENIW

8 Cymeradwywyd y gyllideb net ar gyfer 2023/24 o £44.394m yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 16 Ionawr 2023. Nodwyd bod y gyllideb hon yn cynnwys mesurau a fydd yn effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaethau a'r capasiti corfforaethol.

9 Mae costau staff yn cynrychioli 72% o'r gwariant gros. Gosodwyd y gyllideb staffio o £31.826m ar gyfer 2023/24 ym mis Ionawr 2023 ac roedd yn cynnwys mesurau a gymerwyd bryd hynny i gynnwys gwariant o fewn y gyllideb a gymeradwywyd.

10 Roedd y broses o bennu'r gyllideb yn cynnwys rhagdybiaeth y byddai dyfarniadau cyflog ar gyfer 2023/24 yn 4% i'r holl staff. Ar hyn o bryd mae'r cynnig cyflog i staff llywodraeth leol yn godiad o £1,925 ar draws pob gradd sy'n cyfateb i oddeutu 6.6%. Mae hyn yn uwch na'r rhagdybiaeth gynllunio ac mae'n parhau i fod yn risg ar hyn o bryd.

11 Mae dyfarniad cyflog o 7% wedi'i dderbyn ar gyfer rolau diffoddwyr tân a diffoddwyr tân ystafell reoli o fis Gorffennaf 2022, a chytunwyd ar ddyfarniad o 5% o fis Gorffennaf 2023. Roedd y setliadau hyn yn uwch na'r rhagdybiaethau cynllunio o 5% a 4% a ddefnyddiwyd wrth osod y gyllideb.

12 Mae'r rhagolygon nad ydynt yn ymwneud â chyflogau yn adlewyrchu'r pwysau anochel hysbys o ran costau a gaiff ei brofi mewn perthynas â chostau TGCh, cynnal a chadw adeiladau a chostau tanwydd. Fodd bynnag, mae ansicrwydd pellach yn parhau oherwydd pwysau chwyddiant cyffredinol a materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi sy'n arwain at wariant uwchlaw'r gyllideb a ragwelwyd.

13 Er bod y rhan fwyaf o'r gwariant yn cael ei ariannu o'r ardoll awdurdodau cyfansoddol, derbynnir incwm gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau sy'n cael eu hariannu gan grant, yn ogystal ag ad-daliadau gan gyrff eraill mewn perthynas â'r defnydd o'n hadeiladau.

14 Mae costau cyllido cyfalaf yn cynnwys costau benthyca a chostau refeniw ar gyfer defnyddio asedau cyfalaf. Rhagwelir y bydd tanwariant yn y gyllideb hon oherwydd yr oedi wrth gwblhau prosiectau cyfalaf.

**ALLDRO REFENIW**

15 Mae'r adroddiad yn rhagweld gorwariant o £1.084m. Manylir ar y dadansoddiad isod.

| | Cyllideb (£m) | Rhagolwg (£m) | Amrywiant (£m) | Amrywiant (%) |
|---|---|---|---|---|
| Gweithwyr | 31.826 | 32.006 | 0.181 | 0.57% |
| Eiddo | 3.516 | 3.835 | 0.319 | 9.07% |
| Cludiant | 1.268 | 1.404 | 0.136 | 10.72% |
| Cyflenwadau | 5.349 | 6.233 | 0.884 | 16.53% |
| Taliadau Trydydd Parti | 0.305 | 0.323 | 0.017 | 5.69% |
| Cyllid Cyfalaf a Thaliadau | 3.129 | 2.756 | -0.373 | -11.92% |
| Incwm | -0.999 | -1.079 | -0.080 | 8.02% |
| **Rhagolwg Alldro** | **44.394** | **45.478** | **1.084** | **2.44%** |

**COSTAU GWEITHWYR**

16 Mae costau gweithwyr yn rhan sylweddol o’r gyllideb (72%) ac yn cynnwys tâl, costau pensiwn, cost recriwtio a hyfforddi a gwasanaethau gweithwyr, megis gwasanaethau iechyd galwedigaethol. Wrth gymeradwyo’r gyllideb yn derfynol ym mis Ionawr 2023, cymeradwywyd ystod o fesurau gan yr Aelodau i gynnwys gwariant staff. Nid yw'r rhain yn gylchol eu natur, ac maent yn cynnwys mesurau fel peidio â llenwi swyddi gwag a chyfyngu ar recriwtio i orsafoedd RDS.

17 Rhoddwyd strwythur staffio newydd ar waith ym mis Mehefin 2023 ac mae'r swyddi hyn yn parhau i fod yn hanfodol i gyflawni'r amcanion corfforaethol. Mae cost yr arbedion swyddi gwag wedi lliniaru'r costau uwch yn rhannol mewn perthynas â'r dyfarniadau cyflog a goramser.

18 Mae camau yn parhau i gael eu cymryd i gynyddu nifer y diffoddwyr tân dyletswydd yn ôl galw i fynd i'r afael â materion argaeledd, gan gofio cyfyngiadau'r gyllideb.

19 Fel sy'n wir gyda chyrff llywodraeth leol eraill, derbyniwyd ad-daliad untro mewn perthynas â chyfraniadau pensiwn cyflogwr, o Gronfa Bensiwn Clwyd, yn dilyn y prisiad actiwaraidd. Roedd hyn yn £0.503m ac mae wedi lliniaru’n rhannol y gorwariant gros o £0.684m.

20 Mae'r gorwariant net mewn costau staffio yn dod i £0.181m ac mae'n cynnwys y canlynol:

- costau dyfarniadau cyflog yn ystod y flwyddyn;
- goramser ychwanegol ar gyfer salwch a chynnal argaeledd;
- tâl gwyliau ychwanegol;
- swyddi dros dro i gyflawni prosiectau penodol; llai
- gostyngiadau yn deillio o swyddi gwag presennol; .
- ad-daliad a dderbyniwyd gan Gronfa Bensiwn Clwyd.

**COSTAU NAD YDYNT AR GYFLOGAU**

21 Mae'r gyllideb heb fod yn gyflog yn wynebu pwysau sylweddol. Mae'r rhain yn cynnwys costau tanwydd sy'n parhau i fod yn anrhagweladwy oherwydd materion pris a chyflenwad. Yn ogystal, mae argaeledd a chostau nwyddau eraill megis cyflenwadau adeiladu, offer TGCh a rhannau fflyd hefyd yn peri pryder o ystyried cymhlethdod cadwyni cyflenwi ac ansicrwydd byd-eang.

22 Cynhelir adolygiad o wariant nad yw'n ymwneud â chyflogau gan ddeiliaid cyllidebau i sicrhau bod y rhagamcanion yn parhau i fod yn rhesymol.

**Eiddo**

23 Rhagwelir gorwariant o £0.319m o ran costau eiddo. Mae hyn yn bennaf oherwydd cynnydd mewn perthynas â chostau gwasanaethu a chynnal a chadw.

24 Mae ffigurau'r gyllideb yn cynnwys y costau rhagarweiniol y cytunwyd arnynt mewn cyfarfod blaenorol, mewn perthynas ag arolygon safle ar gyfer prynu tir o bosibl a datblygu'r achos busnes ar gyfer canolfan hyfforddi newydd (£0.25m).

25 Mae ansefydlogrwydd y farchnad a chostau cynyddol nwy a thrydan yn her ariannol fawr i'r Awdurdod. Mae'r costau a ragwelir ar hyn o bryd o fewn y gyllideb ac mae costau'n cael eu monitro fel rhan o'r cytundeb lefel gwasanaeth gyda Heddlu Gogledd Cymru.

**Cludiant**

26 Mae'r gyllideb cludiant yn rhagweld amrywiad o £0.136m. Mae costau cynyddol mewn perthynas â thanwydd a rhannau cerbydau yn achosi pwysau ar y gyllideb hon. Mae hyn yn ymwneud â chynnydd mewn prisiau olew a thanwydd a chostau prydlesu cerbydau.

**Cyflenwadau**

27 Y gyllideb cyflenwadau net yw £5.349m a’r gorwariant a ragwelir ar hyn o bryd yw £0.884m, sy’n cynnwys mentrau yn ystod y flwyddyn a fydd yn cael eu hariannu o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

28 Mae pwysau chwyddiant sylweddol mewn nifer o feysydd busnes-gritigol ac mae camau’n cael eu cymryd i’w cyfyngu a’u lliniaru, lle bo modd.

29 Mae’r sefyllfa alldro a ragwelir yn cynnwys costau ar gyfer adnewyddu offer gweithredol hanfodol a chit tân, meddalwedd AD wedi’i ddiweddaru a gwaith prosiect mewn perthynas â’r adolygiadau amrywiol sy’n cael eu cynnal ar hyn o bryd ledled Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth), gan gynnwys yr Adolygiad o’r Ddarpariaeth Frys.

**Taliadau Trydydd Parti**

30 Mae taliadau trydydd parti yn ymwneud â chytundebau lefel gwasanaeth gyda phartneriaid, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Sir Gâr a Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r cytundebau yn cynnwys darparu gwasanaethau cyfreithiol, gwasanaethau swyddogion monitro, gweinyddu pensiynau a chyfleusterau.

31 Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd gorwariant o £0.017m yn y gwariant hwn. Mae hyn oherwydd y gwaith ychwanegol sy'n ofynnol o ran y newidiadau deddfwriaethol mewn perthynas â phensiynau diffoddwyr tân.

**ARIANNU CYFALAF**

32 Mae’r gyllideb ariannu cyfalaf yn neilltuo cyllid refeniw i ariannu gwariant cyfalaf.

33 Mae'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) yn cynrychioli'r isafswm y mae'n rhaid ei godi ar gyfrif refeniw awdurdod bob blwyddyn ar gyfer ariannu gwariant cyfalaf, a fydd wedi'i ariannu yn gyntaf drwy fenthyciadau. Mae’n rhan o holl arferion cyfrifyddu’r Awdurdod, a’i nod yw sicrhau y gall yr Awdurdod dalu’r dyledion sydd ganddo o brynu asedau cyfalaf, megis adeiladau a cherbydau.

34 Mae rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod benderfynu ar swm MRP ym mhob blwyddyn ariannol, y mae'n ystyried ei fod yn ddoeth trwy gyfeirio at ofyniad cyllido cyfalaf sydd wedi'i gyfrifo (CFR). Yr MRP ar gyfer 2023/24 yw £1.99m. Yn dilyn trafodaethau gyda Chynghorwyr y Trysorlys, mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i adolygu hyn.

35 Mae'r gyllideb hefyd yn dal y costau llog mewn perthynas â benthyciadau'r Awdurdod. Oherwydd y sefyllfa economaidd gyfnewidiol, mae cost benthyca wedi parhau i gynyddu. Fodd bynnag, ni fu angen benthyca pellach gan fod gwariant cyfalaf hyd yma wedi bod yn sylweddol arafach na'r disgwyl gan olygu y rhagwelir arbediad cyllideb o £0.173m.

36 Yn ogystal, roedd modd buddsoddi arian mewn adneuon trysorlys tymor byr. Mae'r sefyllfa arian yn cael ei adolygu bob dydd ac unrhyw arian nad yw wedi'i ddefnyddio yn cael ei drosglwyddo i gyfrifon cadw amrywiol, er mwyn ennill llog. Hyd yn hyn derbyniwyd £0.160m o log.

**INCWM**

37 Yn ogystal â'r ardoll awdurdodau cyfansoddol, mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys incwm disgwyliedig ar gyfer ffioedd, taliadau a grantiau.

38 Mae ffioedd a thaliadau yn ymwneud yn bennaf ag ailgodi tâl am adeiladau a rennir â chyrff eraill.

39 Mae incwm arall wedi cynyddu oherwydd cynnydd mewn ail-godi taliadau ar gyrff eraill ac elw o waredu cerbydau ac offer.

| | Cyllideb (£m) | Amcanestyniad (£m) | Amrywiant (£m) |
|---|---|---|---|
| Grantiau | 0.747 | 0.747 | 0.000 |
| Ffioedd a thaliadau | 0.252 | 0.332 | 0.080 |
| **Cyfanswm** | **0.999** | **1.049** | **0.080** |

**Cyllid Grant**

40 Mae cyfanswm dyraniad cyllid grant Llywodraeth Cymru 2023/24 yn £0.747m. Mae dadansoddiad manwl o'r cyllid grant, ar gyfer 2023/24, isod. Caiff pob grant ei fonitro'n ofalus drwy gydol y flwyddyn ariannol i nodi unrhyw amrywiannau ac i'n galluogi i gymryd camau adferol.

| | Dyraniad (£m) |
|---|---|
| Lleihau Tanau Bwriadol | 0.169 |
| Offer Diogelwch yn y Cartref | 0.240 |
| Ymgysylltu â Phobl Ifanc ac Ieuenctid | 0.137 |
| Cydnerthedd Cenedlaethol | 0.201 |
| **Cyfanswm Cyllid Grant** | **0.747** |

**RHAGLEN GYFALAF**

41 Cymeradwyodd yr Awdurdod raglen gyfalaf o £3.532m, ym mis Ionawr 2023. Yn ogystal, roedd dyraniad o £3.00m ar gyfer prynu tir, os yw'r ganolfan hyfforddi arfaethedig yn cael ei chymeradwyo.

42 Yn unol â'r adroddiad alldro terfynol, a gyflwynwyd i gyfarfod Gorffennaf 2023, cytunwyd ar y gofyniad am gyllid treigl ar £0.625m, ar gyfer cynlluniau na chawsant eu cwblhau yn 2022/23.

43 Oherwydd oedi parhaus, mae gwariant cyfalaf hyd yma yn £0.732m a rhagwelir y bydd yn £5.14m.

44 Fel sy'n wir gyda'r gyllideb refeniw, mae'r rhaglen gyfalaf yn profi pwysau o ran costau, gyda chostau cynyddol mewn perthynas â phrynu cerbydau a gwaith adeiladu. Mae hyn yn cael ei reoli drwy flaenoriaethu cyflawni prosiectau hanfodol.

45 Mae manylion y cynlluniau isod:

| Cynllun | Dyraniad Gwreiddiol £m | Dyraniad Diwygiedig £m | Rhagolwg £m | Arian Treigl £m |
|---|---|---|---|---|
| **2023/2024** | | | | |
| Adnewyddu Peiriannau Tân | 1.430 | 0.475 | 0.475 | 0.960 |
| Faniau amlbwrpas | 0.189 | 0.189 | 0.189 | |
| Unedau Lles | 0.150 | 0.150 | 0.150 | |
| Adfywio Gorchymyn a Rheoli | 0.600 | 0.600 | 0.000 | 0.600 |
| Man Waith Adeiladu | 0.483 | 0.100 | 0.100 | |
| Tyrau Hyfforddi | 0.250 | 0.250 | 0.000 | 0.250 |
| Fflyd - system rhwystro cwympiadau a gwaith to | 0.100 | 0.126 | 0.126 | |
| Drysau bae peiriannau | 0.180 | 0.180 | 0.168 | 0.057 |
| Uwchraddio Gwresogi Llandudno | 0.150 | 0.150 | 0.000 | 0.150 |
| Gwaith yn Nhŷ Mwg Dolgellau | 0.000 | 0.365 | 0.309 | |
| Tir canolfan hyfforddi arfaethedig | 3.000 | 3.000 | 3.000 | |
| Heb ei ddyrannu | 0.000 | 0.947 | 0.000 | |
| **Cyfanswm: Cynllun Cyfalaf** | **6.532** | **6.532** | **4.517** | **2.017** |
| **Arian Treigl 2022/23** | | | | |
| Tyrau Hyfforddi | 0.307 | 0.307 | 0.307 | |
| Faniau gorsaf amlbwrpas | 0.160 | 0.160 | 0.162 | |
| Adeiladau - Man Waith | 0.158 | 0.158 | 0.158 | |
| **Cyfanswm: Arian Treigl** | **0.625** | **0.625** | **0.627** | **0.000** |
| **Cyfanswm** | **7.157** | **7.157** | **5.144** | **2.017** |

46 Mae arian treiglo eisoes wedi'i amlygu, yn unol â'r uchod. Mae pum peiriant tân wedi'u harchebu; fodd bynnag, disgwylir i daliadau cam ymestyn i 2024/25 oherwydd oedi o ran argaeledd y siasi a slotiau adeiladu gyda'r cyflenwr.

47 Mae'r cynlluniau eraill sydd heb ddechrau eleni, i gyd yn cael eu hadolygu a byddant yn cael eu hystyried fel rhan o'r cynllunio cyfalaf ar gyfer 2024/25.

48 Nodir yr arian a ragwelir ar gyfer gwariant cyfalaf isod:

| Cyllid | Swm £m |
|---|---|
| Benthyca | 4.521 |
| Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd | 0.623 |
| **Cyfanswm** | **5.144** |

**BENTHYCA**

49 Ariennir gwariant cyfalaf yn bennaf trwy fenthyca allanol. Yn y tymor byr mae'r Awdurdod yn defnyddio arian refeniw dros ben, a elwir yn fenthyca mewnol.

50 Mae'r Awdurdod yn parhau i ddefnyddio benthyca mewnol. Mae hyn yn golygu nad yw'r benthyca cyfalaf sydd ei angen, fel y'i cyfrifwyd gan y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR), wedi'i ariannu'n llawn gyda dyled benthyciad allanol gan fod arian sy'n cefnogi cronfeydd wrth gefn, balansau a llif arian yr Awdurdod wedi'i ddefnyddio fel ateb dros dro i ariannu gwariant cyfalaf a chynhyrchu arbedion refeniw. Fodd bynnag, wrth i'r arian wrth gefn gael ei ddefnyddio, bydd angen disodli'r benthyca mewnol gyda benthyca allanol.

**DEFNYDDIO CRONFEYDD WRTH GEFN CYFFREDINOL AC WEDI'U CLUSTNODI**

51 Nod cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod yw darparu cyllid ar gyfer buddsoddi mewn gweithgareddau ar gyfer y dyfodol a bod yn rhwyd ddiogelwch rhag ofn y bydd heriau ariannol tymor byr yn deillio o ofynion gweithgarwch neu bwysau annisgwyl.

52 Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod wedi clustnodi £6.22m wrth gefn sydd wedi ei gronni yn y blynyddoedd diwethaf oherwydd llithriad mewn recriwtio a chyflawni prosiectau yn dilyn y pandemig.

53 Yn 2022/23 neilltuwyd cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi i ariannu costau a ddylai fod wedi'u hysgwyddo yn 2022/23, ond roedd problemau'n ymwneud â'r gadwyn gyflenwi yn golygu na ellid cwblhau'r rhain a bu oedi. Yn ogystal, mae cronfeydd wrth gefn wedi'u sefydlu i ariannu codiadau mewn cyfraddau llog, cynnydd mewn chwyddiant, gwelliannau i'r system a gwelliannau i wasanaethau.

54 Mae'r alldro dros dro yn rhagdybio y bydd cronfeydd wrth gefn o £0.800m yn cael eu defnyddio yn ystod y flwyddyn. Adolygir y defnydd o gronfeydd wrth gefn fel rhan o'r broses o fonitro'r gyllideb.

55 Roedd y mesurau a nodwyd yn ystod y broses gosod cyllideb yn cynnwys defnyddio Cronfa Gyffredinol yr Awdurdod. Mae'r rhagolwg presennol yn tybio y bydd £0.284m yn cael ei ddefnyddio.

**DANGOSYDDION DARBODUS – Ch1 2023/24**

56 Mae'r Awdurdod yn mesur ac yn rheoli ei wariant cyfalaf a'i fenthyca gyda chyfeiriadau at y dangosyddion canlynol. Bellach mae'n ofynnol yn ôl Cod Darbodus CIPFA bod y rhain yn cael eu hadrodd bob chwarter.

**Gwariant Cyfalaf**

57 Mae'r Awdurdod wedi ymgymryd â gwariant cyfalaf ac mae'n cynllunio gwariant cyfalaf fel y nodir isod:

| | **2022/23 gwirioneddol £m** | **2023/24 amcangyfrif £m** | **Cyllideb 2024/25 £m** | **2025/26 cyllideb £m** |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau'r Gronfa Gyffredinol | 3.366 | 2.144 | 5.834 | 5.658 |
| Canolfan Hyfforddi Arfaethedig | 0 | 3.000 | 25.000 | 20.000 |
| **Cyfanswm** | **3.366** | **5.144** | **30.834** | **25.658** |

58 Ceir manylion pellach am brosiectau cyfalaf y Gronfa Gyffredinol hyd yn hyn ym Mharagraff 45.

**Gofyniad Ariannu Cyfalaf**

59 Mae swm cronnol yr Awdurdod o gyllid dyled yn cael ei fesur gan y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR). Mae hyn yn cynyddu gyda gwariant cyfalaf a ariennir gan ddyled newydd ac yn lleihau gyda MRP a derbyniadau cyfalaf a ddefnyddir i ddisodli dyledion.

| | **31.03.23 gwirioneddol £m** | **2023/24 amcangyfrif £m** | ***2024/25 amcangyfrif £m** | ***2025/26 amcangyfrif £m** |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau'r Gronfa Gyffredinol | 28.877 | 31.751 | 62.589 | 85.198 |

*Mae'r tabl uchod yn cynnwys costau'r ganolfan hyfforddi fel y manylir ym mharagraff 57.

## Dyled Gros a'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf

60 Mae canllawiau statudol yn nodi y dylai dyled aros yn is na'r gofyniad ariannu cyfalaf, ac eithrio yn y tymor byr. Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio ac yn disgwyl parhau i gydymffurfio â'r gofyniad hwn yn y tymor canolig fel y dangosir isod.

| | 31.03.23 gwirioneddol | 30.06.23 gwirioneddol | 2023/24 cyllideb | 2024/25 cyllideb | 2025/26 cyllideb |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyled (gan gynnwys Prydlesi Cyllid) | 26.650 | 23.230 | 27.626 | 55.895 | 77.258 |
| Gofyniad Ariannu Cyfalaf | 28.877 | 31.751 | 33.832 | 62.589 | 85.198 |

*Mae'r tabl uchod yn cynnwys costau'r ganolfan hyfforddi fel y manylir ym mharagraff 56.

## Dyled a'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol

61 Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Awdurdod osod terfyn benthyca fforddiadwy (a elwir hefyd yn Derfyn Awdurdodedig ar gyfer dyled allanol) bob blwyddyn. Yn unol â chanllawiau statudol, mae "ffin weithredol" is hefyd wedi'i gosod fel lefel rhybudd pe bai dyled yn agosau at y terfyn.

| | Uchafswm dyled Ch1 2023/24 | Dyled ar 30.06.23 | 2023/24 Terfyn Awdurdodedig | 2023/24 Ffin Weithredol | Wedi cydymffurfio Do/Naddo |
|---|---|---|---|---|---|
| Benthyca (£m) | 26.650 | 23.230 | 30.999 | 28.990 | Do |

62 Gan fod y ffin weithredol yn arf rheoli ar gyfer monitro yn ystod y flwyddyn, nid yw'n arwyddocaol os yw'r ffin weithredol yn cael ei thorri ar adegau oherwydd amrywiadau mewn llif arian, ac nid yw hyn yn cael ei gyfrif fel methiant cydymffurfio.

## Cyfran Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net

63 Er na chaiff gwariant cyfalaf ei godi'n uniongyrchol ar y gyllideb refeniw, mae llog sy'n daladwy ar fenthyciadau a MRP yn cael ei godi ar refeniw. Gelwir y tâl blynyddol net yn gostau ariannu; mae hyn yn cael ei gymharu â'r ffrwd refeniw net h.y. y swm a ariennir o'r ardoll a grantiau cyffredinol y llywodraeth.

| | 2022/23 gwirioneddol | 2023/24 amcangyfrif | 2024/25 cyllideb | 2025/26 cyllideb |
|---|---|---|---|---|
| Costau ariannu (£m) | 2.351 | 2.756 | 4.700 | 6.900 |
| Cyfran y llif refeniw net | 5.96% | 6.21% | 9.80% | 13.50% |

*Mae'r tabl uchod yn cynnwys costau'r ganolfan hyfforddi fel y manylir ym mharagraff 56.

**Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys**

64 Mae'r dangosyddion hyn o fewn Adroddiad Rheoli'r Trysorlys Ch1 2023/24.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant hirdymor GTAGC. Mae cyllid ar gyfer y Gwasanaeth o fudd i gymunedau Gogledd Cymru ac yn sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn cael ei wneud mewn seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Mae'r gyllideb yn cael ei gosod bob blwyddyn yn unol â darpariaeth arfaethedig y gwasanaeth sy'n cynnwys ymateb brys a gwaith atal. |
| Cyfreithiol | Mae'n ofyniad cyfreithiol bod yr Awdurdod yn cynhyrchu'r Datganiad Cyfrifon yn unol â'r safonau penodedig. |
| Staffio | Mae rheolaeth ariannol effeithiol yn cefnogi strategaeth hirdymor y gweithlu i sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Caiff incwm a gwariant eu monitro'n ofalus i sicrhau bod gwyriadau o'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu nodi a'u hysbysu'n briodol i'r Aelodau. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 12**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **16 Hydref 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Dafydd Edward, Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Pwnc | **Pennu Cyllideb 2024/25** |

## DIBEN YR ADRODDIAD

1 Dyma adroddiad i'r Aelodau sy'n cyflwyno'r broses gyllidebu, y rhagdybiaethau cynllunio a'r amserlenni a ddefnyddir i bennu cyllideb refeniw yr Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ar gyfer 2024/25.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod bennu cyllideb refeniw ar gyfer 2024/25 yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr 2024. Mae'r gwaith rhagarweiniol i sefydlu'r gyllideb sylfaenol eisoes wedi'i ddechrau, gan gynnwys cynnal adolygiad o'r lefelau gwariant presennol, y rhagdybiaethau cynllunio allweddol a'r risgiau. Ceir crynodeb yn Atodiad 1.

## ARGYMHELLION

3 Gofynnir i'r Aelodau:

i) nodi'r rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddir i ddatblygu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2024/25;

ii) nodi cylch gwaith y gweithgor craffu ar y gyllideb a sefydlwyd gan y Pwyllgor Archwilio a'r amserlen adrodd arfaethedig;

iii) nodi'r cynnig i ddarparu amcangyfrifon cyllideb cychwynnol i'r Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2022; a

IV) nodi'r cynnig i geisio cymeradwyaeth yr Awdurdod ar gyfer cyllideb refeniw 2024/25 yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr 2024.

## CEFNDIR

4 Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Awdurdod bennu cyllideb refeniw gytbwys a rhaid i'r Awdurdod llawn ei chymeradwyo. Er nad yw'r ddeddfwriaeth yn rhoi diffiniad ffurfiol o'r term 'cytbwys', mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) yn cydnabod y dylai sefydliadau gael cynlluniau ariannol sy'n dangos sut y bydd gwariant yn cael ei ariannu dros y tymor byr a'r tymor canolig.

5 Mae cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod yn y tymor byr, y tymor canolig a’r tymor hwy yn seiliedig ar wybodaeth am y ffactorau allweddol sy’n rheoli costau, gan gynnwys gwerthuso risgiau ac ansicrwydd, a dealltwriaeth ohonynt. Mae cael dealltwriaeth o ofynion gwasanaethau, pa adnoddau sydd ar gael, a'r weledigaeth strategol yn y dyfodol yn hanfodol.

6 Rhoddodd adroddiad y Prif Swyddog Tân i'r Aelodau ym mis Medi 2021 asesiad o’r sefyllfa. Cadarnhawyd mai'r prif heriau sy'n wynebu'r Awdurdod yw sicrhau bod darpariaeth criwiau tân ar alwad yn ddigonol; sicrhau bod digon o adnoddau i gynnal a datblygu sgiliau diffoddwyr tân; a chael digon o allu corfforaethol i fodloni gofynion y presennol a’r dyfodol.

7 Yn sgil yr asesiad hwn, cymeradwyodd yr Awdurdod nifer o adolygiadau mewnol gan gynnwys adolygiad o’r ddarpariaeth frys, adolygiad o'r system dyletswydd rhan amser (criwiau ar alwad), ac adolygiad hyfforddi er mwyn sicrhau diogelwch diffoddwyr tân. Ategwyd yr adolygiadau hyn trwy wneud gwaith pellach mewn meysydd allweddol, megis asesiadau tactegol o danau gwyllt a diheintio peiriannau, cit ac offer.

8 Yn ogystal â'r meysydd heriol penodol hyn, mae'r Awdurdod, fel pob corff sector cyhoeddus arall, hefyd yn wynebu heriau’r sefyllfa economaidd ansicr. Y blaenoriaethau allweddol yw’r angen i reoli effeithiau chwyddiant, materion cyflenwi a chwyddiant cyflog.

9 Er bod yr asesiad cyllideb cychwynnol ar gyfer 2023/24 a gyflwynwyd i'r Awdurdod ym mis Rhagfyr 2022 yn nodi gofyniad cyllideb net o £44.7m (£45.8m gan gynnwys yr addasiad ariannu pensiwn), ni chymeradwywyd y gyllideb bryd hynny.

10 Yn dilyn y cyfarfod hwnnw, ar gais yr Awdurdod, gwnaethpwyd rhagor o waith i ganfod cyfleoedd i leihau'r gwariant net. Ym mis Ionawr 2023, cymeradwyodd yr Awdurdod y gyllideb derfynol o £44.4m, i’w chyflawni drwy'r ardoll ar awdurdodau lleol cyfansoddol. Roedd hyn yn cynnwys £1.1m o gyllid a arferai gael ei dderbyn yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, ond sydd bellach wedi’i gynnwys o fewn y grant setliad refeniw i awdurdodau lleol ar gyfer 2023/24.

11 Wrth bennu cyllideb 2023/24, cydnabu'r Awdurdod y camau a gymerwyd i leihau'r ardoll ar awdurdodau lleol cyfansoddol. Roedd y rhain yn cynnwys gohirio gwariant, gan gynnwys prynu cit tanau gwyllt hanfodol, lleihau’r ddarpariaeth frys ddyddiol, gostwng y targed ar gyfer gwiriadau diogelwch yn y cartref, a defnydd un tro o’r cronfeydd wrth gefn. Hefyd, nododd yr Awdurdod nad oedd y negodiadau cyflog cenedlaethol ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/2024 wedi dod i ben, a bod y sefyllfa wedi’i chymhlethu ymhellach gan y ffaith bod negodiadau cyflog 2022/23 ar gyfer diffoddwyr tân yn dal i fod heb eu gorffen ac y gallent fod yn destun gweithredu diwydiannol.

12 Wrth bennu cyllideb derfynol 2023/24, y rhagdybiaethau cyflog ar gyfer diffoddwyr tân oedd 5% ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 a 4% ar gyfer 2023/24. Yn dilyn hynny, setlwyd y negodiadau cyflog ar 7% a 5%, gan ychwanegu pwysau sylweddol o ran costau.

13 Nid yw'r camau a gymerwyd yn ystod y broses o bennu cyllideb 2023/24 yn gynaliadwy gan eu bod yn golygu bod angen defnydd parhaus o gronfeydd wrth gefn. Mae'r rheoleiddwyr wedi bod yn glir wrth gynghori awdurdodau na fyddai "ariannu gwariant rheolaidd o gronfeydd wrth gefn fel arfer yn briodol", felly mae angen i ATAGC ail-raddnodi ar gyfer 2024/25, "chwilio am ddulliau mwy cynaliadwy, sy'n aml yn golygu gwneud penderfyniadau amhoblogaidd" (dyfyniadau o baragraff 1.8 o 'Cwrdd â'r Heriau Ariannol', 2014, Archwilio Cymru). Felly, mae'r adolygiad o'r ddarpariaeth frys wedi cynnwys asesiad cynllunio ariannol cychwynnol ar gyfer pob opsiwn.

## GWYBODAETH

14 Nid yw'r camau a gymerwyd yn ystod y broses o bennu cyllideb 2023/24 yn gynaliadwy gan eu bod yn golygu bod angen defnydd parhaus o gronfeydd wrth gefn. Mae'r rheoleiddwyr wedi bod yn glir wrth gynghori awdurdodau na fyddai "ariannu gwariant rheolaidd o gronfeydd wrth gefn fel arfer yn briodol", felly mae angen i ATAGC ail-raddnodi ar gyfer 2024/25, "chwilio am ddulliau mwy cynaliadwy, sy'n aml yn golygu gwneud penderfyniadau amhoblogaidd" (dyfyniadau o baragraff 1.8 o 'Cwrdd â'r Heriau Ariannol', 2014, Archwilio Cymru). Felly, mae'r adolygiad o'r ddarpariaeth frys wedi cynnwys asesiad cynllunio ariannol cychwynnol ar gyfer pob opsiwn.

15 Er y bydd proses pennu cyllideb 2024/25 yn ddibynnol ar ganlyniad yr adolygiad o'r ddarpariaeth frys, mae'r gwaith paratoi ar y costau presennol wedi dechrau. Mae gweithgor craffu ar y gyllideb wedi'i sefydlu o blith aelodau'r Pwyllgor Archwilio.

16 Gydag aelodau yn cynrychioli pob awdurdod lleol, mae disgwyl i'r gweithgor gyfarfod ar bedwar achlysur rhwng Hydref a Thachwedd 2023. Bydd adolygiad yn cael ei gynnal ynghylch costau cyflogres, costau nad ydynt yn gyflogau, a chostau ariannu cyfalaf, a hynny er mwyn gwella dealltwriaeth yr aelodau ac i roi cyfle iddynt graffu a herio. Bydd adroddiad ar y gwaith hwn yn cael ei roi i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr a bydd yn llywio'r broses o bennu'r gyllideb.

17 Bydd y gwaith cynllunio hefyd yn ystyried gofynion cyfalaf yr Awdurdod dros y cylch cynllunio tymor canolig. Bydd hyn yn ystyried asesiadau ariannol a fforddiadwyedd cynlluniau ar gyfer y dyfodol, a bydd y gwaith hwn yn cynnwys darparu cyfleuster hyfforddi newydd. Os caiff ei gymeradwyo, bydd angen buddsoddiad ariannol sylweddol ar gyfer y cyfleuster hyfforddi newydd, ond ar hyn o bryd nid oes achos busnes wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod.

18 Bydd yr asesiad cynllunio cychwynnol ar gyfer 2024/25 yn cael ei gyflwyno i'r Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2023. Bydd yn cynnwys dadansoddiad sensitifrwydd sy'n nodi effaith yr opsiynau yn yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a ystyriwyd gan yr Awdurdod, a bydd yn ymgorffori canfyddiadau craffu'r Pwyllgor Archwilio.

19 Bydd cyllideb refeniw ddrafft 2024/25 yn cael ei pharatoi ac yn cael ei chyflwyno er mwyn i'r Awdurdod ei chymeradwyo yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr 2024.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn gysylltiedig ag Amcanion Gwella a Llesiant yr Awdurdod. Mae'n adrodd ar hyfywedd ariannol yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Mae'r asesiad cynllunio cychwynnol wedi nodi bod angen cyllideb o £50.4m. Bydd hyn yn cael ei ddiweddaru yn rhan o'r gwaith cynllunio manwl gan gynnwys canlyniad Adolygiad yr Awdurdod o'r Ddarpariaeth Frys. |
| Cyfreithiol | Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddyletswydd gyfreithiol i bennu cyllideb gytbwys yn seiliedig ar ragdybiaethau cynllunio realistig. |
| Staffio | Mae dros 70% o'r gwariant yn ymwneud â chostau staff ac felly mae'n ffactor materol wrth ystyried sefydlogrwydd ariannol yn y dyfodol. Mae'r risgiau a nodwyd gan y Prif Swyddog Tân yn cynnwys negodiadau cyflog sy'n parhau yn ogystal â'r angen i recriwtio rhagor o staff dyletswydd rhan amser ac i feithrin gwytnwch corfforaethol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Bydd y materion hyn yn cael eu hystyried yn y cynigion pennu cyllideb. |
| Risgiau | Mae'r ansicrwydd a'r risgiau allweddol ynghylch cyllideb 2024/25 wedi'u hamlinellu yn Atodiad 1. |

**Atodiad 1**

**Asesiad cynllunio ariannol cychwynnol 2024/25**

| £'m | Cyllideb gymeradwy 2023/24 | Costau heb eu hariannu 23/24 | 4% Dyfarniad cyflog 2024/2025 | Costau pensiwn ychwanegol posibl | Chwyddiant a thwf | Cynnydd mewn costau llog | Canolfan Hyfforddi | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Talu** | 31.824 | 1.745 | 1.343 | 0.400 | | | | 35.312 |
| **Di-dâl** | 10.384 | 0.200 | | | 0.741 | | | 11.325 |
| **Cyllid a Llog Cyfalaf** | 3.130 | | | | | 0.500 | 1.1 | 4.730 |
| **Incwm** | -0.944 | | | | | | | -0.944 |
| **Treth** | **44.394** | **1.945** | **1.343** | **0.400** | **0.741** | **0.500** | **1.100** | **50.423** |

**Atodiad 2**

**Crynodeb o ragdybiaethau a risgiau cynllunio**

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddiwyd wrth bennu cyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| Costau gweithwyr | • Bydd y cyllidebau staffio yn cael eu llunio gan ddefnyddio'r modelau darparu gwasanaethau presennol ac yn cael eu diweddaru i adlewyrchu penderfyniad yr Awdurdod Tân ac Achub yn dilyn eu Hadolygiad o'r Ddarpariaeth Frys.<br>• Pan bennwyd y gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, nid oedd y dyfarniadau cyflog cenedlaethol ar gyfer diffoddwyr tân ar gyfer blynyddoedd ariannol 2022/23 a 2023/24 wedi'u cwblhau. Roedd y gyllideb derfynol yn rhagdybio 5% a 4% ar gyfer 2023/24, ond setlwyd y dyfarniad cyflog ar 7% a 5% yn y diwedd. Mae'r costau uwch sy'n gysylltiedig â hyn wedi'u cynnwys yn y gyllideb sylfaenol a gwnaed asesiad cynllunio o 4% ar gyfer dyfarniadau cyflog cenedlaethol yn 2024/25 ar gyfer yr holl staff.<br>• Cynhaliwyd prisiad o gynllun pensiwn y diffoddwyr tân yn ystod 2020 a bydd yn pennu cyfraddau cyfraniad y cyflogwr am y cyfnod o bedair blynedd o Ebrill 2024. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw'r fersiwn ddiweddaraf o'r prisiad ar gael ond mae'n parhau i fod yn risg allweddol. | • Nid yw'r Cyd-gyngor Cenedlaethol wedi dod i gytundeb eto ar ddyfarniad cyflog diffoddwyr tân ar gyfer 2024/25, ond ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn mae disgwyl i'r setliadau fod uwchlaw'r hyn a bennwyd yn y gyllideb.<br>• Nid yw'r Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol wedi dod i gytundeb eto ar y dyfarniad cyflog i staff ar gontractau LGPS ar gyfer 2023/24 na 2024/25.<br>• Mae gwaith cynllunio'r gyllideb yn tybio lefelau arferol o weithgarwch. Os bydd llif o alwadau yn digwydd bydd pwysau ar y gyllideb. Y dybiaeth weithio yw y byddai'r Gronfa Gyffredinol yn cael ei defnyddio yn y lle cyntaf. |

| | | |
|---|---|---|
| Costau nad ydynt yn gyflogau | • Mae'r asesiad cynllunio cychwynnol wedi cadarnhau y bydd y cyllidebau ar gyfer costau nad ydynt yn gyflogau yn cael eu llunio gan ddefnyddio’r modelau cyflenwi gwasanaethau presennol, wedi'u diweddaru yn ôl canlyniad yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys. Mae'r pwysau ar y gyllideb ar gyfer costau nad ydynt yn gyflogau wedi’u gwaethygu gan effaith chwyddiant ar gontractau presennol ac yn y dyfodol, yn ogystal â materion sy’n ymwneud â'r gadwyn gyflenwi mewn nifer o feysydd sy’n hanfodol o ran busnes. Mae'r rhain yn cynnwys cyflenwi cit diffodd tân a dod o hyd i rannau newydd ar gyfer cerbydau gweithredol.<br>• Mae costau na ellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â materion iechyd a diogelwch penodol i'r diwydiant wedi'u cynnwys o fewn y gyllideb nad yw’n gyflogau. Mae'r rhain yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â rheoli halogyddion ar gyfer ein diffoddwyr tân gweithredol yn dilyn gwaith cenedlaethol.<br>• Lluniwyd cyllidebau gan ddefnyddio gwybodaeth a barn broffesiynol rheolwyr cyllideb a rhwymedigaethau cytundebol sylfaenol ond, yn ôl yr angen, maent yn cynnwys llawer iawn o amcangyfrif. Lle gellir meintioli pwysau costau, maent wedi'u nodi a'u cynnwys ar wahân.<br>• Yn ystod 2023/24 fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddileu ei chefnogaeth ariannol o £0.4m ar gyfer rhwydwaith cyfathrebu cenedlaethol presennol y gwasanaethau brys (Firelink). Mae pris llawn y contract, sef £1m, bellach yn cael ei | • Er bod y Gwasanaeth yn parhau i adolygu costau nad ydynt yn gyflogau ac yn ymdrechu i reoli pwysau costau o fewn y gyllideb a gynlluniwyd, mae hyn yn parhau i fod yn faes risg oherwydd y pwysau parhaus o fewn y gadwyn gyflenwi o ganlyniad i godi prisiau a materion yn ymwneud ag argaeledd. Mae'r sefyllfa hon yn cael ei rheoli'n ofalus ond oherwydd anwadalrwydd sylweddol nid yw'n bosibl meintioli'r effaith yn llawn.<br>• Mae costau nwy a thrydan wedi bod yn bwysau hysbys o ran cost er 2022/23 oherwydd pwysau costau byd-eang. Mae'n ymddangos bod y sefyllfa wedi sefydlogi ac mae'r gyllideb ar gyfer 2024/25 yn seiliedig ar amcangyfrifon gorau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae’r farchnad yn parhau i fod yn anwadal ac mae hyn yn parhau i fod yn risg ac yn ansicrwydd sy’n hysbys.<br>• Er bod yr Awdurdod yn parhau i weithio tuag at leihau ei ôl troed carbon, nid oes cynlluniau manwl wedi'u ffurfioli eto. Bydd y gwaith hwn yn mynd rhagddo yn ystod 2023/24 ac nid oes unrhyw ddarpariaeth gyllidebol wedi’i chynnwys. |

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddiwyd wrth bennu cyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| | ariannu'n uniongyrchol o gyllid craidd. Oherwydd natur sefydlog y contract hwn, ni ellir osgoi'r costau hyn ac mae'r contract yn cynnwys cynnydd blynyddol ar gyfer chwyddiant. | |
| Cyllid Cyfalaf | • Mae'r gofyniad cyllid cyfalaf ar gyfer 2024/25 yn cynnwys y tâl refeniw ar gyfer y ddarpariaeth refeniw isaf ar gyfer asedau presennol yn ogystal ag amcangyfrif o'r taliadau llog o ganlyniad i fenthyca. Mae gwariant cyfalaf hanesyddol, yr angen i fenthyca ar gyfer rhaglen gyfalaf 2024/25, ac effaith cynnydd mewn cyfraddau llog wrth ailariannu benthyciadau sy'n aeddfedu yn dylanwadu ar y costau hyn.<br>• Bydd yr asesiad cynllunio cychwynnol yn tybio y bydd yr holl fenthyca yn y dyfodol yn cael ei wneud ar gyfradd gyffredinol y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ar adeg pennu'r gyllideb.<br>• Mae'r cynllun cyfalaf yn cynnwys costau posibl sy'n gysylltiedig â chanolfan hyfforddi newydd. Ar hyn o bryd nid yw'r Awdurdod wedi ystyried yr achos busnes, felly tybir mai o 2025/2026 ymlaen y bydd y costau cyfalaf hyn yn cael eu hysgwyddo. | • Mae'r cynnydd mewn cyfraddau llog yn faes risg allweddol ac ystyried yr ansicrwydd economaidd ar hyn o bryd. Bydd gwaith modelu ariannol yn cael ei wneud er mwyn asesu pa mor sensitif yw sefyllfa ariannol a pherfformiad yr Awdurdod i'r cyfraddau llog presennol, ac adroddir ar hyn yn rhan o'r gwaith o bennu'r gyllideb.<br>• Nid yw amseriad unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chanolfan hyfforddi newydd yn hysbys ar hyn o bryd gan nad yw'r achos busnes wedi'i ystyried gan yr Awdurdod. Er na ragwelir y bydd unrhyw waith adeiladu yn dechrau yn ystod 2024/25, efallai y bydd angen gwneud darpariaeth ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio manwl pe bai cymeradwyaeth yn cael ei rhoi. |

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddiwyd wrth bennu cyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| Incwm | • Mae'r cyllidebau incwm wedi cael eu hadolygu a'u pennu yn unol â'r blynyddoedd blaenorol.<br>• Gostyngodd incwm grant Llywodraeth Cymru yn sylweddol yn ystod 2023/24 oherwydd dileu'r Grant Firelink (£0.4m) ac ymgorfforiad y Grant Scape (£1.08m) o fewn y Grant Cynnal Refeniw a delir i awdurdodau lleol.<br>• Wrth osod y gyllideb, tybir y bydd gweddill cyllid grant Llywodraeth Cymru yn cael ei dderbyn ar lefelau 2023/24. | • Nid oes unrhyw risgiau penodol wedi'u nodi y tu hwnt i incwm y grant gan Lywodraeth Cymru, ac ni ragwelir cynnydd chwyddiant ar ei gyfer. |

*This document is available in English.* **Eitem Agenda 13**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **16 Hydref 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur – Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen Howard – Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Adroddiad Rheoli Trysorlys Ebrill – Mehefin 2023/24** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar weithgarwch rheoli trysorlys, a chydymffurfiaeth â dangosyddion darbodus rheoli trysorlys ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 – 30 Mehefin 2023.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Ym mis Rhagfyr 2003, mabwysiadodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) *Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer (2021)* (Cod CIPFA) y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo, o leiaf, adroddiadau alldro blynyddol a lled-flynyddol ar reoli'r trysorlys.

3 Roedd Cod CIPFA hefyd yn cynnwys gofyniad newydd i adrodd yn chwarterol ar ddangosyddion rheoli trysorlys o fis Ebrill 2023. Mae'r dangosyddion darbodus nad ydynt yn rhai trysorlys wedi'u hymgorffori yn adroddiad monitro refeniw a chyfalaf arferol yr Awdurdod.

4 Cymeradwywyd strategaeth rheoli trysorlys yr Awdurdod ar gyfer 2023/24 mewn cyfarfod ar 20 Mawrth 2023. Gan fod yr Awdurdod yn benthyca a buddsoddi symiau sylweddol o arian, mae risgiau ariannol y mae angen eu hystyried gan gynnwys colli arian a fuddsoddwyd ac effaith refeniw ar newidiadau cyfraddau llog. Mae nodi, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus yn parhau i fod yn ganolog i strategaeth rheoli trysorlys yr Awdurdod.

**SYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDO/ PWYLLGOR ARCHWILIO**

5 Ystyriodd y Pwyllgor Archwilio y gweithgaredd Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2023-24 yn eu cyfarfod ar y 18fed o Fedi 2023. Nododd y Pwyllgor Archwilio y gweithgaredd a chymeradwyodd y Dangosyddion Rheoli Trysorlys ar gyfer Chwarter 1 o 2023-24.

**ARGYMHELLION**

6 Argymhellir bod aelodau yn:

i) Cymeradwyo gweithgaredd rheoli'r trysorlys; a
ii) Chymeradwyo'r Dangosyddion Rheoli Trysorlys ar gyfer Chwarter 1 o 2023-24

**CYD-DESTUN ALLANOL**

7 Gostyngodd chwyddiant o'i uchafbwynt o 11.1% a gyrhaeddwyd ym mis Hydref 2022, ond roedd y prif CPI blynyddol ym mis Mai 2023 yn uwch na'r rhagolwg consensws ar 8.7% (disgwyliwyd 8.4%). Roedd hyn yn bennaf oherwydd chwyddiant gwasanaethau, tra bod y mesur blynyddol o chwyddiant craidd sylfaenol wedi codi i 7.1% o 6.8%.

8 Ail-gyflymodd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr dynhau polisi ariannol dros y cyfnod gyda chynnydd o 0.25% ym mis Mai i gynnydd o 0.5% ym mis Mehefin, gan fynd â'r Gyfradd Banc i 5.0%.

9 Fe wnaeth y disgwyliadau o ran cyfraddau llog ddwyn i ystyriaeth godiadau pellach mewn cyfraddau polisi. Diwygiodd Arlingclose, cynghorydd trysorlys yr awdurdod, ei ragolwg i ragweld tynhau ariannol pellach o 0.5% i fynd â'r Gyfradd Banc i 5.5%. Y risgiau, fodd bynnag, yw y gallai cyfraddau fod yn uwch; mae marchnadoedd ariannol yn rhagweld cyfraddau llog polisi yn uwch na 6%.

**CYD-DESTUN LLEOL**

10 Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan yr Awdurdod fenthyciadau net o £22.48 miliwn yn deillio o wariant cyfalaf. Mae'r angen sylfaenol i fenthyca at ddibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR), tra mai adnoddau mantolen yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Crynhoir y ffactorau hyn yn Nhabl 1 isod.

**Tabl 1: Crynodeb o'r Fantolen**

| | **31.03.23 Gwirioneddol £m** |
|---|---|
| CFR y Gronfa Gyffredinol | 28.88 |
| Benthyca allanol | -26.65 |
| Llai: Adnoddau mantolen | -6.40 |
| Llai: Buddsoddiadau Newydd | 4.17 |
| **31 Mawrth 2023** | **0.00** |

**11** Dangosir y sefyllfa rheolaeth trysorlys ar 30 Mehefin a'r newid dros y chwarter yn Nhabl 2 isod.

**Tabl 2: Crynodeb Rheolaeth Trysorlys**

| | 31.3.23 Balans £m | Symudiadau £m | 30.6.23 Balans £m | 30.6.23 Cyfradd % |
|---|---|---|---|---|
| Benthyca tymor hir | 17.79 | 0 | 17.79 | 1.00 - 4.90 |
| Benthyca tymor byr | 8.86 | -3.42 | 5.44 | 1.30 - 3.91 |
| **Cyfanswm benthyciadau** | **26.65** | **-3.42** | **23.23** | |
| Buddsoddiadau tymor byr | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | -4.17 | -6.01 | -10.18 | 4.16 - 4.90 |
| **Cyfanswm y buddsoddiadau** | **-4.17** | **-6.01** | **-10.18** | |
| **Benthyca net** | **22.48** | **-9.43** | **13.05** | |

## BENTHYCA

12 Mae Cod Darbodus 2021 CIPFA yn amlinellu na ddylai awdurdodau lleol fenthyca i fuddsoddi â'r prif amcan o fod yn elw ariannol. Nid yw'n ddoeth i awdurdodau lleol wneud unrhyw benderfyniad buddsoddi neu wariant a fydd yn cynyddu'r gofyniad ariannu cyfalaf sy'n gofyn am fenthyciadau newydd, oni bai ei fod yn ymwneud yn uniongyrchol ac yn bennaf â swyddogaethau'r Awdurdod.

13 Nid yw'r Awdurdod wedi buddsoddi mewn asedau ar gyfer elw ariannol ac mae'r holl wariant yn ymwneud â chyflawni swyddogaethau'r Awdurdod.

## STRATEGAETH A GWEITHGAREDD FENTHYCA

14 Fel yr amlinellwyd yn strategaeth y trysorlys, prif amcan yr Awdurdod wrth fenthyca fu mabwysiadu strategaeth risg isel gan gydbwyso costau llog isel a chyflawni sicrwydd cost dros y cyfnod y mae angen cyllid ar ei gyfer. Mae'r hyblygrwydd i ail-negodi benthyciadau pe bai cynlluniau tymor hir yr Awdurdod yn newid yn amcan eilaidd. Mae strategaeth fenthyca'r Awdurdod yn parhau i fynd i'r afael â'r mater allweddol o fforddiadwyedd heb gyfaddawdu ar sefydlogrwydd tymor hwy y portffolio dyledion.

15 Bu cynnydd sylweddol yng nghostau'r benthyciadau tymor byr a thymor hir dros y 18 mis diwethaf. Yn y chwarter hwn, cododd y Gyfradd Banc o 4.25% ar ddechrau mis Ebrill i 5.0% ar ddiwedd y chwarter ac roedd hefyd yn sylweddol uwch na'i lefel o 1.25% ar ddiwedd mis Mehefin 2022.

16 Parhaodd cyfraddau benthyca PWLB i godi dros y chwarter. Ar 30 Mehefin, roedd cyfraddau sicrwydd y PWLB ar gyfer benthyciadau aeddfedrwydd yn 5.25% ar gyfer benthyciadau 10 mlynedd, 5.36% ar gyfer benthyciadau 20 mlynedd ac yn 4.95% ar gyfer benthyciadau 50 mlynedd. Eu cyfwerth ar 31 Mawrth 2023 oedd 4.33%, 4.70% a 4.41% yn y drefn honno.

17 Ar 30 Mehefin roedd gan yr Awdurdod £23.23 miliwn mewn benthyciadau, gostyngiad o £3.42 miliwn ar 31 Mawrth 2023, fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf y flwyddyn flaenorol a'r flwyddyn gyfredol. Crynhoir y benthyciadau oedd yn weddill ar 30 Mehefin yn Nhabl 3A isod.

**Tabl 3A: Sefyllfa Fenthyca**

| | 31.3.23 Balans £m | Symudiad Net £m | 30.6.23 Balans £m | 30.6.23 Cyfradd Cyfartalog Pwysoledig % | 30.6.23 Aeddfedrwydd Cyfartalog Pwysoledig (blynyddoedd) |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus | 20.65 | -0.42 | 20.23 | 2.46 | 4.74 |
| Awdurdodau lleol (tymor byr) | 6.00 | -3.00 | 3.00 | 4.35 | 1.00 |
| **Cyfanswm benthyciadau** | **26.65** | **-3.42** | **23.23** | | |

18 Mae cost benthyca tymor byr yr Awdurdod wedi parhau i gynyddu gyda'r cynnydd yn y Gyfradd Banc a chyfraddau marchnad cyfnod byr. Y gyfradd gyfartalog ar fenthyciadau tymor byr yr Awdurdod ar 30 Mehefin 2023 ar £6.00 miliwn oedd 4.35%, o gymharu ag 1.3% ar fenthyciadau o £6.00 miliwn 12 mis yn ôl.

**Tabl 3B: Benthyciadau cyfnod hir**

| | Swm £m | Cyfradd % | Cyfnod (Blynyddoedd) |
|---|---|---|---|
| Benthyciad Aeddfedrwydd PWLB | 2.60 | 4.80 | 29.00 |
| Benthyciad EIP PWLB | 4.70 | 3.91 | 18.00 |
| **Cyfanswm benthyciadau** | **7.30** | **4.23** | |

19 Nid yw penderfyniadau benthyca'r Awdurdod yn seiliedig ar unrhyw un canlyniad ar gyfer cyfraddau llog a chynhaliwyd portffolio cytbwys o fenthyciadau tymor byr a thymor hir.

20 Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill – 30 Mehefin 2023, ad-dalwyd benthyciad marchnad tymor byr o £3 miliwn. Disodlwyd hwn gan fenthyciad PWLB tymor hir, a gymerwyd yn 2022/23. Ymgymerwyd â hyn yn dilyn cyngor gan ein hymgynghorwyr rheolaeth trysorlys a phan oedd cyfraddau llog yn ffafriol.

**GWEITHGARWCH BUDDSODDI'R TRYSORLYS**

21 Cyhoeddodd CIPFA God Ymarfer Gwasanaethau Cyhoeddus a Nodiadau Canllaw Traws-Sectoraidd ar Reolaeth Trysorlys diwygiedig ar 20 Rhagfyr 2021. Mae'r rhain yn diffinio buddsoddiadau rheoli trysorlys fel buddsoddiadau sy'n deillio o lifoedd arian y sefydliad neu weithgarwch rheoli risg trysorlys sydd yn y pen draw yn cynrychioli balansau y mae angen eu buddsoddi nes bod angen yr arian ar gyfer ei ddefnyddio yn ystod y gwaith.

22 Mae'r Awdurdod yn dal cronfeydd sydd wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbyniwyd o flaen gwariant, ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn ystod y flwyddyn, roedd balansau buddsoddi'r Awdurdod yn amrywio rhwng £4.17 miliwn a £10.18 miliwn oherwydd gwahaniaethau amseru rhwng incwm a gwariant. Mae'r rhan fwyaf o'r balans yn gysylltiedig â'r incwm a dderbyniwyd mewn perthynas â Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân, a fydd yn cael ei wario drwy gydol y flwyddyn. Dangosir y sefyllfa fuddsoddi yn nhabl 4 isod.

**Tabl 4: Sefyllfa Buddsoddi'r Trysorlys**

| | **31.3.23**<br>**Balans**<br>**£m** | **Ch.1**<br>**Symudiad Net**<br>**£m** | **31.6.23**<br>**Balans**<br>**£m** | **30.6.23**<br>**Enillion Incwm**<br>**%** | **30.6.23**<br>**Aeddfedrwydd Cyfartalog Pwysoledig**<br>**dyddiau** |
|---|---|---|---|---|---|
| Banciau a chymdeithasau adeiladu | 4.17 | 6.01 | 10.18 | 4.16-4.90 | ar alwad |
| **Cyfanswm y buddsoddiadau** | **4.17** | **6.01** | **10.18** | | |

23 Mae Cod CIPFA a chanllawiau'r llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod fuddsoddi ei gyllid yn ddoeth, a rhoi sylw i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau trysorlys cyn ceisio'r gyfradd enillion orau bosibl, neu incwm. Amcan yr Awdurdod wrth fuddsoddi arian yw taro cydbwysedd priodol rhwng risg ac adenillion, gan leihau'r risg o golledion oherwydd diffyg talu a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi anaddas o isel.

24 Fel y dangosir gan feincnod rhwymedigaeth yr adroddiad hwn, mae'r Awdurdod yn disgwyl bod yn fenthyciwr tymor hir ac felly gwneir buddsoddiadau trysorlys newydd yn bennaf i reoli llif arian o ddydd i ddydd gan ddefnyddio offerynnau risg isel tymor byr.

25 Cynyddodd cyfraddau banc 0.75%, o 4.25% ar ddechrau mis Ebrill i 5% erbyn diwedd mis Mehefin, gyda rhagolygon o gynnydd pellach i ddod. Cododd cyfraddau arian parod cyfnod byr mewn modd cymesur, gyda chyfraddau 3 mis yn codi i tua 5.25% a chyfraddau 12 mis i bron i 6%.

**CYDYMFFURFIAETH**

26 Mae'r Trysorydd yn adrodd bod yr holl weithgareddau rheoli trysorlys a gyflawnwyd yn ystod y chwarter yn cydymffurfio â'r egwyddorion yn y Cod Rheoli Trysorlys a'r Strategaeth Rheoli Trysorlys a gymeradwywyd gan yr Awdurdod, ar wahân i'r terfyn ar gyfer buddsoddiadau a ddelir gan un banc. Mae gan y Gwasanaeth ddau gyfrif galwad a ddefnyddir i osod adneuon tymor byr, gyda Banc Lloyds a Banc Barclays. Roedd y cyfraddau llog oedd yn cael eu cynnig ar adneuon trysorlys yn sylweddol uwch gyda Banc Lloyds ac felly er mwyn cael yr adenillion gorau mae'r holl adneuon wedi eu gosod gyda nhw.

27 Er mwyn helpu i liniaru hyn yn y dyfodol, mae'r Gwasanaeth wedi gwneud cais am Gyfrif Swyddfa Rheoli Dyledion, gan fod y Strategaeth Rheoli Trysorlys yn caniatáu ar gyfer gosod arian diderfyn gyda'r DMO.

28 Dangosir cydymffurfiaeth â therfynau buddsoddi penodol yn nhabl 5 isod.

**Tabl 5: Terfynau Buddsoddi**

| Sefydliad | Disgrifiad | Terfyn | 30.06.23 Gwirioneddol | Cydymffurfiwyd? Do/Naddo |
|---|---|---|---|---|
| Banciau | Holl fanciau'r DU a'u his-gwmnïau sydd â chyfraddau da (Fitch neu gyfwerth). Mae hyn yn cael ei ddiffinio fel tymor hir (BBB) ar hyn o bryd. | £5m | £10.18m | naddo |
| Llywodraeth Ganolog | Swyddfa Rheoli Dyledion | Diderfyn | **0** | do |
| Cronfeydd y Farchnad Arian (MMF) | Dim ond yn unol â chyngor gan Arlingclose. | £1m fesul cronfa | **0** | do |
| Awdurdodau Lleol | Pawb ac eithrio'r rhai sy'n destun cyfyngiad treth gyngor a chanfodiadau o dan Ran 1 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. | £2m | **0** | do |
| Cymdeithasau Adeiladu | Cymdeithasau adeiladu sydd â sgôr (fel ar gyfer y sector bancio) | £2m | **0** | do |
| Cymdeithasau Adeiladu (Asedau £1bn) | Cymdeithasau adeiladu heb sgôr ond gydag asedau o £1 biliwn neu fwy | £2m/9 mis | **0** | do |

29 Dangosir cydymffurfiaeth â'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol ar gyfer dyled allanol yn nhabl 6 isod.

**Tabl 6: Dyledion a'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol**

| | 30.6.23 Gwirioneddol £m | Ffin Weithredol 2023/24 £m | Terfyn Awdurdodedig 2023/24 £m | Cydymffurfiwyd? |
|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 23.23 | 28.99 | 30.99 | Do |
| **Cyfanswm dyled** | **23.23** | **28.99** | **30.99** | |

30 Gan fod y ffin weithredol yn arf rheoli ar gyfer monitro yn ystod y flwyddyn, efallai y bydd adegau pan fydd y benthyca gwirioneddol yn uwch na'r targed hwn. Gall hyn fod oherwydd amrywiadau mewn llif arian ac ni fyddai toriadau tymor byr yn cyfrif fel methiant i gydymffurfio.

## DANGOSYDDION RHEOLI TRYSORLYS

31 Fel sy’n ofynnol gan God Rheoli Trysorlys CIPFA 2021, mae’r Awdurdod yn monitro ac yn mesur y dangosyddion darbodus canlynol ar gyfer rheoli trysorlys.

**Strwythur Aeddfedrwydd Benthyca**

32 Mae’r dangosydd hwn wedi’i osod i reoli pa mor agored yw’r Awdurdod i risg ail-ariannu. Y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd yr holl fenthyca oedd:

| | 30.6.23 Gwirioneddol | Terfyn Gwirioneddol | Terfyn Uchaf | Terfyn Isaf | Cydymffurfiwyd D/N |
|---|---|---|---|---|---|
| O dan 12 mis | 2.44 | 10.50% | 60.00% | 0.00% | D |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 6.71 | 28.89% | 45.00% | 0.00% | D |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 5.62 | 24.19% | 45.00% | 0.00% | D |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 1.32 | 5.68% | 75.00% | 0.00% | D |
| 10 mlynedd ac uwch | 7.14 | 30.74% | 100.00% | 0.00% | D |

Mae’r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedu ar gyfer benthyca yw’r dyddiad cynharaf y gall y benthyciwr fynnu ad-daliad.

**Buddsoddiadau Rheoli Trysorlys Tymor Hir**

33 Nid yw'r Awdurdod yn dal unrhyw fuddsoddiadau trysorlys tymor hir.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant tymor hir GTAGC. Mae’n sicrhau bod prynu asedau i gefnogi’r gwaith o ddarparu gwasanaethau rheng flaen yn cael ei wneud yn ddarbodus, fforddiadwy a chynaliadwy. Sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn cael ei wneud mewn seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol. |
| **Cyllideb** | Mae'r gyllideb yn cael ei gosod yn flynyddol ar gyfer ariannu cyfalaf yn unol ag adroddiad y Trysorlys. |
| **Cyfreithiol** | Mae'r fframwaith rheoleiddio wedi'i nodi ym mharagraff 1. |
| **Staffio** | Dim |
| **Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/ y Gymraeg** | Dim |
| **Risgiau** | Buddsoddi arian dros ben – mae perygl y gallai'r sefydliad ariannol lle buddsoddir arian y gwasanaeth fethu, gan arwain at golled o ran o'r prif fuddsoddiad. Fodd bynnag, un o ddibenion yr adroddiad yw lliniaru'r risg hon. |

This document is available in English **Eitem Agenda 14a**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **16 Hydref 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau)** |
| Pwnc | **Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru – gwahaniaethu ar sail oedran** |

**DIBEN YR ADRODDIAD**

1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynghylch y trefniadau i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu ar sail oedran yng Nghynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yng Nghymru.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae Llywodraeth Cymru wedi cwblhau'r broses ddeddfwriaethol i unioni'r gwahaniaethu ar sail oedran oedd yn gysylltiedig â chynlluniau pensiwn diffoddwyr tân yng Nghymru.

3 Daeth Rheoliadau Pensiynau Diffoddwyr Tân (Gwasanaeth Rhwymedïol) (Cymru) 2023 (y Rheoliadau) i rym ar 1 Hydref 2023 ac maent yn darparu ar gyfer yr hyn y mae angen i Reolwyr Cynlluniau ei wneud i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu ar sail oedran.

4 Mae'r Rheoliadau'n creu rhwymedigaeth sy'n golygu bod angen i Reolwyr Cynlluniau weithredu'r rhwymedi yn llwyr ar gyfer pob aelod cymwys o fewn cyfnod o 18 mis. Mae gwaith wedi dechrau i sicrhau bod yr holl aelodau yr effeithir arnynt yn cael eu canfod a'n bod yn cydymffurfio â holl ddarpariaethau'r Rheoliadau.

**ARGYMHELLION**

5 Gofynnir i'r Aelodau:

i) nodi'r gofynion deddfwriaethol a'r amserlenni a sefydlwyd gan y rheoliadau; a

ii) nodi'r gwaith a wnaed i weithredu'r rheoliadau.

**CEFNDIR**

6 Fe gyflwynodd Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 (2012) ddiwygiadau cynhwysfawr i bensiynau'r sector cyhoeddus ledled y DU. Y nod cyffredinol oedd lleihau cost pensiynau i'r pwrs cyhoeddus trwy gyflwyno oedrannau pensiwn uwch, gyda phensiynau yn cael eu cyfrifo ar sail Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hailbrisio (CARE), yn hytrach na'r cynllun cyflog terfynol traddodiadol. Cafodd diogeliad trosiannol ei gynnwys yn y ddeddfwriaeth, ond gwelwyd yn ddiweddarach fod hwnnw yn gwahaniaethu ar sail oedran.

7 Ers hynny, mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y bydd aelodau cymwys yn cael eu trosglwyddo'n ôl i'w cynlluniau gwaddol ar gyfer cyfnod y rhwymedi, sef rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022 yw'r ddeddfwriaeth sylfaenol i weithredu'r rhwymedi ac i roi grym i'r awdurdodau cyfrifol.

8 Gan fod cynllun pensiwn y diffoddwyr tân wedi'i ddatganoli yng Nghymru, mae gan Weinidogion Cymru gyfrifoldeb dros ddrafftio'r rheoliadau sylfaenol angenrheidiol er mwyn gweithredu'r rhwymedi.

9 Daeth y rheoliadau pensiwn angenrheidiol i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu ar sail oedran o fewn cynlluniau pensiwn diffoddwyr tân yng Nghymru i rym ar 1 Hydref 2023. Mae Rheoliadau Pensiynau Diffoddwyr Tân (Gwasanaeth Rhwymedïol) (Cymru) 2023 (y Rheoliadau) yn gwneud darpariaeth fel y gall Rheolwyr Cynlluniau weithredu'r newidiadau angenrheidiol ac mae'n rhaid cwblhau'r rhain o fewn cyfnod o 18 mis.

10 Mae'r Rheoliadau'n symud pob aelod o staff sy'n aelodau gweithredol yn ôl i'w cynlluniau gwaddol ar gyfer y cyfnod 2015-22, ac yn cynnig dewis o fuddion y cynllun gwaddol neu fuddion cynllun 2015 pan fyddant yn ymddeol. Mae'r Rheoliadau'n cynnwys darpariaeth i gefnogi Rheolwyr Cynlluniau mewn ystod o wahanol sefyllfaoedd, gan gynnwys penderfyniadau blaenorol i optio allan, rhannu pensiwn ar ôl ysgariad, pryd a sut y bernir bod penderfyniadau wedi'u gwneud, a pha gamau i'w cymryd mewn amgylchiadau penodol gan gynnwys ymddeoliadau yn sgil afiechyd ac achosion sy'n ymwneud â phrofedigaeth.

11 Gellir darllen y Rheoliadau manwl yn https://www.legislation.gov.uk ac mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r gweinyddwr, Cronfa Bensiwn Dyfed, er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau o fewn yr amserlenni rhagnodedig. Mae angen cynnal adolygiad manwl o bob cofnod cyflogres a phensiwn er mwyn sicrhau bod pob elfen gyflog yn cael ei thrin yn gywir at ddibenion pensiwn. Bydd cyfraniadau pensiwn y gweithwyr hefyd angen cael eu haddasu, a gwneir trefniant o fewn y Rheoliadau ar gyfer trin rhyddhad treth ar gyfraniadau o'r fath. Bydd y gwaith yn gorffen pan fydd datganiad gwasanaeth rhwymedïol yn cael ei ddarparu a'i roi ar waith ar gyfer pob aelod cymwys.

12 Mae'r Rheoliadau yn effeithio ar weithwyr presennol a hefyd ar gyn-weithwyr sy'n cael eu hystyried yn aelodau cymwys. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) wedi canfod a chysylltu â'r holl aelodau yr ystyrir eu bod o fewn cwmpas hyn.

13 Mae'r gwaith manwl angenrheidiol wedi'i ddechrau a bydd y gwaith o'i weithredu yn cael ei flaenoriaethu er mwyn sicrhau y bydd aelodau sy'n ymddeol o 1 Hydref 2023 yn cael eu prosesu yn unol â'r Rheoliadau. Rhoddir blaenoriaeth hefyd i'r aelodau hynny a ymddeolodd yn ystod y cyfnod rhwymedïol heb ddiogeliad llwyr rhag y newidiadau pensiwn blaenorol.

14 Dylai’r Aelodau wybod y bydd y gwaith hynod dechnegol hwn yn cael ei gyflawni gan unig Swyddog Pensiynau y Gwasanaeth, gyda chefnogaeth y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau), ac felly gall gymryd hyd at 18 mis i'w gwblhau.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r trefniadau pensiwn yn annog sefydlogrwydd hirdymor yn y gweithlu ac mae'r rhwymedi yn mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oedran. |
| Cyllideb | Bydd y gofyniad i weithredu rhwymedi yn cael effaith ariannol ar sefyllfa ariannol yr Awdurdod gan y bydd pensiynau’r rhai yr effeithir arnynt yn cael eu cynyddu. Ymdrinnir â’r effaith hon drwy brisio a phennu cyfraniadau cyflogwyr yn y dyfodol. |
| Cyfreithiol | Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd gyfreithiol i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu ar sail oedran ac i gydymffurfio â rheoliadau'r cynllun. |
| Staffio | Bydd darparu rhwymedi yn cefnogi staff wrth iddynt gynllunio eu hymddeoliad ac yn cefnogi llesiant. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae'r rhwymedi yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau blaenorol. |
| Risgiau ac Ansicrwydd | Mae darparu rhwymedi yn faes cymhleth a gallai arwain at ganlyniadau ariannol nad ydynt yn hysbys. |

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg **Eitem Agenda 14b**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **16 Hydref 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Cyllid ac Adnoddau** |
| Pwnc | **Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru - hawl diffoddwyr tân rhan amser i gael pensiwn** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar y diwygiadau arfaethedig i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yng Nghymru er mwyn ymestyn mynediad i ddiffoddwyr tân cymwys rhan amser (ar alwad) fu'n gwasanaethu cyn 2000.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar hyn o bryd ar gynigion i ymestyn mynediad at Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yng Nghymru i ddiffoddwyr tân cymwys fu'n gwasanaethu cyn 2000.

3 Bydd y cynigion yn ychwanegu at y camau a gymerwyd yn ystod 2014 i fynd i'r afael â'r ffaith fod gweithwyr rhan amser yn cael eu trin yn llai ffafriol. Bryd hynny, penderfynodd dyfarniad Matthews fod gwaith diffoddwr tân rhan amser o fewn cwmpas Rheoliadau Gweithwyr Rhan Amser (2000) (y Rheoliadau) a chaniataodd i aelodau cymwys brynu'r hawl i bensiwn yn dyddio'n ôl i 1 Gorffennaf 2000.

4 Cadarnhaodd her gyfreithiol lwyddiannus arall, sef dyfarniad O'Brien, y dylai gwasanaeth llawn y rheini sydd o fewn y cwmpas fod yn bensiynadwy, nid dim ond yr elfen wedi dyddiad y Rheoliadau.

5 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ceisio cywiro camgymeriad arall, sef y dylai'r darpariaethau gwreiddiol fod wedi caniatáu i'r rhai sydd wedi gwasanaethu o 7 Ebrill 2000 yn hytrach nag 1 Gorffennaf 2000 fod o fewn y cwmpas.

## ARGYMHELLION

6 Gofynnir i'r Aelodau:

i) nodi cefndir y mater cyfreithiol; a
ii) nodi'r cynigion a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r materion cyfreithiol sy'n codi.

## CEFNDIR

7 Am nifer o flynyddoedd, dim ond diffoddwyr tân a gyflogwyd yn llawn amser oedd yn gallu manteisio ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Yn benodol, cafodd diffoddwyr tân ar alwad a gyflogwyd i weithio ar y system ddyletswydd rhan amser eu hatal rhag ymuno â'r cynllun pensiwn.

8 Ni newidiodd y trefniant hwn pan gyflwynwyd Rheoliadau Gweithwyr Rhan Amser (Atal Triniaeth Lai Ffafriol) 2000 (y Rheoliadau). Mae'r Rheoliadau'n gwahardd trin gweithwyr rhan-amser yn llai ffafriol na gweithwyr llawn-amser sy'n ymgymryd â gwaith cymharol debyg. Y farn ar y pryd oedd nad oedd gwaith diffoddwyr tân ar alwad yn ddigon tebyg. Cafodd y farn hon ei gwyrdroi gan Ddyfarniad Matthews, a ganfu fod y gwaith yn ddigon tebyg.

9 O ganlyniad, caniatawyd i ddiffoddwyr tân ar alwad ymuno â Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007 o 7 Ebrill 2006. Roedd hyn yn rhoi cydraddoldeb i bobl a oedd yn cael eu recriwtio ar-alwad ac yn llawn-amser o'r pwynt hwnnw ymlaen.

10 I gywiro'r mater yn ôl-weithredol, creodd Gorchymyn Diwygio Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2014 gynllun wedi'i ddiwygio ar gyfer diffoddwyr tân ar alwad a gyflogwyd rhwng 1 Gorffennaf 2000 a 6 Ebrill 2006. Roedd y cynllun, a elwid yn "Gynllun Diwygiedig 2007", yn rhoi buddion cymharol debyg i'r rhai yr oedd diffoddwyr tân amser llawn yn eu cael.

11 Caniatawyd i'r diffoddwyr tân ar alwad a oedd o fewn y cwmpas ymuno yn ôl-weithredol drwy dalu'r cyfraniadau pensiwn a fyddai wedi bod yn ddyledus pe na bai'r driniaeth anghyfreithlon a nodwyd gan Ddyfarniad Matthews wedi digwydd. Gelwir hyn yn "Ymarfer Dewis 1af" ac fe'i cynhaliwyd yn ystod 2015.

12 Roedd gosod 2000 yn ddyddiad terfyn yn debyg i'r dull a fabwysiadwyd gan weithwyr rhan-amser eraill ac roedd yn destun her gyfreithiol gan farnwr rhan-amser (O'Brien yn erbyn y Weinyddiaeth Gyfiawnder). Roedd yr her gyfreithiol yn dadlau y dylai maint llawn y gwasanaeth fod yn bensiynadwy ac nid dim ond yr elfen sy'n ôl-ddyddio'r Rheoliadau Gweithwyr Rhan-amser. Penderfynodd dyfarniad O'Brien o blaid y gweithiwr ac mae hynny'n golygu felly bod dyddiad terfyn 1 Gorffennaf 2000 yn y cynllun diwygiedig hefyd yn anghyfreithlon. O ganlyniad, gallai gwasanaeth diffoddwyr tân ar alwad sydd wedi gwasanaethu ar neu ar ôl 7 Ebrill 2000 fod yn bensiynadwy.

## GWYBODAETH

13 Er bod hwn yn fater cenedlaethol, mae'r cyfrifoldeb am bensiynau diffoddwyr tân wedi'i ddatganoli yng Nghymru a Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am wneud y trefniadau angenrheidiol i gywiro'r mater hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig ymestyn y darpariaethau presennol sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Diwygiedig. Ar gyfer unigolion cymwys, y bwriad yw cynnig ymarfer ail-ddewis a fydd yn eu galluogi i dalu'r cyfraniadau pensiwn ar gyfer yr holl wasanaeth di-dor cyn 7 Ebrill 2000.

14 Mae Llywodraeth Cymru wedi drafftio'r diwygiadau arfaethedig i'r rheoliadau presennol ac wedi cynnal ymgynghoriad, sydd ar gael yma: https://www.llyw.cymru/hawliau-pensiwn-diffoddwyr-tan-y-system-ar-ddyletswydd-yn-ol-galw-yn-2023?. Mae'r ddogfen ategol yn cadarnhau'r egwyddorion a fydd yn cael eu defnyddio i gywiro'r mater.

15 Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 6 Hydref 2023 ac amlinellir ymateb yr Awdurdod i'r ymgynghoriad yn Atodiad 1. Cafodd hwn ei gymeradwyo gan Gadeirydd y Bwrdd Pensiwn Lleol a Chadeirydd yr Awdurdod. Mae'r ymatebion yn cadarnhau y cytunir i raddau helaeth â'r egwyddorion a nodir ac yn tynnu sylw at rai meysydd gweinyddol penodol i'w hystyried ymhellach.

16 Mae'r ymgynghoriad yn cadarnhau y bydd yr unigolion cymwys yn cynnwys diffoddwyr tân ar alwad:

i. y daeth eu cyflogaeth i ben rhwng 7 Ebrill 2000 a 30 Mehefin 2000 ac a gafodd eu heithrio o'r ymarfer dewis cyntaf;
ii. y mae eu cyflogaeth yn pontio'r dyddiad gweithredu, sef 7 Ebrill 2000; neu
iii. y dechreuodd eu cyflogaeth ar ôl 1 Gorffennaf 2000 ond na chawsant y cyfle llawn i brynu gwasanaeth blaenorol yr oedd ganddynt hawl iddo.

17 Caniateir i unigolion cymwys brynu pensiwn gwasanaeth blaenorol trwy wneud cyfraniadau a fyddai wedi dod yn ddyledus. Bydd hwn yn fater cymhleth oherwydd hirhoedledd rhai contractau ac mae'n bosibl na fydd cofnodion gweinyddol ar gael i gadarnhau'r union enillion pensiynadwy. Mae'r rheoliadau drafft yn darparu ar gyfer amcangyfrif tâl pensiynadwy o dan yr amgylchiadau hyn.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r trefniadau pensiwn yn hybu sefydlogrwydd hirdymor yn y gweithlu ac mae'r rhwymedi yn mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oedran. |
| Cyllideb | Bydd yr angen i fynd i'r afael â'r mater hwn yn effeithio'n ariannol ar sefyllfa ariannol yr Awdurdod gan y bydd pensiynau'r bobl dan sylw yn cael eu cynyddu. Ymdrinnir â'r effaith drwy brisio a phennu cyfraniadau cyflogwyr yn y dyfodol. |
| Cyfreithiol | Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd gyfreithiol i fynd i'r afael â'r mater hwn a chydymffurfio â rheoliadau'r cynllun. |
| Staffio | Bydd mynd i'r afael â'r mater yn cefnogi staff wrth iddynt gynllunio eu hymddeoliad a bydd yn cefnogi lles. |
| Cydraddoldeb / Hawliau Dynol / y Gymraeg | Mae'r cynigion yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau blaenorol. |
| Risgiau ac Ansicrwydd | Mae hwn yn faes cymhleth a gallai arwain at ganlyniadau ariannol nad ydynt yn hysbys. |

# Ymgynghoriad - Hawliau Pensiwn ar gyfer Diffoddwyr Tân Rhan Amser 2023

### Cwestiwn ymgynghoriad 01

Ydych chi'n cytuno â'r meini prawf cymhwysedd a nodir ym mharagraffau 12-17?

| |
|---|
| Mae'r meini prawf a nodir ym mharagraffau 12 – 17 y ddogfen ymgynghori yn ymddangos yn rhesymol i staff ar alwad sydd ar gontractau cyflogaeth RDS. |

### Cwestiwn Ymgynghoriad 02

Ydych chi'n cytuno y dylai'r trefniadau arfaethedig gynnwys yr opsiwn i brynu gwasanaeth di-dor RDS yn y cynllun wedi'i addasu rhwng 31 Mawrth 2015 a 31 Mawrth 2022, ni waeth a ddarperir ar gyfer hynny drwy'r darpariaethau hyn neu reoliadau ar wahân a wneir o dan Ddeddf PSPJO 2022?

| |
|---|
| Mae hyn yn ymddangos yn ddull rhesymol ac ymarferol. |

### Cwestiwn ymgynghoriad 03

Ydych chi'n cytuno â'r dybiaeth rydym wedi'i chynnig ar gyfer gwasanaeth, cyflog a graddfa yn y gorffennol?

| |
|---|
| Mae'n amlwg bod hwn yn faes heriol ac ystyried natur hanesyddol y mater hwn. Mae'r cynigion yn darparu fframwaith clir o opsiynau i'w hystyried ac mae'r dull a awgrymir lle nad yw cofnodion ar gael yn cynnig ateb ymarferol. |

### Cwestiwn ymgynghoriad 04

I ba raddau ydych chi'n cytuno â'n cynnig i rannu cyfraniadau rheolaidd ar gyfer gwasanaeth ar ôl y flwyddyn 2000 dros 10 mlynedd ac, ar gyfer gwasanaeth cyn y flwyddyn 2000, 10 mlynedd a hanner hyd y gwasanaeth cyn 2000 y maent wedi dewis ei brynu?

| |
|---|
| Mae'r cynnig yn ymarferol ar gyfer mwyafrif yr achosion, er y bydd baich gweinyddol ar Reolwr y Cynllun. Nid yw'r cynigion yn defnyddio unrhyw fath o de minimis, gan arwain at y risg bod y cyfnod ad-dalu yn rhy hael ar gyfer symiau bach. |

### Cwestiwn ymgynghoriad 05

Ydych chi'n cytuno y dylid cwblhau'r ymarfer opsiynau newydd o fewn 18 mis (gyda hyblygrwydd wedi'i gynnwys i fynd y tu hwnt i hynny mewn achosion eithriadol fel y disgrifir ym mharagraff 72).

| |
|---|
| Mae'r amserlen 18 mis yn gosod rhwymedigaeth ar Reolwr y Cynllun a'r person cymwys i gwblhau'r broses o fewn terfynau amser penodedig. Dan amgylchiadau arferol byddai modd gwneud hyn, ond bydd angen ystyried y baich ar Reolwyr Cynlluniau oherwydd y gallai'r adeg pan fydd yn cael ei roi ar waith yn ymarferol gyd-fynd â chyfnod unioni'r gwahaniaethu ar sail oedran. |

Mae'r amserlenni a amlinellir ym mharagraff 70 yn rhoi rhagor o wybodaeth am rwymedigaethau penodol pob parti. Ystyrir y byddai angen cryfhau'r rhain i gadarnhau'r dystiolaeth sy'n ofynnol gan bob parti pe bai anghydfod. Er enghraifft, mae gan aelodau cymwys nad ydynt wedi cael eu hysbysu gan yr Awdurdod Tân ac Achub 9 mis o ddyddiad y ddeddfwriaeth i ddatgan eu buddiant. Fodd bynnag, nid yw'n glir a yw hyn yn ymwneud yn benodol ag aelodau a allai fod wedi symud heb gyfeiriad anfon ymlaen yn hytrach na'r rhai a gafodd eu hepgor trwy gamgymeriad oherwydd gweinyddiaeth wael ar ran Rheolwr y Cynllun. Yn yr un modd, mae'n bosibl y bydd dyletswydd unigolyn i ymateb i Reolwr y Cynllun o fewn 6 mis i dderbyn y wybodaeth berthnasol yn anodd gan nad yw'n glir sut y gall Rheolwr y Cynllun ddangos ei fod wedi darparu gwybodaeth os bydd anghydfod (roedd y pwynt penodol hwn yn destun IDRP yn dilyn yr ymarfer dewis cyntaf).

**Cwestiwn ymgynghoriad 06**

I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylem newid y diffiniadau o "diffoddwr tân" a "cyflog pensiynadwy" yn y Cynllun Iawndal, i sicrhau bod gan y diffoddwyr tân hynny sydd â chontract eilaidd hawl i gael iawndal ar yr un telerau â'r rheini nad ydynt yn gwneud hynny?

Mae'r cynnig hwn yn synhwyrol ac yn cydnabod sylwedd y trefniadau cyflogaeth

**Cwestiwn ymgynghoriad 07**

Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynnig yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau y byddai'n eu cael, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, a lliniaru'r effeithiau negyddol?

Nid yw'n amlwg bod y cynigion yn cael unrhyw effaith benodol ar y Gymraeg

**Cwestiwn ymgynghoriad 08**

Eglurwch hefyd, os gwelwch yn dda, sut rydych yn credu y gall y polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif neu gynyddu effeithiau positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dim sylwadau pellach

**Cwestiwn ymgynghoriad 09**

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am ein cynigion neu unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt?

Dim sylwadau i'w nodi

*This document is available in English.* **Eitem Agenda 15**

| | | |
|---|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** | |
| Dyddiad | **16 Hydref 2023** | |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** | |
| Swyddog Cyswllt | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** | |
| Pwnc | **Prynu Tir ar gyfer Canolfan Hyfforddi Newydd** | |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y gwaith a wnaed i asesu addasrwydd tir a ganfuwyd yn Llanelwy, Sir Ddinbych, ar gyfer datblygu canolfan hyfforddi a datblygu gynaliadwy yng Ngogledd Cymru.

2 Mae'r adroddiad hefyd yn cadarnhau'r argymhelliad i Aelodau gefnogi prynu'r tir a'r gwaith lliniaru angenrheidiol mewn perthynas â madfallod, gan fod y gwaith diwydrwydd dyladwy angenrheidiol wedi'i gwblhau.

3 Prynu'r tir yw'r cam cyntaf wrth ddatblygu achos busnes er mwyn i'r Aelodau ystyried adeiladu canolfan hyfforddi a datblygu newydd yng Ngogledd Cymru, i liniaru pryderon iechyd a diogelwch yn awr ac yn y dyfodol ynghylch y ddarpariaeth hyfforddiant sefydliadol weithredol ac ehangach yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth).

4 Ni fydd prynu'r tir hwn yn ymrwymo'r Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) i adeiladu canolfan hyfforddi newydd. Os na fydd y cynllun hwn yn symud ymlaen bydd prynu'r tir yn rhoi ased cyfalaf gwerthfawr i'r Awdurdod Tân.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

5 Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ddarparu hyfforddiant gweithredol hanfodol i'w staff i gefnogi darparu gwasanaethau a sicrhau diogelwch diffoddwyr tân, yn unol â deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch, Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 a Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru 2016.

6 Nododd asesiad y Prif Swyddog Tân a gynhaliwyd yn ystod 2021 fod hyfforddiant yn faes blaenoriaeth, a chafwyd cymeradwyaeth yr Awdurdod i gynnal adolygiad llawn o'r ddarpariaeth hyfforddiant a datblygiad gweithredol o fewn y Gwasanaeth.

7 Mae hyn wedi cynnwys adolygiad o'r cyfleusterau hyfforddi gweithredol presennol, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u lleoli yng ngorsafoedd tân Dolgellau, y Rhyl, Wrecsam a Glannau Dyfrdwy, yn ogystal â'r cyfleusterau Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol (CFBT) yn Airbus ym Mrychdyn. Mae'r adolygiad wedi nodi nad yw'r cyfleusterau hyfforddi a datblygu presennol yn cyrraedd safonau cyfoes mewn sawl maes. Felly, mae angen arfarnu opsiynau ar gyfer dyfodol cyfleusterau hyfforddi a datblygu o fewn y Gwasanaeth. Bydd yr arfarniad hwn yn cael ei gynnwys mewn achos busnes i sicrhau parodrwydd a diogelwch gweithredol diffoddwyr tân ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

8 Mae'r adolygiad o'r cyfleusterau hyfforddi gweithredol yn y Gwasanaeth hefyd yn cefnogi canfyddiadau adolygiad thematig y Prif Ymgynghorydd Tân ac Achub o hyfforddiant gweithredol o fewn y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru (Hydref 2022), sy'n cydnabod bod angen buddsoddi cyfalaf sylweddol er mwyn efelychu amodau yn y byd go iawn fel y gall diffoddwyr tân ddatblygu, cynnal a diweddaru eu sgiliau gweithredol.

9 Ar ôl cael cymeradwyaeth yr Awdurdod, ar 17 Hydref 2022, i ddyrannu cyllideb i ddatblygu achos busnes manwl ar gyfer canolfan hyfforddi a datblygu newydd, cafodd nifer o opsiynau eu harchwilio gan dîm y prosiect.

10 Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys canfod darn o dir addas ar gyfer y ganolfan hyfforddi a datblygu newydd yn Llanelwy, Sir Ddinbych.

11 Cymeradwyodd yr Awdurdod gytundeb cyfyngu 6 mis gyda'r gwerthwr a ddaeth i ben ar 27 Medi 2023. Fodd bynnag, oherwydd bod y safle wedi cael ei asesu fel un addas yn dilyn y gwaith diwydrwydd dyladwy angenrheidiol, mae'r gwerthwr wedi cytuno i ymestyn y cytundeb tan ddiwedd y cyfarfod Awdurdod hwn.

12 Mae’r cytundeb cyfyngu wedi galluogi’r Awdurdod i gynnal yr arolygon a’r asesiadau addasrwydd perthnasol ar y safle, ac mae trafodaethau hefyd wedi’u cynnal â swyddogion cynllunio lleol cyn cyflwyno cais cynllunio amlinellol. Mae canlyniad y gwaith diwydrwydd dyladwy hwn yn cefnogi'r argymhelliad y dylai'r Awdurdod brynu'r tir.

13 Mae gweithgor sy'n cynnwys chwe Aelod o'r Awdurdod, un o bob ardal yr Awdurdod, hefyd wedi cael ei sefydlu gyda'r nod o ddatblygu a chraffu ar gynlluniau a’r achos busnes ar gyfer canolfan hyfforddi a datblygu newydd yng Ngogledd Cymru. Mae'r gweithgor hefyd wedi ymweld â chanolfannau hyfforddi a datblygu Gwasanaethau Tân ac Achub cyfagos i nodi meysydd arfer da.

14 Mae cyllideb ar gyfer prynu tir wedi'i chymeradwyo eisoes gan yr Awdurdod, a rhaid i'r Aelodau gymeradwyo ei defnyddio. Mae cost y tir, sef £2.75m, wedi'i gynnwys yng nghyllideb yr Awdurdod ar gyfer 2023/24 a byddai'n cael ei ariannu drwy fenthyca allanol pe na bai cymorth Llywodraeth Cymru ar gael. Y gost flynyddol lawn ar y cyfraddau llog presennol fyddai £150k.

**ARGYMHELLIAD**

15 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) nodi'r cefndir ar gyfer adolygu'r cyfleusterau hyfforddiant tân ac achub yng Ngogledd Cymru;
ii) nodi bod y ddarpariaeth bresennol o ran cyfleuster hyfforddiant yn cyrraedd diwedd ei hoes;
iii) cymeradwyo prynu tir yn Llanelwy, Sir Ddinbych, yr aseswyd ei fod yn addas ar gyfer adeiladu canolfan hyfforddi a datblygu newydd yng Ngogledd Cymru; a
iv) cymeradwyo dechrau gwaith lliniaru mewn perthynas â madfallod i sicrhau bod y safle'n barod ar gyfer gwaith adeiladu o fis Rhagfyr 2024. Byddai hyn yn amodol ar graffu a chymeradwyaeth yr Aelodau;

**CEFNDIR**

16 Yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ar 20 Medi 2021, nododd y Prif Swyddog Tân y tair prif flaenoriaeth i'r Gwasanaeth yn ei hasesiad o'r sefyllfa. Roedden nhw'n cynnwys gwella argaeledd, gwella hyfforddiant a chryfhau'r strwythur corfforaethol. Cymeradwyodd yr aelodau'r blaenoriaethau hyn a dyrannu cyllid cychwynnol i gefnogi'r meysydd hyn.

17 Mae'r hyfforddiant wedi cael ei adolygu a'i wella drwy ddatblygu strategaeth hyfforddi newydd. Mae cyllid wedi'i ddyrannu i dalu am fwy o hyfforddwyr a gwnaed rhai gwelliannau i'r cyfleusterau hyfforddi offer anadlu yn Nolgellau er mwyn galluogi parhau i'w defnyddio yn y tymor byr.

18 Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Awdurdod ar 17 Hydref 2022 yn argymell y dylid dyrannu cyllideb gychwynnol er mwyn datblygu'r achos busnes ar gyfer canolfan hyfforddi a datblygu newydd.

19 Er mwyn cynorthwyo i ddatblygu'r achos busnes, mae tîm prosiect y ganolfan hyfforddi newydd wedi ymgynghori â staff, gweithwyr adeiladu proffesiynol, arbenigwyr cynaliadwyedd, pensaer ac aelodau o weithgor y ganolfan hyfforddi newydd. Mae'r gwaith hwn hefyd wedi cynnwys canfod darn o dir yr aseswyd ei fod yn addas oherwydd ei leoliad daearyddol, ei faint a chyflwr y ddaear, yn dilyn y gwaith diwydrwydd dyladwy angenrheidiol.

20 Cysylltwyd â swyddogion cynllunio lleol hefyd yn rhan o’r broses, i roi sicrwydd y gellid cefnogi'r cynnig mewn egwyddor ar yr amod bod digon o fanylion wedi'u cynnwys yn y cais cynllunio.

**GWYBODAETH**

21 Yn ystod y degawd diwethaf bydd yr Awdurdod wedi sylwi bod nifer y tanau a’r digwyddiadau brys eraill wedi gostwng yn sylweddol. Er bod hyn yn arwydd o lwyddiant y gwaith atal tân a wnaed yn ein cymunedau dros y cyfnod hwn, mae wedi arwain at y risg y bydd diffoddwyr tân yn cael llai o brofiad o'r ystod eang o beryglon a sefyllfaoedd cymhleth y maen nhw’n debygol o'u hwynebu wrth ymateb i ddigwyddiadau o'r fath.

22 Mae halogyddion tân hefyd yn peri risg sylweddol i iechyd a diogelwch ein staff; maent yn bresennol yn y mwg a'r nwyon fflamadwy gwenwynig sy’n cael eu rhyddhau yn ystod tanau. Mae dod i gysylltiad â'r halogyddion hyn wedi'i gysylltu â chanser a chyflyrau iechyd eraill mewn diffoddwyr tân. Felly, mae’n rhaid i reoli halogyddion tân fod yn rhan holl bwysig o’r dyluniad ar gyfer canolfan hyfforddi a datblygu newydd.

23 Er bod mesurau dros dro wedi'u rhoi ar waith, mae rheoli halogyddion tân yn y tymor hir yn bryder iechyd a diogelwch i staff y Gwasanaeth sy’n defnyddio’r cyfleusterau hyfforddiant offer anadlu presennol yn Nolgellau ac yn Airbus, Brychdyn.

24 Felly mae'r Gwasanaeth wedi cynnal adolygiad o'i gyfleusterau hyfforddi gweithredol ac, o ganlyniad, daeth i'r amlwg nad ydynt yn darparu'r cyfleusterau sy’n ofynnol i hyfforddi staff sy'n gweithio o fewn gwasanaeth tân ac achub yn yr oes sydd ohoni er mwyn diogelu ei ddyfodol yn y tymor hir.

25 Er bod cyfleuster hyfforddi'r tŷ tân yng ngorsaf dân Dolgellau yn dal i gael ei ddefnyddio ar gyfer hyfforddiant gweithredol, mae angen buddsoddi’n sylweddol ynddo i ymestyn ei oes yn y tymor canolig ar gyfer darparu hyfforddiant offer anadlu a thactegau diffodd tân sy’n holl bwysig o ran risg. Ni ellir ei ystyried yn opsiwn tymor hir ar gyfer hyfforddiant gweithredol ac felly mae'n bryder iechyd a diogelwch o ran darparu hyfforddiant ar gyfer diffoddwyr tân yn y Gwasanaeth yn y dyfodol. Mae hefyd wedi’i leoli mewn ardal o Ogledd Cymru sydd gryn bellter i'r mwyafrif o'n staff deithio iddi er mwyn mynd ar gyrsiau offer anadlu.

26 Mae'r cyfleusterau hyfforddiant offer anadlu yng ngorsafoedd tân y Rhyl, Wrecsam a Glannau Dyfrdwy hefyd wedi cael eu hadolygu a barnwyd eu bod yn darparu cyfleoedd hyfforddi ‘mwg oer’ lleol digonol i staff, er bod angen rhai mân welliannau.

27 Nodwyd hefyd nad yw'r cyfleusterau hyn wedi'u cynllunio i ganiatáu i ddiffoddwyr tân hyfforddi mewn amgylchedd sy'n eu hamlygu i amodau realistig gan gynnwys gwres a mwg – sy’n ofynnol i bawb sy’n gwisgo offer anadlu er mwyn gweithredu yn unol â’r Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol, Manyleb Hyfforddiant Offer Anadlu a pholisi’r Gwasanaeth.

28 Mae gan y Gwasanaeth hefyd gyfleusterau CFBT sydd wedi'u lleoli o fewn safle ffatri Airbus, Brychdyn. Mae arfarniad o’r safle wedi nodi bod llawer o wendidau ynghlwm â dibyniaeth y Gwasanaeth ar y cyfleusterau hyn fel y prif gyfleusterau. Maent yn cynnwys rhai problemau o ran mynediad i staff a chontractwyr cynnal a chadw oherwydd polisi diogelwch y safle, a diffyg mynediad i ystafelloedd dosbarth a chyfleusterau lles.

29 Nodwyd hefyd nad yw'r un o'r safleoedd uchod yn addas i fodloni gofynion lles hirdymor a’r gofynion rheoli halogyddion ar gyfer ein staff pan fyddant yn mynd ar gyrsiau hyfforddi offer anadlu lle defnyddir tân, gwres a mwg.

30 Er mwyn lliniaru'r risgiau hyn, mae angen i ni roi blaenoriaeth i hyfforddiant a datblygiad gweithredol ar gyfer ein staff mewn amgylchedd hyfforddi trochol a realistig sy'n cynnwys mesurau iechyd a diogelwch digonol, wrth inni ystyried a dylunio canolfan hyfforddi a datblygu.

31 Bydd yr adolygiad llawn o'n cyfleusterau presennol ac arfarniad o’r opsiynau ar gyfer y ddarpariaeth yn y dyfodol yn cael eu cynnwys mewn achos busnes ar gyfer canolfan hyfforddi newydd, a fydd yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod o’r Awdurdod yn y dyfodol wedi i weithgor y ganolfan hyfforddi newydd graffu arnynt.

32 I gefnogi’r prosiect, mewn cyfarfod o'r Awdurdod ar 17 Hydref 2022, cymeradwywyd yr argymhelliad i ddyrannu cyllideb gychwynnol i'r prosiect, a oedd yn cynnwys yr opsiwn i ymrwymo i gytundeb cyfyngu gyda gwerthwr safle addas.

33 Ers y cyfarfod hwnnw o'r Awdurdod, canfuwyd darn addas o dir ar gyfer lleoli canolfan hyfforddi a datblygu ac, yn dilyn sgyrsiau adeiladol gyda'r asiant tir a'r swyddfa gynllunio leol, ymrwymodd yr Awdurdod i gytundeb cyfyngu 6 mis gyda’r gwerthwr er mwyn cynnal yr arolygon a’r asesiadau addasrwydd tir angenrheidiol. Nid yw'r cytundeb hwn yn rhwymo'r Awdurdod i'r pryniant ond mae'n caniatáu i’r holl waith diwydrwydd dyladwy gael ei wneud.

34 Yn ystod y 6 mis diwethaf, mae gweithgor sy'n cynnwys un Aelod o'r Awdurdod o bob ardal yr Awdurdod wedi cael ei sefydlu, i ddatblygu a chraffu ar syniadau ar gyfer canolfan hyfforddi newydd yng Ngogledd Cymru. Mae'r grŵp hwn wedi cyfarfod yn rheolaidd ag aelodau o dîm y prosiect, ac wedi ymweld â chanolfannau hyfforddi a datblygu Gwasanaethau Tân ac Achub eraill yn y Deyrnas Unedig.

35 Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi gweithio gydag arbenigwyr, sydd wedi cynnal yr arolygon a'r asesiadau tir perthnasol, gyda chefnogaeth deialog â swyddfa gynllunio Cyngor Sir Ddinbych i fodloni eu gofynion cyn cyflwyno cais cyn-cynllunio posibl.

36 Mae canlyniadau'r gweithgor, arolygon safle a thrafodaethau â'r swyddfa gynllunio leol yn ffafriol ac yn cefnogi'r argymhelliad i brynu'r safle yn Llanelwy, Sir Ddinbych er mwyn adeiladu canolfan hyfforddi a datblygu newydd i'r gwasanaeth tân ac achub yng Ngogledd Cymru yn y dyfodol.

37 Mae cyllideb refeniw ar gyfer prynu tir gwerth £2.75m wedi'i chynnwys yng nghyllideb yr Awdurdod ar gyfer 2023/24, a rhaid i'r Aelodau gymeradwyo ei defnyddio, wedi i'r gwaith diwydrwydd dyladwy ar y safle gael ei gwblhau. Mae'r gwaith hwnnw wedi dod i ben erbyn hyn. Byddai'r tir yn cael ei brynu gan ddefnyddio benthyciad allanol ar gost flynyddol o £150k ar y cyfraddau llog presennol. Gofynnir i Lywodraeth Cymru am gymorth ariannol hefyd ond nid oes modd cadarnhau hyn.

38 Os rhoddir cymeradwyaeth i brynu'r tir, bydd achos busnes gan gynnwys arfarniad o'r opsiynau, amserlen a chostau'n cael ei ddatblygu er mwyn i'r Aelodau ei adolygu cyn unrhyw benderfyniad i fwrw ymlaen â rhaglen adeiladu'r ganolfan hyfforddi newydd.

39 Fodd bynnag, mae angen gwaith lliniaru mewn perthynas â madfallod ar y safle hwn a dim ond yn ystod un cyfnod o'r flwyddyn y gellir gwneud hynny. Felly, bydd angen cynnal y gwaith hwn o fis Rhagfyr 2023 hyd at fis Hydref 2024 i sicrhau bod y safle'n barod ar gyfer unrhyw ddatblygiad posibl yn y dyfodol o fis Rhagfyr 2024.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r prosiect hwn yn cyd-fynd â holl Amcanion Llesiant a Chorfforaethol 2022/23 a bydd yn gwella diogelwch diffoddwyr tân, yn hybu parodrwydd gweithredol ac yn sicrhau cynaliadwyedd yn y tymor hwy |
| Cyllideb | Cymeradwyodd yr Aelodau ddarpar gyllideb o £2.75m ar gyfer prynu tir yng nghyllideb 2023/24, wedi'i ariannu trwy fenthyca ar gost flynyddol o £150k ar y cyfraddau llog presennol. Gofynnir i Lywodraeth Cymru am gymorth ariannol hefyd ond nid oes modd cadarnhau hyn. |
| Cyfreithiol | Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd o dan y ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch i sicrhau hyfforddiant digonol i'w staff ac i sicrhau bod risgiau megis halogyddion yn cael eu rheoli. Rhaid i'r Awdurdod hefyd sicrhau bod hyfforddiant ar gael i bersonél mewn perthynas â diffodd tanau, gwrthdrawiadau traffig ffyrdd ac achosion brys o dan Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. Mae angen i'r Awdurdod hefyd sicrhau ymateb diogel ac effeithiol fel y nodir yn Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru 2016. Aeth y prosiect hefyd i'r afael â'r rhwymedigaeth gyfreithiol ehangach i leihau allyriadau carbon. |
| Staffio | Mae tîm a rhanddeiliaid y prosiect wedi'u cynnwys yn y Ddogfen Cychwyn Prosiect (PID) i'w chymeradwyo gan Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth. Mae'r prosiect yn cefnogi iechyd a diogelwch a lles staff. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Mae'r goblygiadau ar gyfer y nodweddion gwarchodedig yn cael eu cynnwys yn Asesiad Effaith Integredig y Ddogfen Cychwyn Prosiect. |
| Risgiau | Mae'r holl risgiau wedi'u cynnwys yng nghofrestr risg y Ddogfen Cychwyn Prosiect. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 16**

| | |
|---|---|
| Adrodd i'r | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **16 Hydref 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Stuart Millington, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Euros Lake – Archwilio Cymru** |
| Pwnc | **Archwilio Cymru – Lleihau Galwadau Diangen** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1. I gyflwyno trosolwg o'r canfyddiadau i'r Aelodau yn ffurfiol yn dilyn archwiliad o larymau tân ffug a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2. Rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Mawrth 2023, aeth Archwilio Cymru ati i adolygu dull gweithredu Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) o ran lleihau galwadau tân diangen, gan ganolbwyntio'n bennaf ar ei ymagwedd at fynd at alwadau mewn eiddo annomestig.

3. Dyma'r cwestiwn roedd yr adolygiad yn ceisio ei ateb: ***A yw'r Awdurdod yn gwneud popeth o fewn ei allu i leihau nifer yr achosion a'r ymatebion i alwadau tân annomestig diangen?***

4. Dyma'r hyn ganfu'r tîm archwilio: ***Mae'r Awdurdod wedi lleihau nifer y galwadau tân annomestig diangen y mae'n ymateb iddynt yn sylweddol, ond mae angen iddo fynd i'r afael â risgiau ariannol a phroblemau capasiti i sicrhau bod ei ddull seiliedig ar risg yn gynaliadwy.***

5. Er ei fod yn cydnabod bod yr Awdurdod yn mynd i'r afael â'r broblem o alwadau tân diangen mewn eiddo annomestig yn dda, mae'r adroddiad yn gwneud tri argymhelliad ar sut gellid gwella hyn ymhellach.

6. Mae'r argymhelliad cyntaf yn ymwneud â sut mae'r Awdurdod yn gallu dangos effaith galwadau tân diangen o safbwynt ariannol, i gynnwys cofnod a dadansoddiad gwell o ddata i sicrhau bod arbedion effeithlonrwydd yn cael eu yn nodi a'u cyflwyno'n gywir.

7. Mae'r ail argymhelliad yn canolbwyntio ar sut gellir integreiddio neu ddarparu data Larymau Tân Awtomatig (AFA) i eraill, yn ogystal â sut gellir ychwanegu gwerth at waith timau Diogelwch Tân Busnesau yn benodol.

8. Mae'r trydydd argymhelliad yn ymwneud ag adeiladu cydnerthedd i mewn i'r ffordd y caiff galwadau tân diangen eu rheoli, a hynny yng nghyd-destun heriau capasiti sefydliadol sylweddol.

**ARGYMHELLION**

9. Argymhellir bod yr Aelodau'n:

   i) nodi cynnwys adroddiad lleihau Galwadau Tân Diangen Archwilio Cymru.

**SYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL**

10. Yn flaenorol, ystyriodd y Panel Gweithredol yr adroddiad hwn yn eu cyfarfod ar 19 Mehefin.

**CEFNDIR**

11. Rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Mawrth 2023, gofynnwyd cyfres o gwestiynau i aelodau staff ar wahanol lefelau ledled Gogledd Cymru, gan roi ffocws clir ar yr ymdrechion a wnaed eisoes, yn ogystal â lle'r oedd potensial yn bodoli i leihau nifer yr achlysuron pan gaiff adnodd ei symud heb fod angen er mwyn ymateb i alwad ddiangen mewn lleoliad annomestig.

12. Cafodd archwiliadau tebyg eu cwblhau gan Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac Awdurdod Tân De Cymru.

13. Rhoddodd Archwilio Cymru adroddiad drafft i swyddogion a chafodd sylwadau eu cyflwyno i'w hystyried. Roedd y sylwadau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar wahaniaethu'n gliriach rhwng galwadau diangen mewn eiddo annomestig ac eiddo domestig.

14. Datblygodd Archwilio Cymru gofnod o'r sylwadau hyn, ac yn dilyn hynny darparodd ymateb o ran lle cafodd newidiadau i'r ddogfen eu gwneud a lle mae arsylwadau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) wedi'u nodi, eu derbyn neu eu derbyn yn rhannol.

**GWYBODAETH**

15. Roedd yr archwiliad yn ystyried pob polisi sy'n gysylltiedig â galwadau diangen, sut cafodd ei ddatblygu a sut mae'n cael ei weithredu ar hyn o bryd; yn ogystal â sut mae'r gwaith o leihau galwadau diangen yn cael ei fonitro a'i werthuso.

16. Mae'r adroddiad yn darparu crynodeb ac adroddiad manwl, gyda'r adroddiad manwl yn cyfeirio at:

    - Sut mae'r gwasanaethau tân ac achub yn wynebu'r amgylchedd ariannol a gweithredol mwyaf heriol mewn cenhedlaeth;
    - Beth yw galwadau tân diangen a pham mae'n bwysig eu gostwng; a
    - Sut mae galwadau diangen yn cael eu rheoli gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

17. Mewn perthynas â heriau ariannol a gweithredol, mae'r adroddiad yn disgrifio dyheadau Llywodraeth Cymru i ostwng y galwadau diangen er mwyn rhyddhau adnoddau a capasiti.

18. Mae hefyd yn dangos sut gellid gwneud gwell defnydd o unrhyw gynnydd o ran capasiti o ganlyniad, fel rhan o rôl ehangach diffoddwr tân neu wella'r amser sydd ar gael i ddiffoddwyr tân gynnal eu cymwyseddau gweithredol eu hunain.

19. Yn yr adran beth yw galwadau diangen, caiff categorïau System Adrodd Digwyddiadau (IRS) y Swyddfa Gartref ar gyfer galwadau diangen eu disgrifio. Mae'r wybodaeth yn yr adran hon yn adlewyrchu'r gwaith cadarnhaol a wnaed dros nifer o flynyddoedd i herio'r rhai a allai fod yn gwneud galwadau maleisus i'r Gwasanaeth, ond mae hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod y gyfran fwyaf o alwadau diangen yn deillio o systemau larwm tân awtomatig diffygiol.

20. Un pwynt i'w nodi yma yw y bydd hyn hefyd yn cynnwys galwadau diangen mewn lleoliadau domestig. Nid yw galwadau diangen mewn lleoliadau domestig o fewn cwmpas yr adolygiad hwn ac nid oes unrhyw awydd i leihau ein presenoldeb mewn digwyddiadau o'r math hwn, gan eu bod yn helpu ein staff i fynd allan o’r orsaf a darparu cymorth i'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o dân.

21. Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i dynnu sylw at oblygiadau ariannol ymateb i alwadau tân diangen pan nad oes angen iddynt, gan hefyd nodi'r cymhlethdodau o fesur unrhyw arbedion termau real yn gywir. Darperir enghreifftiau o adegau mae Gwasanaethau yn Lloegr wedi dechrau adennill costau trwy godi tâl am ymateb i alwadau gan bobl sy’n droseddwyr ailadroddus cronig.

22. Disgrifir hefyd y goblygiadau amgylcheddol a diogelwch ffyrdd sy’n deillio o ymateb i ddigwyddiadau pan nad oes angen iddynt.

23. Mae adran olaf yr adroddiad yn archwilio'r polisi cyfredol y mae GTAGC yn ei ddefnyddio, yn ogystal â data perfformiad sy'n disgrifio gostyngiad sylweddol ers 2015/16, gyda nodyn rhybuddiol i dynnu sylw at gynnydd bach yn 2021/22. Unwaith eto, rhaid inni gydnabod bod yr adran hon yn cyfeirio at gynnydd ar y cyd ar gyfer eiddo domestig ac annomestig. Serch hynny, mae angen monitro unrhyw gynnydd yn barhaus, yn arbennig mewn lleoliadau annomestig.

# Lleihau Galwadau Tân Diangen – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3621A2023

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag adrannau 17 a 41 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

**Mae'r Awdurdod wedi lleihau nifer y galwadau tân diangen annomestig y mae'n ymateb iddynt yn sylweddol ond mae angen iddo fynd i'r afael â risgiau ariannol a materion o ran capasiti i sicrhau bod ei ddull seiliedig-ar-risg yn gynaliadwy**


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 4 |
| Adroddiad manwl | 7 |
